

Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Memorandwm Esboniadol: Yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

Chwefror 2019 (Cafodd Rhan 5 ei mewnosod ym mis Tachwedd 2019 a'i diweddarau ym mis Chwefror 2020)

Diwygiwyd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn ystod Cyfnod 2 a Chyfnod 3 o waith craffu deddfwriaethol y Cynulliad ar y Bil. Mae Rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi gwybodaeth am y diwygiadau hynny a'u heffeithiau, yn unol â Rheol Sefydlog 26.27. Ni ddiwygiwyd Rhannau 1 i 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn ac maent yn adlewyrchu cynnwys y Bil wrth ei gyflwyno.

Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Elin Jones AC ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 12 Chwefror 2019, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Elin Jones AC
Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad
Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

12 Chwefror 2019

CYNNWYS

Rhan 1: Cefndir a diben y Bil8

1.	Cyflwyniad.....	9
2.	Cymhwysedd deddfwriaethol.....	12
3.	Y cyd-destun a'r angen am y Bil.....	15
4.	Yr hyn mae'r Bil yn ei wneud	34
5.	Ymgynghoriad	70
6.	Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.....	93

Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol 96

7.	Crynodeb: Asesiad Effaith Rheoleiddiol	97
8.	Opsiynau, costau a manteision.....	101
9.	Asesiad cost o newid enw'r Cynulliad	103
10.	Asesiad o gost newid yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad .	144
11.	Asesiad o gostau newidiadau sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad	160
12.	Asesiad cost o'r angen am ddyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol.....	167
13.	Asesiad o gost newidiadau er mwyn gallu gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar resymoli'r gyfraith etholiadol	173
14.	Asesiad o'r gost o ddiwygio trefniadau mewnol a gweithredol y Cynulliad	178

Rhan 3: Asesiadau effaith eraill185

15.	Diben a chefnidir yr asesiadau effaith	186
16.	Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder	188
17.	Asesiad o'r Effaith ar Cydraddoldeb.....	208
18.	Asesiad o'r Effaith ar Ieithoedd Swyddogol	227
19.	Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	235
20.	Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	259
21.	Datblygu cynaliadwy.....	263
22.	Yr effaith ar fusnesau bach a'r trydydd sector.....	265
23.	Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.....	268
24.	Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig	271
25.	Manteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol.....	274

Rhan 4: Nodiadau Esboniadol 276

Atodiadau..... 295

Atodiad 1: Cyd-destun Deddfwriaethol y Bil..... 296

Atodiad 2: Yr oedran pleidleisio mewn manau eraill yn y DU 303

Atodiad 3: Dadansoddiad o ddadleuon a godwyd yn hanesyddol yn erbyn gostwng yr oedran pleidleisio isaf 305

Atodiad 4: Y rhesymeg dros ddewis y dull drafftio o ran newid yr enw, gan hepgor rhai cyfeiriadau at 'Cynulliad' yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 308

Atodiad 5: Termau a ddefnyddir i ddisgrifio deddfwrfeydd y wladwriaeth a'r is-wladwriaeth..... 310

Atodiad 6: Anghymwysiadau mewn manau eraill yn y DU a Dáil Éireann 313

Atodiad 7: Y gofynion o ran yr uchafswm amser ar gyfer cynnal y cyfarfod cyntaf mewn deddfwrfeydd eraill 315

Atodiad 8: Mynegai o ofynion Rheol Sefydlog 26.6 317

Atodiad 9: Atodlen o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth..... 321

Atodiad 10: Tabl tarddiadau..... 404

Rhan 5: Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol 411

26. Gwelliannau i'r Bil..... 412

27. Nodiadau Esboniadol diwygiedig 454

Rhestr o'r talfyriadau yn y ddogfen hon

Term	Talfyriad
Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Comisiwn Richard
Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006	DGE 2006
Systemau Rheoli Etholiadol (meddalwedd TG)	EMS
Swyddog Cofrestru Etholiadol	SCE
Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad	Y Panel Arbenigol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Y Cynulliad
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Comisiwn y Cynulliad
Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007	Gorchymyn 2007
Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000	PPERA 2000
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983	DCB 1983
Cronfa Gyfunol Cymru	CGC

Rhan 1: Cefndir a diben y Bil

1. Cyflwyniad

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

2. Mae'r Cynulliad wedi gwneud newidiadau mawr i'w strwythur a'i swyddogaethau ers ei sefydlu'n wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*.¹

3. Bryd hynny, nid oedd ganddo bwerau deddfu sylfaenol ac nid oedd wedi'i wahanu'n ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Erbyn hyn, mae ganddo gyfrifoldeb am ddeddfu ac am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn rhai o'r meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl.

4. Mae'r Cynulliad bellach yn gweithredu ar sail model cadw pwerau newydd o dan *Ddeddf Cymru 2017*.² Mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am y trethi Cymreig cyntaf ers 800 mlynedd, gan gynnwys pwerau amrywio treth incwm. Mae *Deddf Cymru 2017* hefyd yn rhoi pŵer i'r Cynulliad wneud penderfyniadau mewn perthynas â maint ac enw'r sefydliad a sut mae'r Aelodau'n cael eu hethol, yn ogystal â'i drefniadau mewnol.

5. Ar ran y Cynulliad, mae Comisiwn y Cynulliad yn arwain rhaglen ddiwygio i sicrhau bod y Cynulliad yn sefydliad hygyrch a blaengar, sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn effeithiol drwy:

- newid enw'r sefydliad cyn diwedd tymor y Cynulliad yn 2021 i adlewyrchu ei sefyllfa gyfansoddiadol fel y prif sefydliad democrataidd yng Nghymru;
- sicrhau bod gan y Cynulliad y nifer briodol o Aelodau sydd eu hangen arno i wneud ei waith, a bod trefniadau cadarn ac egwyddorol ar waith i'w hethol;
- adfywio'r broses ddemocrataidd drwy ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i 16, i ysbrydoli ac annog pobl ifanc i gymryd rhan;
- sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol sy'n sail i drefniadau mewnol, trefniadol a gweithdrefnol y Cynulliad yn taro'r cydbwysedd

¹ Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/38/contents

² Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

cywir rhwng cadernid a'r hyblygrwydd sy'n briodol ar gyfer deddfwrfa genedlaethol;

- annog mwy o ymgysylltiad rhwng y Cynulliad a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, a sicrhau bod pobl yn deall yn well beth mae'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn ei wneud.

6. Y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yw'r cam cyntaf mewn strategaeth ddeddfwriaethol i ddatblygu'r diwygiadau hyn.

7. Rhagwelir y bydd ail gam y strategaeth ddeddfwriaethol yn ymgorffori'r system etholiadol a maint y Cynulliad, os ceir consensws trawsbleidiol ar y materion hynny.

8. Felly, mae'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*:

- yn newid enw'r sefydliad o "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" (National Assembly for Wales) i'r "Senedd", ac yn gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol;
- yn gostwng yr oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad i 16, ac yn diwygio'r trefniadau cofrestru etholiadol cysylltiedig;
- yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad;
- yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig;
- yn cyflwyno pŵer i wneud rheoliadau i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith;
- yn estyn y dyddiad olaf ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad;
- yn egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau.

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio ac wedi'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6.³ Mae'n gosod y cefndir i ddarpariaethau a chwmpas y Bil, ac mae'n cynnwys asesiad o oblygiadau ariannol y Bil, a sawl asesiad effaith (gan

³ Atodiad 8: Mynegai o ofynion Rheol Sefydlog 26.6 yn dangos lle yn y Memorandwm Esboniadol hwn y bodlonir pob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6.

gynnwys asesiad effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol, asesiad effaith ar hawliau plant ac asesiad effaith ar yr ieithoedd swyddogol).

10. Mae Rheol Sefydlog 26.84 yn caniatáu i'r Comisiwn gyflwyno Bil sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn. Nid yw swyddogaethau'r Comisiwn wedi'u diffinio'n glir mewn deddfwriaeth. Felly, mae'n agored i'r Cynulliad benderfynu ar swyddogaethau'r Comisiwn. Yr unig gyfyngiad yw bod rhaid i'r swyddogaethau fod yn gyfreithlon. Er mwyn pennu barn y Cynulliad a sicrhau bod gan y Comisiwn sail weithdrefnol gadarn i gyflwyno deddfwriaeth, ceisiwyd cymeradwyaeth y Cynulliad i gyflwyno Bil. Cafodd cynnig yn y Cyfarfod Llawn i ganiatáu i'r Comisiwn gyflwyno deddfwriaeth ar y materion a gynhwyswyd yn y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* ei gyflwyno i'w drafod ar 10 Hydref 2018 a'i dderbyn gan y Cynulliad.

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

11. Cyflwynodd *Deddf Cymru 2017* fodel cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer Cymru ar sail cadw pwerau, a diwygiodd *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i osod adran 108A newydd (cymhwysedd deddfwriaethol) yn lle'r adran 108 flaenorol, ac Atodlenni newydd, sef 7A (materion a gedwir yn ôl) a 7B (cyfyngiadau cyffredinol) yn lle'r Atodlen 7 flaenorol. O dan y model cadw pwerau hwn, mae gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu oni bai bod darpariaeth:

- yn rhychwantu y tu hwnt i Gymru a Lloegr;
- yn gymwys (ac ati⁴) heblaw o ran Cymru;
- oni bai ei bod yn ategol i ddarpariaeth o fewn cymhwysedd;
- nad oes iddi fwy o effaith heblaw mewn cysylltiad â Chymru nag sydd ei hangen;
- yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl (y ddarpariaeth a nodir yn Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*);
- yn torri cyfyngiadau yn Atodlen 7B;
- yn anghydnaws â hawliau Confensiwn neu gyfraith yr UE.

12. Mae Rhan 1 o Atodlen 7A yn rhestru'r cymalau cadw cyffredinol nad ydynt o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae Rhan 2 yn rhestru'r cymalau cadw penodol nad ydynt o fewn cymhwysedd sydd, fel y rhai a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 7A, yn faterion a gedwir yn ôl.

13. O dan adran 108A(6) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, caiff y cwestiwn a yw darpariaeth mewn Bil "yn ymwneud â" mater a gedwir yn ôl ei benderfynu drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, gan dalu sylw (ymhlith pethau eraill) i'w effaith ym mhob amgylchiad. Mae cyfraith achosion⁵ wedi cadarnhau y bydd Bil yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl os oes ganddo fwy na dim ond cysylltiad llac a chanlyniadol ag ef.

⁴ Mae adran 108A(2)(b) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu y bydd darpariaeth y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad os yw'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru neu'n rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n dileu (neu'n rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n arferadwy heblaw mewn perthynas â Chymru

⁵ *Martin yn erbyn Most* [2010] UKSC 10; 2010 SC (UKSC) 40, paragraff 49 a'r dyfarniad ar Fil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru) [2014] UKSC 43, paragraff 50.

14. Nid ystyrir bod unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil yn dod o fewn unrhyw un o'r cymalau cadw yn Atodlen 7A. Diben cyffredinol y Bil yw gwella hygyrchedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i drefniadau gweithredol er mwyn ei wneud yn ddeddfwrfa fwy effeithiol i bobl Cymru. Bydd y Bil yn:

- ailenwi'r Cynulliad yn "Senedd" i adlewyrchu'n well esblygiad ei statws cyfansoddiadol i'r senedd genedlaethol sydd gennym heddiw;
- gostwng yr oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad i 16;
- cyflwyno diwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad i'w wneud yn ddeddfwrfa fwy hygyrch ac effeithiol.

15. Mae Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cynnwys cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd y Cynulliad.

16. Mae paragraffau 8(1)(a) ac 8(1)(c) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu, oni bai bod y Gweinidog priodol⁶ yn cydsynio, y bydd darpariaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol os yw, yn y drefn honno, yn rhoi neu'n gosod (neu'n rhoi neu'n gosod drwy is-ddeddfwriaeth), unrhyw swyddogaeth ar awdurdod a gedwir yn ôl, neu fod y ddarpariaeth yn rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n dileu (neu'n rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n dileu drwy is-ddeddfwriaeth), swyddogaethau i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdod a gedwir yn ôl.

17. Mae paragraff 9 o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cynnwys eithriadau i baragraff 8 o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* drwy eithrio cyrff penodol.

18. Mae paragraff 10 o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cyfyngu ar ddarpariaethau sy'n dileu neu'n addasu (neu'n rhoi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ddileu neu addasu), unrhyw swyddogaeth awdurdod cyhoeddus heblaw awdurdod Cymreig datganoledig oni bai bod y Gweinidog priodol yn cydsynio i'r ddarpariaeth.

19. "Awdurdod a gedwir yn ôl" yw Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth ac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall nad yw'n awdurdod Cymreig datganoledig⁷ ac

⁶ Y "Gweinidog priodol" yw'r Ysgrifennydd Gwladol oni bai mai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw'r awdurdod a gedwir yn ôl ac, os felly, y Trysorlys yw'r "Gweinidog priodol".

⁷ Fel y'i diffinnir yn adran 157A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac a restrir yn Atodlen 9A i'r *Ddeddf* honno.

“awdurdod cyhoeddus” yw corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus.⁸

20. Mae adrannau 12 i 25 o'r Bil yn rhoi a/neu'n addasu amryfal swyddogaethau Swyddog Cofrestru Etholiadol (SCE). Caiff swydd SCE ei chreu gan adran 8(2A) o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (DCB 1983)*. Er bod yn rhaid i'r person sy'n dal y swydd fod yn swyddog yr awdurdod lleol, caiff swyddogaethau eu rhoi i'r SCE a'u harfer ganddo drwy ei rinwedd ei hun. Mae swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn “awdurdod a gedwir yn ôl” ac mae angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn i'r darpariaethau hyn fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Cafodd y darpariaethau hyn gydsyniad ym mis Chwefror 2019.

21. Mae adran 27 o'r Bil yn gosod swyddogaeth ar y Comisiwn Etholiadol. Nid yw'n ofynnol i'r Cynulliad geisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y ddarpariaeth yn rhinwedd paragraff 9(2) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

22. Mae holl ddarpariaethau'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol (y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol). Ystyrir hyn ymhellach ym mharagraffau 853–872.

⁸ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B, Paragraff 8(4).

3. Y cyd-destun a'r angen am y Bil

3.1. Datganoli yng Nghymru

23. Mae'r Bil yn newid enw'r Cynulliad i adlewyrchu'n well esblygiad ei statws cyfansoddiadol i'r hyn sydd gennym heddiw, sef senedd genedlaethol. Ers 1999, bu newid sylweddol o ran datganoli yng Nghymru, ac felly hefyd y Cynulliad ei hun.

24. Sefydlodd *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff corfforaethol unigol, gyda'r Llywodraeth a'r ddeddfwrfa'n gweithredu fel un endid.⁹ Cynhaliwyd yr etholiadau cyntaf ar 6 Mai 1999. Roedd pwerau'r Cynulliad yn cyfateb yn fras i'r rhai a gynhaliwyd yn flaenorol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Roedd hyn yn wahanol i'r pwerau deddfu sylfaenol a oedd gan Senedd yr Alban ers ei sefydlu ym 1999.

25. Daeth *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i rym yn dilyn etholiad y Cynulliad yn 2007, gan roi effaith i argymhelliad Comisiwn Richard y dylai'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa gael eu gwahanu'n gyfreithiol. Eglurodd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* rolau'r ddau sefydliad. Daeth Llywodraeth Cynulliad Cymru¹⁰ yn gyfrifol am wneud a gweithredu penderfyniadau, polisiau ac is-ddeddfwriaeth, a daeth y Cynulliad yn gyfrifol am ddwyn y Llywodraeth i gyfrif, gan ddeddfu fesul cam,¹¹ a chynrychioli buddiannau pobl Cymru.

26. Yn dilyn y refferendwm ar 3 Mawrth 2011, enillodd y Cynulliad bwerau deddfu ym mhob maes datganoledig (h.y. ni fyddai'n deddfu fesul cam).¹²

⁹ Penderfynodd y Cynulliad, yn 2002, wahanu rolau'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa o fewn fframwaith *Deddf Llywodraeth Cymru 1998*.

¹⁰ Fel y'i gelwid bryd hynny. Maes o law, ailenwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llywodraeth Cymru.

¹¹ Rhoddodd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* bwerau deddfu i'r Cynulliad, a elwir yn Fesurau, mewn meysydd penodedig. Enillwyd pwerau'n raddol drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) gyda chymeradwyaeth Senedd y DU, neu yn sgil y pwerau fframwaith a roddwyd drwy gyfrwng deddfwriaeth y DU.

¹² Ym mis Chwefror 2010, pasiodd y Cynulliad benderfyniad i gynnal refferendwm, a roddwyd ar waith, wedi hynny, gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cynhaliwyd y refferendwm ar 3 Mawrth 2011, gan arwain at bleidlais o blaid rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad. Daeth y pwerau hyn i rym ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2011.

27. Yn dilyn yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad cyntaf Comisiwn Silk, rhoddodd¹³ *Deddf Cymru 2014* bwerau trethu a benthyca i Lywodraeth Cymru, gan roi iddi gyfrifoldeb am godi cyfran o'i chyllideb am y tro cyntaf.¹⁴

28. Hefyd, rhoddodd *Deddf Cymru 2014* bwerau i'r Cynulliad ganiatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn y refferendwm treth incwm (ond nid mewn etholiadau eraill).¹⁵

29. Yn 2014, cyhoeddodd Comisiwn Silk ei ail adroddiad, ac arweiniodd yr argymhellion ynddo at *Ddeddf Cymru 2017*, a sefydlodd fframwaith cyfansoddiadol newydd i Gymru.

30. Mae *Deddf Cymru 2017*:

- wedi datganoli rhagor o bwerau i Lywodraeth Cymru mewn meysydd fel trafndiaeth ac adnoddau naturiol;
- wedi newid cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o fodel "rhoi" pwerau i fodel "cadw" pwerau. O ganlyniad, gall y Cynulliad, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac eithriadau, ddeddfu ar unrhyw fater nad yw wedi'i "gadw" yn benodol i'r DU;
- wedi dileu'r gofyniad am refferendwm cyn datganoli'r dreth incwm yn rhannol;
- wedi datganoli pwerau i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â'i drefniadau etholiadol, ariannol a gweithredol ei hun, gan gynnwys ei enw.

31. Mae'r Bil yn ailenwi'r Cynulliad yng nghyd-destun y newidiadau sylweddol hyn, er mwyn adlewyrchu'n well esblygiad ei statws cyfansoddiadol a'i gyfrifoldebau i'r hyn sydd gennym heddiw, sef senedd genedlaethol.

¹³ Cafodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, a elwir yn Gomisiwn Silk, ei sefydlu gan Lywodraeth y DU yn 2011, a chyhoeddodd adroddiadau yn 2012 a 2014.

¹⁴ Mae trethi busnes wedi'u datganoli ers mis Ebrill 2015, a dilynwyd hynny gan y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yn 2018. Hefyd, gwnaeth *Deddf Cymru 2014* ddarpariaeth ar gyfer datganoli pwerau i amrywio'r dreth incwm (yn amodol ar refferendwm), ac ar gyfer datblygu trethi Cymreig newydd (yn amodol ar gytundeb Llywodraeth y DU).

¹⁵ Ymestynnodd *Deddf Cymru 2014* dymor y Cynulliad o bedair blynedd i bump, cafodd wared ar y cyfyngiad ar sefyll fel ymgeisydd etholaethol a rhanbarthol mewn etholiad Cynulliad; a rhwystrodd Aelodau Seneddol rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad (heblaw mewn amgylchiadau cyfyngedig penodol).

32. Mae rhagor o fanylion am gyd-destun deddfwriaethol y Bil yn Atodiad 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

3.2. Yr angen am y Bil: ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau'r ddeddfwrfa

33. Mae newid enw'r Cynulliad yn gyfle gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth ymhlith pobl Cymru ac i annog ymgysylltiad â'r broses ddemocrataidd.

34. Fel y dangosir gan yr adran flaenorol yn amlinellu llinell amser datganoli yng Nghymru, mae pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynyddu'n raddol ers 1999. Fel corff a etholwyd yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, rôl senedd sydd i'r Cynulliad Cenedlaethol bellach. Erbyn hyn, mae'n gweithio mewn ffordd debyg i Senedd y DU yn San Steffan a strwythurau cyfansoddiadol eraill ledled y byd, drwy ddeddfu i Gymru, cytuno ar drethi Cymreig a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

35. Fodd bynnag, mae'r holl newidiadau hyn wedi creu darlun aneglur am sefyllfa pŵer ac atebolrwydd yng Nghymru. Yn ystod ei waith dros dymor diwethaf y Cynulliad, casglodd Comisiwn y Cynulliad amrywiaeth o wybodaeth sy'n awgrymu bod dryswch ynghylch rolau gwahanol y Cynulliad, Llywodraeth Cymru, a'r Senedd a'r Llywodraeth yn San Steffan.

36. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu:

- nad yw pobl Cymru, ar hyn o bryd, yn llwyr ddeall rôl a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- bod enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfrannu at yr ansicrwydd hwn.

37. Roedd 69 y cant o'r rhai a gymerodd ran mewn arolwg gan Beaufort Research yn 2013 â llai na gwybodaeth weddol am swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru,¹⁶ a dangosodd arolwg barn a gafodd ei gynnal gan ICM a'i gomisiynu gan y BBC yn 2014 mai dim ond 48 y cant o ddinasyddion Cymru oedd yn gwybod mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y GIG.¹⁷ Gwnaeth yr Athro

¹⁶ Beaufort Research, *Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru: Public Opinion Survey - Non-Fiscal Powers: Research findings Report* (Saesneg yn unig), 13 Awst 2013

¹⁷ BBC, *Fewer than half the population know who runs Welsh NHS, says poll*, 9 Mehefin 2014

Roger Scully, Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd, y sylwadau a ganlyn ar y ffigurau:

“[they] are not great in terms of public understanding of who is responsible for what. I think that it does show there is still a lot of confusion amongst people about exactly where the line for responsibility comes between London and Cardiff Bay in terms of governance.”

38. Yn yr un modd, mewn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Cynulliad rhwng 8 Rhagfyr 2016 a 3 Mawrth 2017:

- roedd tua thri o bob pump (59.7 y cant) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad, 'Mae pobl yn deall swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dda';
- cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (80.1 y cant) â'r datganiad, 'Mae enw sefydliad yn bwysig i egluro'r hyn y mae'n ei wneud';
- cytunodd dros dri o bob pump o'r ymatebwyr (60.9 y cant) â'r datganiad, 'Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw'.¹⁸

39. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o ddarpariaethau drafft y Bil i roi effaith i newid enw'r Cynulliad, ynghyd â nodiadau. Canmolodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad symlrwydd y drafft hwn, a dywedodd un ohonynt fel a ganlyn:

“Rwy'n meddwl bod y ddeddfwriaeth ddrafft wedi'i llunio mewn modd rhesymegol, clir a hawdd i'w dilyn. Byddwn yn fodlon â'r darn hwn o ddeddfwriaeth ar gyfer newid yr enw.”¹⁹

40. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, a chytundeb unfrydol y Cynulliad,²⁰ cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mehefin 2017 ei fod am ddeddfu i newid enw'r sefydliad i adlewyrchu cyfrifoldebau'r ddeddfwrfa a'r Aelodau ac i roi enw i'r sefydliad a fydd yn cael ei adnabod a'i ddeall gan y rhai y mae'n eu gwasanaethu.²¹

¹⁸ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad](#), Mehefin 2017, t.2

¹⁹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad](#), Mehefin 2017, t.8

²⁰ Cytunodd Aelodau'r Cynulliad yn unfrydol, mewn dadl ar [5 Gorffennaf 2016](#), y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol “newid ei enw i adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol”.

²¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Rhaglen diwygio'r Cynulliad](#), 13 Mehefin 2017

3.3. Yr angen am y Bil: gweithredu argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

41. Ym mis Ionawr 2015, bu Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad yn ystyried capasiti'r Cynulliad, a chyhoeddodd adroddiad a ddaeth i'r casgliad unfrydol a ganlyn: "Gyda dim ond 60 o Aelodau, mae diffyg pŵer yn y Cynulliad Cenedlaethol ond mae gormod o bwysau yn cael ei roi arno".²²

42. Gan barhau â gwaith ei ragflaenwyr, cyhoeddodd Comisiwn y Pumed Cynulliad ym mis Tachwedd 2016 ei fod yn bwriadu arwain gwaith i archwilio'r defnydd o bwerau newydd y Cynulliad er mwyn mynd i'r afael â chapasiti'r Cynulliad. Ar ran Comisiwn y Cynulliad, cyhoeddodd y Llywydd, ar 1 Chwefror 2017, fod Comisiwn y Cynulliad wedi ffurfio Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol (y Panel Arbenigol) i roi cyngor gwleidyddol ddiudedd ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.²³

43. Yr Athro Laura McAllister CBE, Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethiant Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd, fu'n arwain gwaith y Panel Arbenigol ac yn ei gadeirio. Dewiswyd aelodau eraill y Panel Arbenigol am eu harbenigedd ym meysydd systemau etholiadol, gwaith a chapasiti seneddau, sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad, a materion ehangach o ran llywodraethu, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu.²⁴

44. Yn dilyn adroddiad y Panel Arbenigol, ym mis Chwefror 2018, lansiodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad i geisio barn am argymhellion y Panel Arbenigol, ac am ddiwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad a allai wneud y sefydliad yn ddeddfwrfa fwy hygyrch ac effeithiol.²⁵

²² Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru](#), Ionawr 2015

²³ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Datganiad ysgrifenedig ar y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), 1 Chwefror 2017

²⁴ I gael rhagor o wybodaeth am y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gorchwyl llawn, y dystiolaeth a drafododd a'i adroddiad, ewch i www.cynulliad.cymru/diwygioetholiadol.

²⁵ Fel y nodwyd uchod, cynhwyswyd darpariaethau drafft i alluogi'r Cynulliad i newid ei enw eisoes mewn ymgynghoriad ar wahân ar newid enw'r Cynulliad. Roedd y dull hwn o weithredu yn adlewyrchu argymhelliad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad "y dylid cael rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi Biliau drafft". Nid oedd modd cynnwys testun y darpariaethau drafft yn yr ymgynghoriad dilynol yn ceisio barn am argymhellion y Panel Arbenigol, ac am ddiwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad. Byddai'r amserlenni sy'n gysylltiedig â datblygu darpariaethau o'r fath wedi gohirio ymgynghoriad o'r fath

45. Mae'r is-adrannau a ganlyn yn ystyried:

- yr angen am amcanion polisi penodol a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol sy'n cael effaith yn sgil y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*;
- yr angen am ddiwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad a allai ei wneud yn ddeddfwrfa fwy hygyrch ac effeithiol, y rhoddir effaith iddynt yn sgil y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*.

3.3.1. Yr angen am ostwng yr oedran pleidleisio i 16

46. O ran yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad y byddai estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed o 2021 ymlaen yn ffordd rymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc. Hefyd, roedd y Panel Arbenigol o'r farn, pe bai Llywodraeth Cymru yn cynnig gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau lleol Cymru i 16, y byddai hynny'n achosi anghysondeb ac yn creu materion gweinyddol a gwleidyddol ychwanegol pe na bai'r oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn cael ei ostwng yn yr un modd.²⁶

47. Wrth lunio ei gasgliadau, bu'r Panel Arbenigol yn ystyried:

- cymaryddion rhyngwladol;²⁷
- y trothwyon oed ar gyfer hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol eraill;²⁸
- effaith bosibl gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfranogiad gwleidyddol;²⁹

yn sylweddol, ac wedi'i gwneud yn anymarferol i'r ddeddfwriaeth ofynnol fod ar waith ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021. Yn lle hynny, bu'r Comisiwn yn cydweithio'n agos ag amryw randdeiliaid i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon a bu eu safbwyntiau'n allweddol wrth baratoi darpariaethau'r Bil. Roedd hyn yn cynnwys deialog reolaidd â phleidiau gwleidyddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil a cheisio barn rhanddeiliaid allanol yn enwedig y rhai ag arbenigedd ar faterion etholiadol. Yn ychwanegol at hyn, cafodd Aelodau Cynulliad unigol a'r cyhoedd y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau polisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Bil drwy gyfrwng datganiadau a chyhoeddiadau rheolaidd.

²⁶ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru, Crynodeb Gweithredol](#), paragraffau 9-10

²⁷ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), paragraffau 15.10-15.11

²⁸ Ibid, paragraffau 15.12-15.14

²⁹ Ibid, paragraffau 15.15-15.20

-
- effaith bosibl gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar ansawdd y penderfyniadau gwleidyddol a wneir (er enghraifft a fyddai'n arwain at roi'r etholfraint i bobl nad oeddent eto'n barod i ysgwyddo'r fath gyfrifoldeb);³⁰
 - effaith bosibl gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar hyder y cyhoedd yn y Cynulliad (er enghraifft pe na fyddai digon o gefnogaeth gyhoeddus i newid o'r fath);³¹
 - effaith bosibl gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar weinyddiaeth etholiadol.³²

48. Yn ogystal, ceir crynodeb o'r oedran pleidleisio mewn manau eraill yn y DU yn Atodiad 2, a cheir dadansoddiad o ddadleuon a godwyd yn erbyn gostwng yr oedran pleidleisio (a dulliau o liniaru hynny) yn Atodiad 3.

49. Yn dilyn adroddiad y Panel Arbenigol, gofynnodd Comisiwn y Cynulliad yn ei ymgynghoriad *Creu Senedd i Gymru* a ddylid estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (59 y cant) o'r farn y dylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16.³³ Nodir dadansoddiad manylach o'r ymgynghoriad ym mhennod 5.3.

50. Mae'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn darparu ar gyfer estyn etholfraint y Cynulliad i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed allu cofrestru a phleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Mae estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed yn arwain at newidiadau eraill mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r gofrestr etholiadol, y canfasiad blynyddol a diogelu gwybodaeth pobl ifanc.

51. Roedd y Panel Arbenigol hefyd o'r farn y dylai unrhyw ostyngiad yn yr oedran pleidleisio isaf gael ei wneud law yn llaw ag addysg briodol, effeithiol a diduedd o ran gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth. Roedd y panel o'r farn y dylai addysg o'r fath fod yn rhan o amrywiaeth o ddulliau y gallai'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru ac eraill eu rhoi ar waith i wella ymgysylltiad pobl ifanc a chyfranogiad gwleidyddol.

³⁰ Ibid, paragraffau 15.21-15.24

³¹ Ibid, paragraffau 15.21-15.24

³² Ibid., paragraffau 15.35-15.38

³³ Yn benodol, roedd 59 y cant o'r 1,530 o ymatebion i gwestiwn ynghylch a ddylai'r oedran pleidleisio isaf fod yn 18 neu'n 16 o'r farn y dylid gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 18 i 16. Dylid nodi bod 120 o ymatebion i'r cwestiwn hwn oddi wrth bobl a ddynododd eu bod o dan 18 oed, ac roedd mwyafrif sylweddol (81 y cant) o'r farn y dylai'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad gael ei ostwng i 16 oed. Am ragor o wybodaeth, darllenwch *Creu Senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad*, t. 41.

52. Nid yw'r Bil yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen hwn am addysg. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd ymgyrchoedd addysg wleidyddol a gwybodaeth gyhoeddus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid yn cael eu cynnal yr un pryd â'r newid yn yr oedran pleidleisio.

53. Mae dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn rhannau pwysig o'r cwricwlwm ac, ar hyn o bryd, mae gan ddysgwyr y cyfle i astudio gwleidyddiaeth a materion cyfoes drwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a Bagloriaeth newydd Cymru.

54. Mae'r thema "Dinasyddiaeth Weithredol" yn y fframwaith ABCh presennol, y ddogfen allweddol y dylai ysgolion a cholegau ei defnyddio i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth ABCh bresennol ar gyfer plant rhwng 7 a 19 oed, yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

55. Pe bai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng, byddai angen mynd ati i sicrhau'r cyfraddau cofrestru gorau posibl. Gallai hyn fod yn haws ar gyfer y grŵp oedran hwn nag ar gyfer y rhai sydd ychydig flynyddoedd yn hŷn gan fod y mwyafrif ohonynt yn dal i fod gartref ac yn mynd i'r ysgol. Bydd gan bob awdurdod lleol restr o'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref a byddant yn gallu ymgorffori'r rhai sy'n gyrhaeddwy'r³⁴ neu'n 16 ac yn 17 oed yn yr ystyriaethau canfasio blynyddol.

56. Mae'n bosibl y codir pryderon mai un grŵp na chaiff ei gynnwys mewn ymgyrch gofrestru leol fyddai pobl ifanc o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, fel rhan o'i gyfrifoldebau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o etholiadau, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda'r Mudiad Teithwyr i annog pobl i gofrestru. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i wneud yr un peth yn y canfasiad ar gyfer 2020.

3.3.2. Yr angen am newid y gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad

57. Nid yw pawb yn gymwys i fod yn Aelod Cynulliad. Mae rhestr o rai o'r meini prawf sy'n anghymhwys rhywun rhag bod yn Aelod Cynulliad wedi'i chynnwys yn adrannau 16 i 19 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Er enghraifft, ni chaniateir i Aelodau Seneddol na barnwyr, gweision sifil, swyddogion y Cynulliad, na

³⁴ Mae'r gair 'cyrhaeddwy'r' yn cyfeirio at bersonau nad ydynt yn ddigon hen i bleidleisio mewn etholiad ond y disgwylir y byddant wedi cyrraedd yr oedran pleidleisio isaf erbyn dyddiad y bleidlais ar gyfer yr etholiad nesaf.

swyddogion cyhoeddus, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fod yn Aelodau'r Cynulliad.

58. Mae *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Gorchymyn 2007)* yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr yn etholiad y Cynulliad, ar yr adeg y maent yn cael eu henwebu, wneud datganiad ffurfiol nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad. Oni all ymgeisydd wneud y datganiad hwn, ni fydd yn cael sefyll etholiad. I bob pwrpas, golyga hyn na chaiff unrhyw berson sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad gan ddarpariaethau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* sefyll etholiad i'r Cynulliad.

59. Yn 2014, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i'r rheolau ynghylch anghymhwyso Aelodau. Cyhoeddodd adroddiad³⁵ a wnaeth nifer o argymhellion ar sut y dylid newid y trefniadau cyfreithiol fel eu bod yn gweithio'n fwy effeithiol:

- Dylid diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* fel bod person, yn achos y mwyafrif o swyddi sy'n anghymhwyso, dim ond yn dod yn anghymwys i fod yn Aelod Cynulliad os yw'n dal y swydd berthnasol ar yr adeg y bydd yn tyngu'r llw neu'n cadarnhau teyrngarwch ar ôl cael ei ethol. Golyga hyn, fel arfer, na fyddai person yn gorfod ymddiswyddo o swyddi sy'n ei anghymhwyso er mwyn sefyll etholiad i fod yn Aelod Cynulliad. Byddai hyn yn dileu rhwystr sylweddol a all atal rhai rhag sefyll etholiad. Mae rhai swyddi sy'n anghymhwyso lle byddai hyd yn oed bod yn ymgeisydd yn achosi gwrthdaro buddiannau, er enghraifft Swyddogion Canlyniadau Etholiadol, neu aelodau'r Comisiwn Etholiadol, a byddai'n rhaid i ymgeisydd beidio â bod yn y swyddi hynny pan gaiff ei enwebu, yn ôl y Pwyllgor.
- O ganlyniad, dylid dileu'r gofyniad i bobl ddatgan nad ydynt yn ddeiliad swydd sy'n eu hanghymhwyso cyn derbyn enwebiad fel ymgeisydd o *Orchymyn 2007*. Ni fyddai'r gofyniad yn angenrheidiol gan y bydd y rhan fwyaf yn dod yn anghymwys pan fyddant yn tyngu'r llw neu'n cadarnhau teyrngarwch.
- Dylai'r rhestr o swyddi sy'n anghymhwyso gael ei gwneud yn gliriach, gyda'r swyddi perthnasol yn cael eu pennu'n llawn mewn deddfwriaeth, yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddeddfwriaeth arall.

³⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (Y Pedwerydd Cynulliad), *Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Gorffennaf 2014

-
- Dylid diwygio adran 16(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i ddileu'r cyfeiriad at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn hytrach, dylid rhestru'r rhain gyda swyddi tebyg eraill yn y Gorchmynion Anghymwyso perthnasol.
 - Dylid diwygio adran 16(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i egluro bod unrhyw berson sy'n dal swydd arglwydd raglaw, rhaglaw neu uchel-siryf yn cael ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad mewn unrhyw etholaeth neu ranbarth ar gyfer y Cynulliad, yn hytrach na dim ond yn yr etholaethau neu'r rhanbarthau y mae'r swyddi'n berthnasol iddynt.
 - Am y rheswm bod gwrthdaro buddiannau wrth wasanaethu dwy ddeddfwrfa sy'n craffu ar ddeddfwriaeth, dylid anghymhwysu aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad. Argymhellodd y Pwyllgor na ddylai'r gwaharddiad fod yn gymwys i aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd hefyd yn Aelodau'r Cynulliad ar yr adeg y cyflwynir y ddeddfwriaeth i wahardd yr arfer hwn.

60. Gofynnodd ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad a ddylai'r ddeddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad.

61. O'r 510 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- roedd 34 y cant (180) yn cytuno y dylai'r ddeddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad;
- roedd 13 y cant (70) o'r ymatebwyr yn anghytuno;
- nid oedd y gweddill yn cytuno nac yn anghytuno'n glir â'r cwestiwn ac roedd rhai'n dweud nad oeddent wedi deall y cwestiwn.

62. Gan adlewyrchu barn mwyafrif y rhai a ymatebodd yn bendant i'r cwestiwn hwn, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad

63. Dylai hyn gael gwared ar rai rhwystrau rhag sefyll etholiadau a galluogi mwy o bobl i sefyll etholiad oherwydd na fydd yn rhaid iddynt roi'r gorau i'w gwaith i

wneud hynny. Y nod yw y bydd lleihau'r rhwystrau rhag sefyll etholiad yn arwain at gynnydd posibl yn amrywiaeth y gynrychiolaeth, yn ogystal ag at broses fwy effeithiol.

3.3.3. Yr angen am ddyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig

64. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cymru 2017*) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu ar y materion a ganlyn i'r graddau y maent yn ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru:

- ariannu'r Comisiwn Etholiadol;
- paratoi, gosod a chyhoeddi adroddiadau gan y Comisiwn Etholiadol am y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau;
- darparu copïau o reoliadau y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi'u gwneud, eu newid neu eu dirymu.

65. Yn dilyn pasio *Deddf Cymru 2017*, cychwynnodd y Comisiwn Etholiadol drafodaethau â'r Llywydd ar wneud y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Cynulliad am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru, a bod gwaith o'r fath yn cael ei ariannu gan y Cynulliad. Hefyd, cynhaliodd y Comisiwn Etholiadol drafodaethau tebyg â Senedd yr Alban yn dilyn pasio *Deddf yr Alban 2016* a oedd yn rhoi cymhwysedd i Senedd yr Alban ddeddfu ar yr un agweddau ar drefniadau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yr Alban.

66. Cafwyd ar ddeall bod Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar ddiwygio etholiadol yn 2019,³⁶ ac y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys darpariaethau i wneud y canlynol:

- caniatáu i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban³⁷ ariannu gwaith y Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig yr Alban;
- gwneud y Comisiwn Etholiadol yn atebol i Senedd yr Alban am waith o'r fath;

³⁶ Llywodraeth yr Alban, *Delivering for Today, Investing for Tomorrow* - Rhaglen Llywodraeth yr Alban ar gyfer yr Alban 2018-19, Medi 2018.

³⁷ Mae Corff Corfforaethol Senedd yr Alban yn cyfateb i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

-
- cyflwyno newidiadau penodol a argymhellir gan y Comisiwn Etholiadol i'r trefniadau ar gyfer etholiadau datganoledig yr Alban.

3.3.4. Yr angen am bŵer i wneud rheoliadau i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith

67. Fel rhan o'r Unfed Raglen ar Ddeg ym maes Diwygio'r Gyfraith, cynhaliodd Comisiynau'r Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon brosiect ar y cyd i ddiwygio cyfraith etholiadol. Gwnaeth ei adroddiad interim,³⁸ a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, argymhellion i resymoli'r deddfau cyfredol sy'n ymwneud ag etholiadau i fframwaith deddfwriaethol unigol, cyson, a fyddai'n sicrhau cysondeb ar draws etholiadau gwahanol (yn amodol ar wahaniaethu oherwydd y system bleidleisio neu egwyddor neu bolisi arall y gellid ei gyfiawnhau). Roedd ei argymhellion yn ymdrin â materion fel y dull pleidleisio, troseddau etholiadol, a rheoleiddio gwariant ymgyrchu. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn ffurfiol i adroddiad interim Comisiwn y Gyfraith.

68. Gofynnodd ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad a ddylai'r ddeddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chynnal a gweinyddu etholiadau.

69. O'r 420 o ymatebion i'r mater hwn, roedd 57 y cant (240) o'r farn y dylai'r Cynulliad ddeddfu i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chynnal a gweinyddu etholiadau.

70. Gan adlewyrchu barn y mwyafrif, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion i sicrhau bod etholiadau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar gyfer gweinyddu etholiadau a gafodd eu gwneud gan Comisiwn y Gyfraith.

71. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i drafftio er mwyn sicrhau'r canlynol:

- ni ellir defnyddio'r pŵer ond i roi effaith i argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â rhesymoli'r gyfraith etholiadol;
- bydd y pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

³⁸ Comisiwn y Gyfraith, Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban, Comisiwn y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon, Electoral Law: A Joint Interim Report, Chwefror 2016

3.3.5. Yr angen i estyn y dyddiad olaf ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad

72. Fel yn achos deddfwrfeydd datganoledig eraill y DU, caiff y ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu (h.y. ei weithdrefnau a'i arferion) ei phennu gan gyfuniad o ddarpariaethau deddfwriaethol, Rheolau Sefydlog y Cynulliad ei hun, ac arfer a chynsail.³⁹

73. Mae'r gofynion, sydd wedi eu nodi mewn deddfwriaeth, i'w cael yn bennaf yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Rhoddodd *Deddf Cymru 2017* bŵer i'r Cynulliad newid darpariaethau penodol yn *Neddf 2006* sy'n rheoli ei ffyrdd mewnol o weithio.

74. Yn sgil profiad – ac yn unol â diwygiadau a wnaed eisoes i drefniadau Senedd yr Alban gan *Ddeddf yr Alban 2012*⁴⁰ – cynigiodd Comisiwn y Cynulliad y dylid newid *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* i gynyddu'r terfyn amser ar gyfer cynnal y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad. Yn benodol, cynigiodd y Comisiwn y dylid cynyddu'r terfyn amser o saith diwrnod i bedwar diwrnod ar ddeg a, thrwy hynny, roi mwy o gyfle i'r pleidiau gwleidyddol drafod a negodi â'i gilydd ar ôl etholiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer systemau etholiadol cyfrannol fel yr un a ddefnyddir yn y Cynulliad, yr ystyrir eu bod yn llai tebygol o greu llywodraethau lle y mae gan un blaid fwyafrif, a lle y gall trafodaethau a negodiadau o'r fath gael effaith wleidyddol sylweddol am flynyddoedd i ddod.

75. Yn ei ymgynghoriad,⁴¹ gofynnodd Comisiwn y Cynulliad i bobl a ddylid diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* er mwyn rhoi rhagor o hyblygrwydd i'r Cynulliad bennu ei arferion gweithio a'i drefniadau ei hun drwy ei weithdrefnau mewnol yn hytrach nag mewn deddfwriaeth.

76. O'r 770 o ymatebion i'r mater hwn, roedd 60 y cant (460) o blaid y diwygiadau arfaethedig i roi rhagor o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar ei ffyrdd ei hun o weithio, ac roedd 30 y cant (240) yn erbyn hynny.

³⁹ Y Rheolau Sefydlog yw'r rheolau ffurfiol sy'n pennu gweithdrefnau'r Cynulliad. Y Cynulliad sy'n cytuno arnynt, ac yn eu diwygio, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair. Rhaid i newidiadau gael eu cynnig i'r Cynulliad gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad.

⁴⁰ *Deddf yr Alban 2012*, www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2012/11/part/1/crossheading/the-scottish-parliament/enacted (adran 4(3))

⁴¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Creu Senedd i Gymru: dogfen ymgynghori*, Chwefror 2018

77. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio'r darpariaethau perthnasol yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* i gynyddu'r terfyn amser ar gyfer y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad o saith diwrnod i bedwar diwrnod ar ddeg.

3.3.6. Yr angen i egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau

78. Mae Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau, a yw'r nwyddau a'r gwasanaethau hynny mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau ai peidio. Mae'r pŵer i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau (paragraff 4(2)(b)) yn ddiamwys.

79. Mae paragraff 4(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau nad ydynt mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau. Mae'r pŵer hwn, er enghraifft, yn caniatáu i'r Comisiwn werthu nwyddau yn siop y Cynulliad.

80. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth yn amwys, gan eu bod yn cyfeirio at werthu nwyddau a darparu gwasanaethau (yn hytrach na'u gwerthu). O ganlyniad, nid yw'n glir a gaiff y Cynulliad godi tâl am wasanaethau nad ydynt mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau, er enghraifft ffilmio ar ystâd y Cynulliad.

81. Mae darpariaethau tebyg yng Ngogledd Iwerddon, a'r dehongliad ohonynt yno yw y caiff Comisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon godi tâl am ddarparu gwasanaethau nad ydynt mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau.

82. Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i ddileu unrhyw amwysedd posibl drwy egluro y caiff Comisiwn y Cynulliad godi tâl am wasanaethau (yn ogystal â nwyddau) nad ydynt yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau.

83. Er eglurder, nid oes gan Gomisiwn y Cynulliad gynlluniau i godi tâl am wasanaethau heblaw am y rhai mewn cysylltiad â'i swyddogaethau. Yn hytrach, prif fwriad egluro'r ddeddfwriaeth i ddileu'r amwysedd yw lleihau'r posibilrwydd ar gyfer her gyfreithiol yn y dyfodol.

3.4. Y rhesymeg dros beidio â mynd i'r afael â materion penodol yn y Bil

84. Fel arfer, mae Memoranda Esboniadol i ddeddfwriaeth yn nodi'r rhesymeg a'r angen am yr hyn sydd wedi ei gynnwys mewn Bil penodol ond, fel arfer, nid ydynt yn nodi'r rhesymeg dros yr hyn nad yw wedi ei gynnwys mewn Bil penodol.

85. Fodd bynnag, o ystyried cyd-destun ehangach argymhellion y Panel Arbenigol, a dull Comisiwn y Cynulliad o weithredu dros ddau gyfnod, ystyrir ei bod yn briodol bod y Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi'r rhesymeg dros beidio â mynd i'r afael â nifer o faterion yn y Bil hwn. Trafodir y rhain yn yr is-adrannau isod.

3.4.1. Y rhesymeg dros y penderfyniad i beidio â mynd i'r afael â nifer yr Aelodau yn y Cynulliad, a'r system etholiadol y maent yn cael eu hethol ganddi, yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

86. Ar 18 Gorffennaf 2018, yn ei datganiad ysgrifenedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, sef "Creu Senedd i Gymru", dywedodd y Llywydd na fyddai nifer o faterion yn ymwneud â darlun ehangach etholiadau yng Nghymru (gan gynnwys nifer Aelodau'r Cynulliad, a'r system etholiadol) yn cael sylw yn y Bil hwn, ond y byddent, yn hytrach, yn cael eu hystyried mewn ail gyfnod deddfwriaethol. Yn benodol, dywedodd y Llywydd fel a ganlyn:

"Mae'n glir bod angen caniatáu rhagor o amser i drafod hyn. Er imi fod yn hyderus, o'r trafodaethau a gafwyd hyd yma, ac o'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, bod cefnogaeth ddigonol o blaid cynyddu nifer Aelodau'r Cynulliad, nid oes consensws eto o ran y system bleidleisio y dylid ei defnyddio i ethol Aelodau i'r sefydliad mwy o faint.

Gan na allwn wneud penderfyniad ynghylch ethol rhagor o Aelodau heb benderfynu ar yr un pryd sut y cânt eu hethol, rhaid inni ganiatáu amser i'r trafodaethau hynny barhau dros y misoedd nesaf."⁴²

⁴² Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Blaenoriaethau'r Comisiwn o ran Diwygio'r Cynulliad yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus "Creu Senedd i Gymru"](#), 18 Gorffennaf 2018

3.4.2. Y rhesymeg dros y penderfyniad i beidio â mynd i'r afael â hawliau pleidleisio i garcharorion, hawliau pleidleisio i ddinasyddion yr UE, a sefyll etholiad ar sail rhannu swydd yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

87. Yn yr un datganiad, cyfeiriodd y Llywydd at nifer o benderfyniadau mewn perthynas â hawliau pleidleisio i garcharorion, hawliau pleidleisio i ddinasyddion yr UE, a sefyll etholiad ar sail rhannu swydd.

88. O ran hawliau pleidleisio i garcharorion, dywedodd y Llywydd fel a ganlyn:

“Mae'r materion cyfreithiol, moesegol, democrataidd ac ymarferol, a'r materion o ran hawliau dynol, sy'n gysylltiedig â rhoi'r bleidlais i garcharorion yn gofyn am ystyriaeth fanwl a phenderfyniad gwleidyddol. Rydym yn credu bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn i ystyried tystiolaeth bellach, ac mae angen rhagor o amser nag sydd gennym i allu rhoi ystyriaeth iawn i'r dystiolaeth honno a'i chynnwys yn neddfwriaeth y Comisiwn. Fel deddfwrfa, rhaid inni gymryd ein rhwymedigaethau o ddifrif. Gan hynny, mae'r Comisiwn yn credu mai'r dull cywir i ddechrau yw gwahodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried cynnal ymchwiliad i archwilio'r mater a ddylai carcharorion o Gymru gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.”⁴³

89. O ran hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE, dywedodd y Llywydd fel a ganlyn:

“Mae etholfraint y Cynulliad ar hyn o bryd yn rhoi'r bleidlais i ddinasyddion y Gymanwlad, dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon neu ddinesydd perthnasol o'r Undeb Ewropeaidd. Er nad oes eglurder eto o ran manylion bargaen Brexit mewn perthynas â hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE, mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn gwarchod hawl dinasyddion yr UE i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol ar ôl y diwrnod gadael. Felly, mae Comisiwn y Cynulliad yn fodlon nad oes angen dim camau pellach ar hyn o bryd i warchod hawl dinasyddion yr UE i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ond fe fyddwn yn monitro'r sefyllfa o hyd.”⁴⁴

90. O ran rhannu swyddi, dywedodd y Llywydd fel a ganlyn:

⁴³ Ibid.

⁴⁴ Ibid.

“y mater arall y mae Comisiwn y Cynulliad yn teimlo na ddylai ddeddfu yn ei gylch ar hyn o bryd yw argymhelliad y Panel Arbenigol y dylid caniatáu i unigolion sefyll ar gyfer etholiad ar sail rhannu swydd... Rydym yn credu nad oes digon o gefnogaeth i'r syniad hwn ar hyn o bryd o fewn y Cynulliad ac ymhlith y cyhoedd, a bod angen rhagor o amser ar y rhai sydd o blaid rhannu swyddi i wneud eu hachos. Mae hwn yn faes polisi cymhleth sy'n gofyn am gryn dipyn o waith pellach er mwyn sicrhau y gellir ei weithredu'n effeithiol. Yn ogystal, mae'r cyngor cyfreithiol yr wyf wedi'i dderbyn yn bwrw amheuaeth ar gymhwysedd y Cynulliad hwn i wneud y newidiadau sydd eu hangen i weithredu'r polisi hwn, yn enwedig o ran caniatáu i Aelod sy'n rhannu swydd ddod yn Weinidog neu'n Ysgrifennydd Cabinet. Byddai gennyf amheuon cryf ynghylch cyflwyno system a oedd yn creu dwy haen o Aelodau'r Cynulliad.”⁴⁵

3.4.3. Y rhesymeg dros beidio â mynd i'r afael â threuliau etholiadol yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

91. Penderfynodd Comisiwn y Cynulliad na fyddai'r Bil yn cyflwyno newidiadau i fynd i'r afael â threuliau etholiadol, ar y sail bod gan Weinidogion Cymru bellach bŵer i wneud newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth yn lle hynny.

92. Yn ei adroddiad ar etholiad y Cynulliad yn 2016, dywedodd y Comisiwn Etholiadol fod y rheolau ar gyfer trin gwariant gan ymgyrchwyr nad ydynt yn aelodau o blaid, fel y'u nodir yn *Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA 2000)*, wedi'u diweddarau i:

- eithrio costau sy'n codi mewn perthynas â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, a'r gwrthwyneb, o'r terfynau gwariant;
- eithrio costau rhesymol y gellid eu priodoli i anabledd unigolyn o'r terfynau gwariant.

93. Argymhellodd y Comisiwn Etholiadol y dylid cyflwyno eithriadau tebyg mewn perthynas â'r terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.⁴⁶ Cynigiwyd y gallai cyflwyno eithriadau o'r fath mewn perthynas â chostau cyfieithu annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ystod ymgyrchoedd etholiad, ac, o ran anabledd, y gallai leihau rhwystrau sydd efallai'n atal pobl ag

⁴⁵ Ibid.

⁴⁶ Y Comisiwn Etholiadol, *Etholiad Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: adroddiad ar y ffordd y gweinyddwyd etholiadau 5 Mai 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru*, Medi 2016

anableddau rhag sefyll etholiad neu gymryd rhan mewn ymgyrchoedd gwleidyddol.

94. Felly gofynnodd ymgyngoriad Comisiwn y Cynulliad i ymatebwyr a oeddynt yn cytuno y dylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion y Comisiwn Etholiadol y dylai costau sy'n ymwneud â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, ac fel arall, beidio â chyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad (fel yn achos ymgyrchwyr nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid).

95. O'r 750 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- teimlai 71 y cant (530) y dylai'r Cynulliad ddeddfu i sicrhau na ddylai costau sy'n ymwneud â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, a'r gwrthwyneb, gyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad;
- roedd 21 y cant (150) o'r ymatebwyr yn anghytuno.⁴⁷

96. Hefyd, yn ymgyngoriad Comisiwn y Cynulliad, gofynnwyd i bobl a oeddent yn cytuno y dylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion y Comisiwn Etholiadol na ddylai costau sy'n ymwneud ag anabledd unigolyn gyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad (fel yn achos ymgyrchwyr nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid).

97. O'r 700 o ymatebion i'r ail ran o'r cwestiwn hwn, teimlai 86 y cant (600) y dylai'r Cynulliad ddeddfu i sicrhau nad yw costau sy'n ymwneud ag anabledd unigolyn yn cyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad, fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

98. Fodd bynnag, yn dilyn yr ymgyngoriad hwn, ar 24 Mai 2018, trosglwyddwyd y pwerau i weithredu'r argymhellion hyn i Weinidogion Cymru drwy *Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018*.⁴⁸ Golygai hyn y gellid gweithredu'r argymhellion hyn bellach:

⁴⁷ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Creu senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgyngoriad*, Hydref 2018, t.64

⁴⁸ *Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018*, www.legislation.gov.uk/cy/ukdsi/2018/9780111167946/contents

-
- drwy'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*; neu
 - drwy is-ddeddfwriaeth a gynigir gan Weinidogion Cymru.

99. Mantais yr ail ddull oedd y byddai'n gyfle i fynd i'r afael ag argymhellion y Comisiwn Etholiadol ochr yn ochr â materion eraill o reoleiddio etholiadol a sicrhau fframwaith cyson ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau lleol yng Nghymru, gan ystyried cyfnodau rheoleiddio ar gyfer Etholiadau Cyffredinol y DU.

100. Ar 24 Medi 2018, ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd⁴⁹ i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Chomisiwn y Cynulliad y dylai'r costau sy'n ymwneud â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac i'r gwrthwyneb, a'r costau y gellir eu priodoli i anabledd unigolyn, gael eu heithrio o'r terfynau gwariant etholiadol. Dywedodd y Prif Weinidog hefyd y byddai'n fwy priodol ymdrin â'r materion hyn drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth ym marn Llywodraeth Cymru.

101. Yn yr un ohebiaeth, dywedodd y Prif Weinidog fod materion cymhleth sy'n ymwneud â chymhwysedd o hyd yn y maes hwn, a bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i'w datrys. Ar yr amod bod y materion hyn yn cael eu datrys, cadarnhaodd y Prif Weinidog mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd gwneud y newidiadau hyn drwy is-ddeddfwriaeth erbyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

102. Ar sail yr ymrwymiad hwn, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad beidio â chynnwys darpariaethau i weithredu argymhellion y Comisiwn Etholiadol yn y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*.

⁴⁹ Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Gweithredu Argymhellion y Comisiwn Etholiadol ar dreuliau etholiadol, 24 Medi 2018

4. Yr hyn mae'r Bil yn ei wneud

4.1. Crynodeb

103. Diben y Bil yw:

- ailenwi'r Cynulliad yn "Senedd" i adlewyrchu'n well esblygiad ei statws cyfansoddiadol i'r senedd genedlaethol sydd gennym heddiw;
- gostwng yr oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad i 16;
- cyflwyno diwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad a allai ei wneud yn ddeddfwrfa fwy hygyrch ac effeithiol.

4.2. Enw'r Cynulliad

4.2.1. Penderfynu ar yr enw arfaethedig: "Senedd"

104. Mae'r penodau blaenorol yn nodi bod y Cynulliad, ers 1999, wedi newid yn sylweddol ond yn raddol. Bellach, mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn sefydliadau ar wahân. Mae gan y Cynulliad bŵer i basio cyfreithiau ac i gytuno ar drethi, yn ogystal â dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud a sut y mae'n gwario'i chyllideb flynyddol, sef £15 biliwn.

105. Mae datganoli yng Nghymru wedi symud yn gyflym, wrth i ddeddfwriaeth olynol gael ei phasio i addasu seilwaith cyfansoddiadol y sefydliad – *Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017*. Fodd bynnag, mae cyflymder a graddfa'r newid cyfansoddiadol hwn wedi cael effaith ar gysondeb a'r graddau y mae'r cyhoedd yn deall rôl y Cynulliad a'r materion y mae'n gyfrifol amdanynt.

106. Yn ystod ei waith, mae Comisiwn y Cynulliad wedi casglu ystod o wybodaeth sy'n awgrymu bod dryswch ynglŷn â rolau gwahanol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, ac ynghylch cwmpas pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn y nifer sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ac yn yr arolygon o ganfyddiadau'r cyhoedd. Nid oedd yn helpu pethau, ychwaith, mai Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd enw ffurfiol Llywodraeth Cymru nes y pasiwyd *Deddf Cymru 2014*. Mae'r tebygrwydd rhwng enwau'r ddau sefydliad, ynghyd â'r ffaith bod eu gwreiddiau yn y corff corfforaethol unigol a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1999 gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*, wedi cyfrannu at y dryswch ynghylch rolau penodol y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth.

107. Cytunodd y Cynulliad yn unfrydol ym mis Gorffennaf 2016 y dylai'r sefydliad "newid ei enw i adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol", ac i ddarparu disgrifiad mwy cywir o rôl a chyfrifoldebau'r sefydliad.⁵⁰ Yn ystod y ddatl, mynegodd Aelodau'r Cynulliad y gobaith y gellid ymgysylltu'n well ag aelodau'r cyhoedd drwy newid yr enw, gan eu helpu i ddeall yn well y pwerau a ddatganolwyd i'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth yng Nghymru a chynyddu lefelau cyfranogiad democrataidd. Wedi hynny, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad ar enw'r sefydliad, a dynnodd sylw at ei awydd i "enw'r sefydliad gynorthwyo'r cyhoedd i ddeall ei swyddogaeth yn well".⁵¹

108. Fel y nodwyd eisoes, canfu'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

- roedd tua thri o bob pump (59.7 y cant) o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad, "Mae pobl yn deall swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dda";
- roedd mwyafrif (80.1 y cant) yr ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad: "Mae enw sefydliad yn bwysig i egluro'r hyn y mae'n ei wneud";
- cytunodd dros dri o bob pump o'r ymatebwyr (60.9 y cant) â'r datganiad, 'Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw'.⁵²

109. Ar sail yr ymgynghoriad, penderfynodd y Comisiwn, ym mis Mehefin 2017, y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru / Welsh Parliament, a gwneud newidiadau cysylltiedig i enwau, teitlau a disgrifiadau deiliaid swyddi neu gyrff perthnasol.

110. Fodd bynnag, ar 10 Hydref 2018, bu Aelodau'r Cynulliad yn trafod cynnig i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil a gynigiwyd gan y Comisiwn. Yn ystod y drafodaeth hon, awgrymodd nifer o Aelodau'r Cynulliad y dylai'r Cynulliad gael ei ailenwi'n "Senedd", er mwyn hybu mwy o ddealltwriaeth gyhoeddus o rôl y sefydliad.

111. Yn dilyn y drafodaeth gyhoeddus hon, bu ymgysylltiad rhwng y Llywydd (fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad) ac Aelodau Cynulliad unigol a grwpiau pleidiau. Ymddangosodd fod gan yr enw uniaith, sef "Senedd", fwy o gefnogaeth ymhlith

⁵⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion](#), 5 Gorffennaf 2016

⁵¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Ymgynghoriad: Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Rhagfyr 2016

⁵² Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad](#), Mehefin 2017, t.2

Aelodau'r Cynulliad nag unrhyw un o'r enwau eraill a ystyriwyd, gan gynnwys Senedd Cymru / Welsh Parliament.

112. Ers 1 Mawrth 2006, mae'r Cynulliad wedi'i leoli mewn adeilad o'r enw y Senedd. Mae'r enw "Senedd" yn cael ei ddefnyddio'n eang a'i gydnabod yng Nghymru i ddynodi cartref democratiaeth Cymru. Ystyrir y bydd defnyddio enw sydd eisoes yn gyfarwydd yng Nghymru yn helpu i feithrin cydnabyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o waith ein senedd genedlaethol ar wahân i waith Llywodraeth Cymru. Byddai hyn hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad cryf y Cynulliad i hyrwyddo statws y Gymraeg a'r defnydd ohoni ac yn dilyn enghreifftiau llwyddiannus Dáil Éireann a Seanad Éireann (y ddau dŷ sy'n ffurfio Tithe an Oireachtas / Tai'r Oireachtas). Mae'r rhain yn enwau Gwyddeleg yn unig sy'n cael eu defnyddio a'u deall yn eang yn Iwerddon a'r tu hwnt.

113. Mae'r enw "Senedd" hefyd yn perthyn i deulu rhyngwladol o enwau megis "Senate" a "Seanad" sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio deddfwrfeydd cenedlaethol neu siambrau o fewn deddfwrfeydd. Yn hynny o beth, byddai ailenwi'r Cynulliad fel "Senedd" yn rhoi enw i'r sefydliad a fyddai'n hawdd ei adnabod mewn rhai rhannau o'r byd fel cyfeiriad at ddeddfwrfa genedlaethol, seneddol.

114. Ar y sail hon, penderfynwyd newid enw'r Cynulliad ac y byddai'r Bil ynghylch ei gyflwyno'n cynnig "Senedd" fel enw. Nodir, mewn ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad ar newid enw'r Cynulliad, fod 53 y cant o bobl wedi dweud y byddai'r enw "Senedd" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol (gweler adran 5.2.3 isod am ganfyddiadau llawn yr ymgynghoriad hwnnw).

115. Mae adran 2 o'r Bil sy'n pennu y bydd y Cynulliad yn cael ei alw'n "Senedd" yn darparu y caiff y Senedd hefyd ei galw'n "Welsh Parliament". Bydd defnyddio "Welsh Parliament" ochr yn ochr â'r enw "Senedd" yn cynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r gair Cymraeg i ddeall ystyr yr enw a bydd yn pwysleisio ymhellach statws cyfansoddiadol y sefydliad fel senedd genedlaethol i Gymru.

116. Wrth ddatblygu'r ddarpariaeth hon, ystyriwyd a fyddai deddfu bod y Senedd i gael ei hadnabod hefyd yn "Welsh Parliament" yn gwneud y gyfraith yn aneglur yn hytrach na hwyluso dealltwriaeth. Er enghraifft, gallai cyfreithiau gwahanol a gaiff eu pasio ar lefel Cymru neu ar lefel y DU naill ai gyfeirio at "Senedd" neu at "Welsh Parliament" fel enw'r sefydliad.

117. Yn ogystal, rhan yn unig o adran 1(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* gaiff ei diwygio, a hynny fel a ganlyn: "There is to be an Assembly for Wales to be known as the "Senedd"". Nid yw'r drafftio hwn yn ddelfrydol am ei fod yn gadael y gair

“Assembly” yn y ddarpariaeth yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* y crëwyd y sefydliad oddi tani.

118. Wrth ddatblygu'r ddarpariaeth hon, ystyriwyd ffurf amgen hefyd, sef: “There is to be a Welsh Parliament to be known as the Senedd”. Byddai hwn yn ddatganiad cliriach, a mwy hygyrch o'r gyfraith i hwyluso dealltwriaeth y cyhoedd a byddai hefyd yn cyflawni'r un amcan o ddileu'r gair “Assembly” o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

119. Fodd bynnag, mae'r rheswm dros y dull a fabwysiedir yn y Bil yn adlewyrchu'r cyfyngiadau y mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn eu rhoi ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad 4. Am y rheswm hwn yn unig, nid yw'r Bil wedi'i ddrafftio i ddileu'r term “Assembly” yn gyfan gwbl o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

120. Ar sail y sefyllfa hon, gallai canllawiau rhynglywodraethol o bosibl fynd i'r afael â sut y dylid mynd ati i ddrafftio deddfwriaeth er mwyn ei gwneud yn glir sut i ddefnyddio'r termau “Senedd” a “Welsh Parliament” mewn cyfraith.

121. Bydd canllawiau brandio'r Cynulliad a deunydd sy'n gysylltiedig â newid yr enw yn adlewyrchu'r lle blaenaf a roddir i'r enw “Senedd”, gan ddefnyddio “Welsh Parliament” i ddisgrifio ystyr y term yn Saesneg. Ceir enghraifft o'r dull hwn isod:



122. Rhagwelir y bydd “Welsh Parliament” hefyd yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r enw “Senedd” ar arwyddion a mathau eraill o wybodaeth gyhoeddus i helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn deall ystyr yr enw newydd.

123. Mae'r geiriau “Senedd” a “Parliament” yn cael eu defnyddio'n gyffredin ar hyn o bryd i gyfeirio at Senedd y DU. Mae hyn yn awgrymu y gellid camddehongli'r enw “Senedd” yn Gymraeg fel cyfeiriad at Senedd y DU. Fodd bynnag, gellir nodi bod y term “Prif Weinidog” yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU, ac ni fu'n destun dryswch sylweddol. Hefyd, er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, bydd ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu trefnu i gyd-fynd â deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r enw newydd. Bydd hyn yn gyfle i'r cyhoedd, y cyfryngau, a phobl yn y Cynulliad ei hun ddod yn gyfarwydd â'r enw Senedd, ei

ystyr, a'r gwahaniaeth rhwng "Senedd" a "Senedd y DU" (neu "Senedd San Steffan"). Bydd defnyddio "Senedd Cymru" ochr yn ochr â'r enw "Senedd" o gymorth hefyd i ddeall y gwahaniaeth rhwng y "Senedd" a "Senedd y DU".

124. Mae Tabl 1 isod yn cynnwys enw newydd y Cynulliad, fel y'i cynigir yn y Bil, a hefyd yr holl enwau a theitlau cysylltiedig yn Gymraeg ac yn Saesneg:

Tabl 1 Newidiadau arfaethedig i enwau, teitlau a disgrifiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad

Presennol	Arfaethedig
National Assembly for Wales Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Senedd Senedd
Assembly Member (AM) Aelod Cynulliad (AC)	Member of the Senedd (MS) Aelod o'r Senedd (AS)
Assembly Members (AMs) Aelodau Cynulliad (ACau)	Members of the Senedd (MSs) Aelodau'r Senedd (ASau)
Clerk of the National Assembly for Wales Clerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Clerk of the Senedd Clerc y Senedd
National Assembly for Wales Commission Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Senedd Commission Comisiwn y Senedd
Act of the National Assembly for Wales Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Act of the Senedd Deddf y Senedd
National Assembly for Wales Commissioner for Standards Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Senedd Commissioner for Standards Comisiynydd Safonau y Senedd
National Assembly for Wales Remuneration Board Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Independent Remuneration Board of the Senedd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

125. Wrth gyfeirio at Aelodau'r Cynulliad, mae'r teitlau 'Aelod Cynulliad' ac 'Assembly Member' yn aml yn cael eu talfyrru yn AC ac AM yn y drefn honno (er enghraifft gan yr Aelodau eu hunain, y cyfryngau ac eraill). Un ystyriaeth wrth ailenwi'r Cynulliad yw byrfoddau teitlau newydd ei Aelodau. Byddai "Member of the Senedd" yn cael ei dalfyrru yn MS a byddai "Aelod o'r Senedd" yn cael ei dalfyrru yn "AS". Mae perygl y gallai'r byrfodd AS am Aelod o'r Senedd gael ei ddrysu â'r un byrfodd am Aelod Seneddol, yn enwedig mewn cyd-destunau lle y cyfeirir at aelodau'r ddwy ddeddfwrfa. Felly, byddai angen i berson neu sefydliad sy'n cyfeirio at aelod o'r naill ddeddfwrfa neu'r llall, neu'r ddwy ohonynt, ddod o hyd i ffyrdd i'w gwneud yn glir i'w gynulleidfa at bwy y mae'n cyfeirio. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio'r teitlau llawn "Aelod o'r Senedd" ac "Aelod Seneddol" lle y cyfeirir at aelodau'r ddwy ddeddfwrfa, yn hytrach na byrfoddau'r teitlau hynny, neu esbonio drwy ddulliau eraill at bwy y cyfeirir.

126. Ledled y byd, defnyddir amrywiaeth o enwau gwahanol ar gyfer sefydliadau democrataidd gyda phwerau deddfwriaethol a phwerau i amrywio trethi. Ceir nifer o enghreifftiau yn Atodiad 5.

4.2.2. Pam mae angen deddfwriaeth

127. Cyn penderfynu ei bod yn angenrheidiol deddfu ar y mater hwn, ystyriodd Comisiwn y Cynulliad newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn anffurfiol. Ni fyddai angen deddfu i wneud hynny.

128. Fodd bynnag, mae adran 1 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod y sefydliad i gael ei alw'n "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu'n "National Assembly for Wales".⁵³ Gellid dehongli geiriad adran 1 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn yr ystyr ei fod yn rhwystro'r defnydd o unrhyw enw arall, hyd yn oed yn anffurfiol, er ei bod yn annhebygol y byddai newid enw'r Cynulliad yn anffurfiol yn arwain at her gyfreithiol.

129. Pe bai'r enw'n cael ei newid yn anffurfiol, byddai'r sefydliad yn parhau i gael ei alw'n Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfreithiol. Byddai deddfwriaeth y byddai'r Cynulliad yn ei gwneud yn parhau i fod yn Ddeddfau'r Cynulliad. Byddai deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth y byddai'r Cynulliad neu Senedd y DU yn eu gwneud yn parhau i gyfeirio at y sefydliad fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn yr un modd, byddai dogfennau neu gontractau cyfreithiol yn parhau i gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn yr un modd, byddai enwau cyfreithiol y

⁵³ Adran 1, *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

Comisiynydd Safonau, y Bwrdd Taliadau a Chomisiwn y Cynulliad yn parhau heb eu newid.

130. Mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â newid enw'n anffurfiol heb ei roi ar sail deddfwriaethol. Yn ogystal, byddai'r anghysondeb rhwng yr enwau ffurfiol ac anffurfiol a ddefnyddir ar gyfer y sefydliad yn arwain at ddryswch a risg i'w enw da, gan danseilio rhai o brif amcanion newid yr enw: mynd i'r afael â dryswch y cyhoedd ynghylch rôl y Cynulliad, ac egluro ei fod yn endid arbennig drwy ei rinwedd ei hun, yn hytrach na rhan o Lywodraeth Cymru. Byddai'n anodd esbonio i'r cyhoedd a rhanddeiliaid pam y defnyddid ymadroddion gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol oherwydd y byddai'r dogfennau cyfreithiol, y Rheolau Sefydlog a'r gwaith ffurfiol yn parhau i orfod cyfeirio at y Cynulliad.

131. Daeth y Comisiwn i'r casgliad, pe byddai'r enw yn cael ei newid yn anffurfiol, y byddai'r dryswch a'r diffyg dealltwriaeth am rôl y Cynulliad yn gwaethygu. Daeth y Comisiwn i'r casgliad na fyddai'n ddefnydd da o arian cyhoeddus newid enw'r sefydliad yn anffurfiol. Er mwyn bod yn effeithiol a gweithredu gyda'r urddas a'r eglurder sy'n briodol i brif sefydliad democrataidd Cymru, roedd dull deddfwriaethol yn fwy priodol.

4.2.3. Mynd ati i newid yr enw

132. Mae'r Bil yn nodi y bydd y darpariaethau i newid enw'r Cynulliad yn cychwyn ar 6 Mai 2020.

133. Fodd bynnag, cyn y dyddiad hwn, bydd llawer o waith yn cael ei wneud ar ystâd y Cynulliad i baratoi ar gyfer newid yr enw. Bydd hyn yn cynnwys paratoi:

- newidiadau i'r arwyddion a'r ffitiadau ym Mae Colwyn a Bae Caerdydd;
- ailddylunio templedi mewnol (er enghraifft, templedi adroddiadau pwyllgorau);
- newid cod post y Cynulliad (o CF99 1NA, gan fod y llythrennau "NA" yn cyfeirio at enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Saesneg);
- newid enw parth gwefan y Cynulliad;
- golygu'r cynnwys "haen uwch" ar y wefan (er enghraifft, y dudalen flaen);
- deunydd ysgrifennu yn dwyn yr enw newydd (a gynhyrchir yn fewnol);

-
- golygu'n raddol gyhoeddiadau a "gynhelir"⁵⁴ (gan gynnwys cynhyrchu fformatau BSL, amlieithog a Hawdd eu Darllen).

134. Pan fydd enw'r Cynulliad wedi'i newid yn gyfreithiol:

- bydd yr enw newydd yn cael ei hyrwyddo a chodir ymwybyddiaeth ohono;
- bydd cynnwys gwefan y Cynulliad yn cael ei olygu fwy fyth i adlewyrchu'r newid enw (er enghraifft, ymchwiliadau sydd gan bwyllgorau ar y gweill);
- bydd cyhoeddiadau a "gynhelir" (gan gynnwys cynhyrchu fformatau BSL, amlieithog a Hawdd eu Darllen) yn parhau i gael eu golygu'n raddol;
- caiff yr arwyddion priffyrdd eu newid;
- caiff y cyfeiriadau at y Cynulliad ar wefannau sefydliadau eraill eu golygu.

135. Ni fydd cosb pe bai'r hen enw'n cael ei ddefnyddio ar ôl i'r darpariaethau perthnasol gychwyn.

136. Darllenir contractau cyfreithiol sy'n cyfeirio at y Cynulliad ar hyn o bryd fel rhai sy'n cyfeirio at y Senedd.

137. Bydd y Bwrdd Taliadau yn gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i benderfynu ar unrhyw hyblygrwydd ariannol ychwanegol y bydd ei angen ar Aelodau'r Cynulliad i wneud newidiadau i arwyddion eu swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol, baneri, parthau gwe, deunydd ysgrifennu, ac ati.

138. Mae rhagor o wybodaeth am y modd y bwriedir gweithredu'r ddeddfwriaeth hon yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

4.3. Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

4.3.1. Y cefndir a chyd-destun polisi

139. Fel y nodwyd eisoes, ar hyn o bryd, dim ond pobl 18 oed a throsodd sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r DU. Gall pobl 16 a 17 oed gofrestru i bleidleisio os byddant yn troi'n 18 oed o fewn 12 mis yn dechrau gyda 1 Rhagfyr yn dilyn y cais i gofrestru. Caniatwyd i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn y DU am y tro cyntaf yn y

⁵⁴ Defnyddir y term "a gynhelir" i gyfeirio at ddogfennau sy'n cael eu defnyddio'n barhaus (er enghraifft, arweiniad cyhoeddus i'r Cynulliad), ac nad ydynt yn gyfyngedig o ran amser. Er enghraifft, ni fyddai adroddiad pwyllgor a gyhoeddwyd dan hen enw'r Cynulliad yn cael ei olygu i gyfeirio at enw newydd y Cynulliad.

refferendwm ar annibyniaeth yr Alban, a gynhaliwyd ar 18 Medi 2014. Ers refferendwm yr Alban, mae pobl 16 a 17 oed yn yr Alban hefyd wedi pleidleisio yn etholiadau lleol a seneddol yr Alban. Estynnodd Ynys Manaw yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed yn 2006.

140. Fel y nodwyd eisoes, mae nifer o ddadleuon o blaid galluogi pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cryfhau atebolrwydd democrataidd, drwy alluogi rhan ehangach o'r gymuned i gael rôl uniongyrchol yn etholiadau'r Cynulliad;
- galluogi mwy o ymgysylltiad o ran pleidleisio dros y tymor hwy (ar y sail y gallai profiad cynharach o bleidleisio annog unigolion i barhau i wneud hynny);
- byddai'n anghyson pe na fyddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, pe byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru.

141. Mewn dadl yn y Cynulliad ym mis Mai 2013, pleidleisiodd mwyafrif clir o'r Aelodau o blaid gostwng yr oedran pleidleisio, gyda'r cynnig a dderbyniwyd yn datgan bod y Cynulliad:

“Yn gresynu nad yw oddeutu 77,000 o bobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru yn cael pleidleisio ar hyn o bryd ac yn credu y byddai atebolrwydd democrataidd yn cael ei gryfhau drwy ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol.”⁵⁵

4.3.2. Pam mae angen deddfwriaeth

142. Yn y bôn, nid yw'n bosibl newid yr oedran pleidleisio heb ddeddfwriaeth.

143. Felly, mae'r Bil yn darparu ar gyfer estyn etholfraint y Cynulliad i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed allu cofrestru a phleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

144. Yn ogystal ag estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed, mae angen newidiadau eraill i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r gofrestr etholiadol, y canfasiad blynyddol a diogelu gwybodaeth pobl ifanc.

⁵⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 14 Mai 2013

4.3.3. Y system gofrestru bresennol

145. Er mwyn pleidleisio mewn etholiadau neu refferenda, mae angen i berson cymwys fod ar y gofrestr etholiadol. Mae adran 9 o DCB 1983, fel y'i diwygiwyd, yn datgan fel a ganlyn:

“Each registration officer shall maintain—

(a) a register of parliamentary electors for each constituency or part of a constituency in the area for which he acts; and

(b) a register of local government electors for the local government areas or parts of local government areas included in the area for which he acts.”

146. Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestr o enwau a chyfeiriadau pawb sy'n cael pleidleisio ac wedi cofrestru i wneud (neu a fydd â hawl i bleidleisio'n fuan) a chaiff ei chynnal gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol (SCE) ar gyfer pob prif gyngor.

147. Mae dyletswydd ar SCE i lunio'r gofrestr etholiadol a sicrhau ei bod mor gyfoes â phosibl. Bydd SCE yn anfon Gwahoddiad i Gofrestru at unigolion y byddant yn cael ar ddeall nad ydynt wedi cofrestru i bleidleisio. Ar hyn o bryd, anfonir Ffurflen Ymholiad Aelwyd bob blwyddyn i bob eiddo i gasglu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod unrhyw un sy'n byw yn yr eiddo sy'n gymwys i gael ei gofrestru ar y gofrestr. Mae'n ofyniad cyfreithiol ymateb, a bydd Gwahoddiadau i Gofrestru yn cael eu hanfon at unrhyw un sy'n ymateb i'r broses ganfasio nad yw'n gofrestredig.

148. Yn 2014, newidiodd Llywodraeth y DU o system o gofrestru aelwyd, lle'r oedd pennaeth yr aelwyd yn llenwi ffurflenni cofrestru ar ran holl aelodau pob aelwyd, i system o gofrestru etholiadol unigol (IER). Gyda'r IER, rhaid i unigolyn – wrth gofrestru – roi ei rif yswiriant gwladol, ei ddyddiad geni, ei enw a'i gyfeiriad. Defnyddir rhifau Yswiriant Gwladol ar gyfer cymharu'r data â chofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yna, cânt eu dinistrio gan y SCE (fel y'i cyfarwyddir gan adran 29ZB(3) o *Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001*).⁵⁶

⁵⁶ Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2001/341/contents/made

149. Gellir llenwi ffurflen IER ar-lein drwy system ddigidol Llywodraeth y DU. Mae'r broses gofrestru dreigl yn galluogi unigolion i gofrestru neu ddiweddarau eu manylion ar unrhyw adeg o'r flwyddyn drwy hysbysu'r SCE.

150. Mae dwy fersiwn o'r gofrestr etholiadol; y gofrestr lawn a'r gofrestr olygedig.

151. Mae'r gofrestr lawn (a elwir hefyd y gofrestr gaeëdig) yn cael ei diweddarau'n fisol a'i chyhoeddi unwaith y flwyddyn. Caiff ei defnyddio gan SCE a Swyddogion Canlyniadau at ddibenion sy'n gysylltiedig ag etholiadau a refferenda.

152. Caiff ei defnyddio hefyd gan awdurdodau lleol ar gyfer eu dyletswyddau ym maes diogelwch, gorfodi'r gyfraith ac atal troseddau. Er enghraifft, gellir ei defnyddio i wirio'r hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor, neu fudd-dal tai. Gall yr heddlu hefyd ei defnyddio at ddibenion gorfodi'r gyfraith. Mae'r llysoedd yn defnyddio'r gofrestr i alw pobl ar gyfer gwasanaeth rheithgor. Mae hefyd ar gael i bleidiau gwleidyddol at ddibenion etholiadol.

153. Gall y gofrestr lawn hefyd gael ei gwerthu i adrannau'r llywodraeth i'w helpu gyda'u dyletswyddau (megis atal neu ganfod troseddau). Gall adrannau'r llywodraeth hefyd ei defnyddio ar gyfer gwirio ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr, os oes angen hyn yn ôl y gyfraith.

154. Yn yr un modd, mae gan asiantaethau gwirio credyd hawl i brynu'r fersiwn lawn o'r gofrestr fel bod benthycwyr yn gallu gwirio enwau a chyfeiriadau pobl sy'n gwneud cais am gredyd ac i gadarnhau pwy yw'r bobl hynny er mwyn helpu i atal achosion o wyngalchu arian.

155. Mae'r gofrestr olygedig (a elwir hefyd y gofrestr agored) yn cynnwys yr un wybodaeth â'r gofrestr lawn, ond:

- ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau neu refferenda;
- gall unigolion ddewis a ydynt am gynnwys eu manylion yn y gofrestr olygedig ai peidio.

156. Caiff y gofrestr ei diweddarau a'i chyhoeddi bob mis a gellir ei gwerthu i unrhyw berson, sefydliad neu gwmni at amrywiaeth eang o ddibenion. Mae defnyddwyr y gofrestr fel arfer yn ei defnyddio at ddibenion gwirio enwau a chyfeiriadau. Mae defnyddwyr y gofrestr yn cynnwys busnesau, elusennau, cwmnïau marchnata uniongyrchol a chwmnïau cyfeiriaduron ar-lein.

157. Mae newidiadau wedi'u cynnwys yn y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â'r etholfraint (drwy ostwng yr oedran pleidleisio i 16). Gwneir newidiadau canlyniadol i'r broses gofrestru

mewn perthynas â phleidleiswyr ifanc. Er enghraifft, mae'r Bil yn darparu ar gyfer trefniadau penodol er mwyn gallu canfasio pobl ifanc a diogelu eu gwybodaeth. Mae rhagor o gefndir ar rai o'r prif newidiadau isod ynghyd â nodiadau esboniadol sy'n disgrifio manylion y newidiadau.

4.3.4. Cofrestru a chanfasiad blynyddol

158. Bydd pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael eu hychwanegu at y gofrestr etholwyr llywodraeth leol a bydd pobl ifanc a fydd yn cael eu pen-blwydd yn 16 oed yn ystod y cyfnod y bydd y gofrestr ar waith yn cael cofrestru i bleidleisio fel cyrhaeddwr. Bydd hyn yn cynnwys pobl 15 oed a rhai sy'n 14 oed.

159. Cyflwynir rhagor o newidiadau i baratoi ar gyfer y canfasiad blynyddol a gynhelir yn 2020 fel y gall pobl ifanc gael eu cynnwys yn y broses honno, gan gynnwys:

- dileu'r gofyniad i swyddog cofrestru wneud ymholiadau o dŷ i dŷ mewn perthynas â chofrestru person dan 16 oed;
- peidio ag argraffu dyddiad geni person dan 16 oed;
- sicrhau y rhoddir esboniad ynghylch sut y caiff gwybodaeth pobl ifanc ei chadw a'i defnyddio.

160. Mae'r Bil hefyd yn darparu nad yw'r gosb sifil y gellid ei chymhwyso yn achos etholwr sy'n gwrthod, dro ar ôl tro, ymateb i wahoddiad i gofrestru, yn gymwys i berson dan 16 oed.

4.3.5. Diogelu gwybodaeth am bobl ifanc

161. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer diogelu gwybodaeth am bobl sydd, ar adeg cyhoeddi neu ddatgelu, dan 16 oed (ac eithrio pan fo rhyddhau gwybodaeth o'r fath yn cydymffurfio â gweithgareddau person a amlinellir yn y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*). Mae unrhyw berson sy'n rhyddhau gwybodaeth person ifanc – heblaw yn unol â'r Bil hwn – yn cyflawni trosedd a bydd yn wynebu dirwy os caiff euogfarn ddiannod. Mae hyn yn golygu mai dim ond yn y Llys Ynadon (yn hytrach na Llys y Goron) y gellir erlyn y person ac mai dirwy, nid carchar, yw'r unig gosb.

4.3.6. Cofrestru'n ddienw

162. Mewn rhai amgylchiadau, bydd unigolyn am gofrestru'n ddienw i bleidleisio.

163. Mae *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (OS 2001/341)* eisoes yn cynnwys rhestr sy'n nodi'r amgylchiadau pan gaiff person gofrestru'n ddiennw i bleidleisio. Mae'r Bil yn newid y rhestr hon, i ganiatáu i berson a awdurdoddir gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru lofnodi i ardystio y byddai diogelwch yr ymgeisydd (neu berson arall a enwir yn aelwyd yr ymgeisydd) mewn perygl pe byddai'r gofrestr yn cynnwys yr enw neu gyfeiriad cymhwysol yr ymgeisydd.

4.3.7. Datganiad o gysylltiad lleol

164. Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r term am blant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol (ac sydd hefyd yn rhoi llety iddynt o bosibl). Mae'n bosibl y bydd y grŵp hwn o bobl ifanc yn llai sefydlog o ran preswylfa ac mae'n bosibl y bydd rhai'n symud rhwng lleoliadau yng Nghymru (a Lloegr hefyd).

165. O'r herwydd, mae'r Bil yn galluogi'r bobl ifanc hyn⁵⁷ i gofrestru i bleidleisio mewn ardal o Gymru lle y mae ganddynt gysylltiad lleol. Yn ymarferol, ni fydd angen i bobl ifanc o'r fath ddangos "prawf" o gysylltiad lleol pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru i bleidleisio, er y caiff SCE ofyn am ragor o wybodaeth (er enghraifft, gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am eu gofal).

166. Felly, mae'r Bil yn diwygio *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (OS 2001/341)* sy'n caniatáu i unigolion wneud datganiad o gysylltiad lleol, i ganiatáu i bobl dan 18 oed a'r rhai sy'n derbyn gofal wneud datganiad o gysylltiad lleol.

167. Bydd hyn yn golygu y bydd pobl ifanc sy'n derbyn gofal "y tu allan i'r sir" yn cael cofrestru i bleidleisio yn yr ardal lle y mae ganddynt y cysylltiadau cryfaf.

4.3.8. Datganiadau o wasanaeth

168. Mae hawl gan unigolion sydd â "chymhwyster gwasanaeth" (aelodau o'r lluoedd arfog, neu unigolion eraill a gyflogir yng ngwasanaeth y Goron neu'r Cyngor Prydeinig mewn swydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig) i gael eu cofrestru fel etholwyr sydd wedi'u lleoli dramor.

169. Mae'r Bil yn darparu y gellir ystyried unigolion dan 18 oed ar gyfer cymhwyster gwasanaeth.

⁵⁷ Un eithriad i hyn yw plant sy'n derbyn gofal na chânt bleidleisio am reswm arall - er enghraifft, oherwydd eu bod yn ddinasyddion nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, neu sydd yn y carchar.

170. Mae'r Bil hefyd yn darparu y gellir dyfarnu cymhwyster gwasanaeth i berson ifanc ar y sail ei fod yn byw gyda'i rieni/warcheidwaid sydd â chymhwyster gwasanaeth eu hunain. Yn achos person ifanc y dyfernir datganiad o wasanaeth iddo ar y sail honno, bydd y datganiad o wasanaeth yn dod i ben pan fydd yr unigolyn yn 18 oed. At ddibenion etholiadol, bydd yr unigolyn yn cael ei drin yn yr un modd â gwladolion eraill y DU sy'n byw mewn gwlad arall.

4.3.9. Pleidleisio drwy ddirprwy

171. Dan rai amgylchiadau, caiff unigolyn wneud cais i ganiatáu i rywun arall fod yn ddirprwy iddo, h.y. pleidleisio ar ei ran.

172. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed fod yn ddirprwyon, gan adlewyrchu, os oes gan bobl 16 a 17 oed hawl i bleidleisio, y dylent, felly, allu bod yn ddirprwyon hefyd.

4.3.10. Diffiniad dinasyddion cymhwysol y Gymanwlad

173. Mae diffiniadau cyfreithiol gwahanol o "ddinasyddion cymhwysol y Gymanwlad" mewn deddfwriaeth ar etholiadau. Mae *DCB 1983* yn darparu'r diffiniad a ganlyn at ddiben pleidleisio mewn etholiadau i Dŷ'r Cyffredin:

"qualifying Commonwealth citizen" means a Commonwealth citizen who either–

(a) is not a person who requires leave under the Immigration Act 1971 to enter or remain in the United Kingdom, or

(b) is such a person but for the time being has (or is, by virtue of any enactment, to be treated as having) any description of such leave; (section 4(6) of the Act)⁵⁸

174. Mae *Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006* yn darparu'r diffiniad a ganlyn at ddiben bod yn ymgeisydd i Dŷ'r Cyffredin (sydd hefyd yn gymwys i etholiadau'r Cynulliad):

"...a person is a qualifying Commonwealth citizen if he is a Commonwealth citizen who either–

(a) is not a person who requires leave under the Immigration Act 1971 (c. 77) to enter or remain in the United Kingdom, or

⁵⁸ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, adran 4(6)

(b) is such a person but for the time being has (or is, by virtue of any enactment, to be treated as having) indefinite leave to remain within the meaning of that Act.”⁵⁹

175. Mabwysiadodd *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007* yr olaf o'r uchod, a'r mwyaf cyfyngol o'r ddau ddiffiniad hyn o ddinesydd cymhwysol y Gymanwlad at ddiben pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Mae'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn diwygio Gorchymyn 2007 i adlewyrchu'r diffiniad llai cyfyngol o ddinasyddion cymhwysol y Gymanwlad a gynhwyswyd yn *DCB 1983*. Effaith hyn fydd caniatáu i holl ddinasyddion y Gymanwlad sydd â chaniatâd i aros yn y DU bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ni waeth am ba hyd y mae ganddynt ganiatâd i aros.

4.3.11. Gweithredu

176. Bydd yr holl ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn cychwyn pan gaiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, mae'r Bil yn pennu y byddant yn cael effaith at ddibenion etholiad y Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.

4.4. Anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad

4.4.1. Y cefndir a chyd-destun polisi

177. Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu ym 1999, mae personau penodol wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad ar sail eu hamgylchiadau personol, er enghraifft, oherwydd eu bod yn dal swydd benodol neu oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau penodol. Cynhwyswyd darpariaethau i anghymhwysu personau penodol rhag bod yn Aelod Cynulliad yn *Neddf Llywodraeth Cymru 1998* a sefydlodd y Cynulliad.

178. Diddymodd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* y darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n cynnwys darpariaethau newydd sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad yn adrannau 16 i 19. Mae darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwysu hefyd wedi'u cynnwys yng *Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007* a *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015*.

179. Yn 2011, cafodd dau Aelod etholedig o Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu hanghymhwysu ar ôl iddi ddod i'r amlwg eu bod yn aelodau o gyrff cyhoeddus nad oedd hawl i Aelodau'r Cynulliad berthyn iddynt. Cychwynnodd y

⁵⁹ *Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006*, adran 18

digwyddiadau hyn ddadl am y rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwysu Aelodau. Yn 2014, gofynnodd y Prif Weinidog i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol (y Pwyllgor) gynnal ymchwiliad i'r rheolau ynghylch anghymhwysu Aelodau.

180. Roedd adroddiad⁶⁰ y Pwyllgor yn cynnwys 21 o argymhellion ar gyfer newid. Roedd rhai o'r argymhellion yn cynnig newid y gyfraith ynghylch anghymhwysu, gan gynnwys darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* a *Gorchymyn 2007*. Roedd yr argymhellion hefyd yn ymwneud â *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu)* i'w wneud gan Weinidogion Cymru (a wnaed wedi hynny yn 2015). Pan gyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, nid oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud newidiadau i nifer o'r darpariaethau perthnasol. Felly, roedd argymhellion y Pwyllgor wedi'u hanelu at Lywodraeth y DU yn bennaf. Yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad gan *Ddeddf Cymru 2017*, mae bellach o fewn cymhwysedd y Cynulliad i wneud y newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor i'r gyfraith ar anghymhwysu.

181. Ym mis Ionawr 2018, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghori ar newidiadau i'w drefniadau etholiadol a gweithredol, gan gynnwys y newidiadau i'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwysu a argymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. O'r 510 o ymatebion a gafwyd ar y mater hwn:

- roedd 34 y cant (180) yn cytuno y dylai'r ddeddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion y Pwyllgor;
- roedd 13 y cant (70) o'r ymatebion yn anghytuno;⁶¹
- nid oedd gweddill yr ymatebion yn cytuno nac yn anghytuno'n glir â'r cwestiwn a ofynnwyd.

182. Yn dilyn hynny, penderfynodd y Comisiwn y byddai'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn cynnwys darpariaethau i weithredu argymhellion y pwyllgor perthnasol ar anghymhwysu (h.y. y rhai sy'n ymwneud â newid y gyfraith).

⁶⁰ Ymchwiliad i anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2014

⁶¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Creu senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad, Hydref 2018*, t.59

183. Ceir crynodeb o'r dadansoddiad o arferion anghymhwysu mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU a'r Dáil Éireann yn Atodiad 6.

4.4.2. Pam mae angen deddfwriaeth

184. Dim ond drwy newid y gyfraith ar anghymhwysu y gellir gweithredu argymhellion y Pwyllgor. Mae *Deddf Cymru 2017* yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud y newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwysu a argymhellwyd gan y Pwyllgor.

185. Yn benodol, diben y newidiadau yw:

- newid y pwynt lle y mae mwyafrif yr anghymwysiadau rhag bod yn Aelod Cynulliad yn dod i rym o'r adeg yr enwebir person yn ymgeisydd, i'r adeg pan fo Aelodau a gaiff eu dychwelyd mewn etholiad Cynulliad yn tyngu'r llw neu'n cadarnhau teyrngarwch;
- nodi pob anghymwysiad rhag bod yn Aelod Cynulliad yn llawn mewn deddfwriaeth;
- sefydlu fframwaith deddfwriaethol mwy cydlynol ar anghymhwysu;
- newid y ffordd y mae deddfwriaeth yn ymdrin ag anghymhwysu'r Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er mwyn iddynt gael eu trin ar yr un sail â swyddi eraill a benodir yn gyhoeddus yng Nghymru;
- anghymhwysu Arglwydd Raglawiaid, Rhaglawiaid ac Uchel-Siryfion ar gyfer ardaloedd o Gymru rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad;
- anghymhwysu Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad.

186. Ystyrir effaith pob un o'r newidiadau hyn yn eu tro yn yr is-benodau isod.

4.4.2.1. Newid y pwynt pan fo'r rhan fwyaf o anghymwysiadau rhag bod yn Aelod Cynulliad yn dod i rym o'r adeg yr enwebir person yn ymgeisydd, i'r adeg pan fo Aelodau a ddychwelir mewn etholiad Cynulliad yn tyngu'r llw neu'n cadarnhau teyrngarwch

187. Ar hyn o bryd, mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn nodi'r anghymwysiadau rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad (h.y. gwaharddiadau rhag derbyn sedd yn y Cynulliad). Fodd bynnag, mae *Gorchymyn 2007* yn rhagflaenu'r darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* drwy ei gwneud yn ofynnol i'r

rhai sy'n sefyll etholiad i'r Cynulliad ddatgan, wrth dderbyn enwebiad i sefyll, eu bod yn gwybod am y darpariaethau anghymhwysu yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, ac nad ydynt wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad. Oni fydd person yn datgan nad yw wedi'i anghymhwysu, ni fyddai'n cael ei ystyried yn enwebai dilys ac, felly, ni fyddai'n cael sefyll etholiad. Mae *Gorchymyn 2007*, yn y bôn, yn gwahardd person sydd wedi'i anghymhwysu rhag **sefyll etholiad** i'r Cynulliad, ac mae'r anghymwysiadau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* yn waharddiadau rhag **gwasanaethu** yn y Cynulliad.

188. Pe na byddai'r darpariaethau yng *Ngorchymyn 2007* yn bod, byddai hawl gan berson sefyll etholiad i'r Cynulliad, cael ei ethol, ac yna ymddiswyddo o swydd sy'n ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad cyn tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch. Dywedodd y Pwyllgor y byddai hyn o fudd i ddemocratiaeth yng Nghymru oherwydd y byddai mwy o bobl yn fodlon sefyll etholiad i'r Cynulliad am na fyddai risg iddynt golli gwaith oni fyddent yn cael eu hethol.

189. Er mwyn gweithredu argymhelliad y Pwyllgor, mae'r Bil yn sefydlu dau gategori penodol o anghymwysiadau ac yn darparu:

- bod un yn dod i rym pan gaiff person ei enwebu (h.y. anghymwysiadau rhag sefyll mewn etholiad Cynulliad);
- bod y llall yn dod i rym wrth dyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch (h.y. anghymwysiadau rhag bod yn Aelod Cynulliad).

190. Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, yn y categori olaf y bydd mwyafrif yr anghymwysiadau, a bydd nifer gyfyngedig o anghymwysiadau'n gymwys adeg enwebu lle y byddai bod yn ymgeisydd yn achosi gwrthdaro buddiannau neu'n ymddangos fel arwydd o danseilio didueddrwydd. Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, bydd yr ymyriadau deddfwriaethol a amlinellir uchod, yn galluogi person sydd â swydd sy'n anghymhwysu i sefyll etholiad i'r Cynulliad heb orfod rhoi'r gorau i'r swydd honno, ac eithrio'r nifer gyfyngedig o swyddi a fydd yn parhau i anghymhwysu person rhag sefyll etholiad. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl i sefyll etholiad i'r Cynulliad.

191. Mae'r Bil yn diwygio *Gorchymyn 2007* drwy ddisodli'r gofyniad ar ymgeiswyr yn etholiad y Cynulliad i ddatgan nad ydynt wedi eu hanghymhwysu rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad gyda gofyniad i ddatgan nad ydynt wedi'u hanghymhwysu rhag sefyll etholiad. Bydd hyn yn sicrhau nad yw *Gorchymyn 2007* yn parhau i danseilio darpariaethau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* ar anghymhwysu fel y nodwyd gan y Pwyllgor.

4.4.2.2. Pennu'r holl anghymwysiadau rhag bod yn Aelod Cynulliad yn llawn mewn deddfwriaeth

192. Ar hyn o bryd, mae rhai anghymwysiadau wedi'u pennu yn adran 16 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth arall. Er enghraifft, mae adran 16(2) o *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn anghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad unrhyw berson sydd wedi'i anghymhwysu rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin yn rhinwedd *Deddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975*. Nid yw adran 16(2) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn pennu pwy yw'r personau hynny.

193. Argymhellodd y Pwyllgor fod yr holl anghymwysiadau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cael eu pennu'n llawn yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddeddfwriaeth arall, er mwyn rhoi eglurder i ymgeiswyr posibl a'u hasiantau.

194. Mae'r Bil yn rhoi effaith i'r argymhelliad hwn drwy nodi'r holl anghymwysiadau'n llawn, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ddeddfwriaeth arall. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder (ar gyfer ymgeiswyr, y rhai sy'n rhoi cyngor i ymgeiswyr, a'r cyhoedd ehangach) ar yr holl anghymwysiadau rhag bod yn Aelod Cynulliad, gan leihau'r risg o ddiffyg ymwybyddiaeth am anghymwysiadau ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt fod yn gyfarwydd â hwy.

4.4.2.3. Sefydlu fframwaith deddfwriaethol mwy cydlynol ar anghymhwysu

195. Ar hyn o bryd, mae'r anghymwysiadau yn adran 16 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cynnwys rhai swyddi a hefyd anghymwysiadau sy'n seiliedig ar amgylchiadau personol unigolyn (e.e. methdaliad). Bydd swyddi eraill sy'n anghymhwysu'n cael eu pennu mewn gorchmynion anghymhwysu i'w gwneud gan Weinidogion Cymru cyn etholiadau'r Cynulliad.

196. Argymhellodd y Pwyllgor newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol hwn. Argymhellodd y dylai swyddi sy'n anghymhwysu gael eu pennu mewn gorchmynion anghymhwysu, a'u rhannu'n ddau gategori yn seiliedig ar yr adeg y daw'r anghymwysiadau i rym (h.y. bod anghymwysiadau categori 1 yn dod i rym ar ôl enwebiad fel ymgeisydd, a bod categori 2 yn dod i rym ar ôl tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch). Yn gyffredinol, bydd y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn dilyn y fframwaith a argymhellwyd gan y Pwyllgor, heblaw y bydd swyddi sy'n gwahardd person rhag sefyll etholiad (h.y. y rhai y mae'r Pwyllgor wedi'u rhoi yng nghategori 1) yn cael eu pennu mewn atodlen anghymhwysu newydd i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn hytrach nag mewn gorchmynion anghymhwysu. Bydd darpariaethau newydd yn cael eu mewnosod yn adran 16 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* gan gyfeirio at yr atodlen newydd.

197. Bydd y pŵer i wneud gorchmynion anghymhwysu yn adran 16 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cael ei ddargadw, gan alluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion anghymhwysu cyn etholiadau'r Cynulliad yn pennu swyddi y bydd gan eu deiliaid hawl i sefyll etholiad ond nid gwasanaethu yn y Cynulliad (h.y. anghymwysiaid categori 2 yn ôl adroddiad y Pwyllgor). Mae'r fframwaith hwn yn tynnu llinell gliriach rhwng swyddi sy'n anghymhwysu ar sail yr adeg y maent yn dod i rym, a bydd angen i ymgeiswyr ac eraill ddeall y gwahaniaeth hwn. Credir, hefyd, y bydd rhestru'r swyddi sy'n anghymhwysu person ar adeg ei enwebu ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol (h.y. yn yr atodlen newydd), yn tynnu sylw at eu harwyddocâd i bobl sy'n ystyried sefyll etholiad.

198. Bydd rhai swyddi, sydd wedi'u pennu yng *Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015 (Gorchymyn 2015)* ar hyn o bryd, yn cael eu cynnwys yn yr atodlen newydd i'r Bil fel anghymwysiaid rhag sefyll etholiad i'r Cynulliad. Er enghraifft, maent yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Er mwyn ei gwneud yn gwbl glir pryd y daw anghymwysiaid o'r fath i rym, mae'r Bil yn dileu'r cyfeiriadau atynt o *Orchymyn 2015*.

4.4.2.4. Newid y ffordd y mae deddfwriaeth yn ymdrin ag anghymhwysu'r Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er mwyn iddynt gael eu trin ar yr un sail â swyddi eraill a benodir yn gyhoeddus yng Nghymru

199. Ar hyn o bryd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn swyddi sy'n anghymhwysu fel y nodir yn adran 16 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid dileu'r cyfeiriadau at y ddwy swydd hyn o adran 16 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a'u cynnwys mewn gorchymyn anghymhwysu ochr yn ochr â swyddi cyhoeddus eraill sy'n anghymhwysu person rhag sefyll etholiad i'r Cynulliad.

200. Mae'r Bil yn rhoi effaith i'r argymhelliad hwn. Yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar anghymhwysu a nodir uchod, bydd cyfeiriadau at y ddwy swydd hyn yn cael eu cynnwys mewn atodlen newydd i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n rhestru'r holl swyddi y bydd eu dal yn anghymhwysu person rhag sefyll etholiad.

4.4.2.5. Anghymhwysu Arglwydd Raglawiaid, Rhaglawiaid ac Uchel-Siryfion rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad

201. Ar hyn o bryd, mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod person sy'n dal swydd fel Arglwydd Raglaw, Rhaglaw neu Uchel-Siryf unrhyw ardal yng

Nghymru wedi'i anghymhwysu rhag cynrychioli etholaeth neu ranbarth sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl yn yr ardal honno. Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor, mae'r Bil yn gwneud newidiadau i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* er mwyn sicrhau bod person sy'n dal swydd fel Arglwydd Raglaw, Rhaglaw neu Uchel-Siryf yn cael ei anghymhwysu rhag cynrychioli unrhyw etholaeth neu ranbarth yn y Cynulliad. Mae person sy'n dal swydd Arglwydd Raglaw, Rhaglaw neu Uchel-Siryf yn anghymhwys rhag bod yn Aelod Cynulliad oherwydd y gwrthdaro buddiannau rhwng dal swydd o'r fath a gwasanaethu fel Aelod Cynulliad. Gallai'r gwrthdaro buddiannau hwn godi ni waeth lle y mae'r ardal a gynrychiolir yn y Cynulliad gan yr Arglwydd Raglaw, y Rhaglaw neu'r Uchel-Siryf. Bydd anghymhwysu Arglwydd Raglawiaid, Rhaglawiaid ac Uchel-Siryfion yn dod i rym wrth enwebu ymgeisydd mewn etholiad Cynulliad. Penodiadau gan y frenhiniaeth yw'r rhain, nid swyddi y gellir eu gadael i wasanaethu yn y Cynulliad. Felly, mae'n briodol bod yr anghymhwysiad yn dod i rym yn ystod y cyfnod enwebu.

4.4.2.6. Anghymhwysu Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi

202. Ar hyn o bryd, nid oes cyfyngiadau cyfreithiol ar fod yn Aelod o Dŷ'r Arglwyddi ac yn Aelod Cynulliad ar yr un pryd. Yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor, mae'r Bil yn anghymhwysu aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag gwasanaethu yn y Cynulliad. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad hwn ar y sail y gallai craffu ar bolisi sy'n ymwneud â'r un maes yn y Cynulliad a Thŷ'r Arglwyddi arwain at wrthdaro buddiannau.

203. Bydd yr anghymhwysiad hwn yn dod i rym o'r adeg pan fydd aelod o Dŷ'r Arglwyddi a etholir i'r Cynulliad yn tyngu'r llw neu'n cadarnhau teyrngarwch yn y Cynulliad, oherwydd mai dim ond o hyn ymlaen y gallai'r gwrthdaro buddiannau a oedd yn destun pryder i'r Pwyllgor godi.

204. Mae'r Bil yn darparu eithriad o'r anghymhwysiad hwn ar gyfer aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd wedi cael caniatâd i fod yn absennol o'r Tŷ. Bydd hyn yn gymwys i arglwyddi sydd wedi gwneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi ac sydd wedi rhoi copi o'r cais hwnnw i Glerc y Cynulliad. Nid oes rheswm da dros beidio â chaniatáu i aelodau o Dŷ'r Arglwyddi wasanaethu yn y Cynulliad yn ystod cyfnod o absenoldeb o Dŷ'r Arglwyddi, a bernir y byddai gwneud hynny yn cyfyngu'n ddianghenraid ar y sgiliau a'r profiad sydd ar gael i'r Cynulliad.

205. Mae'r Bil yn darparu cyfnod gras wyth diwrnod i aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a gaiff eu hethol i'r Cynulliad wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol, cyn iddynt gael eu hanghymhwysu rhag derbyn eu sedd yn y Cynulliad. Bydd y cyfnod gras hwn yn cychwyn ar y dyddiad pan gaiff yr Aelod ei ddychwelyd ar ôl etholiad. Mae'r broses ar gyfer gwneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi

yn syml ac yn hwylus ac mae wyth diwrnod yn ddigon i gwblhau'r broses ymgeisio.

206. Mae'r Bil hefyd yn darparu cyfnod gras wyth diwrnod i wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol yn achos Aelod Cynulliad a gaiff ei urddo yn ystod tymor y Cynulliad ac sydd am barhau i wasanaethu yn y Cynulliad. Mae'r Bil yn pennu y bydd y cyfnod wyth diwrnod hwn yn cychwyn pan gaiff yr Aelod a urddwyd ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi (h.y. yr adeg y byddai gan yr Aelod hawl i gymryd rhan ym musnes ffurfiol Tŷ'r Arglwyddi). Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r ddau sefydliad sydd am wasanaethu yn y Cynulliad roi copi o'u cais am ganiatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi i Glerc y Cynulliad.

207. Roedd y Pwyllgor o'r farn na ddylai'r darpariaethau sy'n anghymhwysu aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad fod yn gymwys i unrhyw un sydd eisoes yn gwasanaethu'r ddau sefydliad, ond ni chynigiodd drefniadau trosiannol penodol ar gyfer hyn. Yn unol â hynny, mae'r Bil yn pennu mai dim ond at ddibenion etholiad Cynulliad a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny (h.y. dyddiad cynharaf etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad ac wedi hynny) y daw ei ddarpariaethau ar anghymhwysu i rym. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y darpariaethau yn y Bil yn cael effaith yn ystod y Cynulliad hwn ar Aelodau Cynulliad presennol sydd wedi cael eu hurddo nac Aelodau Cynulliad eraill a gaiff eu hurddo yn ystod y Cynulliad hwn.

4.4.3. Gweithredu

208. Bydd yr holl ddarpariaethau ar anghymhwysu'n cychwyn pan gaiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol ond byddant yn cael effaith at ddibenion etholiad Cynulliad a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny (h.y. dyddiad cynharaf etholiad cyffredinol arferol nesaf y Cynulliad ac wedi hynny). Bydd hyn yn sicrhau bod darpariaethau'r Bil ar anghymhwysu yn cael effaith ar yr un pryd â'r darpariaethau ar gyfer unrhyw orchymyn anghymhwysu a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 16(5) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* cyn etholiad nesaf y Cynulliad.

209. Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau canlyniadol i *Orchymyn 2007*. Ar hyn o bryd, yn ôl rheol 9(4)(c)(ii) o *Orchymyn 2007*, rhaid i ymgeiswyr mewn etholiad Cynulliad ddatgan wrth gael eu henwebu nad ydynt wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad. Mae'r Bil yn disodli'r gofyniad hwn gyda gofyniad i ymgeiswyr ddatgan nad ydynt wedi'u hanghymhwysu rhag sefyll etholiad i'r Cynulliad. Bydd hyn yn sicrhau bod personau sydd wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad ond nid rhag sefyll etholiad yn gallu bwrw ymlaen â'u cais. Yna, er mwyn derbyn eu sedd, byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i'r swydd sy'n

eu hanghymhwysu dim ond pe baent yn cael eu dychwelyd yn llwyddiannus fel Aelod Cynulliad.

210. Bydd angen i'r newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwysu a gyflwynir gan y Bil gael eu hategu gan ganllawiau gan gyrrff perthnasol. Mae canllawiau sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad yn cael eu darparu'n rheolaidd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'n bosibl y byddai angen i Gomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cymru a Thŷ'r Arglwyddi hefyd ddarparu canllawiau yn ôl yr angen. Rhoddir cyfrif am gostau tebygol gweithgarwch o'r fath yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y ddogfen hon.

4.4.4. Y diffiniad o ddinasyddion cymhwysol y Gymanwlad

211. Yn adran 4.3.10, trafodir y diffiniadau cyfreithiol gwahanol o ddinasyddion cymhwysol y Gymanwlad o ran yr hawl i bleidleisio. At ddibenion y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag anghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad, caiff y diffiniad mwy cyfyng o ddinasyddion cymhwysol y Gymanwlad a geir yn *Neddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006* ei gymhwysu (gweler Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Bil). Bydd hyn yn golygu na chaiff dinasyddion cymhwysol y Gymanwlad fod yn Aelodau'r Cynulliad oni bai eu bod wedi cael caniatâd amhenodol i aros yn y DU. Diben hyn yw osgoi amgylchiadau lle mae'n rhaid i ddinasyddion cymhwysol y Gymanwlad a etholir i'r Cynulliad roi'r gorau i'w seddau oherwydd bod eu caniatâd i aros yn y DU wedi dod i ben a, thrwy hynny, achosi is-etholiad yn achos Aelodau etholaethol neu enwebu rhywun arall o'r rhestr yn achos seddau rhanbarthol.

4.5. Yr angen am ddyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig

4.5.1. Y cefndir a chyd-destun polisi

212. Darparodd *Deddf Cymru 2017* ar gyfer mwy o ddatganoli cyfrifoldebau dros gynnal a gweinyddu etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

213. Felly, mae'n bosibl ei bod yn briodol i'r Comisiwn Etholiadol, fel rheoleiddiwr etholiadau, gael ei ariannu gan y Cynulliad am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru a bod yn atebol i'r Cynulliad am waith o'r fath. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig, gyda'r

bwriad o wneud argymhellion ar gyfer diwygio'r trefniadau hynny. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i argymhellion sy'n berthnasol iddo drwy osod adroddiad gerbron y Senedd.

4.5.2. Pam mae angen deddfwriaeth

214. Gellir dadlau y byddai'n anghydnaws i'r Cynulliad fod â chyfrifoldeb sylweddol a chynyddol am etholiadau datganoledig Cymru heb fod â rôl hefyd o ran penderfynu sut y caiff yr etholiadau hynny eu rheoleiddio.

215. Gan fod y Cynulliad bellach yn gallu deddfu ar sut y caiff etholiadau datganoledig Cymru eu cynnal, efallai y bydd am ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau ar gyfer cynnal yr etholiadau hynny'n ystyried cyd-destun cymdeithasol, economaidd a diwylliannol penodol Cymru.

216. Mae'r ffordd y caiff etholiadau eu rheoleiddio'n allweddol i weithredu'n effeithiol newidiadau y mae'r Cynulliad am eu gwneud i'r ffordd y cynhelir etholiadau. Yn unol â hynny, mae *Deddf Cymru 2017* yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu o ran trefniadau ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol, a hefyd o ran yr etholiadau eu hunain. Fel y nodir ym mhennod 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, mae *Deddf Cymru 2017* yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu ar swyddogaethau awdurdodau penodol a gedwir yn ôl,⁶² yng nghyd-destun meysydd datganoledig, lle nad oes angen cydsyniad gweinidogol.

217. Mae'r amryfal etholiadau a gynhelir yng Nghymru yn wahanol o ran eu hetholfreintiau a'u systemau etholiadol. Er enghraifft, bydd y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn caniatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ond nid yn etholiadau Senedd y DU. Felly, mae'n briodol bod y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol yn cael eu hadolygu mewn cyd-destun datganoledig.

218. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynulliad lawer o rym i adolygu neu newid y modd y caiff etholiadau datganoledig Cymru eu rheoleiddio. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu gan Senedd y DU ac mae'n atebol iddi.

219. Mae datganoli cyfrifoldebau a phwerau sylweddol yn ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru yn golygu bod angen perthynas newydd rhwng y

⁶² Diffinnir awdurdod a gedwir yn ôl yn *Neddf Cymru 2017* (Atodlen 2, adran 8(3)) fel Gweinidog y Goron neu adrannau'r llywodraeth, neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall ar wahân i awdurdod datganoledig yng Nghymru. Diffinnir awdurdodau datganoledig yng Nghymru yn adran 4 o *Ddeddf Cymru 2017*.

Cynulliad a rheoleiddiwr yr etholiadau hynny er mwyn sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal a'u rheoleiddio yn unol â blaenoriaethau penodol Cymru.

220. Er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r mater hwn, ac y ceir eglurder o ran sut y bydd y Comisiwn Etholiadol yn ymwneud â'r Cynulliad yn y dyfodol, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau Cymru a refferenda datganoledig. Byddai sicrhau bod y Cynulliad yn ystyried trefniadau o'r fath yn gyfle i ystyried materion allweddol megis:

- cost rheoleiddio etholiadau a refferenda datganoledig Cymru;
- cyllido costau o'r fath gan y Cynulliad;
- sut y byddai'r arian sy'n ofynnol i dalu costau o'r fath yn cael ei drosglwyddo o San Steffan i'r Cynulliad;
- y trefniadau i alluogi'r Cynulliad i ddwyn y Comisiwn Etholiadol i gyfrif am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru;
- sut y byddai trefniadau craffu o'r fath yn gweithio ochr yn ochr â gwaith craffu Senedd y DU ar y Comisiwn Etholiadol.

221. Gallai gwaith o'r fath fod yn gyfle i gynnal rhagor o ddeialog â rhanddeiliaid ar sut y gallai'r trefniadau newydd weithio'n ymarferol.

222. Gellid dadlau y gallai'r Cynulliad ddewis ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol heb orfod gwneud hynny drwy ddeddfwriaeth. Mae pwyllgorau Cynulliaid blaenorol wedi archwilio materion yn ymwneud ag etholiadau o'r blaen, ar adeg pan nad oedd y cyfrifoldeb am etholiadau wedi'i ddatganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae datganoli cyfrifoldebau o'r fath yn golygu bod angen perthynas newydd rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol a bernir ei bod yn briodol deddfu i ysgogi'r broses honno.

223. Nid yw'r Bil yn pennu sut y dylai'r Cynulliad ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol. Er ei bod yn briodol bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ystyried sut y dylai swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol weithredu mewn perthynas â Chymru, nid ystyrir ei bod yn briodol pennu sut y dylid gwneud hyn. Yn hytrach, mae'r Bil yn pennu y caiff y Senedd wneud darpariaeth o fewn ei Rheolau Sefydlog ar sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd. Mae'r Bil yn darparu y caiff unrhyw ddarpariaethau o'r fath a wneir o fewn y Rheolau Sefydlog ddirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, i bwyllgor neu i is-bwyllgor o'r Cynulliad.

224. Nid yw'r Bil yn pennu unrhyw ofynion na chyfyngiadau ynghylch pa mor aml y dylai'r Cynulliad ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol. Gall pa mor aml yr arferir y ddyletswydd hon ddibynnu ar ddigwyddiadau etholiadol yng Nghymru, boed yn etholiadau cyffredinol arferol neu eithriadol, ac ar unrhyw angen a ganfuwyd i newid trefniadau'r Comisiwn Etholiadol yn sgil rheoleiddio digwyddiadau o'r fath. Diben cynnwys y ddyletswydd yn y Bil yw sicrhau ei bod yn cael ei harfer, nid pa mor aml y caiff ei harfer.

225. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i unrhyw argymhellion a wneir iddo, ar ôl i'r Cynulliad ystyried trefniadau ariannol a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol. Ni ragwelir y bydd yn rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i argymhellion y Cynulliad gyda'r fath amllder fel bod hynny'n achosi pwysau afresymol ar adnoddau'r Comisiwn Etholiadol. Er eglurder, dim ond ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i argymhellion o'r fath y mae'r Bil; nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol, o reidrwydd, dderbyn a gweithredu argymhellion o'r fath.

226. Fel y nodwyd o'r blaen, nid yw'r Bil yn pennu pa mor aml y dylai'r Cynulliad ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol, oherwydd y byddai hynny, drwy gysylltiad, yn pennu'r amllder y byddai'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i argymhellion. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai'r amllder y byddai'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i argymhellion yn feichus, yn enwedig gan fod gan y Comisiwn Etholiadol brofiad o gyflwyno adroddiadau i Senedd y DU eisoes.

227. Ystyrir bod y risg na fydd y Cynulliad neu'r Comisiwn Etholiadol yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnynt gan y Bil yn eithriadol o isel.

4.5.3. Gweithredu

228. Mae adran 27 o'r Bil sy'n gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau Cymru, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i argymhellion a wneir gan y Cynulliad, yn cychwyn pan gaiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.

4.6. Gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli'r gyfraith etholiadol

4.6.1. Y cefndir a chyd-destun polisi

229. Deilliodd prosiect diwygio'r gyfraith etholiadol o Unfed Raglen Diwygio'r Gyfraith ar Ddeg Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr.⁶³ Mae ei gwmpas, a bennwyd yn 2012, yn estyn i gyfraith gweinyddiaeth etholiadol, troseddau a heriau cyfreithiol. Nid yw'n cynnwys diwygio'r etholfraint, systemau pleidleisio, ffiniau etholiadol, ymgyrch genedlaethol, pleidiau gwleidyddol a rheoleiddio darlledu, a newid sylfaenol i sefydliadau.

230. Ym mis Rhagfyr 2014, lansiodd Comisiwn y Gyfraith ymgyngoriad ar gynigion i ddiwygio'r gyfraith etholiadol. Ymgysylltodd â rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ac aeth i ddigwyddiadau i drafod ei gynigion. Cafwyd 74 o ymatebion gan ystod o ymgyngoreion, gan gynnwys gweinyddwyr etholiadol, academyddion, pleidiau gwleidyddol a sefydliadau'r trydydd sector.

231. Yn dilyn yr ymgyngoriad hwn, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad interim ym mis Chwefror 2016 yn nodi ei gynigion ar gyfer diwygio'r gyfraith etholiadol.⁶⁴ Nod yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad interim yw symleiddio'r trefniadau gweinyddol sy'n ymwneud ag etholiadau a safoni'r trefniadau hynny yn y pedair rhan o'r DU (oni bai bod rheswm da dros ddilyn dull gwahanol, er enghraifft mewn perthynas â darpariaethau ieithyddol yng Nghymru neu oherwydd systemau etholiadol gwahanol). Gellir crynhoi hyn gan y canlynol:

Recommendation 2-1: The current laws governing elections should be rationalised into a single, consistent legislative framework governing all elections (enacted in accordance with the UK legislatures' legislative competences).

Recommendation 2-2: Electoral laws should be consistent across elections, subject to differentiation due to the voting system or some other justifiable principle or policy.

232. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad. Mae gwefan Comisiwn y Gyfraith yn nodi'r canlynol:

⁶³ Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, [Prosiect diwygio'r gyfraith etholiadol](#)

⁶⁴ Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon, [Cyfraith etholiadol: adroddiad interim](#) (Saesneg yn unig), Chwefror 2016

“After reviewing our interim report, the UK Government stated in late 2016 that work on leaving the European Union, and the attendant unprecedented demand on parliamentary time, means there will not be capacity for an electoral bill to take forward recommendations.

However, we continue to work with the Cabinet Office on ways of implementing our recommendations which do not require primary legislation.”⁶⁵

233. Mae hyn yn gadael y posibilrwydd y gallai Comisiwn y Gyfraith gyhoeddi adroddiad diwygiedig, terfynol maes o law, fel y bwriadwyd yn wreiddiol, gan gynnwys argymhellion diwygiedig.

4.6.2. Pam mae angen deddfwriaeth

234. Mae'r meysydd penodol a gwmpesir gan yr argymhellion manwl a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith yn cynnwys:

- pwerau swyddogion canlyniadau dros dro;
- swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau cyfarwyddo swyddogion canlyniadau rhanbarthol mewn etholiadau a reolir gan fwy nag un swyddog canlyniadau;
- dynodi ac adolygu dosbarthiadau etholiadol;
- y dull pleidleisio;
- pleidleisio absennol;
- hysbysiad o etholiad ac enwebu;
- manau pleidleisio;
- cyfrif;
- amserlenni a chyfuno etholiadau;
- troseddau etholiadol;
- rheoleiddio gwariant ymgyrch;

⁶⁵ Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, www.lawcom.gov.uk/project/electoral-law [Fel ar 29/01/2018]

-
- her etholiadol.

235. Mae'r meysydd hyn yn bwysig, ac efallai y bydd y Cynulliad am ystyried, maes o law, a ddylid gweithredu'r argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith etholiadol a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru. Felly, mae'r Bil yn diwygio adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud y fath is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sicrhau bod etholiadau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu mewn ffordd sy'n rhoi effaith i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith.

236. Rhagwelir y byddai Aelodau'r Cynulliad am allu ystyried newidiadau deddfwriaethol i gyfraith etholiadol yn seiliedig ar y canlynol:

- yr argymhellion interim a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2016;
- ailadrodd y set honno o argymhellion eto; a hefyd
- rhagor o gynigion sy'n ymwneud â'r gyfraith etholiadol a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith yn y dyfodol.

237. Am y rheswm hwn, nid yw'r pŵer galluogi yn y Bil yn gyfyngedig i wneud is-ddeddfwriaeth i roi effaith dim ond i'r set interim o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2016.

238. Gall is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer newydd hwn gynnwys diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Am y rheswm hwn, mae'r ddarpariaeth wedi'i drafftio er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r pŵer dim ond i roi effaith i argymhellion a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith mewn perthynas â rhesymoli'r gyfraith etholiadol.

239. Yn ogystal, bydd y pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (h.y. ni ellir gwneud is-ddeddfwriaeth drwy ddefnyddio'r pŵer hwn oni bai bod drafft o'r offeryn statudol wedi'i osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn wedi hynny). Ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol, gan y bydd argymhellion Comisiwn y Gyfraith y bydd yr is-ddeddfwriaeth yn gallu rhoi effaith iddynt:

- yn weinyddol eu natur;
- wedi'u hargymell gan gomisiwn annibynnol, arbenigol;
- wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gan Gomisiwn y Gyfraith wrth eu datblygu, gan gynnwys drwy eu cyhoeddi yn yr adroddiad interim.

240. Ystyriwyd y posibilrwydd y byddai'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cymru 2017*, eisoes yn ddigon eang i alluogi argymhellion Comisiwn y Gyfraith i gael eu gweithredu mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad heb roi pŵer ychwanegol penodol. Serch hynny, ystyrir ei bod yn briodol cynnwys pŵer o'r fath am y rhesymau a ganlyn:

- mae'n pwysleisio pwysigrwydd gwaith Comisiwn y Gyfraith i'r trefniadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, fel bod y Cynulliad, ei Aelodau a'i bwyllgorau yn rhoi ystyriaeth briodol i'r argymhellion hyn;
- mae is-adran (2) o adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* eisoes yn nodi nifer o ddibenion penodol i ddefnyddio'r pŵer yn is-adran (1). Felly, mae'n briodol nodi gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith fel diben ychwanegol penodol;
- mae defnyddio'r pŵer presennol yn adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gyfyngedig i ethol Aelodau'r Cynulliad. Er mwyn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer holl etholiadau datganoledig Cymru yn parhau i fod yn gyson ac yn gadarn, mae'n briodol nodi yn y Bil y gellir defnyddio'r pŵer i roi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru.

241. Bydd gweithredu llawer o argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn dibynnu ar drefniadau gweithio rhynglywodraethol, a bydd eraill yn addas i'w datblygu ar wahân yng Nghymru. Am y rheswm hwn, gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer yn y Bil ar adegau gwahanol at ddibenion gwahanol.

242. Ystyriwyd a ddylid cynnwys darpariaethau ar wyneb y Bil i roi effaith i'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad interim. Fodd bynnag, ystyrir bod y newidiadau hyn yn fwy priodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth am y rhesymau a ganlyn:

- mae'r argymhellion yn weinyddol eu natur;
- mae llawer o'r argymhellion yn golygu bod angen cydweithio rhwng pedair llywodraeth y DU;
- bydd gweithredu'r argymhellion yn golygu bod angen newidiadau i etholiadau llywodraeth leol yn ogystal ag etholiadau'r Cynulliad;

-
- bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ymdrin ag argymhellion diwygiedig neu newydd a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gyfraith yn y dyfodol.

4.6.3. Gweithredu

243. Bydd y pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth, i'w fewnosod yn adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn cael ei gychwyn ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i gyfraith etholiadol sy'n dod i rym ar adegau amrywiol hyd at etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad, gan gynnwys newidiadau eraill i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Er enghraifft, mae'r darpariaethau yn y Bil i newid yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn cychwyn ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Mae cychwyn y pŵer gwneud deddfwriaeth ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddeddfu i roi effaith i argymhellion Comisiwn y Gyfraith naill ai cyn i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a wneir gan y Bil hwn ddod i rym, ar yr un pryd â hwy neu ar ôl i hyn ddigwydd.

244. Mater i Weinidogion Cymru yw'r defnydd o'r pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac amseriad unrhyw ddefnydd o'r fath. Bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ddarostyngedig i'r gofynion arferol ar gyfer paratoi asesiadau effaith a memoranda esboniadol, yn ogystal â gwaith craffu gan y Cynulliad a'i bwyllgorau.

4.7. Dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad

4.7.1. Y cefndir a chyd-destun polisi

245. Yn nyddiau cynnar Cynulliad, rhaid i'r Aelodau gyfarfod yn y Cyfarfod Llawn i gytuno ar nifer o eitemau allweddol o fusnes.⁶⁶ Mae hyn yn cynnwys ethol y Llywydd a Dirprwy Lywydd ac enwebiadau ar gyfer Prif Weinidog. Mae Rheol Sefydlog 12.7 yn darparu mai'r Llywydd, mewn ymgynghoriad â grwpiau gwleidyddol, sy'n penderfynu ar ddyddiad ac amser y cyfarfod cyntaf. Os nad yw'r Llywydd yn fodlon gweithredu, neu os na all weithredu, Clerc y Cynulliad sy'n penderfynu ar y dyddiad a'r amser. Yn y naill achos neu'r llall, mae Rheol Sefydlog 12.9 yn darparu bod rhaid i'r Clerc roi gwybod i'r holl Aelodau am yr amser a'r dyddiad o leiaf 24 awr cyn y cyfarfod. Yn ymarferol, gwneir hyn:

- yn uniongyrchol drwy e-bost at yr Aelodau;

⁶⁶ Am ragor o wybodaeth, gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Canllaw i fusnes cynnar y Cyfarfod Llawn ar ôl etholiad mis Mai 2016](#), Mai 2016.

-
- drwy'r grwpiau gwleidyddol;
 - drwy roi hysbysiadau ar y fewnwyd;
 - trwy gyhoeddi'r agenda ar y rhyngwyd.

246. Mae *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf hwn o fewn saith diwrnod yn dilyn etholiad cyffredinol arferol neu etholiad cyffredinol eithriadol. Yn y cyfarfod cyntaf hwnnw, rhaid i'r Cynulliad ethol un o'i Aelodau yn Llywydd ac un yn Ddirprwy Lywydd. Mae adran 25(7)(a) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu na all y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol. Mae adran 25(7)(b) yn darparu na all y ddau berthyn i grwpiau gwleidyddol â rôl weithredol (a ddiffinnir gan adran 25(8) fel grŵp gwleidyddol y mae'r Prif Weinidog neu un neu fwy o Weinidogion Cymru a benodir o dan adran 48 yn perthyn iddo). Mae adran 25(9) yn darparu y gall y Cynulliad benderfynu, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair, anwybyddu gofynion adran 25(7) os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

247. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn rhoi rhagor o feini prawf ar waith ynghylch y grwpiau gwleidyddol y mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn perthyn iddynt:

- mae Rheolau Sefydlog 6.12(i) a (ii) yn ailadrodd y darpariaethau yn adran 25(7) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*;
- mae Rheol Sefydlog 6.12(iii) yn darparu na all y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i grwpiau gwleidyddol nad oes ganddynt rolau gweithredol;
- mae Rheol Sefydlog 6.13 yn adleisio adran 25(9) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, sy'n sicrhau y caiff y Cynulliad, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair, ddatgymhwyso'r meini prawf ychwanegol a gymhwysir gan Reol Sefydlog 6.12(iii);
- mae Rheol Sefydlog 6.14 yn darparu, os bydd amgylchiadau'n newid ar ôl i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd gael eu hethol, gyda'r canlyniad eu bod yn cynrychioli:
 - i. yr un grŵp gwleidyddol;
 - i. grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol ynddynt; neu
 - ii. grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan y ddau ohonynt rôl weithredol ynddynt

os na fydd y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd yn ymddiswyddo, y caiff Aelod gynnig datgymhwyso'r meini prawf yn y Cyfarfod Llawn nesaf. Os na chyflwynir cynnig, neu os nas derbynnir, mae Rheol Sefydlog 16.14 yn mynnu bod rhaid i'r ddau ymddiswyddo.

248. Yn ymarferol, wrth eu darllen gyda'i gilydd, mae adrannau 25(7), (8) a (9) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a Rheolau Sefydlog 6.12-14 yn golygu, oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu datgymhwyso'r meini prawf ar yr adeg berthnasol (naill ai ar ddechrau Cynulliad neu yn ystod tymor Cynulliad os yw amgylchiadau'n newid):

- rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i grwpiau gwleidyddol gwahanol;
- rhaid i un ohonynt berthyn i grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol;
- rhaid i'r llall berthyn i grŵp gwleidyddol nad oes ganddo rôl weithredol ynddo.

249. Ceir crynodeb o ofynion deddfwrfeydd eraill ar yr amser hwyaf ar gyfer cyfarfod cyntaf yn Atodiad 7.

4.7.2. Pam mae angen deddfwriaeth

250. Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yw'r eitemau busnes cyntaf a gynhelir gan y Cynulliad ar ôl etholiad (boed yn un arferol neu'n un eithriadol).

251. Mae adran 47 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog o fewn 28 diwrnod i etholiad arferol neu eithriadol. Felly, mae'n bosibl na fydd yn glir ar yr adeg y mae'n rhaid i'r Cynulliad ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd pa grwpiau gwleidyddol fydd â swyddogaethau gweithredol, a pha rai na fydd ganddynt swyddogaethau gweithredol yn nhymor newydd y Cynulliad. Gall hyn fod yn arbennig o wir os nad oedd canlyniad yr etholiad yn derfynol, a gellid ystyried bod hynny'n fwy tebygol gyda system etholiadol led-gyfrannol.

252. Er ei bod hi'n bwysig bod y Cynulliad yn cyfarfod ac yn ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd heb oedi gormodol ar ôl etholiad y Cynulliad, mae'r gofyniad presennol i'r Cynulliad gyfarfod o fewn saith diwrnod yn rhy gyfyng ac yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i gynnal trafodaethau a negodiadau gwleidyddol ynghylch ffurfio gweithrediaeth. Mae cymhwysra ar gyfer swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn amodol ar ganlyniadau negodiadau gwleidyddol o'r fath. Felly, gall canlyniad trafodaethau gwleidyddol am y weithrediaeth hefyd fod yn ffactor

ym mhenderfyniadau rhai Aelodau ynghylch a ddylid ymgeisio i gael eu hethol fel y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, neu eu penderfyniadau ynghylch pwy i'w gefnogi i'w ethol i'r swyddi. Felly, mae'n briodol estyn y cyfnod y dylid cynnal y cyfarfod cyntaf o fewn iddo i 14 diwrnod.

253. Er bod rhaid i Senedd yr Alban gyfarfod o fewn saith diwrnod, diben hyn yw rhoi amser i'r Aelodau dyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch – proses sy'n rhan o drafodion ffurfiol Senedd yr Alban, a gall hynny ddigwydd cyn i Senedd yr Alban ethol Llywydd. Mae gan Senedd yr Alban hyd at 14 diwrnod i ethol Llywydd a dau Ddirprwy Lywydd. Nid yw tyngu'r llw/cadarnhau teyrngarwch yn rhan o drafodion ffurfiol y Cynulliad, a gall ddigwydd pan fo'n gyfleus i'r Aelodau sydd wedi'u dychwelyd o'r diwrnod ar ôl yr etholiad ymlaen. Felly, nid oes gofyniad parhaus am gyfarfod o fewn saith diwrnod yng Nghymru fel sydd yn yr Alban.

254. Nid yw estyn y terfyn amser o 7 i 14 diwrnod yn atal y Cynulliad rhag cyfarfod cyn y terfyn amser 14 diwrnod os yw am wneud hynny. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd ynghylch y terfyn amser y mae'n rhaid i'r Cynulliad gyfarfod o fewn iddo.

255. Mae ymestyn y cyfnod yn mynnu diwygio'r adrannau perthnasol yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

4.7.3. Gweithredu

256. Bydd darpariaethau yn y Bil i estyn y dyddiad olaf ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad yn cychwyn ar ddiwrnod etholiad cyntaf y Cynulliad pan gynhelir yr etholiad ar 5 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

257. Bydd canllawiau mewnol a chanllawiau a gyhoeddir yn cael eu diweddarau ar ôl y Cydsyniad Brenhinol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol wedi'i ddiweddarau.

4.8. Pwerau Comisiwn y Cynulliad

4.8.1. Y cefndir a chyd-destun polisi

258. Mae Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau, a yw'r nwyddau a'r gwasanaethau hynny mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau ai peidio. Mae'r pŵer i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau (paragraff 4(2)(b)) yn ddiamwys.

259. Mae paragraff 4(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau, pa un a yw'r nwyddau a'r gwasanaethau hynny yn ymwneud â chyflenwi ei swyddogaethau ai peidio. Mae'r pŵer hwn, er enghraifft, yn caniatáu i'r Comisiwn werthu nwyddau yn siop y Cynulliad. Fodd bynnag, mae drafftio'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth yn amwys, gan fod y darpariaethau'n cyfeirio at werthu nwyddau a darparu gwasanaethau. Felly, mae'n ansicr a gâi'r Comisiwn, ar hyn o bryd, ddewis codi tâl am ddefnyddio ystâd y Cynulliad ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â busnes y Cynulliad na swyddogaethau'r Comisiwn.

260. Mae'r Bil yn datrys yr amwysedd hwn drwy egluro y caiff y Comisiwn hefyd godi tâl am wasanaethau nas darperir mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Comisiwn gynlluniau i godi tâl am ddarparu gwasanaethau o'r fath.

261. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu, ymhellach, fod rhaid talu unrhyw arian a ddaw i law Comisiwn y Cynulliad, er enghraifft o ganlyniad i werthu nwyddau, i Gronfa Gyfunol Cymru. Dim ond os caiff ei awdurdodi gan benderfyniad cyllidebol y Cynulliad y caiff Comisiwn y Cynulliad ei gadw. Byddai'r gofyniad hwn yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw arian a ddaw i law'r Comisiwn am wasanaethau y codir tâl amdanynt ond nad ydynt yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau.

4.8.2. Yr arfer mewn mannau eraill

262. Mae'r darpariaethau ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* mewn perthynas â chodi tâl am nwyddau a gwasanaethau yn adlewyrchu'r rhai yn y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n sefydlu Corff Corfforaethol Senedd yr Alban a Chomisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon.

263. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff y darpariaethau eu dehongli fel y caiff Comisiwn Cynulliad Gogledd Iwerddon godi tâl am ddarparu gwasanaethau nad ydynt mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau.

4.8.3. Pam mae angen deddfwriaeth

264. Mae angen gwelliant deddfwriaethol i egluro'r darpariaethau ym mharagraff 4(4) o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Byddai gwneud hynny yn dileu pob amheuaeth ynghylch pŵer y Comisiwn i godi tâl am ddarparu gwasanaethau. Er nad oes gan y Comisiwn gynlluniau, ar hyn o bryd, i godi tâl am wasanaethau a ddarperir heblaw mewn cysylltiad â'i swyddogaethau, mae

egluro'r ddeddfwriaeth i ddileu'r amwysedd yn lleihau'r potensial ar gyfer unrhyw her gyfreithiol yn y dyfodol.

4.8.4. Gweithredu

265. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ddarpariaethau eglurhaol a'u bwriad yw cael gwared â'r amwysedd presennol yn y fframwaith deddfwriaethol, sy'n nodi pwerau a swyddogaethau'r Comisiwn. Bydd y darpariaethau yn dod i rym ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Comisiwn gynlluniau i ddefnyddio'r eglurhad o'i bwerau.

266. Bydd unrhyw gynlluniau a ddatblygir mewn perthynas â gwerthu gwasanaethau heblaw mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Comisiwn yn nodi amcanion a chynlluniau gweithredu'n glir.

5. Ymgynghoriad

5.1. Ymgynghoriad pleidleisio@16 (Mis Tachwedd 2014 hyd at fis Mehefin 2016)

5.1.1. Cefndir yr ymgynghoriad

267. Ym mis Gorffennaf 2014, llofnododd arweinwyr y pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad a'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd ar y pryd, Siarter Ymgysylltu â Phobl Ifanc. Ymrwymodd y Siarter y Cynulliad i estyn allan a sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y Cynulliad a'i waith a phenderfynu sut y mae'n berthnasol i'w buddiannau hwy. Roedd hefyd yn ymrwymo'r Cynulliad i alluogi trafodaeth drwy weithgareddau difyr wedi'u teilwra, a rhoi adborth yn effeithiol i bobl ifanc ar sut yr oedd eu cyfraniadau wedi gwneud gwahaniaeth.

5.1.2. Dull ymgynghori

268. Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd y Llywydd ar y pryd ymgynghoriad â phobl ifanc yng Nghymru ynghylch a ddylai pobl 16 a 17 oed gael yr hawl i bleidleisio. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, a chafodd ei ganfyddiadau eu trafod mewn cynhadledd i bobl ifanc, a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2015.

269. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg, yr oedd modd ei lenwi ar-lein neu ar gopi caled. Cwblhawyd mwyafrif yr holiaduron gan bobl ifanc oedran ysgol uwchradd yn rhan o ddarpariaeth addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc y Cynulliad mewn ysgolion a cholegau, yn ogystal â grwpiau ieuencid yn cyfarfod mewn lleoliadau addysgol anffurfiol ac yn ystod digwyddiadau Pleidleisio@16?. Hefyd, cafodd yr holl bobl ifanc a ymwelodd â'r Senedd y cyfle i drafod themâu allweddol yr arolwg a thrafod y materion sy'n ymwneud â gostwng yr oedran pleidleisio. Rhannwyd hefyd adnoddau a fideos ar-lein i hyrwyddo trafodaeth mewn clybiau ieuencid a chanolfannau addysg ledled Cymru.

270. Roedd digwyddiadau "Pleidleisio@16?" yn cynnwys gweithdy dan arweiniad pobl ifanc gyda'r Llywydd ar y pryd, a gynhaliwyd yn ystod wythnos o weithgareddau yn Wrecsam ym mis Mawrth; cynhadledd ddau ddiwrnod i fyfyrwyr gwleidyddiaeth Safon Uwch yn Siambr Hywel, canolfan addysg bwrpasol y Cynulliad, a thaith bws y Cynulliad a ymwelodd â'r pum rhanbarth etholiadol yng Nghymru. Roedd y lleoliadau'n cynnwys: Trefynwy, Canolfan Ieuencid ac

Addysg y Fenni, Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin, Ysgol Wirfoddol a Reolir Tasker Milward, Prifysgol Glyndŵr yn Wrecsam ac Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili.

271. Hyrwyddwyd yr arolwg gan staff y Cynulliad gyda grwpiau perthnasol a oedd yn ymweld â'r Senedd a Siambr Hywel, ymweliadau allgymorth ledled Cymru a digwyddiadau ym mhob cwr o'r wlad. Er enghraifft, llenwodd pwyllgor ieuencid yr Urdd, Bwrdd Syr IfanC, yr arolwg a thrafodwyd pleidleisio@16 yn ystod cynhadledd a drefnwyd yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd, #dimondatebion. Trafododd cynrychiolwyr Bwrdd Syr IfanC y mater â Jeff Cuthbert AC, eu Haelod Cynulliad lleol, yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai. Fel rhan o'i thaith dadleuon o ysgolion Cymru, trafododd Hacio, rhaglen materion cyfoes pobl ifanc ITV/S4C, ostwng yr oedran pleidleisio mewn cynhadledd yn Siambr Hywel a ffilmiodd ddadl yn y Senedd.

272. Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r arolwg a denu pobl i gymryd rhan ar-lein, cysylltodd tîm Cyfathrebu'r Cynulliad ag ystod eang o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, grwpiau sector gwirfoddol, ysgolion, colegau a phrifysgolion. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad ar wefan pobl ifanc y Cynulliad www.dygynulliad.org⁶⁷, ac ar gyfryngau cymdeithasol drwy @dygynulliad. Hefyd, anfonodd y tîm e-bost at grwpiau a chanolfannau addysgol yn uniongyrchol.

5.1.3. Canfyddiadau'r ymgynghoriad

273. At ei gilydd, cymerodd 10,375 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru ran yn yr ymgynghoriad. O'r bobl ifanc hyn:

- roedd 53 y cant o blaid gostwng yr oedran pleidleisio;
- roedd 29 y cant yn erbyn hyn;
- nid oedd 18 y cant yn gwybod.

274. Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth y Llywydd i'r casgliad a ganlyn:

Credaf fod yr adroddiad hwn yn rhoi mandad clir i mi hysbysu Aelodau'r Cynulliad pan fyddant yn pleidleisio ar y mater hwn yn barod ar gyfer etholiad 2021, mai ewyllys pobl ifanc Cymru yw ymestyn yr etholfraint bleidleisio i bobl ifanc 16 oed.⁶⁸

⁶⁷ Dy Gynulliad, www.dygynulliad.org

⁶⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [A ddylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16? Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad "Pleidleisio@16?" y Llywydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru](#), Gorffennaf 2015

275. Mae adroddiad manwl sy'n nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cynulliad.⁶⁹ Roedd y penawdau o'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- dywedodd 58 y cant y byddent yn pleidleisio mewn etholiad yfory pe baent yn gymwys, dywedodd 23 y cant na fyddent yn gwneud hynny, a dywedodd 19 y cant nad oeddent yn gwybod;
- roedd 79 y cant o'r farn ei bod yn bwysig i bobl ifanc ddysgu am wleidyddiaeth a'r system bleidleisio;
- dywedodd 51 y cant mai pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio fyddai eu dewis cyntaf.

5.1.4. Effaith yr ymgynghoriad ar y cynigion deddfwriaethol

276. Mae Tabl 2 yn nodi'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r penderfyniadau cysylltiedig.

Tabl 2 Y materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r penderfyniadau cysylltiedig

Y materion a godwyd	Penderfyniadau
Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig i estyn yr hawl i bleidleisio i bobl 16 a 17 oed.	Cynnwys ystyriaeth o'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yng nghylch gwaith y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

5.2. Ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad ar enw'r Cynulliad (mis Rhagfyr 2016 hyd at fis Mawrth 2017)

5.2.1. Cefndir yr ymgynghoriad

277. Ym mis Mawrth 2015, roedd cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, yn cynnwys ymrwymiad y byddai cymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad dros ei drefniadau etholiadol a'i drefniadau mewnol.

278. Cytunodd y Cynulliad yn unfrydol ym mis Gorffennaf 2016 ar y canlynol:

“Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

⁶⁹ Ibid.

-
1. Yn credu y dylai'r Cynulliad newid ei enw i adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol.
 2. Yn gwahodd y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad i ystyried goblygiadau newid o'r fath a'r ffordd orau i'w roi ar waith."⁷⁰

5.2.2. Dull ymgynghori

279. Ymgynghorodd Comisiwn y Cynulliad â'r cyhoedd rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mawrth 2017 ynghylch a ddylid newid enw'r Cynulliad, ac os felly, beth fyddai'r enw newydd.

280. Roedd arolwg dwyieithog ar gael, ar ffurf copi caled, ar-lein a fersiwn hawdd ei darllen.⁷¹ Cyhoeddwyd dogfennau ategol hefyd ochr yn ochr â'r arolwg i esbonio'r cefndir i'r ymgynghoriad. Roedd y dogfennau ategol yn cynnwys Bil drafft. Mae'r papur ymgynghori ar gael ar wefan y Cynulliad.⁷²

281. At ei gilydd, cafwyd 2,821 o ymatebion i'r arolwg. O'r ymatebion hyn:

- cafodd 80 y cant o'r arolygon eu llenwi ar-lein, ac 20 y cant ar gopi caled;
- cafodd 78 y cant eu llenwi yn Saesneg, a 22 y cant yn Gymraeg;
- cafodd 2 y cant o'r arolygon eu llenwi ar ran sefydliad.

5.2.3. Canfyddiadau'r ymgynghoriad

282. Nodir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad isod. Mae adroddiad ymgynghori manylach ar gael ar wefan y Cynulliad yn www.cynulliad.cymru/enw.⁷³

283. Gofynnodd cwestiwn 1 o'r arolwg i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno â thri datganiad:

- roedd tua 60 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad: "Mae pobl yn deall swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dda";

⁷⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion](#), 5 Gorffennaf 2016


⁷¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Ymgynghoriad: Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Rhagfyr 2016

⁷² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, www.cynulliad.cymru/enw](#)

⁷³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, www.cynulliad.cymru/enw](#)

- roedd 80 y cant yn cytuno â'r datganiad: "Mae enw sefydliad yn bwysig i egluro'r hyn y mae'n ei wneud";
- roedd 61 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad: "Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw".

Ffigur 1 Ymatebion i gwestiwn 1 o'r ymgynghoriad ar newid enw'r Cynulliad⁷⁴




284. Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd eu barn am restr o enwau posibl i ddisgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- teimlai 73 y cant o'r ymatebwyr y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 69 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Senedd Cymru" a "Parliament of Wales" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 53 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai enw uniaith, sef "Senedd" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;

⁷⁴Mae'n bosibl na fydd y canrannau bob amser yn cyrraedd 100 y cant yn sgil y broses o dalgrynnu. Mae'r rhifau mewn cromfachau'n dangos nifer yr ymatebwyr i bob datganiad.

- roedd 38 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y byddai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a "National Assembly for Wales" yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol.


Ffigur 2 Ymatebion i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad ar newid enw'r Cynulliad⁷⁵



285. Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr sut y dylid cyfeirio at Aelodau'r Cynulliad pe bai'r sefydliad yn cael ei ailenwi. Roedd yr ymatebwyr yn ffafrio "Aelod o Senedd Cymru" (30 y cant), ac yna "Aelod o'r Senedd" (28 y cant). Yr opsiwn a ffafriwyd leiaf oedd Aelod Senedd Cymru (5 y cant).

⁷⁵Mae'n bosibl na fydd y canrannau bob amser yn cyrraedd 100 y cant yn sgil y broses o dalgrynnu. Mae'r rhifau mewn cromfachau'n dangos nifer yr ymatebwyr i bob datganiad.

Ffigur 3 Ymatebion i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad ar newid enw'r Cynulliad⁷⁶



286. Rhoddodd yr ymgynghoriad dri chyfle i'r ymatebwyr wneud eu sylwadau eu hunain. Roedd byrdwn y sylwadau yn gymysgedd gweddol gytbwys o'r rhai a oedd yn cefnogi'r newidiadau, a rhai a oedd yn amau a fyddai newid o'r fath yn cynrychioli gwerth am arian neu'n awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i faterion pwysicach.

287. Cafwyd cyfran sylweddol o sylwadau (er ei bod yn gyfran lawer llai, o'i chymharu) yn galw am newid yr enw i enw Cymraeg uniaith. Daeth mwyafrif y sylwadau hyn gan yr ymatebwyr a lenwodd yr arolwg yn Gymraeg.

288. Yn ogystal ag ymatebion yr arolwg, daeth 227 o ymatebion i law drwy e-bost. O'r rhain, roedd 193 o'r ymatebion gan unigolion yn llenwi ffurflen ar wefan Cymdeithas yr Iaith yn galw i'r Cynulliad gael ei ailenwi yn "Senedd", gyda'r Aelodau'n cael eu disgrifio fel "Seneddwyr/Seneddwr". Cafwyd yr ymatebion eraill (34 ohonynt) gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Roedd Dathlu'r Gymraeg, Bwrdd Gorwel a Chomisiynydd y Gymraeg i gyd yn cefnogi'r enw

⁷⁶Mae'n bosibl na fydd y canrannau bob amser yn cyrraedd 100 y cant yn sgil y broses o dalgrynnu. Mae'r rhifau mewn cromfachau'n dangos nifer yr ymatebwyr i bob datganiad.

Cymraeg uniaith “Senedd”. Dywedodd y Prif Weinidog mai “Senedd Cymru/Welsh Parliament” yr oedd ef yn ei ffafrio, gan nodi y byddai hyn yn rhoi “cysondeb cyfansoddiadol ac yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y sefydliad”.

5.2.4. Effaith yr ymgynghoriad ar y cynigion deddfwriaethol

289. Mae Tabl 3 yn nodi'r penderfyniadau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Tabl 3 Y materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r penderfyniadau cysylltiedig

Y materion a godwyd	Penderfyniadau
Nododd yr ymgynghoriad gefnogaeth gyhoeddus ynghylch newid yr enw, a Senedd Cymru/Welsh Parliament oedd yr opsiwn a ffafriwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad	Penderfyniad cychwynnol i gynnwys darpariaeth yn y Bil i ailenwi'r Cynulliad yn “Senedd Cymru/Welsh Parliament”. Penderfyniad dilynol i gynnwys darpariaeth yn y Bil i ailenwi'r Cynulliad yn “Senedd”. Gellir galw'r ‘Senedd’ hefyd yn ‘Welsh Parliament’.
O drwch blewyn, roedd yr ymatebwyr yn ffafrio Aelodau o Senedd Cymru (ASC), ond nid oedd mwyafrif clir o blaid opsiwn penodol.	Penderfyniad cychwynnol i gynnwys darpariaeth yn y Bil i ddisgrifio Aelodau fel “Welsh Parliament Members (WPM) (Aelodau o Senedd Cymru (ASC))”. Penderfyniad dilynol i gynnwys darpariaeth yn y Bil i ddisgrifio Aelodau fel “Aelodau'r Senedd (AS)/Members of the Senedd (MS)”.
Pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch yr effaith ar amser y Cynulliad a blaenoriaethau eraill.	Penderfyniad cychwynnol i ohirio penderfyniad ar yr amseriad a'r dull deddfwriaethol a fyddai'n cael ei ddefnyddio i newid yr enw nes y byddai cwmpas diwygiadau posibl eraill yn dod yn gliriach. Penderfyniad dilynol i ymgorffori'r newid enw yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), sydd hefyd yn ymdrin ag ystod o faterion eraill.
Pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch y gost bosibl o weithredu'r newid i enw'r Cynulliad.	Cytundeb na fyddai newid enw yn golygu ymarfer ailfrandio llwyr.

5.3. Yr ymgynghoriad “Creu Senedd i Gymru” (mis Chwefror hyd at fis Ebrill 2018)

5.3.1. Cefndir yr ymgynghoriad

290. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2017, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar argymhellion y Panel ac ar gwmpas posibl diwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a mewnol y Cynulliad.

5.3.2. Dull ymgynghori

291. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol a ffurflen ymateb yn ddwyieithog ar-lein ac mewn copi caled, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y cynigion. Cyhoeddwyd fersiynau hawdd eu darllen o'r ddogfen ymgynghori a'r ymateb hefyd.⁷⁷ Cyhoeddwyd microwefan, a oedd yn rhoi manylion am y cynigion mewn ffordd fwy hygyrch. Gallai ymatebwyr ddewis rhwng llenwi arolwg ar-lein a oedd yn cwmpasu'r holl gynigion neu lenwi arolygon ar wahân a oedd yn ymdrin â'r cynigion a oedd o ddiddordeb iddynt hwy yn unig. Cafodd y dogfennau ymgynghori a'r microwefan eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, eu rhannu drwy e-bost ag amrywiaeth o rhanddeiliaid, a'u dosbarthu gan dimau Allgymorth ac Addysg y Cynulliad.

292. Cafodd deunyddiau i bobl ifanc, gan gynnwys gweithgareddau mewn gweithdy, eu datblygu a'u rhannu ag ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled Cymru. Cynhaliwyd sesiynau ledled Cymru gan dimau Allgymorth ac Addysg y Cynulliad.

293. Cafodd pedwar digwyddiad ymgynghori rhanbarthol eu cynnal ledled Cymru a'u hyrwyddo mewn ffyrdd amrywiol. Roedd pob digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau ar waith y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad a'r diwygiadau posibl a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhai a aeth i'r digwyddiadau'n gallu gofyn cwestiynau am y cynigion, a chawsant eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad.

294. Ymgysylltodd Comisiwn y Cynulliad â rhanddeiliaid penodol, gan gynnwys rhanddeiliaid etholiadol, llywodraeth leol, undebau, y sectorau preifat a gwirfoddol ac eraill.

⁷⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, www.cynulliad.cymru/enw

295. Daeth dros 3,200 o gyflwyniadau ynghylch yr ymgynghoriad i law'r Comisiwn, y mwyafrif drwy'r arolygon ar-lein.

296. Gallai ymatebwyr ymateb ar wahân i bob un o'r 6 arolwg penodol ar-lein, neu gallent ymateb i'r ymgynghoriad cyfan. Am y rheswm hwn, ni ellir cyfateb y 3,200 o gyflwyniadau yn uniongyrchol â 3,200 o ymatebwyr ar wahân. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu mai dim ond nifer fach o ymatebwyr a lenwodd fwy nag un arolwg ar-lein.

297. O'r 3,200 o gyflwyniadau:

- roedd 200 yn ymatebion gan bobl a oedd yn dynodi eu hunain fel rhai o dan 18 oed;
- roedd 37 yn ymatebion gan gwmnïau neu sefydliadau, gan gynnwys busnesau preifat, cyrff cyhoeddus, sefydliadau academaidd, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, pleidiau gwleidyddol a chyrff cynrychiadol;
- cyflwynwyd 10 y cant yn Gymraeg a 90 y cant yn Saesneg.

5.3.3. Canfyddiadau'r ymgynghoriad


298. Nodir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad isod. Mae adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad ar gael ar wefan⁷⁸ y Cynulliad.

5.3.3.1. Safbwyntiau ynghylch yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

299. Gofynnodd y Comisiwn a ddylai'r un bobl gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:


⁷⁸ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Creu senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018

Ffigur 4 Dadansoddiad o'r ymatebion i gwestiwn yr ymgynghoriad ynghylch a ddylai'r un bobl gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru



300. Gofynnodd y Comisiwn am farn am beth y dylai'r oedran pleidleisio isaf fod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Mae'r siart gylch isod yn dangos y ganran gyffredinol a nifer y bobl a ddywedodd 16, 18 neu "ddim yn gwybod". Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth hon yn ôl oedran yr ymatebwyr.

Ffigur 5 Dadansoddiad o ymatebion i gwestiwn yr ymgynghoriad ynghylch beth y dylai'r oedran pleidleisio isaf fod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad



Tabl 4 Dadansoddiad o ymatebion i gwestiwn yr ymgynghoriad ynghylch beth y dylai'r oedran pleidleisio isaf fod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, yn ôl oedran

Ateb	O dan 18 oed		Dros 18 oed		Cyffredinol	
16	100	81 y cant	810	57 y cant	910	59 y cant
18	20	18 y cant	570	41 y cant	590 ⁷⁹	39 y cant
Ddim yn gwybod	0 ⁸⁰	1 y cant	30	2 y cant	30	2 y cant

5.3.3.2. Safbwyntiau ynghylch anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad

301. Gofynnodd y Comisiwn am safbwyntiau ynghylch a ddylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad.

302. Nododd yr ymgynghoriad fod yr argymhellion yn cynnwys y canlynol:

- dylai'r gyfraith gael ei newid er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o anghymwysiaid'n dod i rym adeg tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch yn hytrach na phan fydd rhywun yn cael ei enwebu'n ymgeisydd ar gyfer etholiad Cynulliad;
- dylai'r rhestr o swyddi sy'n anghymhwys fod yn gliriach;
- dylid anghymhwys aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelod Cynulliad.

303. O'r 510 o ymatebion i'r mater hwn:

- roedd 34 y cant (180) yn cytuno y dylai'r deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad;

⁷⁹ Y nifer wirioneddol o'r rhai o dan 18 oed a thros 18 oed a oedd am gadw'r oedran pleidleisio isaf yn 18 oedd 22 a 575 yn y drefn honno. 597 yw hyn at ei gilydd, sef 600 ar ôl ei dalgrynnu. Fodd bynnag, pan fydd y niferoedd hyn wedi'u talgrynnu fel niferoedd ar wahân, i 20 a 570 yn ôl eu trefn, 590 ydyw, fel y dangosir yma.

⁸⁰ Roedd nifer yr ymatebwyr yn llai na phump, felly mae wedi'i thalgrynnu i 0. Mae'r nifer wirioneddol yn dal i fod yn 1 y cant o gyfanswm y bobl o dan 18 oed a ymatebodd i'r cwestiwn hwn.

-
- roedd 13 y cant (70) o'r ymatebwyr yn anghytuno;
 - nid oedd yr ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn yn cytuno'n gryf nac yn anghytuno'n gryf â'r cwestiwn – yn hytrach, gwnaethant sylwadau ar argymhellion y Pwyllgor, ateb “ddim yn gwybod” neu ddweud nad oeddent yn deall y cwestiwn.

5.3.3.3. Safbwyntiau ar weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar resymoli'r gyfraith etholiadol

304. Gofynnodd y Comisiwn i bobl a ddylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chynnal a gweinyddu etholiadau.

305. Nododd yr ymgynghoriad y canlynol:

- cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon brosiect ar y cyd i ddiwygio cyfraith etholiadol;
- yn ei adroddiad interim, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, gwnaeth Comisiwn y Gyfraith argymhellion i resymoli'r cyfreithiau cyfredol sy'n ymwneud ag etholiadau i fframwaith deddfwriaethol unigol, cyson, a fyddai'n sicrhau cysondeb ar draws etholiadau gwahanol (yn amodol ar wahaniaethu oherwydd y system bleidleisio neu egwyddor neu bolisi arall y gellid ei gyfiawnhau).

306. O'r 420 o ymatebion i'r mater hwn, roedd 57 y cant (240) o'r farn y dylai'r Cynulliad ddeddfu i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac roedd pedwar y cant (10) yn anghytuno.

5.3.3.4. Barn am ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad

307. Gofynnodd y Comisiwn i bobl a ddylid derbyn gwelliant i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* er mwyn rhoi rhagor o hyblygrwydd i'r Cynulliad bennu ei arferion a'i drefniadau gweithio ei hun drwy ei weithdrefnau mewnol yn hytrach nag mewn deddfwriaeth.

308. Nododd yr ymgynghoriad mai un o'r diwygiadau posibl i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* oedd cynyddu'r terfyn amser ynghylch pryd y mae'n rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad o saith diwrnod i bedwar diwrnod ar ddeg, gan estyn y cyfleoedd ar gyfer trafodaethau a negodiadau rhwng pleidiau gwleidyddol ar ôl etholiad.

309. O'r 770 o ymatebion i'r mater hwn, roedd 60 y cant (460) o blaid y diwygiadau arfaethedig i roi rhagor o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar ei ffyrdd ei hun o weithio, ac roedd 30 y cant (240) yn erbyn hyn.

5.3.3.5. Barn am bwerau Comisiwn y Cynulliad

310. Ni thrafodwyd y mater hwn yn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai bwriad y Bil yw egluro'r ddeddfwriaeth bresennol ar bwerau'r Comisiwn yn hytrach na gwneud newidiadau sylweddol i bwerau statudol y Comisiwn.

311. Ar hyn o bryd, ni fwriedir defnyddio pwerau'r Comisiwn i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau.

312. Byddai angen ystyried yn ofalus unrhyw fwriad i ddefnyddio pwerau o'r fath, gan gynnwys asesiad manwl o effeithiau hynny. Ar y sail hon, nid ystyriwyd bod angen ymgynghori ar y mater hwn. Byddai angen ystyried yn ofalus unrhyw fwriad gan y Comisiwn i ddefnyddio pwerau o'r fath a byddai angen asesu effaith unrhyw benderfyniad o'r fath.

5.4. Effaith yr ymgynghoriad ar y cynigion deddfwriaethol

313. Mae Tabl 5 yn nodi materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r penderfyniadau cysylltiedig.

Tabl 5 Y materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r penderfyniadau cysylltiedig

Y materion a godwyd	Penderfyniadau
Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth glir dros sicrhau bod yr un bobl yn cael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol.	<p>Mae adran 12 o <i>Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006</i> yn cysylltu etholfraint etholiadau'r Cynulliad ag etholfraint etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Yn unol â hynny, mae unrhyw newid i etholfraint etholiadau llywodraeth leol yn gymwys yn awtomatig i etholiadau'r Cynulliad.</p> <p>Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i estyn etholfraint etholiadau'r Cynulliad i gynnwys pobl 16 a 17 oed. Gan na fydd pobl 16 a 17 oed yn cael eu hetholfreinio i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ar yr un pryd, bydd hyn yn arwain at etholfreiniau gwahanol ar gyfer yr etholiadau hyn.</p> <p>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth</p>

	<p>yn 2019 i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y dylai'r gwahaniaeth yn yr etholfreiniau lle caniateir i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ond nid etholiadau llywodraeth leol, fodoli am gyfnod byr yn unig ac y dylai'r ddwy etholfraint gynnwys pobl 16 a 17 oed erbyn dyddiad etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021 ac etholiadau llywodraeth leol yn 2022.</p>
<p>Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod y mwyafrif yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 18 i 16.</p>	<p>Penderfyniad i gynnwys darpariaeth yn y Bil i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i bobl 16 a 17 oed.</p>
<p>Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod y mwyafrif o blaid caniatáu i'r holl breswylwyr cyfreithiol yng Nghymru bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ni waeth beth yw eu cenedligrwydd neu eu dinasyddiaeth.</p>	<p>Penderfyniad i gynnwys darpariaeth yn y Bil i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i gynnwys yr holl breswylwyr cyfreithiol yng Nghymru.⁸¹</p> <p>Er i ymatebion i'r ymgynghoriad ddangos cefnogaeth i ganiatáu i'r holl breswylwyr cyfreithiol yng Nghymru bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, roeddent hefyd yn dangos ystod eang o safbwyntiau ar sut y dylid gweithredu hyn.</p> <p>Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai dim ond preswylwyr cyfreithiol y dylid caniatáu iddynt bleidleisio, ond roedd eraill yn teimlo y dylid etholfreinio'r holl breswylwyr. Roedd rhai o'r farn y dylid rhoi'r bleidlais i holl breswylwyr y DU, ond dywedodd eraill mai dim ond preswylwyr yng Nghymru y dylid caniatáu iddynt bleidleisio. Hefyd, roedd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch a ddylid gosod cyfnod preswyllo gofynnol fel amod ar bleidleisio, ac ynghylch hyd y cyfnod preswyllo hwinnw.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu etholfreinio mewn etholiadau llywodraeth leol</p>

⁸¹ Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth i ddinasyddion nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, na charcharorion, gael yr hawl i bleidleisio. Fel y cyfryw, ni ellir dweud bod yr etholfraint yn cael ei hestyn i'r holl breswylwyr cyfreithiol yng Nghymru

	<p>bobl o unrhyw genedligrwydd sy'n byw yng Nghymru yn gyfreithiol. Er nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn teimlo y dylid caniatáu i'r holl breswylwyr cyfreithiol yng Nghymru bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, mae gwahaniaethau sylfaenol rhwng cylch gwaith y Cynulliad ac awdurdodau lleol. Mae llywodraeth leol yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau lleol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar breswylwyr lleol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud penderfyniadau ar faterion o egwyddor a chyfeiriad, gwerthoedd a chyfreithiau Cymru gyfan. Felly, mae dadl ddilys o blaid galluogi'r holl breswylwyr cyfreithiol i bleidleisio mewn etholiadau lleol, ond cadw pleidleisiau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r rhai sydd wedi gwneud ymrwymiad dyfnach o fod yn ddinesydd yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd neu'r Gymanwlad. Mae dadleuon cytbwys ynghylch y mater hwn, ac efallai y bydd y Cynulliad am ystyried y mater hwn ymhellach yn ystod ei waith craffu deddfwriaethol ar y Bil. Ceir rhagor o fanylion ar sail resymegol Comisiwn y Cynulliad dros beidio ag etholfreinio carcharorion a dinasyddion nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn y Memorandwm Esboniadol hwn.</p>
<p>Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad gefnogaeth sylweddol dros ganiatáu i rai categorïau o garcharorion bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.</p>	<p>Penderfyniad i beidio â chynnwys darpariaeth yn y Bil i ganiatáu i garcharorion bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.</p> <p>Ar ôl ymgynghori ar yr egwyddor o ganiatáu i rai categorïau o garcharorion bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn unol â chynlluniau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen rhagor o ystyriaeth a phenderfyniad gwleidyddol ar y materion cyfreithiol, moesegol, democrataidd ac ymarferol a materion o ran hawliau dynol sy'n</p>

	<p>ymwneud â rhoi'r bleidlais i garcharorion. Nid oes sylfaen dystiolaeth ddigonol i ddod i benderfyniadau na digon o amser i hyn gael ei ystyried yn briodol a'i gynnwys yn neddfwriaeth diwygio Cynulliad y Comisiwn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn gwahodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad i ystyried cynnal ymchwiliad i drafod y mater ynghylch a ddylai carcharorion o Gymru gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhagor o ystyriaeth o'r mater hwn wedi'i nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn y Memorandwm Esboniadol hwn.</p>
<p>Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod y mwyafrif o ymatebwyr o blaid gweithredu argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad mewn perthynas ag anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad</p>	<p>Penderfyniad i gynnwys darpariaethau yn y Bil i weithredu argymhellion y Pwyllgor.</p>
<p>Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos bod mwy na hanner yr ymatebwyr o'r farn y dylai deddfwriaeth i ddiwygio trefniadau etholiadol y Cynulliad gynnwys darpariaeth i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynghylch diwygio'r gyfraith etholiadol.</p>	<p>Penderfyniad i gynnwys darpariaeth yn y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i weithredu argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch diwygio'r gyfraith etholiadol.</p>
<p>Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod y mwyafrif o ymatebwyr o blaid cynnwys darpariaethau yn neddfwriaeth y Cynulliad i weithredu argymhellion y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â chostau cyfieithu a chostau cysylltiedig ag anabledd.</p>	<p>Penderfyniad i beidio â chynnwys darpariaethau yn y Bil i weithredu argymhellion y Comisiwn Etholiadol. Cytunwyd â Llywodraeth Cymru y byddai'n fwy priodol i argymhellion y Comisiwn Etholiadol gael eu gweithredu yn is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru nag yn neddfwriaeth sylfaenol Comisiwn y Cynulliad. Gweler adran 3.4.3 i gael esboniad llawn o'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.</p>

<p>Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod mwy na hanner yr ymatebwyr yn teimlo y dylid diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar ei arferion a'i drefniadau gweithio ei hun drwy gyfrwng ei weithdrefnau mewnol yn hytrach na thrwy gyfrwng deddfwriaeth.</p>	<p>Penderfyniad i gynnwys darpariaeth yn y Bil ynghylch estyn y cyfnod erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf ar ôl etholiad o 7 i 14 diwrnod.</p> <p>Rhagwelir y bydd materion eraill yr ymgynghorir arnynt ynghylch arferion a threfniadau gweithio'r Cynulliad yn cael eu hystyried yng nghyd-destun strategaeth ddeddfwriaethol ehangach Comisiwn y Cynulliad.</p>
---	--

5.5. Gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu arall

5.5.1. Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: casglu tystiolaeth (mis Chwefror hyd at fis Hydref 2017)

314. Ar 1 Chwefror 2017, cyhoeddodd y Llywydd fod Comisiwn y Cynulliad wedi sefydlu Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol i roi cyngor cadarn, yn wleidyddol ddiduedd ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad, y system etholiadol fwyaf addas, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.⁸²

315. Rôl y Panel Arbenigol oedd llunio adroddiad yn seiliedig ar arbenigedd technegol ei gadeirydd a'i aelodau ym maes capasiti a systemau etholiadol seneddol. Er mwyn ategu arbenigedd aelodau'r Panel Arbenigol, casglodd y Panel Arbenigol dystiolaeth benodol gan academyddion arbenigol a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, y Comisiwn Ffiniau i Gymru a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Ar 30 Mawrth 2017, cyhoeddodd y Panel Arbenigol gais cyffredinol am gyflwyno sylwadau neu dystiolaeth ar unrhyw un o'r materion yn ei gylch gorchwyl. Cafodd y cais am dystiolaeth ei gyhoeddi ar dudalen we'r Panel Arbenigol, a'i hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'i anfon yn uniongyrchol drwy e-bost at randdeiliaid a'r rhai a oedd wedi mynegi diddordeb yng ngwaith y Panel.

316. Cafwyd tystiolaeth gan 33 o unigolion neu sefydliadau. Cyhoeddwyd y cyflwyniadau hyn ar dudalen we'r Panel Arbenigol.⁸³ Roedd y cyflwyniadau a gafwyd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth y seiliodd y Panel Arbenigol ei ganfyddiadau

⁸² Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Datganiad ysgrifenedig ar y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), 1 Chwefror 2017

⁸³ Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Panel Arbenigol](#)

arni. Nodir manylion am sut y defnyddiodd y Panel y dystiolaeth i gyrraedd ei gasgliadau yn ei adroddiad, sef Senedd sy'n Gweithio i Gymru.⁸⁴

5.5.2. Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol (mis Chwefror 2017 ymlaen)

317. Yn gyson mae'r Llywydd wedi dweud bod y diwygiadau a nodir yn y Bil yn golygu bod consensws gwleidyddol eang yn angenrheidiol i gyflawni'r "uwch-fwyafrif" angenrheidiol, sef 40 Aelod yn pleidleisio o blaid y Bil yng Nghyfnod 4 o'r broses ddeddfu ac fel egwyddor o ystyried natur y diwygiadau cyfansoddiadol y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer. Er mwyn cynnwys y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad, sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol. Cadeiriwyd y Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol gan y Llywydd, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr a enwebwyd gan Arweinwyr yr holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Rôl y Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol, yn wreiddiol, oedd bod yn gyfrwng cyfathrebu i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol yn fisol â Chadeirydd y Panel Arbenigol i drafod materion sy'n berthnasol i waith y Panel. Ers i waith y Panel ddod i ben ym mis Rhagfyr 2017, mae'r Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol wedi parhau i gyfarfod yn achlysurol er mwyn gallu rhoi cyngor i'r Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad, ac ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad wrth ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol.

318. Ychwanegwyd at gyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol gan gyfarfodydd ad hoc rhwng yr Aelod sy'n gyfrifol a swyddogion y Comisiwn a chynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol.

5.5.3. Ymgysylltu â'r Cynulliad a chyrrff cysylltiedig â deiliaid swyddi

319. Mae *Deddf Cymru 2017* yn rhoi pwerau i'r Cynulliad dros ei drefniadau etholiadol a'i drefniadau mewnol ei hun. Arweiniwyd y gwaith i archwilio'r defnydd o'r pwerau hyn a datblygu'r cynigion deddfwriaethol a gynhwysir yn y Bil gan yr Aelod sy'n gyfrifol, ar ran Comisiwn y Cynulliad a'r sefydliad ehangach.

320. Fodd bynnag, nid yw nifer o'r materion sy'n ymwneud â diwygio etholiadol a mewnol yn dod yn gyfan gwbl o dan swyddogaethau'r Comisiwn. Felly, drwy gydol y cyfnod o ddatblygu'r cynigion, mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi ymgysylltu â phwyllgorau perthnasol y Cynulliad, fel y nodir isod:

⁸⁴ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, *Senedd sy'n gweithio i Gymru*, Rhagfyr 2017

5.5.3.1. Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

321. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gyfrifol am faterion cyfansoddiadol, deddfwriaethol a llywodraethol sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â braint y Cynulliad ac anghymhwysio Aelodau'r Cynulliad.

322. Ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor i wahodd ei farn am y canlynol:

- a allai deddfwriaeth i ddiwygio'r Cynulliad gynnig cyfle addas i roi effaith i argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad i ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol i anghymhwysio person rhag bod yn Aelod Cynulliad;
- a oedd angen diwygiad i'r darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ymwneud â braint y Cynulliad, difenwi a dirmyg llys, y byddai *Deddf Cymru 2017* yn dod â hwy o fewn cymhwysedd.

323. Mae Tabl 6 yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r penderfyniadau cysylltiedig a wnaed.

Tabl 6 Materion a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r penderfyniadau cysylltiedig

Y materion a godwyd	Penderfyniadau
Er nad oedd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pumed Cynulliad wedi trafod materion ynghylch anghymhwysio'n fanwl, roedd o'r farn bod argymhellion ei ragflaenydd yn sail gadarn dros ymgynghori.	Cynnwys argymhellion Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad ynghylch anghymhwysio yn ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad ar gwmpas y diwygiadau posibl.
Tynnodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol sylw at gymhlethdod ac arwyddocâd materion yn ymwneud â braint y Cynulliad, difenwi a dirmyg llys, a nododd y byddai angen ystyried y materion hyn yn fanwl cyn y byddai mewn sefyllfa i gynnig barn.	Casgliad nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod angen diwygio'r trefniadau hyn.

5.5.3.2. Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Comisiynydd Safonau

324. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, ystyried

materion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau. Mae'r Comisiynydd Safonau yn berson annibynnol a benodir gan y Cynulliad i roi cyngor a chymorth ar unrhyw fater o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad.

325. Ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Comisiynydd Safonau i wahodd eu barn ynghylch a oedd angen diwygio'r darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n ymwneud â safonau ac uniondeb y byddai *Deddf Cymru 2017* yn dod â hwy o fewn cymhwysedd.

326. Mae Tabl 7 yn nodi barn y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Comisiynydd Safonau a'r penderfyniadau cysylltiedig a wnaed.

Tabl 7 Materion a godwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Comisiynydd Safonau a'r penderfyniadau cysylltiedig

Y materion a godwyd	Penderfyniadau
Nododd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei fod wedi trafod y materion hyn â'r Comisiynydd Safonau, a daeth i'r casgliad nad oedd angen diwygio'r darpariaethau deddfwriaethol yn <i>Neddf Llywodraeth Cymru 2006</i> ar y pryd.	Penderfyniad na fyddai'r Bil yn ceisio diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer safonau ac uniondeb.

327. Ymgynghorwyd â'r Comisiynydd Safonau hefyd ar y cynnig cychwynnol i newid enw statudol Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gomisiynydd Safonau Senedd Cymru.

328. Mae Tabl 7 yn nodi barn y Comisiynydd Safonau a'r penderfyniadau cysylltiedig a wnaed.

Tabl 7 Materion a godwyd gan y Comisiynydd Safonau a'r penderfyniadau cysylltiedig

Y materion a godwyd	Penderfyniadau
Roedd y Comisiynydd Safonau'n fodlon ar y cynnig i newid yr enw statudol yn unol â'r cynigion.	Cynnwys darpariaethau yn y ddeddfwriaeth i newid enw statudol y Comisiynydd Safonau i adlewyrchu enw newydd y Cynulliad fel y Senedd. Mae'r ddarpariaeth i'r effaith hon wedi'i chynnwys yn adran 8 o'r Bil.

5.5.3.3. Y Pwyllgor Busnes

329. Mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am drefnu busnes y Cynulliad. Ei rôl yw sicrhau bod trafodion y Cynulliad yn mynd rhagddynt yn effeithiol.

330. Fel cadeirydd y Pwyllgor Busnes, roedd y Llywydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor drwy gydol y cyfnod o ddatblygu cynigion deddfwriaethol i ddefnyddio'r pwerau yn *Neddf Cymru 2017* i ddiwygio trefniadau mewnol y Cynulliad.

5.5.3.4. Y Bwrdd Taliadau

331. Ymgynghorwyd â'r Bwrdd Taliadau ar y cynnig cychwynnol i newid ei enw statudol o Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Fwrdd Taliadau Senedd Cymru, a'r cynnig dilynol i newid ei enw i Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

332. Mae Tabl 8 yn nodi barn y Bwrdd Taliadau a'r penderfyniadau cysylltiedig a wnaed.

Tabl 8 Y Materion a godwyd gan y Bwrdd Taliadau a'r penderfyniadau cysylltiedig

Y materion a godwyd	Penderfyniadau
Cytunodd y Bwrdd Taliadau y dylid newid ei enw i adlewyrchu'r newid i enw'r Cynulliad, ond gofynnodd iddo newid ei enw i Fwrdd Taliadau Annibynnol Senedd Cymru.	Cynnwys darpariaethau yn y ddeddfwriaeth i newid enw statudol y Bwrdd Taliadau i adlewyrchu enw newydd y Cynulliad fel Senedd, yn unol â'r enw amgen a gynigir gan y Bwrdd Taliadau. Mae'r ddarpariaeth i'r effaith hon wedi'i chynnwys yn adran 7 o'r Bil.

5.5.3.5. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

333. Yn ychwanegol at y gwaith o ymgysylltu â'r pleidiau gwleidyddol a nodir uchod, mae Aelodau'r Cynulliad wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf mewn sawl ffordd am drafod y defnydd o'r pwerau yn *Neddf Cymru 2017* a datblygu'r cynigion deddfwriaethol a nodir yn y Bil. Mae hyn wedi cynnwys Datganiadau Ysgrifenedig ffurfiol gan y Llywydd ar gerrig milltir allweddol, yn ogystal â gohebiaeth reolaidd drwy'r sianeli cyfathrebu sefydledig.

334. Ar 7 Chwefror 2018, trafododd a derbyniodd y Cynulliad y cynnig a ganlyn a gyflwynwyd gan y Llywydd fel cadeirydd Comisiwn y Cynulliad:⁸⁵

“Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

⁸⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2018.

2. Yn cymeradwyo penderfyniad Comisiwn y Cynulliad i ymgynghori ynghylch cynigion y Panel a diwygiadau eraill yn ymwneud ag etholiadau, yr etholfraint a threfniadau mewnol y gellir eu rhoi ar waith o ganlyniad i Ddeddf Cymru 2017.”

335. Ar 10 Hydref 2018, trafododd a derbyniodd y Cynulliad y cynnig a ganlyn a gyflwynwyd gan y Llywydd fel cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, gan alluogi'r Comisiwn i gyflwyno'r Bil hwn:⁸⁶

“Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Comisiwn y Cynulliad: “Creu Senedd i Gymru, adroddiad yr ymgynghoriad”, Hydref 2018;
2. Yn nodi datganiad ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad: Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru);
3. Yn cytuno i ganiatáu i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil i:
 - a) newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
 - b) ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad,
 - c) diwygio'r gyfraith yn ymwneud ag anghymhwys, a
 - d) gwneud newidiadau eraill i drefniadau etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad, a newidiadau sy'n gysylltiedig â hwy.”

⁸⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2018

6. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

336. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 9 isod yn nodi'r canlynol mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:

- ble y gellir dod o hyd i bob darpariaeth yn y Bil;
- y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y bwriedir arfer y pŵer;
- y rheswm pam mae pŵer dirprwyedig yn briodol; ac
- y weithdrefn graffu y bydd pob pŵer dirprwyedig yn ddarostyngedig iddi, os oes un.

337. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad ar yr is-ddeddfwriaeth, lle mae'n briodol gwneud hynny, pan fydd y cynigion wedi'u cwblhau.

338. Nid oes darpariaethau yn y Bil i wneud cyfarwyddiadau a phenderfyniadau a chyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag estyn yr etholfraint.

Tabl 9 Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Adran	Pŵer wedi'i roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Y rheswm dros y weithdrefn
Adran 14 Gwahoddiadau i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn darparu'r pŵer i bennu ffurf, cynnwys ac amseriad y gwahoddiad i gofrestru ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol, yn ogystal â ffurflenni i'w llenwi. Gallant hefyd addasu unrhyw ddeddfiad neu roi swyddogaethau i'r Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag, cyn gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.	Negyddol oni bai bod yr offeryn yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol. Yna, rhaid i weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys.	Gall fod angen diwygiadau rheolaidd i'r ffurflenni sy'n gwahodd unigolion i gofrestru ac mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes wedi dweud bod is-ddeddfwriaeth yn well mewn achosion o'r fath. Pan fydd rheoliadau'n addasu deddfwriaeth sylfaenol, bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys.
Adran 18 Y pŵer i ychwanegu categorïau penodol at y diffiniad o lety diogel	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn darparu pŵer (o dan is-adran 2B(b) o adran 7B o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983) i ychwanegu categorïau penodol ac amgylchiadau penodol at y diffiniad o lety diogel.	Negyddol	Yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gall fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd.

<p>Adran 25 Y pŵer i wneud rheoliadau ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd</p>	<p>Gweinidogion Cymru</p>	<p>Rheoliadau</p>	<p>Yn darparu pŵer i nodi'r trefniadau ynghylch sut y gellir darparu a diogelu gwybodaeth am etholwyr o dan 16 oed.</p> <p>Gall rheoliadau hefyd ddiwygio, diddymu neu addasu adran 15 o'r Bil neu ddarparu ar gyfer creu troseddau sydd i'w cosbi drwy ddirwy ar euogfarn ddiannod.</p>	<p>Negyddol oni bai bod yr offeryn yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol. Yna, rhaid i weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys.</p> <p>Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 25, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.</p>	<p>Mae'n bosibl y bydd angen rheoliadau i ragnodi materion technegol a gweinyddol y mae'n bosibl y bydd angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Os felly, byddai'r weithdrefn negyddol yn gymwys. Pan fo rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i sicrhau lefel addas o graffu.</p>
<p>Adran 36 Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau</p>	<p>Gweinidogion Cymru</p>	<p>Gorchymyn</p>	<p>Yn darparu pŵer (o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) i alluogi Gweinidogion Cymru i roi effaith i argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â rhesymoli'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr.</p>	<p>Cadarnhaol, fel gyda'r gorchmynion a wneir o dan y pwerau adran 13 presennol.</p>	<p>Sicrhau lefel briodol o waith craffu ar y defnydd o'r pŵer gwneud gorchmynion gan Weinidogion Cymru.</p>

Rhan 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol

339. Llenwyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, a grynhoir yn yr adran nesaf, ac a drafodir yn fanwl yn yr adrannau a ganlyn.

340. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru yn uniongyrchol.

7. Crynodeb: Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Yr opsiwn a ffefrir:

Cyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:

- newid enw'r sefydliad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (National Assembly for Wales) i'r Senedd, a gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol;
- estyn etholfraint y Cynulliad i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed gofrestru a phleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad;
- gwneud newidiadau technegol i'r drefn o ran anghymhwysu a diwygiadau i'r swyddi sy'n anghymhwysu person rhag bod yn Aelod.
- gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig;
- rhoi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth o'r fath fel sy'n ofynnol i sicrhau y caiff etholiadau yng Nghymru eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar gyfer gweinyddu etholiadau y caiff Comisiynau'r Gyfraith eu gwneud maes o law; ac
- estyn y cyfnod ar ôl etholiad y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf, ac egluro'r darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* gan alluogi Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â swyddogaethau'r Cynulliad.

Cyfnod: Cyflwyniad	Cyfnod gwerthuso: 2020-21 - 2024-25	Blwyddyn sail brisiau: 2018-19
Cyfanswm y gost uwch: Cyfanswm y gost: £2,757,600 Gwerth presennol: £2,701,500	Cyfanswm y buddiannau: Cyfanswm: £0 Gwerth presennol: £0	Gwerth presennol net: £2,701,500

7.1. Costau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill

7.1.1. Costau parhaus

341. Disgwylir i'r Bil arwain at gostau gweinyddol parhaus dros bum mlynedd i'r sefydliadau a ganlyn:

- Awdurdodau lleol: £421,000;

- Llywodraeth Cymru: £153,900;
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru £41,300;
- Y Comisiwn Etholiadol: £19,600.

342. £635,800 yw cyfanswm hyn.

343. Hefyd, mae nifer o gostau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithgareddau y mae'r Bil yn effeithio arnynt, ond nad ydynt yn arwain at newid costau. Yn benodol, roedd costau'n ymwneud â chynnal stoc o ddeunydd ysgrifennu ar gyfer Aelodau (£475,000), newid arwyddion, baneri a pharthau gwe'r Aelodau (£14,200) a phrosesu hawliadau'r Aelodau ar gyfer y rhain (£500), ailosod matiau a charpedi ar ystâd y Cynulliad (£13,600) a chynnal enwau parth a thystysgrifau diogelwch gwefan y Cynulliad (£1,500). Ystyrir mai'r un peth yw'r costau hyn, y mae Comisiwn y Cynulliad yn talu am bob un, ni waeth a yw deddfwriaeth yn mynd rhagddi ai peidio. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau hyn yw £504,800.

344. Felly, y gost barhaus "gros" o ddeddfu, ar y cyd â chostau a fyddai'n codi ni waeth a fyddai deddfwriaeth yn mynd rhagddi ai peidio, yw £1,140,600.

7.1.2. Costau trosiannol

345. Disgwylir i'r Bil hefyd arwain at gostau trosiannol i'r sefydliadau a ganlyn:

- Awdurdodau Lleol: £1,582,500;
- Y Comisiwn Etholiadol: £155,400;
- Llywodraeth Cymru: £63,200;
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru £320,700.

Trosiannol:	Parhaus:	Cyfanswm:	Gwerth presennol:
£2,121,800	£635,800	£2,757,600	£2,701,500

346. Ni ddisgwylir i'r Bil arwain at gostau cydymffurfio, ac ni nodwyd costau perthnasol eraill o ganlyniad i'r Bil.

7.2. Arbedion costau

347. Ni ddisgwylir i'r Bil arwain at arbedion meintioledig sylweddol. Mae arbediad o £600 i Gomisiwn y Cynulliad wedi'i nodi fel canlyniad tebygol darpariaethau a fydd yn estyn y terfyn amser ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad.

348. Mae'n bosibl y gellid gwneud arbedion o ganlyniad i ddarpariaethau sy'n gwneud newidiadau technegol i'r drefn o ran anghymhwys person rhag bod yn Aelod. Fodd bynnag, nid yw'r arbedion posibl hynny yn hysbys gan fod llawer o ansicrwydd yn gysylltiedig â hwy.

349. Mae hefyd yn bosibl y gellid gwneud arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas â gweinyddiaeth etholiadol o ganlyniad i ddarpariaethau sy'n deillio o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, gan nad oes digon o ddata i amcangyfrif yr arbedion cost hynny, nid yw'r arbedion effeithlonrwydd yn hysbys.

Trosiannol:	Parhaus:	Cyfanswm:	Gwerth presennol:
£0	£600	£600	£600

7.3. Cost weinyddol net

350. Felly, disgwylir i'r Bil arwain at gost weinyddol net o £2,757,000.

7.4. Manteision ac anfanteision na ellir eu meintioli'n ariannol

351. Disgwylir i'r Bil arwain at ystod o fanteision, na ellir meintioli llawer ohonynt yn ariannol. Er enghraifft, byddai newid enw'r Cynulliad yn arwain at fanteision o ran dealltwriaeth y cyhoedd o rôl, cyfrifoldebau a phwerau'r sefydliad, a'i le yn nhirwedd gyfansoddiadol y DU. Fodd bynnag, nid oes modd meintioli hyn yn ariannol.

352. Mae ystyriaeth lawn o'r manteision mewn perthynas â phob opsiwn a ffefrir wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

7.5. Buddion cost

353. Ni nodwyd buddion cost penodol o ganlyniad i'r Bil.

7.6. Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

354. Mae'r dystiolaeth a gynhwyswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i llywio drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys: Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol, pleidiau gwleidyddol, deddfwrfeydd eraill ac awdurdodau lleol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd wedi'i lywio gan ganfyddiadau'r ymgynghoriad ar newid enw'r Cynulliad a'r ymgynghoriad ar y Panel Arbenigol ar argymhellion Diwygio'r Cynulliad, sef "Creu Senedd i Gymru", gan ganiatáu i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ymgorffori barn ystod eang o randdeiliaid.

355. Dewiswyd cyfnod arfarnu 5 mlynedd ar gyfer dadansoddi costau a buddion, yn unol â'r arfer wrth ddatblygu asesiadau effaith rheoleiddiol, ac i ystyried y costau yr eir iddynt mewn cylch etholiad llawn. Pan nodwyd costau a buddion mewn perthynas ag etholiad, cawsant eu cyflwyno fel rhai sy'n dod yn gyfan gwbl yn ystod blwyddyn ariannol yr etholiad hwnnw, er ei bod yn bosibl na fydd hynny'n digwydd mewn gwirionedd.

356. Gwnaed rhagdybiaethau wrth amcangyfrif nifer o gostau, a manylir ar y rhain yn yr adrannau perthnasol. Er mwyn osgoi ymdrechion i gael cywirdeb ffug, mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf. Pan fo amcangyfrifon cost yn is na £50, mae talgrynnu wedi'i osgoi, gan y byddai hyn yn cael gwared ar y costau. Fodd bynnag, mae'r cyfansymiau yn y tablau cryno wedi'u talgrynnu er mwyn osgoi rhoi cyfansymiau 'cywir' camarweiniol.

357. Lle bo ansicrwydd, nodwyd hyn, a defnyddiwyd ystod uchaf y gost amcangyfrifedig ganlyniadol. Gall y dull gweithredu gofalus hwn olygu y bydd costau gwirioneddol gweithredu'r Bil yn is.

358. Lle y mae amcangyfrifon cost wedi cael eu cyfrifo ar sail pryniannau blaenorol gan ddarparwyr allanol, neu drwy ddefnyddio gwybodaeth flaenorol, rhoddwyd cyfrif am chwyddiant yn unol â datchwyddwyr Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) ym mis Hydref 2018.⁸⁷ Lle y bo angen, rhoddwyd cyfrif am Dreth Ar Werth (TAW) ar y gyfradd bresennol, sef 20 y cant.

⁸⁷ Ystadegau Gwladol, [GDP deflators at market prices, and money GDP October 2018 \(Quarterly National Accounts\)](#)

8. Opsiynau, costau a manteision

359. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i strwythuro ar sail pob amcan polisi o'r Bil er hwylustod cyfeirio. Cyflwynir opsiynau ar gyfer pob un, a'r cyntaf yw cynnal y sefyllfa bresennol, y cyfeirir ato fel "gwneud dim". Cyflwynir costau a buddion ar gyfer pob opsiwn, ac yna cadarnheir yr opsiwn a ffefirir o wireddu'r amcan polisi.

360. Yr opsiynau a ffefirir yw:

- Newid enw'r sefydliad o Cynulliad Cenedlaethol Cymru (National Assembly for Wales) i'r Senedd, a gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol. Sicrhau bod enw'r sefydliad yn adlewyrchu ei sefyllfa gyfansoddiadol, a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau'r ddeddfwrfa;
- Gostwng yr oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad i 16, a diwygio'r trefniadau cofrestru etholiadol cysylltiedig. Bydd hyn yn grymuso, yn ennyn diddordeb ac yn tanio brwdfrydedd pobl ifanc ynghylch democratiaeth yng Nghymru, ac yn sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith er mwyn i etholfraint y Cynulliad weithredu'n ddidrafferth.
- Gwneud newidiadau i'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad; Diben darpariaethau'r Bil ynghylch anghymhwysu yw egluro a diwygio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud ag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad, rhoi mwy o eglurder i ddarpar ymgeiswyr am eu cymhwystra i sefyll mewn etholiad, a galluogi mwy o bobl i sefyll mewn etholiad heb orfod ymddiswyddo o'u swyddi.
- Gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig, a dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i argymhellion a wneir gan y Cynulliad yn sgil ystyriaeth o'r fath.
- Cyflwyno pŵer gwneud rheoliadau i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â diwygio'r gyfraith etholiadol. Nod hyn yw sicrhau y gellir gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith i resymoli'r cyfreithiau presennol sy'n ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad ac

etholiadau lleol, gan gyfrannu at ddatblygu fframwaith deddfwriaethol cyson, sy'n sicrhau cysondeb ar draws etholiadau gwahanol.

- Estyn y terfyn amser ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad Cynulliad. Bydd hyn yn estyn y cyfleoedd i gynnal trafodaethau a negodiadau rhwng pleidiau gwleidyddol ar ôl etholiad, gan adlewyrchu pwysigrwydd trafodaethau o'r fath, yn enwedig mewn system etholiadol lle nad yw llywodraethau mwyafrifol yn debygol.
- egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau. Bydd hyn yn dileu'r amwysedd presennol er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer her gyfreithiol yn y dyfodol pe bai'r Comisiwn yn penderfynu codi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau (er nad oes cynlluniau i wneud hynny ar hyn o bryd).

9. Aseiad cost o newid enw'r Cynulliad

9.1. Y dull cyffredinol o ran asesu cost

361. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol yn arwain at ystod o gostau. Cyflwynir y costau hyn dan y penawdau a ganlyn:

- **Costau i'r Aelodau** – costau y bydd Aelodau'n eu talu'n uniongyrchol drwy eu lwfansau yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau;
- **Cyfathrebu** – costau mewn cysylltiad â'r modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfathrebu, er enghraifft drwy gyfrwng arddangosfeydd, cyhoeddiadau ac yn electronig;
- **Presenoldeb ffisegol** – yr arwyddion ffisegol a'r eitemau wedi'u brandio sydd ar yr Ystâd ei hun ac yn ehangach yn y gymuned (ar wahân i gyhoeddiadau);
- **TGCh** – costau sy'n codi mewn perthynas â darparu gwefan a chyfeiriadau e-bost;
- **Sefydliadau allanol** – costau yr eir iddynt gan sefydliadau heblaw am Gomisiwn y Cynulliad.

362. Mae'r aseiad o gostau'n cynnwys amcangyfrifon o gostau cyfle amser staff a ddefnyddir i gyflwyno'r newid i'r enw, lle y byddai amser staff yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dyletswyddau arferol fel arall. Yn ymarferol, tybir y byddai'r costau hyn yn cael eu hamsugno yng ngwaith arferol staff, a'u rheoli drwy ailflaenoriaethu gwaith, neu eu rheoli fel arall mewn cyllidebau presennol.

9.2. Yr opsiynau a ystyriwyd

363. Ystyriwyd tri opsiwn ar gyfer newid enw'r Cynulliad:

- **Opsiwn 1:** peidio â newid enw'r Cynulliad.
- **Opsiwn 2:** newid enw'r Cynulliad, yn anffurfiol, heb newid yr enw mewn deddfwriaeth. Gellid gwneud newidiadau anffurfiol cyfatebol hefyd i enwau a theitlau deiliaid swyddi neu gyrff perthnasol.
- **Opsiwn 3:** deddfu i newid enw'r Cynulliad i 'Senedd' a gwneud newidiadau cysylltiedig i enwau a theitlau deiliaid swyddi neu gyrff perthnasol. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

9.3. Opsiwn 1: peidio â newid enw'r Cynulliad

9.3.1. Disgrifiad

364. Yr opsiwn cyntaf yw cynnal y sefyllfa bresennol a pharhau ag enw presennol y Cynulliad. Byddai enw'r sefydliad, ei Aelodau, cyrff cysylltiedig a Deddfau'r Cynulliad yn aros yr un peth.

9.3.2. Costau ac arbedion

365. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at gostau *ychwanegol* gan y byddai'n golygu cynnal y sefyllfa bresennol.

366. Ni fyddai arbedion *ychwanegol* yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn gan y byddai'n golygu cynnal y sefyllfa bresennol.

367. Ni fu'n bosibl asesu'r "costau cyfle" posibl a allai godi o ganlyniad i gollir cyfle i godi ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth ymhlith pobl Cymru ac annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd o ganlyniad i hynny. Mewn theori, gallai mwy o ymgysylltiad yn y broses ddemocrataidd arwain at waith craffu mwy effeithiol ar wariant y llywodraeth a gallai, yn ei dro, arwain at arbedion ariannol. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r theori hon, nid yw'n bosibl asesu arbedion posibl na chawsant eu cyflawni o ganlyniad i gollir cyfle hwn.

368. Fodd bynnag, nodwyd ystod o gostau parhaus mewn perthynas â defnyddio enw'r Cynulliad. Crynhoir y rhain yn Tabl 10 isod, a chânt eu trafod yn fanylach yn yr is-adrannau a ganlyn. Mae'r costau hyn wedi'u nodi ar y cyd â'r adran yng Nghomisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am y gweithgaredd a'i wirio (lle y bo'n bosibl) drwy ddefnyddio data ariannol hanesyddol.

Tabl 10 Opsiwn 1 (peidio â newid enw'r Cynulliad) Cyfanswm y costau

	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)
Costau'r Aelodau						
Arwyddion ar gyfer swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol yr Aelodau	300	7,900	300	300	300	9,100
Arwyddion - staff cymorth Aelodau'r Cynulliad - caffael	100	1,600	100	100	100	2,000
Baneri'r Aelodau	100	2,900	100	100	100	3,300
Parthau gwe'r Aelodau	200	200	200	200	200	1,000
Deunydd ysgrifennu'r Aelodau	95,000	95,000	95,000	95,000	95,000	475,000
Hawliadau gweinyddol staff y Comisiwn	40	200	40	40	40	400
Cyfanswm	95,700	107,800	95,700	95,700	95,700	490,800
Presenoldeb Ffisegol - ystâd y Cynulliad						
Mat mynedfa'r Senedd	-	1,200	-	1,200	-	2,400
Carped mynedfa Tŷ Hywel	-	5,100	-	5,100	-	10,200
Gwaith cyflwyno a gweinyddu gan staff	-	500	-	500	-	1,000
Cyfanswm	-	6,800	-	6,800		13,600
Costau TGCh Comisiwn y Cynulliad						
Parthau gwe gwefan y Cynulliad	100	100	100	100	100	500

Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel	200	200	200	200	200	1,000
Cyfanswm	300	300	300	300	300	1,500
CYFANSWM	96,000	114,900	96,000	102,800	96,000	505,900

9.3.2.1. Costau'r Aelodau

369. Costau'r Aelodau yw'r costau y bydd Aelodau'n eu talu'n uniongyrchol drwy eu lwfansau yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau; O dan opsiwn 1, nodwyd pedwar prif faes o gostau parhaus yr Aelodau, sef:

- **arwyddion ar gyfer swyddfeydd etholaethol:** Arwyddion dwyieithog a fyddai fel arfer yn dwyn enw'r Cynulliad a'r ôl-ddodiad AC/AM. Mae costau eraill sy'n gysylltiedig ag arwyddion yn cynnwys dylunio a gosod;
- **baneri:** Arwyddion/posteri dwyieithog symudol, fel arfer yn dwyn enw'r Cynulliad a'r ôl-ddodiad AC/AM, a ddefnyddir gan yr Aelodau wrth fynychu neu gynnal digwyddiadau a chymorthfeydd;
- **parthau gwe:** cyfeiriadau electronig a ddefnyddir i fynd i wefan. Gall parthau gwe gynnwys yr ôl-ddodiad AC/AM. Mae'n debygol y bydd gwefannau'n cynnwys hyn yn ychwanegol at gyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- **deunydd ysgrifennu:** deunydd ysgrifennu dwyieithog personol (e.e. penawdau llythyrau, amlenni), a gynhyrchir yn fewnol i'r Aelodau.

9.3.2.2. Arwyddion ar gyfer swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol yr Aelodau

370. Fel arfer, bydd gan bob Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru arwydd ar gyfer ei swyddfa/swyddfeydd etholaethol. Mae arwyddion swyddfa'r rhan fwyaf o'r Aelodau'n cynnwys enw'r Cynulliad, ei logo, a/neu "AC/AM" fel ôl-ddodiad ar ôl enw'r Aelod.

371. Dan opsiwn 1, byddai costau parhaus yn gysylltiedig ag arwyddion. Yn hanesyddol, prynwyd arwyddion yn bennaf yn ystod blwyddyn ariannol etholiad Cynulliad, i Aelodau nad oeddent yn Aelodau'r Cynulliad o'r blaen (neu Aelodau "newydd"). Ar gyfartaledd, etholir 19 o Aelodau 'newydd' ar ôl pob etholiad Cynulliad.⁸⁸

⁸⁸Ar ôl etholiadau 2003, 2007, 2011 a 2016, etholwyd 19.25 o Aelodau ar gyfartaledd nad oeddent yn Aelodau'r Cynulliad o'r blaen.

372. Mae data hanesyddol o 2012-13 a 2016-17 yn nodi mai £400 yw cost gyfartalog hawliad arwyddion swyddfa etholaethol.⁸⁹ Felly, amcangyfrifir mai £7,600 yw'r gost barhaus ar gyfer arwyddion o ganlyniad i etholiad Cynulliad.⁹⁰

373. Fodd bynnag, gall Aelodau Cynulliad "newydd" ddod i'r swydd ar adegau heblaw am etholiad Cynulliad: rhwng mis Mai 2011 a mis Hydref 2018 (7.5 mlynedd), daeth chwe Aelod Cynulliad i'r swydd yn ystod tymor Cynulliad.⁹¹ Felly, amcangyfrifir mai £300 yw'r gost barhaus ar gyfer arwyddion (yn ystod blynyddoedd etholiad a blynyddoedd pan na chynhelir etholiad).⁹²

374. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir bod yr arwyddion yn treulio'n dda ac, felly, nad oes angen ailosod arwyddion o bryd i'w gilydd oherwydd difrod yn ystod cyfnod 5 mlynedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Yn yr un modd, tybir nad yw Aelodau'n newid swyddfa (sydd hefyd yn adlewyrchu data hanesyddol na symudwyd swyddfa etholaethol yn y 12 mis rhwng mis Hydref 2017 a mis Hydref 2018).

375. Byddai cost hefyd yn gysylltiedig â staff cymorth yr Aelod o ran caffael yr arwydd. Amcangyfrifir mai £78.60 yw'r gost o ran amser staff i ymgymryd â phroses gaffael ar gyfer un arwydd swyddfa.⁹³ Felly, amcangyfrifir mai £2,000 yw cyfanswm y gost barhaus am 5 mlynedd.⁹⁴

376. Felly, £11,100 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer ailosod arwyddion dan opsiwn 1 dros 5 mlynedd.⁹⁵

⁸⁹ £401.25, wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf.

⁹⁰ Yn seiliedig ar $£401.25 \times 19 = £7,623.78$, ac wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf.

⁹¹ Yn hytrach nag ar ddechrau tymor Cynulliad, o ganlyniad i is-etholiad neu gymryd lle Aelod a etholwyd drwy restr ranbarthol.

⁹² Yn seiliedig ar $£401.25 \times (6 \div 7.5) = £321.00$.

⁹³ Yn seiliedig ar aelod o staff Band 1 yn treulio cyfanswm o 6 awr ar gyfradd awr o £13.10 yn cysylltu â chyflenwyr, yn adolygu dyluniadau ac yn trefnu i'w gosod.

⁹⁴ Yn seiliedig ar $£78.60 \times (6 \div 7.5)$ ar gyfer pob blwyddyn, a $£78.60 \times 19$ ychwanegol ar gyfer blwyddyn etholiad, sy'n cyfateb i £1,808 ac wedi'i dalgrynnu i £2,000 ar ôl ystyried y dull o dalgrynnu ar gyfer pob cost flynyddol.

⁹⁵ Yn seiliedig ar gost yr arwyddion ar ôl etholiad Cynulliad, yn ychwanegol at y gost arwyddion barhaus am 5 mlynedd (yn ystod blynyddoedd etholiad a blynyddoedd pan na chynhelir etholiad), yn ogystal â'r gost o ran amser staff ar gyfer staff cymorth yr Aelodau.

9.3.2.3. Baneri'r Aelodau

377. Yn y cyd-destun hwn, mae baneri'n arwyddion neu'n bosteri dwyieithog symudol, fel arfer yn dwyn enw'r Cynulliad a'r ôl-ddodiad AC/AM, a ddefnyddir gan yr Aelodau wrth fynychu neu gynnal digwyddiadau a chymorthfeydd.

378. Os na fyddai newid enw, byddai costau parhaus mewn cysylltiad â baneri beth bynnag. Mae data hanesyddol yn nodi mai cost gyfartalog y faner oedd £145. Yn seiliedig ar ethol 19 Aelod 'newydd' ar gyfartaledd fel arfer ar ôl etholiad Cynulliad (fel y nodir yn nhroednodyn 88), amcangyfrifir mai £2,800 yw'r gost barhaus ar gyfer baneri o ganlyniad i etholiad Cynulliad.⁹⁶

379. I adlewyrchu'r ffaith y gall Aelodau 'newydd' ddod i'r swydd ar adegau heblaw am etholiad Cynulliad (fel y nodir yn nhroednodyn 91), amcangyfrifir mai £100 yw'r gost barhaus ar gyfer baneri (yn ystod blynyddoedd etholiad a blynyddoedd pan na chynhelir etholiad).⁹⁷

380. Felly, £3,300 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer ailosod baneri dan opsiwn 1.⁹⁸

9.3.2.4. Parthau gwe'r Aelodau

381. Mae'r Aelodau'n talu costau ar gyfer cofrestru parthau gwe, sef y dynodydd unigryw ar gyfer eu gwefannau.

382. O dan opsiwn 1, byddai costau parhaus yn gysylltiedig â pharthau gwe. Telir am gofrestriadau parthau gwe bob blwyddyn, sef tua £31.68 y parth. Ym mis Awst 2018, dim ond saith Aelod a gynhaliodd barth gwe a oedd yn dwyn yr ôl-ddodiad "AC/AM", a hynny am gyfanswm o £200 y flwyddyn.⁹⁹ Gall nifer yr Aelodau y mae arnynt angen parthau gwe amrywio dros amser yn dibynnu ar ddewisiadau unigol yr Aelodau. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dybiaeth bod nifer yr Aelodau perthnasol yn parhau i fod yn gyson, amcangyfrifir mai £1,000 yw'r gost barhaus mewn perthynas â chofrestriadau parthau gwe dros 5 mlynedd.

9.3.2.5. Deunydd ysgrifennu'r Aelodau

383. Cynhyrchir deunydd ysgrifennu personol Aelodau'r Cynulliad gan uned gopïo fewnol y Cynulliad. Y gyllideb ar gyfer deunydd ysgrifennu yw £100,000 ar gyfer

⁹⁶ Yn seiliedig ar $£145.46 \times 19 = £2800.14$.

⁹⁷ Yn seiliedig ar $£145.46 \times (6 \div 7.5) = £116.37$.

⁹⁸ Yn seiliedig ar y gost baneri ar ôl etholiad Cynulliad, yn ychwanegol at y gost baneri barhaus am 5 mlynedd (yn ystod blynyddoedd etholiad a blynyddoedd pan na chynhelir etholiad).

⁹⁹ Yn seiliedig ar $£31.78 \times 7 = £222.42$

2018-19. Yn hanesyddol, mae hyd at 95 y cant o'r gyllideb hon yn cael ei gwario ym mhob blwyddyn ariannol.

384. Yn seiliedig ar y dybiaeth bod defnydd yr Aelodau o ddeunydd ysgrifennu ac, o ganlyniad, y defnydd o'r gyllideb ar gyfer deunydd ysgrifennu, yn parhau i fod yn gyson, amcangyfrifir mai £475,000 yw'r gost barhaus dros 5 mlynedd ar gyfer cynhyrchu deunydd ysgrifennu personol yr Aelodau.

9.3.2.6. Amser staff Comisiwn y Cynulliad i brosesu hawliadau'r Aelodau

385. Ar sail y costau uchod ar gyfer hawliadau Aelodau o'u lwfansau yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau, byddai costau cysylltiedig yn sgil amser staff Aelodau'r Cynulliad yn prosesu ac yn awdurdodi'r hawliadau hyn.

386. Amcangyfrifir mai'r gost o ran amser staff yn prosesu ac yn awdurdodi un cais fyddai £4.61.¹⁰⁰

387. Felly, amcangyfrifir mai'r gost gysylltiedig ar gyfer prosesu hawliadau ar gyfer arwyddion swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol Aelodau dan yr opsiwn hwn fyddai £105.98¹⁰¹, gyda'r un gost amcangyfrifedig o £105.98¹⁰² ar gyfer prosesu hawliadau ar gyfer baneri Aelodau.

388. Amcangyfrifir mai £161.35 yw'r gost gysylltiedig ar gyfer prosesu hawliadau parthau gwe Aelodau.¹⁰³

389. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost o ran amser staff Aelodau'r Cynulliad yn prosesu hawliadau Aelodau fyddai £400.

9.3.3. Presenoldeb ffisegol – ystâd y Cynulliad

390. Mae presenoldeb ffisegol yn cynrychioli costau mewn perthynas â'r arwyddion brand (mewnol ac allanol), dodrefn ac eitemau eraill ar ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd ac yn swyddfeydd Bae Colwyn.

391. Dan opsiwn 1, byddai disgwyl i arwyddion gael eu newid o bryd i'w gilydd oherwydd traul. Fodd bynnag, mae data hanesyddol yn awgrymu nad oes costau

¹⁰⁰ Ar sail aelod o staff ar radd Cymorth Tîm yn treulio 15 munud yn prosesu hawliad, ac aelod o staff Band 3 Rheoli yn treulio 5 munud yn awdurdodi'r hawliad.

¹⁰¹ Yn seiliedig ar £4.61 x (6÷7.5) ar gyfer pob blwyddyn, a £4.61 x 19 ychwanegol ar gyfer blwyddyn etholiad.

¹⁰² Yn seiliedig ar £4.61 x (6÷7.5) ar gyfer pob blwyddyn, a £4.61 x 19 ychwanegol ar gyfer blwyddyn etholiad.

¹⁰³ Yn seiliedig ar £4.61 x 7 ar gyfer pob blwyddyn.

cynnal a chadw rheolaidd, ac nad oes angen eu hailosod fel arall yn ystod pum mlynedd.

392. Fodd bynnag, disgwylir y bydd costau o ran ailosod carpedi a matiau yn Nhŷ Hywel a'r Senedd oherwydd traul.

393. Yn seiliedig ar y carpedi newydd a brynwyd yn 2013-14 a 2016-17, tybir y bydd carpedi newydd yn cael eu prynu ddwywaith mewn pum mlynedd. Yn seiliedig ar gost y pryniadau hyn, amcangyfrifir mai £10,200 yw'r gost dros y cyfnod hwn.¹⁰⁴

394. Yn unol â'r dybiaeth hon, tybir hefyd y bydd matiau newydd ar gyfer y fynedfa hefyd yn cael eu prynu ddwywaith mewn pum mlynedd. Yn seiliedig ar bryniad yn 2018-19, amcangyfrifir mai £2,400 yw cyfanswm y gost dros y cyfnod hwn.¹⁰⁵

395. Amcangyfrifir mai £1000 yw cyfanswm cost amser staff dros 5 mlynedd sy'n gysylltiedig â'r pryniadau hyn yn ymwneud â gweithgarwch megis cysylltu â chyflenwyr, cael proflenni, cytuno ar amserlenni a gwneud y gwaith gosod.¹⁰⁶

396. Felly, £13,600 fyddai cyfanswm y gost dan opsiwn 1 ar gyfer presenoldeb ffisegol ar ystâd y Cynulliad.

9.3.4. Costau TGCh Comisiwn y Cynulliad

397. Costau TGCh yw'r costau sy'n ymwneud â chyfeiriadau e-bost sy'n dwyn enw'r Cynulliad, yn ogystal â throsglwyddo data electronig yn ddiogel (tystysgrif Haenen Socedi Diogel).

398. Dan opsiwn 1, byddai costau parhaus mewn perthynas â chofrestru parthau gwe, a chynnal tystysgrifau Haenen Socedi Diogel. Mae gan y Cynulliad ddau barth gwe (cynulliad.cymru ac assembly.wales), sy'n costio £50 y flwyddyn (cyfanswm o £100 y flwyddyn).

399. Mae'n ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad sicrhau'r tystysgrifau diogelwch Haenen Socedi Diogel priodol (sydd eu hangen i amgryptio rhai gwasanaethau gwe sy'n casglu data personol) ar gyfer pob gwefan gysylltiedig. Amcangyfrifir mai £200 y flwyddyn yw hyn.

¹⁰⁴ Yn seiliedig ar £5,116.27 fel cost gyfartalog ar gyfer y rhai a brynwyd, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant.

¹⁰⁵ Yn seiliedig ar £1,200 fel cost y pryniad.

¹⁰⁶ Yn seiliedig ar aelod o staff Band Rheoli 3 yn treulio 3 diwrnod ar gost o £373, ac aelod o staff Band Rheoli 2 yn treulio 0.5 diwrnod ar gost o £82, sy'n cyfateb i £455.53 wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf a'i luosi â 2 flynedd.

400. Felly, £1,500 fyddai cyfanswm y costau TGCh amcangyfrifedig dros bum mlynedd dan opsiwn 1.

9.3.5. Manteision a risgiau

401. Un o fanteision cadw enw presennol y sefydliad yw ei fod yn gyfarwydd i'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid, a gallai osgoi'r risgiau na fyddai'r newid enw'n cael ei gyfleu'n ddigonol neu y byddai'r cyhoedd yn ei gamddeall. Mae cost ariannol is iddo hefyd na'r opsiynau eraill a ystyriwyd.

402. Y risg o gadw enw presennol y sefydliad yw ei bod yn hysbys bod diffyg eglurder ynghylch rôl a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod newid enw'r ddeddfwrfa'n gyfle i godi ymwybyddiaeth o'i rôl a'i swyddogaethau.

403. Mae'r diffyg eglurder presennol wedi'i gadarnhau drwy nifer o arolygon ac ymarferion ymgynghori, fel y nodir yn adran 3.2.

404. Ni fyddai cadw enw presennol y sefydliad yn cyflawni'r amcan o sicrhau bod enw'r sefydliad yn adlewyrchu'n well ei statws a'i gyfrifoldebau cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol. Byddai hefyd yn colli'r cyfle i godi ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau'r ddeddfwrfa a'r llywodraeth ymhlith pobl Cymru ac annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Opsiwn 2: newid enw'r Cynulliad heb ddeddfwriaeth

9.3.6. Disgrifiad

405. Caiff y Cynulliad gytuno i newid ei enw'n anffurfiol, heb wneud newid deddfwriaethol. Er enghraifft, caiff y Cynulliad benderfynu cael ei alw'n enw gwahanol, neu gallai'r Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad ddechrau defnyddio enw gwahanol ar gyfer y sefydliad.

406. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru arfer tebyg o'r blaen. Er mai Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd ei henw cyfreithiol nes diwygio darpariaethau statudol gan *Ddeddf Cymru 2014*, dechreuodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r enw "Llywodraeth Cymru" mewn negeseuon, arwyddion a dogfennaeth yn anffurfiol o 2011 ymlaen.

9.3.7. Costau ac arbedion

407. Ar y cyfan, yr un yw'r costau amcangyfrifedig ar gyfer newid enw anstatudol â newid enw statudol (a nodir yn opsiwn 3). Y rheswm am hyn yw mai'r un peth, ar y

cyfan, yw'r newidiadau sy'n arwain at gostau i ystâd ffisegol y Cynulliad a negeseuon, TGCh ac Aelodau'r Cynulliad.

408. Un arbediad bach yng nghostau'r Cynulliad (o'i gymharu ag opsiwn 3) yw na fyddai amser staff yn gysylltiedig â diweddarau penderfyniad y Llywydd ar ffurf briodol Biliau (oherwydd na fyddai modd i'r penderfyniad newid). Amcangyfrifir y byddai arbediad trosiannol o £500.¹⁰⁷

409. Fel arall, ni nodwyd arbedion ychwanegol i Gomisiwn y Cynulliad gyda'r opsiwn hwn o'i gymharu ag opsiwn 3.

410. Mae adran 9.4.8 dan opsiwn 3 yn nodi mai £122,000 fyddai'r gost untro, drosiannol i sefydliadau eraill o ganlyniad i newid enw cyfreithiol. Pe bai'r Cynulliad yn newid ei enw'n anffurfiol, byddai gan sefydliadau eraill fwy o ddewis ynghylch diweddarau eu gwybodaeth neu eu harwyddion sydd ar gael i'r cyhoedd a chadw'r enw statudol presennol yn lle hynny. Gall sefydliadau ddadlau y byddai defnyddio'r enw statudol yn fwy priodol.

411. Felly, tybir na fyddai'r gost hon, sef £122,000, i sefydliadau allanol yn berthnasol dan opsiwn 2.

412. Crynhoir cyfanswm y costau dan yr opsiwn hwn yn Tabl 11 Cyfanswm y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2 yw £172,100.

¹⁰⁷ Yn seiliedig ar Swyddog Gweithredol Band 2 yn gweithio 0.5 diwrnod ar gost o £138.95, ac aelod o staff Band Rheoli 2 yn gweithio 2 ddiwrnod ar gost o £328.38, sy'n gyfwerth â £467.33.

Tabl 11 Opsw'n 2 (newid enw'r Cynulliad heb ddeddfwriaeth) Cyfanswm y costau

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Costau'r Aelodau									
Arwyddion ar gyfer swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol yr Aelodau	9,100	18,900	300	7,900	300	300	300	28,000	18,900
Arwyddion - staff cymorth Aelodau'r Cynulliad - caffael	2,000	3,700	100	1,600	100	100	100	5,700	3,700
Baneri'r Aelodau	3,300	6,000	100	2,900	100	100	100	9,300	6,000
Parthau gwe'r Aelodau	1,000	200	200	400	400	400	400	2,000	1,000
Diweddariadau i dudalennau'r Aelodau	-	600	-	-	-	-	-	600	600
Deunydd ysgrifennu'r Aelodau	475,000	3,600	95,000	95,000	95,000	95,000	95,000	478,600	3,600
Prosesu hawliadau staff y Comisiwn	400	400	40	200	72	72	72	900	500
Is-gyfanswm costau'r Aelodau	490,400	33,400	95,700	108,000	96,000	96,000	96,000	525,100	34,300
Cydgysylltu gweithgarwch sy'n ymwneud â newid enw yn y Cynulliad									
Cost staffio	-	5,600	-	-	-	-	-	5,600	5,600

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Is-gyfanswm cydgysylltu gweithgarwch newid enw	-	5,600	-	-	-	-	-	5,600	5,600
Cyfathrebu									
Codi ymwybyddiaeth	-	6,500	-	-	-	-	-	6,500	6,500
Deunyddiau arddangos	-	5,300	-	-	-	-	-	5,300	5,300
Cyhoeddiadau parhaus	-	1,000	-	-	-	-	-	1,000	1,000
Cyhoeddiadau ar ddyddiad penodol	-	12,337	-	-	-	-	-	12,300	12,300
Diweddarau cynnwys gwe neu gyhoeddiadau ar y we, a chanllawiau/prosesau mewnol	-	50,000	-	-	-	-	-	50,000	50,000
Is-gyfanswm cyfathrebu	-	75,600	-	-	-	-	-	75,600	75,600
Presenoldeb ffisegol - ystâd y Cynulliad									
Arwyddion Siambr Hywel: Dau arwydd mynedfa wedi'u brandio	-	2,500	-	-	-	-	-	2,500	2,500
Arwyddion allanol y Senedd, ar flaen yr adeilad a'r ochr	-	14,900	-	-	-	-	-	14,900	14,900

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Arwyddion teledu cylch cyfyng ar draws yr ystâd	-	600	-	-	-	-	-	600	600
Tynnu'r llythrennau oddi ar furiau allanol Tŷ Hywel	-	4,500	-	-	-	-	-	4,500	4,500
Mat mynedfa'r Senedd	2,400	1,200	-	1,200	-	1,200	-	3,600	1,200
Arwyddion allanol Tŷ Hywel a'r Pierhead	-	6,500	-	-	-	-	-	6,500	6,500
Arwyddion man aros derbynfa Tŷ Hywel	-	600	-	-	-	-	-	600	600
Carped mynedfa Tŷ Hywel	10,200	5,100	-	5,100	-	5,100	-	15,300	5,100
Arwyddion yn swyddfa Bae Colwyn	-	14,900	-	-	-	-	-	14,900	14,900
Arfau'r corff a dillad llachar	-	1,200	-	-	-	-	-	1,200	1,200
Baneri'r Bwrdd Taliadau	-	300	-	-	-	-	-	300	300
Gwaith cyflwyno a gweinyddu gan staff	1,000	2,300	-	500	-	500	-	3,300	2,300
Is-gyfanswm presenoldeb ffisegol - ystâd y Cynulliad	13,600	54,600	-	6,800	-	6,800	-	68,200	54,600
TGCh									
Parthau gwe'r Cynulliad	500	-	300	300	300	300	300	1,500	1,000

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel	1,000	-	200	200	200	200	200	1,000	0
Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel (gwaith cyflawni gan y staff a newidiadau cysylltiedig)	-	1,500	-	-	-	-	-	1,500	1,500
Is-gyfanswm TGCh	1,500	1,500	500	500	500	500	500	4,000	2,500
CYFANSWM	505,900	170,200	96,200	115,300	96,500	103,300	96,500	678,000	172,100

9.3.8. Manteision a risgiau

413. Un o fanteision newid enw yn anffurfiol yw na fyddai angen deddfwriaeth ac, felly, na fyddai angen neilltuo amser nac adnoddau'r Cynulliad i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath na chraffu arni. Fodd bynnag, byddai angen amser ac adnoddau staff o hyd i helpu i newid yr enw yn anffurfiol.

414. Pe bai'r enw anffurfiol yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin, byddai'r manteision yn cynnwys mwy o eglurder i'r cyhoedd a rhanddeiliaid am rôl, diben a phwerau'r sefydliad. Fodd bynnag, byddai'n rhesymol i gyrff allanol, gan gynnwys y cyfryngau, ddewis cyfeirio at enw cyfreithiol y Cynulliad, yn hytrach na'i enw newydd, anffurfiol. Gallai hyn danseilio'r manteision o newid enw, gan arwain at fwy o ddryswch ymhlith y cyhoedd ynghylch enw, diben a phwerau'r sefydliad.

415. Pe bai enw'r Cynulliad yn cael ei newid yn anffurfiol, byddai'n rhaid i bob dogfen gyfreithiol bresennol a phob un yn y dyfodol (megis deddfwriaeth neu gontractau) barhau i gyfeirio at y sefydliad yn ôl ei enw cyfreithiol, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan mai hwn fyddai enw cyfreithiol y corff o hyd.

416. Byddai nifer o risgiau'n gysylltiedig â newid enw'r Cynulliad yn anffurfiol. Nodir y rhain yn y tabl isod.

Tabl 12 Y risgiau sy'n gysylltiedig â newid enw'r Cynulliad yn anffurfiol

Senario	Asesu risg
Cyfeiriadau anffurfiol at "Senedd" gan yr Aelodau mewn dadleuon, cyfweiliadau i'r cyfryngau ac ati.	Mae hyn yn digwydd eisoes, a gall gyfrannu at y diffyg dealltwriaeth gan y cyhoedd o rôl y Cynulliad.
Cyfeiriadau yn nogfennau a datganiadau ffurfiol Llywodraeth Cymru at y "Senedd".	Yn debygol o achosi dryswch, gan na allai Llywodraeth Cymru gyfeirio at y "Senedd" mewn dogfennau cyfreithiol, nodiadau esboniadol i Filiau nac offerynnau statudol. Gallai hyn arwain at anghysonderau rhwng dogfennau polisi a negeseuon, a'u dogfennau cyfreithiol cysylltiedig.
Cyfeiriadau ffurfiol at "Senedd" ym musnes y Cynulliad, er enghraifft yn nhestun cynigion.	Yn debygol o arwain at ddryswch mewnol ac allanol, gan ddwyn anfri ar y Cynulliad o bosibl. Byddai'r Rheolau Sefydlog yn parhau i gyfeirio at y Cynulliad (fel y byddai dogfennau a theitlau cyfreithiol eraill a deunyddiau brandio'r Cynulliad ei hun).

	Byddai materion yn codi mewn perthynas â derbynoldeb busnes a gyfeiriodd at y “Senedd”, yn enwedig pe bai Aelodau’r Cynulliad neu grwpiau gwleidyddol gwahanol yn dilyn dulliau gwahanol o fabwysiadu enw newydd yn anffurfiol.
Newidiadau i ddeunydd brandio Comisiwn y Cynulliad sy’n ymgorffori’r enw “Senedd”, gan gynnwys mewn cyhoeddiadau, ar y wefan ac mewn negeseuon.	Yn debygol iawn o achosi dryswch, gan y byddai dogfennau cyfreithiol a busnes ffurfiol yn parhau i gyfeirio at y Cynulliad. Anodd esbonio i’r cyhoedd a rhanddeiliaid pam y defnyddir termau gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol. Gallai fod yn destun beirniadaeth am ddefnyddio arian cyhoeddus ar gyfer newidiadau brandio.
Aelodau’r Cynulliad yn cyfeirio at eu hunain fel Aelodau o’r Senedd mewn cyhoeddiadau, arwyddion ac ati.	Byddai Aelodau’r Cynulliad yn debygol o ddilyn dulliau gwahanol o fabwysiadu unrhyw enw newydd yn anffurfiol, gan arwain at ddryswch pe baent yn cyfeirio at eu hunain mewn ffyrdd gwahanol. Byddai angen i’r Bwrdd Taliadau drafod a oedd yn ddefnydd dilys o lwfansau i dalu am gostau sy’n codi oherwydd newid enw’r Cynulliad yn anffurfiol.

9.4. Opsiwn 3: deddfu i newid enw'r Cynulliad (yr opsiwn a ffefrir)

9.4.1. Disgrifiad

417. Yr opsiwn a ffefrir yw i Gomisiwn y Cynulliad ddefnyddio'r pwerau yn *Neddf Cymru 2017*, a chyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad yn ffurfiol, ac enwau a theitlau deiliaid swyddi a chyrrff perthnasol yn statudol.

418. Goblygiadau'r opsiwn hwn fyddai defnyddio'r enw "Senedd" (yn Gymraeg a Saesneg) yn lle'r enw "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu "Cynulliad" yn Gymraeg a "National Assembly for Wales" yn Saesneg a defnyddio "Aelodau'r Senedd" a "Members of the Senedd" yn lle "Aelodau'r Cynulliad" ac "Assembly Members". Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu defnyddio "Welsh parliament" ochr yn ochr â'r term "Senedd" yn Saesneg er mwyn helpu'r rheini nad ydynt yn gyfarwydd â'r gair Gymraeg er mwyn deall ystyr yr enw a hefyd i bwysleisio statws cyfansoddiadol y sefydliad ymhellach.

419. Byddai hefyd newidiadau canlyniadol i'r enwau a ganlyn:

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- enwau cyrrff cysylltiedig (megis Comisiynydd Safonau presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru); a
- Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

420. Yn ddamcaniaethol, gellid gweithredu'r opsiwn hwn mewn sawl ffordd, a byddai costau amrywiol i bob un ohonynt. Er enghraifft, gallai newid enw'r Cynulliad fod wedi cynnig cyfle i'r sefydliad newid ei logo ar yr un pryd a/neu adolygu ei ddelwedd gyhoeddus gyfan drwy ymgymryd ag ymarfer ailfrandio llawn.

421. Fodd bynnag, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad newid enw'r Cynulliad yn unig, heb newid logo nac ymarfer ailfrandio llawn.¹⁰⁸ Fel y cyfryw, nid yw'r costau amcangyfrifedig ar gyfer yr opsiwn hwn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â newid logo nac ymarfer ailfrandio llawn (megis lifrai a baneri, sy'n dwyn logo'r Cynulliad, ond nid ei enw).

9.4.2. Costau ac arbedion

422. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â newid enw'r Cynulliad yn arwain at ystod o gostau. Comisiwn y Cynulliad fydd yn talu am y rhan fwyaf o'r costau

¹⁰⁸ Penderfyniad a wneir yng nghyfarfod Comisiwn y Cynulliad a gynhaliwyd ar **15 Mai 2017**.

hyn, ac maent yn ymwneud â phresenoldeb ffisegol y Cynulliad. Cyflwynir y costau hyn dan y penawdau a ganlyn:

- **Costau'r Aelodau:** costau y bydd Aelodau'n eu talu'n uniongyrchol drwy eu lwfansau yn unol â Phenderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, a wnaed gan Fwrdd Taliadau annibynnol y Cynulliad.
- **Cydgysylltu gweithgareddau cysylltiedig â newid enw:** costau ar gyfer amser staff Comisiwn y Cynulliad a dreulir yn hyn o beth.
- **Cyfathrebu:** costau mewn perthynas â sut mae'r Cynulliad yn cyfathrebu, er enghraifft drwy arddangosfeydd, cyhoeddiadau a chyfathrebu ar y we.
- **Presenoldeb ffisegol – Ystâd y Cynulliad:** costau mewn perthynas â darparu arwyddion a dodrefn ar ystâd y Cynulliad.
- **TGCh:** costau mewn perthynas â darparu gwefan, cyfeiriadau e-bost a thystysgrifau digidol cysylltiedig.
- **Sefydliadau allanol:** costau yr eir iddynt gan sefydliadau heblaw am Gomisiwn y Cynulliad, i newid cyfeiriadau at enw'r Cynulliad (ar arwyddion a gwefannau).

423. Mae Tabl 13 yn rhoi trosolwg o'r holl gostau o'r fath ar gyfer Comisiwn y Cynulliad a sefydliadau allanol, gyda manylion yn yr adrannau a ganlyn. Cyfanswm y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 3 yw £294,600.

Tabl 13 Opsiwn 3 (deddfu i newid enw'r Cynulliad) Cyfanswm y costau

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Costau'r Aelodau									
Arwyddion ar gyfer swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol yr Aelodau	9,100	18,900	300	7,900	300	300	300	28,000	18,900
Arwyddion - staff cymorth Aelodau'r Cynulliad - caffael	2,000	3,700	100	1,600	100	100	100	5,700	3,700
Baneri'r Aelodau	3,300	6,000	100	2,900	100	100	100	9,300	6,000
Parthau gwe'r Aelodau	1,000	200	200	400	400	400	400	2,000	1,000
Diweddariadau i dudalennau'r Aelodau	-	600	-	-	-	-	-	600	600
Deunydd ysgrifennu'r Aelodau	475,000	3,600	95,000	95,000	95,000	95,000	95,000	478,600	3,600
Prosesu hawliadau staff y Comisiwn	400	400	40	200	72	72	72	900	500
Is-gyfanswm costau'r Aelodau	490,400	33,400	95,700	108,000	96,000	96,000	96,000	525,100	34,300
Cydgysylltu gweithgarwch sy'n ymwneud â newid enw yn y Cynulliad									
Cost staffio	-	5,600	-	-	-	-	-	5,600	5,600

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Is-gyfanswm cydgysylltu gweithgarwch newid enw	-	5,600	-	-	-	-	-	5,600	5,600
Cyfathrebu									
Codi ymwybyddiaeth	-	6,500	-	-	-	-	-	6,500	6,500
Deunyddiau arddangos	-	5,300	-	-	-	-	-	5,300	5,300
Cyhoeddiadau parhaus	-	1,000	-	-	-	-	-	1,000	1,000
Cyhoeddiadau ar ddyddiad penodol	-	12,337	-	-	-	-	-	12,300	12,300
Diweddaru cynnwys gwe neu gyhoeddiadau ar y we, a chanllawiau/prosesau mewnol	-	50,500	-	-	-	-	-	50,500	50,500
Is-gyfanswm cyfathrebu	-	75,600	-	-	-	-	-	75,600	75,600
Presenoldeb ffisegol - ystâd y Cynulliad									
Arwyddion Siambr Hywel: Dau arwydd mynedfa wedi'u brandio	-	2,500	-	-	-	-	-	2,500	2,500
Arwyddion allanol y Senedd, ar flaen yr adeilad a'r ochr	-	14,900	-	-	-	-	-	14,900	14,900
Arwyddion teledu cylch cyfyng ar draws yr ystâd	-	600	-	-	-	-	-	600	600

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Tynnu'r llythrennau oddi ar furiau allanol Tŷ Hywel	-	4,500	-	-	-	-	-	4,500	4,500
Mat mynedfa'r Senedd	2,400	1,200	-	1,200	-	1,200	-	3,600	1,200
Arwyddion allanol Tŷ Hywel a'r Pierhead	-	6,500	-	-	-	-	-	6,500	6,500
Arwyddion man aros derbynfa Tŷ Hywel	-	600	-	-	-	-	-	600	600
Carped mynedfa Tŷ Hywel	10,200	5,100	-	5,100	-	5,100	-	15,300	5,100
Arwyddion yn swyddfa Bae Colwyn	-	14,900	-	-	-	-	-	14,900	14,900
Arfau'r corff a dillad llachar	-	1,200	-	-	-	-	-	1,200	1,200
Baneri'r Bwrdd Taliadau	-	300	-	-	-	-	-	300	300
Gwaith cyflwyno a gweinyddu gan staff	1,000	2,300	-	500	-	500	-	3,300	2,300
Is-gyfanswm presenoldeb ffisegol - ystâd y Cynulliad	13,600	54,600	-	6,800	-	6,800	-	68,200	54,600
TGCh									
Parthau gwe'r Cynulliad	500	-	300	300	300	300	300	1,500	1,000
Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel	1,000	-	200	200	200	200	200	1,000	0
Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel (gwaith cyflawni gan y staff a newidiadau cysylltiedig)	-	1,500	-	-	-	-	-	1,500	1,500

	Cyfanswm cost opsiwn 1 (£)	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)	Cost net (£)
Is-gyfanswm TGCh	1,500	1,500	500	500	500	500	500	4,000	2,500
Costau i sefydliadau allanol									
Arwyddion ffyrdd - Dinas a Sir Caerdydd	-	60,000	-	-	-	-	-	60,000	60,000
Arwyddion ffyrdd - Llywodraeth Cymru	-	42,000	-	-	-	-	-	42,000	42,000
Diweddariadau gwefan - pob awdurdod lleol	-	20,000	-	-	-	-	-	20,000	20,000
Is-gyfanswm costau i sefydliadau allanol	-	122,000	-	-	-	-	-	122,000	122,000
CYFANSWM	505,900	292,700	96,200	115,300	96,500	103,300	96,500	800,500	294,600

9.4.3. Costau'r Aelodau

424. Mae'r rhain yn gostau y bydd yr Aelodau'n eu talu'n uniongyrchol drwy eu lwfansau yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r angen i amnewid deunydd ysgrifennu, arwyddion swyddfa, baneri ac, mewn rhai achosion, enwau parth gwefan. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar gostau cyfartalog hawliadau gwirioneddol gan yr Aelodau o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad (mis Mai 2011) ymlaen.

425. Mae'r amcangyfrifon yn cynnwys costau trosiannol a chostau parhaus yr Aelodau. Mae Tabl 14 yn rhoi trosolwg o gyfanswm y costau amcangyfrifedig.

Tabl 14 Enw'r Cynulliad: opsiwn 3 costau'r Aelodau

Eitem	Cost (£)
Arwyddion ar gyfer swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol yr Aelodau	28,000
Arwyddion - staff cymorth Aelodau'r Cynulliad - caffael	5,700
Baneri'r Aelodau	9,300
Parthau gwe'r Aelodau	2,000
Diweddariadau i dudalennau'r Aelodau	600
Deunydd ysgrifennu'r Aelodau	478,600
Hawliadau gweinyddol staff y Comisiwn	900
Cyfanswm	525,100

9.4.3.1. Arwyddion ar gyfer swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol yr Aelodau

426. Fel arfer, mae arwyddion swyddfa Aelodau Cynulliad presennol yn cynnwys enw'r Cynulliad, ynghyd â'r ôl-ddodiad AC/AM. Ers mis Awst 2018, mae gan saith o'r 60 o Aelodau Cynulliad presennol fwy nag un swyddfa, felly tybir y bydd angen arwydd newydd ar bob swyddfa. Mae dau o'r 60 o Aelodau Cynulliad presennol yn rhannu swyddfeydd (ac mae ganddynt arwydd ar y cyd).

427. Trefnir y bydd enw'r Cynulliad yn newid yn gyfreithiol ar 6 Mai 2020. Mae hyn 12 mis union cyn dyddiad arfaethedig etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2021. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r Bwrdd Taliadau yn dweud wrth yr Aelodau am beidio â gwneud hawliadau arwyddion sy'n ymwneud â newid enw cyn etholiad 2021.

428. Tybir hefyd y byddai'r 60 o Aelodau (h.y. gan gynnwys y rhai a gaiff eu haillethol a'r rhai a etholir o'r newydd) yn gofyn am arwydd newydd ar ôl etholiad 2021 i adlewyrchu'r newid yn enw'r Cynulliad. Yn seiliedig ar £400.06 fel y gost gyfartalog fesul arwydd,¹⁰⁹ a chan dybio y bydd nifer yr Aelodau sydd â mwy nag un arwydd (h.y. mwy nag un swyddfa) a nifer y rhai sydd â llai nag un arwydd (h.y. rhannu swyddfa) yn parhau i fod yr un nifer ag ym mis Awst 2018 (cyfanswm o 66 o arwyddion), y gost hon fyddai £26,500.¹¹⁰

429. Nododd y gwaith modelu yn adran 9.3.2.2 dan opsiwn 1 y byddai 19 o Aelodau "newydd" ym mhob etholiad Cynulliad, ac mai £7,600 fyddai'r gost barhaus gysylltiedig ar gyfer arwyddion o ran blynyddoedd etholiad yn unig. Drwy ddiystyru'r gost hon o gyfanswm cost ailosod arwyddion ar gyfer yr holl Aelodau, byddai opsiwn 3 felly'n arwain at gost drosiannol o £18,900.¹¹¹

430. Felly, mae cyfanswm cost amcangyfrifedig yr arwyddion sy'n deillio o etholiad 2021 (£26,500) yn cynnwys dwy elfen:

- y gost barhaus o 19 o Aelodau newydd yn cael eu hethol ar gyfartaledd (£7,600); a
- chost drosiannol o newid y 47 o arwyddion sy'n weddill o'r cyfanswm o 66 (£18,900).

431. Wrth fodelu'r costau hyn, gwnaed y tybiaethau a ganlyn:

- na fydd angen mwy nag un arwydd ar unrhyw un o'r Aelodau newydd (er, ym mis Awst 2018, roedd gan saith Aelod Cynulliad fwy nag un swyddfa);
- na fydd angen llai nag un arwydd ar unrhyw un o'r Aelodau newydd (er bod dau Aelod Cynulliad yn rhannu un swyddfa ym mis Awst 2018).

432. Yn yr un modd ag opsiwn 1, tybir hefyd mai £300 fyddai'r gost flynyddol reolaidd ychwanegol ar gyfer arwyddion (yn ystod blynyddoedd etholiad a blynyddoedd pan na chynhelir etholiad).¹¹²

433. Yn ogystal, yn yr un modd ag opsiwn 1, byddai cost gysylltiedig yn sgil gwaith gan staff cymorth yr Aelodau'n caffael yr arwyddion. Amcangyfrifir mai £78.60 yw'r

¹⁰⁹ Yn seiliedig ar ddata hanesyddol ar hawliadau a wnaed yn 2012-13 a 2016-17.

¹¹⁰ Yn seiliedig ar 66 o arwyddion x £401.25, sy'n gyfwerth â £26,482.60.

¹¹¹ Yn seiliedig ar gyfanswm y gost o ailosod 66 o arwyddion (£26,500), tynnu'r gost barhaus o ailosod 19 o arwyddion ar ôl etholiad Cynulliad (£7,600).

¹¹² Gweler paragraff 373.

gost o ran amser staff i ymgymryd â phroses gaffael ar gyfer un arwydd swyddfa.¹¹³ Felly, amcangyfrifir mai'r gost drosiannol dan opsiwn 3 fyddai £3,700,¹¹⁴ ac amcangyfrifir mai cyfanswm y gost barhaus ar gyfer 5 mlynedd fyddai £2,000, sydd yn union yr un peth â'r gost dan opsiwn 1¹¹⁵

434. Felly, £33,700 fyddai cyfanswm y costau trosiannol a pharhaus ar gyfer arwyddion dan yr opsiwn hwn.¹¹⁶

9.4.3.2. Baneri'r Aelodau

435. Yn y cyd-destun hwn, mae baneri yn arwyddion neu'n bosteri dwyieithog symudol, sydd fel arfer yn dwyn enw'r Cynulliad a'r ôl-ddodiad AC/AM, a ddefnyddir gan yr Aelodau wrth fynychu neu gynnal digwyddiadau a chymorthfeydd. Hefyd, gellir nodi bod rhai Aelodau'n dewis peidio â chael baneri: dim ond 46 o geisiadau am faneri a wnaed gan yr Aelodau rhwng mis Mehefin 2011 a mis Mehefin 2018.

436. Trefnir y bydd enw'r Cynulliad yn newid yn gyfreithiol ar 6 Mai 2020, sef 12 mis cyn dyddiad etholiad y Cynulliad a drefnir ym mis Mai 2021. Tybir y byddai'r Bwrdd Taliadau yn dweud wrth yr Aelodau am beidio â gwneud hawliadau baneri sy'n ymwneud â newid enw cyn etholiad 2021.

437. Fodd bynnag, ar ôl etholiad 2021, ac at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir y bydd angen baner newydd ar y 60 o Aelodau (h.y. gan gynnwys y rhai a gaiff eu hailethol a'r rhai a etholir o'r newydd), i adlewyrchu'r newid yn enw'r Cynulliad.

438. Amcangyfrifir mai'r gost fesul baner yw £145.46.¹¹⁷ Yn seiliedig ar y dybiaeth a wnaed yn gynharach y bydd 19 Aelod newydd yn dilyn etholiad, byddai cyfanswm y gost o £8,800 ar gyfer 60 o faneri yn dilyn etholiad 2021 yn cael ei rhannu rhwng cost barhaus o £2,800 a chost drosiannol o £6,000. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y costau yn is ar sail natur prynu baneri yn y gorffennol, fel y nodir uchod.

¹¹³ Yn seiliedig ar aelod o staff Band 1 yn treulio cyfanswm o 6 awr ar gyfradd awr o £13.10 yn cysylltu â chyflenwyr, yn adolygu dyluniadau ac yn trefnu i'w gosod.

¹¹⁴ Yn seiliedig ar £78.60 x 47 o arwyddion, sef £3,694.

¹¹⁵ Yn seiliedig ar £78.60 x (6÷7.5) ar gyfer pob blwyddyn, a £78.60 x 19 ychwanegol ar gyfer blwyddyn etholiad, sy'n cyfateb i £1,808 ac wedi'i dalgrynnu i £2,000 ar ôl ystyried y dull o dalgrynnu ar gyfer pob cost flynyddol.

¹¹⁶ Yn seiliedig ar gost yr arwyddion, sef £26,500 + (£300 x 5), yn ogystal â chost staff cymorth yr Aelodau, sef £5,700.

¹¹⁷ Yn seiliedig ar 46 o hawliadau baneri a wnaed rhwng 23 Mehefin 2011 a 5 Mehefin 2018, am £145.46 ar gyfartaledd.

439. Yn yr un modd ag opsiwn 1, tybir mai £100 fyddai'r gost barhaus ar gyfer baneri (yn ystod blynyddoedd etholiad a blynyddoedd pan na chynhelir etholiad).¹¹⁸

440. Felly, £9,300 fyddai cyfanswm y costau ar gyfer baneri dan yr opsiwn hwn.¹¹⁹

9.4.3.3. Parthau gwe'r Aelodau

441. Mae enwau parth gwefan rhai Aelodau'n cynnwys AC neu AM fel ôl-ddodiad i'w henw. Tybir y byddai angen diweddarau enwau parth o'r fath i adlewyrchu'r newid enw dan opsiwn 3.

442. Ar 24 Awst 2018, roedd parthau gwe cofrestredig saith Aelod, y talwyd amdanynt drwy'r Bwrdd Taliadau, yn cynnwys yr ôl-ddodiad AC neu AM.

443. At ddibenion cyfrifo'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, amcangyfrifir y byddai'r holl barthau gwe hyn yn cael eu disodli. Fodd bynnag, gan y gall nifer yr Aelodau y mae arnynt angen parthau gwe gynyddu neu ostwng, gan ddibynnu ar ddewisiadau unigol yr Aelodau, gellir tybio hefyd y bydd newid yr enw'n arwain at fwy o Aelodau sydd am gofrestru parth gwe gyda'u disgrifiad newydd.

444. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir y byddai nifer yr Aelodau y mae arnynt angen parth gwe o'r fath yn dyblu o flwyddyn etholiad 2021 ymlaen, o 7 i 14. Gan mai £31.78 yw'r amcangyfrif o ran y gost flynyddol barhaus i gofrestru pob un o'r parthau hyn, £1,800 fyddai cyfanswm y gost barhaus dros 5 mlynedd.¹²⁰

445. Yn ogystal, rhagwelir cost drosiannol dan yr opsiwn hwn ar gyfer y flwyddyn pan ddisgwylir i'r saith parth blaenorol a'r parthau newydd gael eu cofrestru. Amcangyfrifir mai £200 yw hyn.¹²¹ Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai blwyddyn yn gyfnod rhesymol i ailgyfeirio traffig gwe i'r gwefannau newydd.

446. Felly, amcangyfrifir mai £2,000 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer cofrestru parthau gwe dan yr opsiwn hwn.

447. Rhagdybir y byddai angen i nifer o Aelodau'r Cynulliad hefyd ddiweddarau cynnwys eu gwefannau i adlewyrchu eu teitlau newydd. At ddibenion yr Asesiad

¹¹⁸ Yn seiliedig ar $£145.46 \times (6 \div 7.5) = £116.37$.

¹¹⁹ Yn seiliedig ar y gost baneri ar ôl etholiad Cynulliad, yn ychwanegol at y gost baneri barhaus am 5 mlynedd (yn ystod blynyddoedd etholiad a blynyddoedd pan na chynhelir etholiad).

¹²⁰ Yn seiliedig ar $£31.78 \times 7$ am flwyddyn sy'n gyfwerth â £222, a $£31.78 \times 14$ sy'n gyfwerth â £444, wedi'i luosi ar gyfer 4 blynedd.

¹²¹ Yn seiliedig ar $£31.78 \times 7$, sy'n gyfwerth â £222.

Effaith Rheoleiddiol, tybir y byddai Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn diwygio'r gwefannau, ac y byddai'r gwaith diweddarau'n cael ei wneud o fewn awr o amser aelod staff. Yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad band 3 yn gwneud y newidiadau, amcangyfrifir mai £600 fyddai'r uchafswm cost i'r 60 o Aelodau ddiweddarau eu gwefannau.¹²²

9.4.3.4. Deunydd ysgrifennu'r Aelodau

448. Cynhyrchir deunydd ysgrifennu personol Aelodau'r Cynulliad gan ystafell argraffu fewnol y Cynulliad. Y gyllideb ar gyfer deunydd ysgrifennu yw £100,000 ar gyfer 2018-19. Yn hanesyddol, mae hyd at 95 y cant o'r gyllideb hon yn cael ei gwario ym mhob blwyddyn ariannol.

449. Yn seiliedig ar y dybiaeth bod defnydd yr Aelodau o ddeunydd ysgrifennu ac, o ganlyniad, y defnydd o'r gyllideb ar gyfer deunydd ysgrifennu, yn parhau i fod yn gyson, amcangyfrifir mai £475,000 yw'r gost barhaus dros 5 mlynedd ar gyfer cynhyrchu deunydd ysgrifennu personol yr Aelodau.

450. O ganlyniad i opsiwn 3, tybir y byddai ar y 60 o Aelodau angen set lawn o ddeunydd ysgrifennu newydd.¹²³ Ym mis Awst 2018, mae "set" yn costio tua £60 yr Aelod, felly amcangyfrifir mai £3,600 yw'r gost drosiannol dan yr opsiwn hwn.

451. Felly, £478,600 fyddai cyfanswm y gost dan opsiwn 3 ar gyfer deunydd ysgrifennu'r Aelodau.

9.4.3.5. Amser staff Comisiwn y Cynulliad i brosesu hawliadau'r Aelodau

452. Ar sail y costau uchod ar gyfer hawliadau Aelodau o'u lwfansau yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau, byddai costau cysylltiedig yn sgil amser staff Aelodau'r Cynulliad yn prosesu ac yn awdurdodi'r hawliadau hyn.

453. Amcangyfrifir mai'r gost o ran amser staff yn prosesu ac yn awdurdodi un cais fyddai £4.61.¹²⁴

454. Felly, yn unol â'r fformiwla a ddefnyddiwyd yn yr adrannau uchod, amcangyfrifir mai'r gost gysylltiedig ar gyfer prosesu hawliadau ar gyfer arwyddion

¹²² Yn seiliedig ar y gost fesul awr, sef £9.90 x 60 = £594.

¹²³ Ym mis Awst 2018, mae set yn cynnwys 1,000 o benawdau llythyrau, 100 o gardiau busnes, dau bad ysgrifennu A5 a 150 o slipiau cyfarch.

¹²⁴ Ar sail aelod o staff ar radd Cymorth Tîm yn treulio 15 munud yn prosesu hawliad, ac aelod o staff Band 3 Rheoli yn treulio 5 munud yn awdurdodi'r hawliad.

swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol Aelodau dan yr opsiwn hwn fyddai £216.67¹²⁵, ac amcangyfrifir mai'r gost barhaus fyddai £105.98¹²⁶

455. Amcangyfrifir mai'r gost drosiannol gysylltiedig ar gyfer prosesu hawliadau Aelodau ar gyfer baneri fyddai £189.01,¹²⁷ ac amcangyfrifir mai'r gost barhaus fyddai £105.98¹²⁸

456. Amcangyfrifir mai'r gost drosiannol gysylltiedig ar gyfer prosesu hawliadau Aelodau ar gyfer parthau gwe fyddai £32.27,¹²⁹ ac amcangyfrifir mai'r gost barhaus fyddai £290.43¹³⁰

457. Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y costau trosiannol a pharhaus ar gyfer amser Comisiwn y Cynulliad yn prosesu hawliadau Aelodau fyddai £900.

9.4.4. Cydgysylltu gweithgarwch sy'n ymwneud â newid enw yng Nghomisiwn y Cynulliad

458. Mae'n debygol y bydd angen rheoli a chydgysylltu'r broses o newid enw'r Cynulliad. Mae Tabl 15 yn rhoi amcangyfrif o gost drosiannol amser staff ar gyfer y rôl rheoli prosiect hon.

Tabl 15 Enw'r Cynulliad: opsiwn 3 Cydgysylltu gweithgarwch yng Nghomisiwn y Cynulliad

Gradd	Amser (mewn diwrnodau)	Cost staffio (£)
Band Gweithredol 1	2	700
Band Gweithredol 2	10	2,800
Band Rheoli 1	4	800
Band Rheoli 2	8	1,300
Cyfanswm	24	5,600

¹²⁵ Yn seiliedig ar £4.61 x 47 o hawliadau ar gyfer arwyddion..

¹²⁶ Yn seiliedig ar £4.61 x (6÷7.5) ar gyfer pob blwyddyn, a £4.61 x 19 ychwanegol ar gyfer blwyddyn etholiad.

¹²⁷ Yn seiliedig ar £4.61 x 41 o hawliadau ar gyfer baneri.

¹²⁸ Yn seiliedig ar £4.61 x (6÷7.5) ar gyfer pob blwyddyn, a £4.61 x 19 ychwanegol ar gyfer blwyddyn etholiad.

¹²⁹ Yn seiliedig ar £4.61 x 7 hawliad.

¹³⁰ Yn seiliedig ar £4.61 x 7 hawliad ar gyfer pob blwyddyn, sy'n cynyddu i 14 o flwyddyn etholiad ymlaen.

9.4.5. Cyfathrebu

459. Rhagwelir y byddai Comisiwn y Cynulliad yn cynnal gweithgareddau cyfryngau a chyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r newid i enw'r Cynulliad.

460. At hynny, mae enw'r Cynulliad yn ymddangos ar draws yr holl ddeunyddiau cyfathrebu a gynhyrchir gan y sefydliad, ar gyfer defnydd mewnol ac at ddiben ehangach cynnwys pobl Cymru yn ei waith. O ganlyniad, byddai angen diweddarau deunyddiau o'r fath i adlewyrchu'r newid i enw'r Cynulliad. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys y ffyrdd y mae'r Cynulliad yn cyfathrebu ac yn cyflwyno ei ddelwedd gyffredinol yn fewnol ac yn allanol.

461. Mae costau mewn perthynas â chyfathrebu wedi'u cynnwys mewn pum categori bras:

- **Codi ymwybyddiaeth:** Rhagwelir y byddai Comisiwn y Cynulliad yn cynnal gweithgareddau cyfryngau a chyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r newid i enw'r Cynulliad.
- **Deunyddiau arddangos:** Mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau arddangos pwrpasol, gan gynnwys paneli Foamex, baneri dros dro a chrwyn Isoframe stondinau arddangos.
- **Cyhoeddiadau parhaus:** Mae'r rhain yn gyhoeddiadau cynaledig, parhaus, sydd fel arfer yn esbonio rôl y Cynulliad. Er enghraifft, Deisebu'r Cynulliad.¹³¹ Fel arfer, caiff cyhoeddiadau o'r fath eu cynhyrchu mewn ystod o fformatau, gan gynnwys laith Arwyddion Prydain, fformatau amlieithog a fformatau hawdd eu darllen, a chânt eu cynhyrchu ar ffurf copi caled i'w dosbarthu'n sylweddol i'r cyhoedd.
- **Cyhoeddiadau ar ddyddiad penodol:** Mae gan y rhan fwyaf o gyhoeddiadau'r Cynulliad (e.e. adroddiadau pwyllgor a chyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ymchwil) ddyddiad cyhoeddi penodol. Byddai cyhoeddiadau ar ddyddiad penodol a gyhoeddwyd cyn newid enw'r Cynulliad yn gyfreithiol yn parhau i gyfeirio at y Cynulliad – ni fyddent yn cael eu newid ar ôl i hyn ddigwydd. Yn lle hynny, ar ôl newid yr enw'n gyfreithiol, byddai pob cyhoeddiad newydd yn cynnwys yr enw newydd, gyda thempledi priodol wedi'u creu i hwyluso hynny.
- **Cynnwys gwe/Cyhoeddiadau ar y we:** Mae gwefan y Cynulliad yn fawr ac yn ddeinamig. Ni fyddai cynnwys hanesyddol ar y wefan (e.e.

¹³¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Deisebu'r Cynulliad](#)

ymchwiliadau pwyllgor sydd wedi'u cwblhau) yn cynnwys enw newydd y Cynulliad, ond byddai unrhyw gynnwys "byw" (e.e. ymchwiliadau pwyllgor parhaus, tudalennau sy'n esbonio rôl a swyddogaethau'r Cynulliad, tudalennau recriwtio) yn cael eu diweddarau gyda'r enw newydd. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys cyhoeddiadau parhaus y gellir eu cynhyrchu ar ffurf copi caled yn dechnegol, ond na chynhyrchir nifer sylweddol ohonynt yn rheolaidd (er enghraifft, Canllaw i Gyfnodau Biliau Cyhoeddus¹³²) ac, fel y cyfryw, cânt eu cyrchu'n fwy rheolaidd drwy'r rhynggrwyd. Mae'r costau a nodwyd yn y categori hwn hefyd yn cynnwys newidiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen.

462. Mae'r amcangyfrifon cost yn seiliedig ar gostau gwirioneddol blaenorol gan ddarparwyr allanol neu amcangyfrifon o amser staff sy'n ymwneud â chyflawni newidiadau i ddeunyddiau cyfathrebu.

9.4.5.1. Codi ymwybyddiaeth

463. Rhagwelir y byddai'r Cynulliad yn cynnal gweithgarwch codi ymwybyddiaeth cyn newid ei enw ac wrth ei newid. Nodir amcangyfrifon amser staff sy'n gysylltiedig â gwaith o'r fath yn Tabl 16.

Tabl 16 Enw'r Cynulliad: opsiwn 3 Codi ymwybyddiaeth

Gradd staff	Amser (mewn diwrnodau)	Cost (£)
Band Rheoli 2	10	2,800
Band Rheoli 1	10	2,100
Band Rheoli 2	10	1,600
Cyfanswm	30	6,500

9.4.5.2. Deunyddiau arddangos

464. Mae gan Gomisiwn y Cynulliad ystod o ddeunyddiau arddangos, gan gynnwys paneli Foamex, baneri codi, stondin arddangos ISOframe. Byddai angen disodli pob un dan opsiwn 3.

465. Dalennau sbwng PVC y gellir argraffu arnynt yw paneli Foamex. Cânt eu defnyddio i wneud arwyddion, baneri a phaneli arddangos. Dim ond un panel a

¹³² Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus](#)

ddefnyddir ar hyn o bryd (yn Siambr Hywel). Amcangyfrifir mai £100 yw cost ailosod y panel, yn seiliedig ar gost ei brynu ym mis Mai 2016.

466. Baneri rholio sy'n codi ac yn dangos enw'r Cynulliad yw'r baneri codi. Ar hyn o bryd, mae Comisiwn y Cynulliad yn berchen ar 17 o faneri o'r fath, gyda phob un â gwaelod cetrus, y gellid ei hailddefnyddio gyda baner arall (h.y. dim ond y baneri codi eu hunain y byddai angen eu newid pe bai'r enw'n cael ei newid). Amcangyfrifir mai £112.05 yw cost ailosod un faner dros dro, a hynny'n seiliedig ar yr un a brynwyd ym mis Gorffennaf 2016. Felly, amcangyfrifir mai £1,900 fyddai cost ailosod y 17 o faneri codi.¹³³

467. Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn berchen ar ddwy stondin arddangos hunanadeiladu "ISOframe" hyblyg.¹³⁴ Gellir defnyddio'r ddwy stondin yn unigol, neu ar y cyd, a chânt eu defnyddio'n aml i adeiladu stondin arddangos fawr yn y Senedd ac mewn digwyddiadau. Amcangyfrifir mai £1187.37 yw cost ailosod un faner dros dro, yn seiliedig ar bryniad ym mis Gorffennaf 2015. Felly, £2,400 fyddai cyfanswm cost ailosod y ddwy.

468. Hefyd, ceir nifer o baneli arddangos yn y Pierhead y byddai angen eu disodli am £1,000 yn ôl amcangyfrifon.

469. Felly, amcangyfrifir mai £5,300 yw cyfanswm y gost drosiannol o ddisodli deunyddiau arddangos.

9.4.5.3. Cyhoeddiadau parhaus

470. Mae Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol am ystod o gyhoeddiadau parhaus. Mae'r rhain yn gyhoeddiadau parhaus a gynhelir, sy'n esbonio rôl y Cynulliad fel arfer, a chânt eu cynhyrchu ar ffurf copi caled i'w dosbarthu'n helaeth i'r cyhoedd.

471. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir na fydd unrhyw un o'r cyhoeddiadau parhaus hyn yn cael eu disodli i gynnwys yr enw newydd nes y defnyddir y stoc bresennol adeg newid yr enw. Dan opsiwn 3, felly, ni fyddai costau trosiannol yn gysylltiedig â chyhoeddi cyhoeddiadau parhaus heblaw am ddiweddarau eu cynnwys, fel y nodir yn adran 9.4.5.5.

472. Fodd bynnag, bydd opsiwn 3 yn arwain at rai costau trosiannol ychwanegol cyfyngedig, oherwydd caiff y cyhoeddiadau hyn eu cyhoeddi mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys laith Arwyddion Prydain a fformatau amlieithog. Nodir y

¹³³ Yn seiliedig ar $£112.05 \times 17 = £1,904.91$

¹³⁴ Gellir addasu stondinau ISOframe yn ôl y lle sydd yn y lleoliad, a gellir eu defnyddio gyda bordydd, silffoedd, waliau estyll, sgriniau cyfryngau ac ati.

costau sy'n gysylltiedig â diweddaru'r cyhoeddiadau yn y fformatau penodedig hyn yn y tabl isod.

Tabl 17 Costau opsiwn 3 sy'n gysylltiedig â diweddaru fersiynau Iaith Arwyddion Prydain ac amlieithog o ddeunyddiau

Fformat	Cost (£)
Fformat Iaith Arwyddion Prydain	400
Fformatau amlieithog	600
Cyfanswm	1000

473. Mae'r amcangyfrif o'r costau sy'n ymwneud â fersiynau Iaith Arwyddion Prydain yn seiliedig ar ddata hanesyddol, sy'n gysylltiedig â'r gost flaenorol o gynhyrchu fersiynau Iaith Arwyddion Prydain o ddeunyddiau (cyfres o fideos byr cyn etholiad Cynulliad 2016 yn benodol), a thybiaeth mai tua 3 awr ar y mwyaf fydd y gwaith sy'n ymwneud â diweddaru'r llyfrynau A5 a'r posterï).

474. Mae'r amcangyfrif o gynhyrchu'r cyhoeddiadau parhaus hyn mewn fformatau amlieithog yn adlewyrchu'r ffaith y caiff y cyhoeddiadau penodol hyn eu cynhyrchu mewn 8 iaith arall, er mai yn Gymraeg ac yn Saesneg y mae'r Cynulliad yn gweithio. Mae'r amcangyfrif a ddangosir yn Nhabl 18 yn seiliedig ar gostau hanesyddol gwaith tebyg gan ddarparwr allanol (£70 y fil o eiriau fesul iaith) i gyfieithu tri chyhoeddiad craidd cyn ymgyrch etholiadol 2016. Gan dybio mai dim ond diweddariadau fyddai eu hangen i'r cyfieithiadau presennol, ni fyddai cyfanswm y newidiadau i'r holl gyhoeddiadau yn fwy na 1,000 o eiriau i gyd ar gyfer pob un o'r wyth iaith, felly £600 fyddai'r gost uchaf. Yn ymarferol, gall y gost wirioneddol o gynhyrchu cyhoeddiadau mewn wyth iaith arall fod yn is, gan adlewyrchu y gellid negodi ffi wahanol i adlewyrchu'r ffaith y byddai'r rhan fwyaf o'r newidiadau i'r taflenni'n union yr un peth (h.y. byddai'r enw'n newid, ond nid cynnwys sylweddol). Fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybiwyd mai £600 fydd y gost.

475. Ni wnaed amcangyfrif o'r gost o gynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen o'r cyhoeddiadau dan yr adran hon, gan y tybir y gellir diweddaru'r fersiynau hawdd eu darllen presennol i adlewyrchu'r enw newydd (yn hytrach na newidiadau mwy sylweddol o ran testun) yn fewnol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Fel y cyfryw, caiff ei hymgorffori yn adran 9.4.5.5.

9.4.5.4. Cyhoeddiadau ar ddyddiad penodol

476. Mae gan y rhan fwyaf o gyhoeddiadau'r Cynulliad (e.e. adroddiadau pwyllgor a chyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ymchwil) ddyddiad cyhoeddi penodol. Byddai

cyhoeddiadau a gyhoeddwyd ar ddyddiad penodol cyn newid enw'r Cynulliad yn gyfreithiol yn parhau i gyfeirio at y Cynulliad – ni fyddent yn cael eu newid ar ôl y dyddiad hwn. Yn lle hynny, ar ôl newid yr enw'n gyfreithiol, byddai pob cyhoeddiad newydd yn cynnwys yr enw newydd, gyda thempledi'n cael eu diweddaru'n unol â hynny.

477. Mae Tabl 18 yn nodi'r gost drosiannol amcangyfrifedig o ddiweddaru templedi a sicrhau ansawdd dyluniad cyhoeddiadau ar ddyddiad penodol.

Tabl 18 Costau trosiannol i ddiweddaru templedi ar gyfer cyhoeddiadau

Gradd staff	Amser staff (mewn diwrnodau)	Cost (£)
Band Rheoli 2	10	1,600
Band Rheoli 3	0.3	37
Cymorth Tîm	7.2	700
Cost Ymgynghorydd Allanol	Amh.	10,000
Cyfanswm	17.5	12,300

478. Byddai'r templedi a ganlyn yn cael eu diweddaru fel rhan o'r broses hon:

- templedi tudalen ar gyfer gwefan y Cynulliad;
- canllawiau brand a chanllawiau arddull mewnol;
- agenda pwyllgorau, templedi cofnodion ac adroddiadau a deunyddiau brand eraill (e.e. cardiau busnes);
- cynnwys ar gyfer sgriniau'r Senedd;
- diweddariadau i ffurflenni pwyllgorau (e.e. hawliadau costau tystion, arolwg adborth tystion);
- templedi Microsoft Word ac Adobe InDesign mewnol.

479. Amcangyfrifir mai £2,300 yw'r cyfanswm o ran cost amser staff (h.y. cyfanswm cost amser staff mewnol y Comisiwn gan gynnwys aelod Band Rheoli 2, aelod Band Rheoli 3 a Chymorth Tîm) ar gyfer diweddaru'r templedi hyn, fel y nodir yn Tabl 18.

480. Yn ogystal, rhagdybir y byddai ymgynghorydd dylunio allanol yn cael ei gonafractio i oruchwylio a sicrhau ansawdd y gwaith o ddylunio templedi newydd. Amcangyfrifir mai £10,000 fydd y gost hon fel y dangosir yn Tabl 18.

9.4.5.5. Diweddarau cynnwys gwe neu gyhoeddiadau ar y we, a chanllawiau neu brosesau mewnol

481. Mae cynnwys hanesyddol a byw (er enghraifft, ymchwiliadau pwyllgor parhaus) ar wefan y Cynulliad. Dan opsiwn 3, dim ond y cynnwys byw y byddai angen ei ddiweddarau.

482. Hefyd, byddai angen diweddarau cyhoeddiadau eraill ar y we a chanllawiau a phrosesau mewnol. Mae Tabl 19 yn nodi cost drosiannol amcangyfrifedig yr amser staff cyffredinol a dreulir wrth ddiweddarau'r rhain.

Tabl 19 Cost drosiannol amcangyfrifedig amser staff i ddiweddarau cyhoeddiadau ar y we a chanllawiau a phrosesau mewnol

Gradd staff	Amser (mewn diwrnodau)	Cost (£)
Band Gweithredol 2 ac uwch	15	3,100
Band Rheoli 1	6	1,300
Band Rheoli 2	194	31,900
Band Rheoli 3	46	5,800
Cymorth Tîm	86.5	8,000
Contractwr allanol	0.5	400
CYFANSWM	348	50,500

483. Bydd rhai newidiadau gwefan yn cael eu gwneud ar ei strwythur cyffredinol, ond bydd angen i lawer ohonynt gael eu gwneud ar dudalennau gwe unigol. Bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn i gynnwys testun, ond bydd angen ailosod delweddau sy'n cynnwys enw'r Cynulliad, ynghyd â thestun priodol arall (i'w ddefnyddio gan dechnolegau darllenydd sgrîn). Yn yr un modd, bydd angen diweddarau rhai teitlau tudalennau ac opsiynau dewislen ryngweithiol.

484. Er na fyddai cynnwys hanesyddol yn ymgorffori'r enw newydd yn uniongyrchol, byddai ychydig o amser staff yn canolbwyntio ar ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â bodolaeth tudalennau hanesyddol. Er enghraifft, byddai ystod eang o dudalennau gwe hanesyddol (er enghraifft, proffiliau Aelodau Cynulliad unigol o dymhorau Cynulliad blaenorol) ar hyn o bryd yn rhoi lincs i dudalen sy'n

amlinellu rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad.¹³⁵ Pe bai cynnwys y dudalen hon yn cael ei ddiweddarau i '*Aelod o'r Senedd: Rolau a Chyfrifoldebau*', efallai na fyddai'r lincs o dudalennau hanesyddol yn addas at y diben mwyach (er enghraifft, byddai'n anghywir rhoi linc i dudalen o'r fath o broffil Aelod y Cynulliad cyntaf). Yn lle hynny, byddai angen i'r lincs gyfeirio defnyddwyr at dudalen sy'n nodi beth oedd rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad a, thrwy hynny, roi esboniad ynghylch pryd y daeth Aelodau'r Cynulliad yn Aelodau o'r Senedd.

485. At ddiben yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys cyhoeddiadau parhaus heblaw am fformatau Iaith Arwyddion Prydain ac amlieithog fel y nodir yn adran 9.4.5.3. Mae'r costau a nodwyd yn y categori hwn hefyd yn cynnwys newidiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen parhaus.

486. Mae'r categori hwn hefyd yn cwmpasu:

- diweddariadau i ganllawiau mewnol;
- diweddariadau i'r System Rheoli a Chatalog Llyfrgell (er enghraifft cyfeiriadau e-bost defnyddwyr);
- newidiadau Tanysgrifio Electronig;
- diweddariadau i restrau dosbarthu;
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gontractwyr allanol am effaith gyfreithiol y newid enw;
- rhoi gwybod i gysylltiadau allanol am newidiadau i enwau a chyfeiriadau e-bost,
- diweddaru cytundebau myfyrwyr/cymrodoriaeth a chytundebau fframwaith Brexit;
- diweddariadau i fapiau;
- diweddariadau i feddalwedd drafftio deddfwriaeth;
- diweddariadau i system y Swyddfa Gyflwyno;
- diweddariadau i fersiynau hawdd eu darllen o gyhoeddiadau;

¹³⁵ www.cynulliad.cymru/cy/memhome/mem-role-response/Pages/mem-role-response.aspx

- diweddariadau i'r Rheolau Sefydlog;
- yr holl dasgau cyfieithu cysylltiedig.

487. Er bod Tabl 19 yn amcangyfrif amser staff fel cyfanswm ar y cyd, dylid nodi y byddai'r tasgau hyn yn cael eu gwneud gan lawer o bobl mewn gwirionedd. Er enghraifft, byddai ystod eang o staff o feysydd gwasanaeth gwahanol yn ymwneud â diweddaru tudalennau gwefan y Cynulliad.

488. Yn ymarferol, tybir na fydd angen cyllid ychwanegol ar y rhan fwyaf o'r costau hyn gan y byddant yn cael eu hamsugno fel rhan o brosesau gwaith o ddydd i ddydd, cyllidebau presennol, neu drwy ailflaenoriaethu gwaith arall.

9.4.6. Presenoldeb ffisegol – ystâd y Cynulliad

489. Byddai Opsiwn 3 yn golygu bod angen newid presenoldeb ffisegol enw'r Cynulliad ar ystâd y Cynulliad. Mae Tabl 20 yn nodi dadansoddiad o'r costau parhaus a'r costau trosiannol amcangyfrifedig ar gyfer ailosod arwyddion a ffitiadau sy'n dwyn enw'r Cynulliad.

Tabl 20 Cyfanswm amcangyfrifedig y costau o ailosod arwyddion a ffitiadau sy'n dwyn enw'r Cynulliad

Arwyddion	Cost (£)
Siambwr Hywel: Dau arwydd mynedfa wedi'u brandio	2,500
Arwyddion allanol y Senedd, ar flaen yr adeilad a'r ochr	14,900
Arwyddion teledu cylch cyfyng ar draws yr ystâd	600
Tynnu'r llythrennau oddi ar furiau allanol Tŷ Hywel	4,500
Mat mynedfa'r Senedd	3,600
Arwyddion allanol Tŷ Hywel a'r Pierhead	6,500
Arwyddion man aros derbynfa Tŷ Hywel	600
Carped mynedfa Tŷ Hywel	15,300
Arwyddion yn swyddfa Bae Colwyn	14,900
Arfau'r corff a dillad llachar	1,200
Baneri'r Bwrdd Taliadau	300
Gwaith cyflwyno a gweinyddu gan staff	3,300
Cyfanswm	68,200

490. Costau trosiannol sydd yn y tabl yn bennaf, ac eithrio dau achos o gostau parhaus ychwanegol mewn perthynas ag ailosod matiau a charpedi.

491. Yn yr un modd ag opsiwn 1, yn seiliedig ar y carpedi newydd a brynwyd yn 2013-14 a 2016-17, tybir y bydd carpedi newydd yn cael eu prynu ddwywaith mewn pum mlynedd. Yn seiliedig ar gost y pryniadau hyn, amcangyfrifir mai £10,200 yw'r gost dros y cyfnod hwn.¹³⁶

492. Yn unol â'r dybiaeth hon, tybir hefyd y bydd matiau newydd ar gyfer y fynedfa hefyd yn cael eu prynu ddwywaith mewn pum mlynedd. Yn seiliedig ar bryniad yn 2018-19, amcangyfrifir mai £2,400 yw cyfanswm y gost dros y cyfnod hwn.¹³⁷

493. Felly, £12,600 fyddai cyfanswm y costau parhaus ar gyfer carpedi a matiau newydd dan yr opsiwn hwn.

494. Ni fyddai angen newid gwisgoedd swyddogol staff diogelwch yn eu cyfanrwydd gan mai dim ond logo'r Cynulliad sydd arnynt. Fodd bynnag, caiff pob swyddog diogelwch ddwy set o fathodynau felcro sy'n cynnwys enw'r Cynulliad (un ar gyfer fest arfwisg ac un ar gyfer y dilledyn allanol llachar). Amcangyfrifir mai £1,200 yw cost newid y rhain (yn seiliedig ar £18 am bob set o ddillad ar gyfer 65 o wisgoedd swyddogol).

495. Byddai enw Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei newid dan opsiwn 3. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu prynu dwy faner godi ac amcangyfrifir y byddai'n costio £300.

496. Disgwylir rhagor o gostau trosiannol mewn perthynas ag amser staff y Cynulliad yn cyflwyno newidiadau ffisegol, gan gynnwys cysylltu â chyflenwyr, cael proflenni, cytuno ar amserlenni, diweddarau placiau Aelodau, a gwneud gwaith gosod. Byddai amser staff hefyd yn cael ei ddefnyddio wrth ddiweddarau gwefan, templedi a deunydd darllen cysylltiedig y Bwrdd Taliadau. Amcangyfrifir mai £2,300 yw cyfanswm cost drosiannol amser staff ar gyfer y gweithgareddau hyn.¹³⁸

497. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost barhaus ar gyfer amser staff dros 5 mlynedd fyddai £1,000,¹³⁹ yn benodol mewn perthynas â phrynu matiau a

¹³⁶ Yn seiliedig ar £5,116.27 fel cost gyfartalog ar gyfer y rhai a brynwyd, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant.

¹³⁷ Yn seiliedig ar £1,200 fel cost y pryniad.

¹³⁸ Yn seiliedig ar 6.2 diwrnod i aelod o staff Band Rheoli 2, 8 diwrnod i aelod o staff Band Rheoli 3, a 3 diwrnod i aelod o staff Cymorth Tîm, sy'n gyfwerth â £2,298.50.

¹³⁹ Yn seiliedig ar aelod o staff Band Rheoli 3 yn treulio 3 diwrnod ar gost o £373, ac aelod o staff Band Rheoli 2 yn treulio 0.5 diwrnod ar gost o £82, sy'n cyfateb i £455.53 wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf a'i luosi â 2 flynedd.

charpedi ddwywaith mewn 5 mlynedd. Fel y nodir dan opsiwn 1, byddai gweithgarwch staff yn cynnwys cysylltu â chyflenwyr, cael proflenni, cytuno ar amserlenni a gwneud y gwaith gosod.

9.4.7. TGCh

498. Byddai Opsiwn 3 yn golygu bod angen newid enwau parth gwefan y Cynulliad: *cynulliad.cymru* ac *assembly.wales*. Nodir y costau sy'n deillio o'r newidiadau hyn yn Nhabl 22.

Tabl 21 Costau sy'n deillio o newidiadau i enwau parth gwefan y Cynulliad

	Cost drosiannol (£)	Cyfanswm y gost barhaus (dros bum mlynedd) (£)
Parthau gwe gwefan y Cynulliad	-	1500
Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel	-	1000
Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel (gwaith cyflawni gan y staff a newidiadau cysylltiedig)	1,500	-
Cyfanswm	1,500	2,500
		4,000

499. Ar hyn o bryd, Senedd y DU sydd â'r hawliau i'r enwau parth *senedd.cymru* a *senedd.wales* (yn ogystal â *parliament.cymru* a *parliament.wales*). Mae Comisiwn y Cynulliad a Senedd y DU wrthi'n trafod trosglwyddo'r enwau parth hyn i'r Cynulliad Cenedlaethol.

500. Ni fyddai unrhyw gost ynghlwm wrth y gwaith o drosglwyddo'r enwau, ac eithrio'r gost barhaus o gofrestru'r pedwar parth newydd, ac amcangyfrifir mai tua £200 y flwyddyn (£50 y parth) yw hynny. Tybir y byddai hefyd gost o barhau i gofrestru'r ddau barth presennol, sef £100 y flwyddyn (£50 y parth), er mwyn caniatáu i draffig gwefan a negeseuon e-bost gael eu hailgyfeirio o'r "hen" barthau a chyfeiriadau e-bost cysylltiedig i'r rhai "newydd".

501. Felly, cyfanswm y gost barhaus i gofrestru chwe pharth gwe dros bum mlynedd fyddai £1,500.

502. Mae'n ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad sicrhau'r tystysgrifau diogelwch Haenen Socedi Diogel priodol (sydd eu hangen i amgryptio rhai gwasanaethau gwe sy'n casglu data personol) ar gyfer pob gwefan gysylltiedig. Ni fydd opsiwn 3 yn arwain at gost barhaus ychwanegol oherwydd y bydd cost y tystysgrifau newydd yn

cymryd lle cost y tystysgrifau ar gyfer y parthau presennol. Fel y cyfryw, amcangyfrifir y byddai hyn yn costio £200 y flwyddyn ar gyfer opsiwn 3 (fel gydag opsiwn 1).

503. Byddai hefyd angen talu am amser staff ar gyfer y gwaith o baratoi'r systemau amrywiol, diweddarau cyfeiriadau e-bost, caffael tystysgrifau diogelwch ac ati. Amcangyfrifir y byddai hynny'n costio £600,¹⁴⁰ ar sail y ffaith i Gomisiwn y Cynulliad gynnal prosiect newid enw parth yn flaenorol pan symudodd y Cynulliad o www.cynulliadcymru.org i www.cynulliad.cymru yn 2015.

504. Nodwyd cost arall o £900 o ran amser staff¹⁴¹ er mwyn gwneud newidiadau canlyniadol i systemau o ganlyniad i sicrhau'r tystysgrifau diogelwch Haenen Socedi Diogel priodol, a gwaith arall sy'n gysylltiedig â newid yr enw parth, fel darparu canllawiau a chyngor ar y newidiadau i gyfeiriadau e-bost (gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a rennir) ac ailgofrestru dyfeisiau Aelodau.

9.4.8. Costau i sefydliadau eraill

505. Dan opsiwn 3, bydd angen i sefydliadau eraill hefyd wneud newidiadau a fyddai'n arwain at gostau trosiannol. Crynhoir y costau hyn yn Tabl 22, a manylir arnynt isod.

Tabl 22 Cyfanswm y costau amcangyfrifedig i sefydliadau eraill o ganlyniad i newid enw

Cost	Swm (£)
Arwyddion ffyrdd – Llywodraeth Cymru	42,000
Arwyddion ffyrdd – Dinas a Sir Caerdydd	60,000
Diweddariadau gwefan – pob awdurdod lleol	20,000
Cyfanswm	122,000

506. Byddai angen newid yr arwyddion sy'n cyfeirio traffig i'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £60,000 ar gyfer yr arwyddion ar y ffyrdd sydd dan ofal awdurdod priffyrdd Dinas a Sir Caerdydd, a hyd at £42,000 ar gyfer yr arwyddion ar y ffyrdd sydd dan ofal awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r uchafswm amcangyfrifedig hwn yn seiliedig ar ddylunio dau arwydd perthnasol, bodloni gofynion statudol mewn

¹⁴⁰ Yn seiliedig ar aelod o staff Band Rheoli 1 yn gweithio tri diwrnod, sy'n cyfateb i £634.62.

¹⁴¹ Yn seiliedig ar aelod o staff Band Rheoli 2 yn gweithio pedwar diwrnod (£666.76), ac aelod o staff Cymorth Tîm yn gweithio dau ddiwrnod (£189.91).

perthynas â'r llawlyfr dylunio ffyrdd a phontydd, cynhyrchu wynebau arwyddion newydd, cyflenwi a gosod pyst newydd, cloddio a gosod sylfaen newydd, a rheoli traffig. Fodd bynnag, gan fod cyflwr presennol yr arwyddion a'r wynebau'n anhysbys, efallai na fydd angen talu'r uchafswm hwn yn llawn. Nid oes arwyddion i gyfeirio traffig i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Colwyn ar hyn o bryd.

507. Mae rhai awdurdodau lleol yn cyfeirio at y Cynulliad Cenedlaethol neu at Aelodau'r Cynulliad ar eu gwefannau. Os caiff yr enw ei newid, disgwylir mai dim ond y cyfeiriadau ar dudalennau byw y bydd angen eu diwygio, ac na fydd angen diwygio cyfeiriadau ar dudalennau a dogfennau sydd wedi'u harchifo. Mae'r cyfeiriadau hyn yn gyfyngedig i ganllawiau ar gyfer etholiadau, chwilio am gynrychiolwyr etholedig pobl Cymru, a phrosesau apelio, fel apeliadau cynllunio. Ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, amcangyfrifir y byddai amser staff i ddiwygio cyfeiriadau o'r fath yn costio cyfanswm o £20,000 ar gyfer y 22 awdurdod lleol.

508. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na fyddai diwygio'i gwefannau a'i chanllawiau mewnol i adlewyrchu'r newid enw yn achosi cost o ran amser staff oherwydd y bydd y gwaith dan sylw yn cael ei gynnwys yng nghynlluniau gwaith swyddogion a thimau ochr yn ochr â'u dyletswyddau eraill, heb orfod rhoi llai o flaenoriaeth i waith. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nid yw'r gost i Lywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith o'r fath yn hysbys.

509. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu deunyddiau mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn wedi dweud y byddai unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o newid enw'r Cynulliad yn fach iawn, gan fod deunyddiau'n cael eu cynhyrchu yn ôl yr angen ar gyfer yr etholiad perthnasol. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nid yw'r costau hyn yn hysbys.

510. Tybir y byddai angen newid cod post presennol y Cynulliad Cenedlaethol, sef CF99 1NA, i ddileu'r cyfeiriad at y Cynulliad Cenedlaethol (NA). Mae'r Post Brenhinol wedi nodi y byddai angen talu cost weinyddol fach ar gyfer hyn. Bydd cost fach debyg i sefydliadau ddiweddarau eu Ffeiliau Cyfeiriadau Cod Post i gynnwys y cod post newydd. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nid yw'r union gost yn hysbys.

9.5. Manteision a risgiau

511. Byddai newid enw'r Cynulliad yn arwain at fanteision o ran dealltwriaeth y cyhoedd o rôl, cyfrifoldebau a phwerau'r sefydliad, a'i le yn nhirwedd gyfansoddiadol y DU. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r amgylchedd cyfansoddiadol ddatblygu ar ôl Brexit.

512. Bydd newid yr enw mewn unrhyw ffordd (h.y. opsiynau 2 a 3) yn arwain at gost ariannol, yn ymwneud yn bennaf â phresenoldeb ffisegol y Cynulliad fel arwyddion a deunyddiau cyfathrebu. Er bod y costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2 yn is na'r rhai sy'n gysylltiedig ag opsiwn 3, mae gan opsiwn 2 hefyd risgiau uwch o ran y posibilrwydd o ddrysu'r cyhoedd.

513. Oherwydd hynny, opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir, gan y byddai'n ei gwneud yn bosibl defnyddio dull pwyllog a systematig â diwydrwydd dyladwy.

9.6. Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

514. Yn gryno, dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

- Opsiwn 1: gwneud dim. Cadw enw presennol y Cynulliad. Ni fyddai costau nac arbedion ychwanegol o wneud hyn, ond ni fyddai'n cyflawni'r manteision o wella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl, cyfrifoldebau a phwerau'r sefydliad.
- Opsiwn 2: newid enw'r sefydliad yn anffurfiol heb ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn golygu costau tebyg i newid yr enw drwy ddeddfwriaeth a gallai sicrhau manteision tebyg o ran dealltwriaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, byddai'n creu mwy o risg o ddrysu'r cyhoedd pe na bai'r enw anffurfiol newydd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.
- Opsiwn 3: deddfu i newid enw'r Cynulliad. Dyma'r opsiwn sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r amcan o wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r sefydliad a'i rôl, gan leihau'r risg o her gyfreithiol.

515. Cytunodd Comisiwn y Cynulliad ym mis Mai 2017 mai opsiwn 3 oedd yr opsiwn a ffefrir ganddo, sef defnyddio'r pwerau yn *Neddf Cymru 2017* i newid enw'r sefydliad yn ffurfiol ac yn gyfreithlon, gyda newidiadau cysylltiedig i enwau a theitlau deiliaid swyddi a chyrrff perthnasol.

10. Aseiad o gost newid yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad

10.1. Opsiynau

516. Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1 – gwneud dim i newid yr oedran pleidleisio;
- Opsiwn 2 – cynnwys darpariaethau cyfreithiol yn y Bil i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16.

10.2. Opsiwn 1: Dim newid i'r oedran pleidleisio

10.2.1. Disgrifiad

517. Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno newid. Byddai'r etholfraint yn parhau i fodoli a gweithio ar ei ffurf bresennol.

10.2.2. Costau

518. Mae etholiadau'n costio arian. Mae adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 5 Mai 2011 yn nodi'r canlynol:

“Mae Llywodraeth Cymru'n talu costau'r Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n darparu'r etholiad. Er nad yw'r union gostau a gafodd y Swyddogion Canlyniadau yn hysbys eto, gan fod Llywodraeth Cymru wedi pennu 5 Ionawr 2012 fel y dyddiad cau er mwyn cyflwyno cyfrifon, y swm uchaf y mae modd ei adennill ar gyfer y 40 etholaeth a'r 5 rhanbarth etholiadol yw £4.7 miliwn. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi talu costau'r Post Brenhinol, bron i £3.4 miliwn, am ddanfôn dros 16.5 miliwn o ddarnau o ohebiaeth etholiadol gan ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.”¹⁴²

519. Fodd bynnag, nid oes gan bobl 16 a 17 oed hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ar hyn o bryd ac, fel y cyfryw, £0 yw'r gost bresennol sy'n gysylltiedig â

¹⁴² Y Comisiwn Etholiadol, Adroddiad ar etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 5 Mai 2011, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011, tudalen 7. Nid oedd adroddiad Comisiwn Etholiadol ar Etholiad Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016 yn cynnwys costau penodol, ond cyfeiriodd at ei ohebiaeth â Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am ariannu etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried cyhoeddi gwybodaeth glir am gostau etholiadau yn y dyfodol.

chyfranogiad pobl 16 a 17 oed yn etholiadau'r Cynulliad. Ni nodwyd costau ar gyfer cynnal y sefyllfa hon, felly £0 yw'r gost bresennol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Tabl 23 Costau opsiwn 1 ar gyfer peidio â gadael i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

Sefydliad	Swm (£)
Comisiwn y Cynulliad	0
Y Comisiwn Etholiadol	0
Awdurdodau Lleol	0
Llywodraeth Cymru	0
Cyfanswm	0

10.2.2.1. Y gost i Gomisiwn y Cynulliad

520. Er mwyn rhoi'r cyd-destun, caiff gwariant sy'n ymwneud yn benodol â gweithgarwch etholiadol ei ariannu o gyllideb costau etholiad Comisiwn y Cynulliad. Swm ychwanegol yw hwn y mae'r Comisiwn yn ei gael gan Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn ariannol cyn etholiad ac ym mlwyddyn ariannol etholiad. Mae'r symiau hyn wedi'u neilltuo: ni ddaw symiau na chânt eu defnyddio ar gyfer eitemau sy'n gysylltiedig ag etholiad o Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chânt eu defnyddio ar gyfer gwariant arall sy'n ymwneud â'r Comisiwn.

521. Yn 2015-16, sef y flwyddyn ariannol cyn etholiad diwethaf y Cynulliad, cymeradwyodd y Cynulliad swm o £500,000 ar gyfer costau etholiad, a chafodd ei gynnwys yng nghyllideb y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn honno. O'r swm hwnnw, gwariwyd £427,000 ar weithgarwch a oedd yn ymwneud ag etholiad.

522. Fodd bynnag, gan nad oes gan bobl 16 a 17 oed yr hawl i bleidleisio, ni ellir dweud bod dim o'r gwariant hwn yn uniongyrchol gysylltiedig â phobl 16 a 17 oed yn pleidleisio. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nodir £0 ar gyfer y gost hon.

523. Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno costau ychwanegol i Gomisiwn y Cynulliad.

10.2.2.2. Y gost i'r Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

524. Rhagwelir y bydd y *Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)* yn estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol. Pe bai opsiwn 1 yn cael ei ddewis, a bod y *Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)* yn cael ei basio, byddai'r costau cofrestru ar gyfer etholwyr llywodraeth leol yn

parhau fel y'u nodir yn opsiwn 2 isod. Bydd manylion amdanynt i'w gweld yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

525. Felly, at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nodir £0 ar gyfer y gost hon.

10.2.2.3. Crynodeb o'r costau

526. Y gost bresennol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yw £0 gan nad oes gan bobl 16 a 17 oed yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ar hyn o bryd.

527. Ni fydd costau ychwanegol i Gomisiwn y Cynulliad, y Comisiwn Etholiadol, awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru.

10.2.3. Manteision

528. Ni fyddai opsiwn 1 yn arwain at fanteision ychwanegol i bobl ifanc o dan 18 oed.

10.3. Opsiwn 2 – Cynnwys darpariaethau i ostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16

10.3.1. Disgrifiad

529. Gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16.

530. Gan fod y rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed yn yr ysgol, maent yn fwy agored i addysg wleidyddol o ryw fath nag y byddent wedi bod yn y gorffennol. Mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau cyfryngau electronig hefyd yn uchel ymhlith y grŵp oedran hwn. Mae'r dystiolaeth o refferendwm yr Alban yn 2014 yn awgrymu bod lefel uchel o ddiddordeb gwleidyddol eisoes ymhlith y grŵp oedran hwn.¹⁴³

531. Mae dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn rhannau pwysig o'r cwricwlwm ac, ar hyn o bryd, mae gan ddysgwyr y cyfle i astudio gwleidyddiaeth a materion cyfoes drwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a Bagloriaeth newydd Cymru. Disgwylir i

¹⁴³ Mae canran y bobl 16 a 17 oed (75 y cant), o'i chymharu â nifer y bobl 18-24 oed (54 y cant), a bleidleisiodd yn Refferendwm yr Alban yn 2014, yn adlewyrchu hynny. Y Comisiwn Etholiadol, [Scottish Independence Referendum: Report on the Referendum Held on 18 September 2014](#) (Saesneg yn unig). Rhagfyr 2014.

wybodaeth sy'n ymwneud ag etholiadau gael ei chyflwyno cyn i bobl ifanc droi'n 16 oed er mwyn peidio â rhoi pwysau ychwanegol arnynt wrth sefyll arholiadau.

532. Hefyd, mae rhai pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Wrth baratoi at refferendwm yr Alban, paratôdd y Comisiwn Etholiadol ddeunydd addysgol i godi ymwybyddiaeth a oedd ar gael i'r holl bobl ifanc ac oedolion a oedd yn gweithio gyda hwy. Defnyddir dull tebyg yng Nghymru. Bydd yn bwysig sicrhau bod ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd addysgol yn ystyried sut i sicrhau bod grwpiau anoddach eu cyrraedd yn cael eu hannog i gofrestru ond hefyd yn deall eu hawliau a bod ganddynt yr un wybodaeth â phob person ifanc arall.

533. Cyflwynir y costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn (dros bum mlynedd) yn Tabl 24.

Tabl 24 Cyfanswm costau opsiwn 2 - Cyflwyno darpariaethau i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16

	Costau pontio (£)	2020-21 (£)	2021-22 (blwyddyn etholiad) (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	Cyfanswm y gost (£)
Costau i awdurdodau lleol							
Cofrestru etholwyr 16 a 17 oed	-	84,200	84,200	84,200	84,200	84,200	421,000
Diweddaru meddalwedd Systemau Rheoli Etholiadol	636,300	-	-	-	-	-	636,300
Codi ymwybyddiaeth	866,200	-	-	-	-	-	866,200
Cyfanswm	1,502,500	84,200	84,200	84,200	84,200	84,200	1,923,500
Costau i Lywodraeth Cymru							
Costau uwch fesul etholwr	-	-	153,900	-	-	-	153,900
Diweddaru'r gwasanaeth cofrestru etholiadol unigol	21,200	-	-	-	-	-	21,200
Cyfanswm	21,200	-	153,900	-	-	-	175,100

Costau i'r Comisiwn Etholiadol							
Codi ymwybyddiaeth	75,900	-	-	-	-	-	75,900
Dylunio ffurflenni cofrestru newydd	37,100	-	-	-	-	-	37,100
Trefnu bod defnyddwyr yn profi ffurflenni cofrestru newydd	42,400	-	-	-	-	-	42,400
Cyfanswm	155,400	-	-	-	-	-	155,400
Y gost i Gomisiwn y Cynulliad							
Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth	150,000	-	-	-	-	-	150,000
Cyfanswm	150,000	-	-	-	-	-	150,000
CYFANSWM	1,829,100	84,200	238,100	84,200	84,200	84,200	2,404,000

10.3.1.1. Costau i awdurdodau lleol

534. Bydd cynigion i roi'r bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed yn arwain at gynydd mewn gwariant. Mae'r costau i lywodraeth leol wedi'u nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- cofrestru pobl 16 a 17 oed;
- diweddarau Systemau Rheoli Etholiadol yr awdurdod lleol;
- codi ymwybyddiaeth.

Cofrestru pobl 16 a 17 oed

535. Bydd cynigion i roi'r bleidlais i bobl 16 a 17 oed sy'n byw yng Nghymru yn arwain at gynydd mewn gwariant i awdurdodau lleol o ran costau cofrestru nifer ychwanegol o bobl.

536. Mae costau cofrestru yn gostau parhaus o un flwyddyn i'r nesaf. Mae *The cost of electoral administration in Great Britain: Financial information surveys 2009-10 and 2010-11 (Saesneg yn unig)*¹⁴⁴ yn dangos mai £1.17 a £0.96 yw'r gwariant fesul etholwr yn ystod y cyfnod canfasio a'r tu allan i'r cyfnod canfasio ar gyfer 2010-11, yn y drefn honno. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ystod eang o gostau megis y tîm cofrestru craidd, dylunio ac argraffu, costau postio, canfasio a llunio'r gofrestr. Nid oes ffigurau diweddarach ar gael, felly ar ôl rhoi cyfrif am chwyddiant, caiff y gost gyfartalog, sef £1.07, ei chynyddu i £1.22.

537. Yn ôl Amcangyfrifon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) roedd 69,029 o bobl 16 a 17 oed yng Nghymru yng nghanol 2017.¹⁴⁵ At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir y byddai nifer debyg o bobl 16 a 17 oed yng Nghymru pan ddaw darpariaethau'r Bil hwn i rym. Felly, byddai cofrestru'r grŵp hwn a fyddai newydd gael yr etholfraint yn cynyddu costau cofrestru blynyddol Cymru tua £84,200.¹⁴⁶ Dros bum mlynedd, £421,100 fyddai cyfanswm y gost ychwanegol hon.

538. Byddai'r costau cofrestru hyn yn cael eu hysgwyddo gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r costau hyn a nodir isod hefyd wedi'u cynnwys yn y dogfennau ategol ar gyfer y *Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)* sydd ar ddod. Nodir

¹⁴⁴ Y Comisiwn Etholiadol, *The cost of electoral administration in Great Britain: Financial information surveys 2009-10 and 2010-11*, Rhagfyr 2012

¹⁴⁵ Llywodraeth Cymru, *Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn oed a gwlad y DU*. [Fel ym mis Tachwedd 2018]

¹⁴⁶ Yn seiliedig ar £69,029 x £1.22, sy'n gyfwerth â £84,215.38.

ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol pwy gaiff bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol sy'n gyfrifol am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chofrestru'r etholwyr ychwanegol.

Meddalwedd System Rheoli Etholiadol (EMS)

539. Mae gan bob awdurdod lleol gontract gyda chwmni meddalwedd sy'n darparu'r feddalwedd ar gyfer y Gofrestr Etholiadol. Gelwir y feddalwedd hon yn System Rheoli Etholiadol (EMS). Dim ond tri chwmni meddalwedd y mae'r 22 o awdurdodau lleol yn gweithio gyda hwy, a byddai angen i'r tri wneud newidiadau angenrheidiol i'w meddalwedd er mwyn i'r swyddogion cofrestru allu ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd a gyflwynir gan y Bil hwn.¹⁴⁷ Byddai diweddarau'r EMS yn arwain at gost untro i awdurdodau lleol, a hwy fyddai'n talu'r gost honno.

540. Nid yw union gostau'r newidiadau ar gael eto ond nododd y Nodiadau Esboniadol a baratowyd ar gyfer *Bil Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio)* y byddai costau i ddiweddarau meddalwedd System Rheoli Etholiadol yn costio tua £400,000 i £600,000 i hwyluso newidiadau i'r etholfraint.¹⁴⁸ Ar ôl ystyried chwyddiant, amcangyfrifir bod y gost hon rhwng £424,200 a £636,300 erbyn hyn.

541. Er bod gan Gymru lai o boblogaeth na'r Alban, ni ddisgwylir i'r gost o ddiweddarau'r feddalwedd yng Nghymru fod yn llawer llai nag yr oedd yn yr Alban.

542. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybir felly y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â diweddarau meddalwedd yr EMS hyd at £636,300.

Codi ymwybyddiaeth

543. Mae'r *Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)* sydd ar ddod yn cynnwys darpariaethau i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith y bobl ifanc berthnasol ynghylch y trefniadau ar gyfer cofrestru etholiadol sy'n gymwys iddynt a'u helpu i gofrestru.

544. Deallir bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid darparu cyllid ychwanegol at y diben hwn. Fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, amcangyfrifwyd y byddai pob awdurdod lleol yn defnyddio un swyddog hanner

¹⁴⁷ Er enghraifft, diogelu'r wybodaeth am bobl ifanc o dan 16 oed neu gael cofrestr briodol ar wahân ar gyfer pob etholiad.

¹⁴⁸ *Senedd yr Alban, Bil Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio): Nodiadau Esboniadol (a dogfennau cysylltiedig eraill)*. (Saesneg yn unig), Ebrill 2015, paragraff 29

amser at y diben hwn ac yn cael cyllideb weithio gymedrol o £10,000 (gweler Tabl 25).

Tabl 25 Costau llywodraeth leol (fesul awdurdod lleol) ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith phobl ifanc ynghylch cofrestru etholiadol a chymorth i gofrestru

Cost	Swm (£)
Swyddog awdurdod lleol sy'n gyfwerth â gradd Band Rheoli 1 y gwasanaeth sifil (0.5 cyfwerth ag amser llawn) ¹⁴⁹	29,400
Cyllideb ar gyfer digwyddiadau a deunyddiau	10,000
Cyfanswm	39,400

545. Ar sail y tybiaethau uchod, amcangyfrifir mai £866,000 fyddai cyfanswm y gost o godi ymwybyddiaeth ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol.¹⁵⁰

546. Mae cyfanswm y costau ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru dros bum mlynedd, gan gynnwys costau trosiannol a chostau parhaus, wedi'i gynnwys yn Tabl 26 ac amcangyfrifir mai £1,923,500 ydyw.

Tabl 26 Crynodeb o gyfanswm y costau ar gyfer pob awdurdod lleol dros bum mlynedd

Cost	Swm (£)
Cost gynyddol yn sgil cofrestru pobl 16 a 17 oed yn flynyddol dros bum mlynedd	421,000
Diweddaru'r EMS i alluogi pobl 16 a 17 oed i gofrestru (yn 2020-21)	636,300
Codi ymwybyddiaeth (yn 2020-21)	866,200
Cyfanswm	1,923,500

10.3.1.2. Y costau i Lywodraeth Cymru

547. Bydd cynigion i roi'r bleidlais i bobl 16 a 17 oed yn arwain at gynnydd mewn gwariant. Nodwyd costau mewn perthynas â'r canlynol:

- cynnydd yn nifer yr etholwyr yn etholiadau'r Cynulliad;
- diweddaru Gwasanaeth Cofrestru Etholiadol Digidol Llywodraeth y DU.

548. Ystyriwyd hefyd y gost bosibl, anhysbys i Lywodraeth Cymru o ran codi ymwybyddiaeth.

¹⁴⁹ Yn seiliedig ar gyflog blynyddol, gan gynnwys argostau o £58,742 wedi'u rhannu â 2.

¹⁵⁰ Yn seiliedig ar 22 x £39,371, sy'n gyfwerth ag £866,162.

Costau cynyddol fesul etholwr

549. Ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, mae Gweinidogion Cymru yn talu'r costau drwy godi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amcangyfrif ar gyfer cost yr etholiad a gaiff ei chymhwyso ar ôl hynny i dalu costau'r etholiad.

550. Mae *Cost gweinyddiaeth etholiadol ym Mhrydain Fawr*¹⁵¹ yn nodi mai £1.96 oedd y gwariant etholiadol fesul etholwr yng Nghymru yn 2010-11. Mae hyn yn cynnwys y costau i gynnal yr etholiad a chyfrif y pleidleisiau. Nid oes ffigurau diweddarach ar gael felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, cafodd y ffigur ei ddiweddarau i £2.23 i roi cyfrif am chwyddiant.

551. Felly, amcangyfrifir mai £153,900 yw cyfanswm y gost ychwanegol ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.¹⁵²

Gwasanaeth cofrestru etholiadol digidol

552. Byddai'r rhai sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio yn gallu cofrestru drwy system gofrestru ddigidol Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd yng Nghymru, ni ellir defnyddio'r system ar-lein hon i gofrestru unrhyw un o dan 16 oed. Byddai angen diwygio'r system i ddarparu ar gyfer y newid yn etholfraint Cymru. Gwnaed hyn eisoes er mwyn darparu ar gyfer y newid yn yr etholfraint yn yr Alban. Bydd hefyd angen i Lywodraeth Cymru ad-dalu Swyddfa'r Cabinet am gostau sy'n gysylltiedig â newidiadau mân i alluogi pobl 14 a 15 oed i wneud defnydd cyfyngedig o wasanaeth cofrestru etholiadol digidol unigol Llywodraeth y DU i gofnodi eu manylion cofrestru ar-lein. Amcangyfrifodd Llywodraeth yr Alban mai oddeutu £20,000 oedd y costau yn Nodiadau Esboniadol¹⁵³ *Deddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015*. O ystyried chwyddiant, tybir y byddai'r costau hyn bellach yn cael eu hamcangyfrif fel £21,200.

Codi ymwybyddiaeth

553. Nid yw'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn gosod dyletswyddau na rhwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru i gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag estyn yr etholfraint i bobl 16 oed.

¹⁵¹ Y Comisiwn Etholiadol, *Cost gweinyddiaeth etholiadol ym Mhrydain Fawr: Arolygon gwybodaeth ariannol 2009-10 a 2010-11*, Rhagfyr 2012

¹⁵² Yn seiliedig ar £2.23 x 69,029, sy'n gyfwerth â £153,934.67.

¹⁵³ Senedd yr Alban, *Bil Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio): Nodiadau Esboniadol (a dogfennau cysylltiedig eraill)*. (Saesneg yn unig), paragraff 31

554. Mae Comisiwn y Cynulliad o'r farn ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth er mwyn ategu'r newidiadau deddfwriaethol. Felly, mae Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod sut i gydweithio er mwyn codi ymwybyddiaeth a datblygu ystod o adnoddau i ategu hyn.

555. Nod Llywodraeth Cymru yw cynnal ymgyrch tair blynedd a fydd yn cynnwys etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol. Bydd hyn yn cynnwys etholfraint llywodraeth leol i gynnwys gwladolion tramor, yn ogystal â phobl 16 a 17 oed. Nid yw cyfran y costau cyffredinol i Lywodraeth Cymru o ddatblygu adnoddau codi ymwybyddiaeth a fydd yn ymwneud yn benodol ag estyn etholfraint y Cynulliad yn hysbys ar hyn o bryd. O'r herwydd, nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn nad yw'r gost bosibl i Lywodraeth Cymru o godi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag estyn etholfraint y Cynulliad i bobl 16 oed yn hysbys.

Tabl 27 Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru

Cost	Swm (£)
Cynnydd yn nifer yr etholwyr (16 a 17 oed) ar gyfer pob etholiad Cynulliad o 2021.	153,900
Costau i ad-dalu Swyddfa'r Cabinet am ddiweddarau'r gwasanaeth cofrestru etholiadol digidol unigol	21,200
Cyfanswm	175,100

10.3.1.3. Y costau i'r Comisiwn Etholiadol

556. Mae gan y Comisiwn Etholiadol gyfrifoldebau o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o etholiadau. Disgwylir y bydd angen ymgyrch ar wahân sy'n debyg i'r un a ddatblygwyd yn yr Alban i godi ymwybyddiaeth o'r cynnydd yn yr etholfraint. Byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2021.

557. Nododd y Comisiwn Etholiadol, yn ei ymatebion i'r Panel Arbenigol¹⁵⁴ yn 2017, fod y Comisiwn Etholiadol wedi gwario tua £120,000 ar godi ymwybyddiaeth i hwyluso'r newidiadau i'r etholfraint yn deillio o *Ddeddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015*. O ystyried chwyddiant, tybir mai £127,300 fyddai'r gost amcangyfrifedig hon bellach.

558. Tybir y bydd cost ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn gymesur â maint y grŵp o bobl y mae'r ymgyrch yn ceisio codi ymwybyddiaeth yn eu plith. Yn ôl

¹⁵⁴ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Panel Arbenigol EP13\(a\)](#).

Amcangyfrifon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016), roedd 115,844 o bobl 16 a 17 oed yn yr Alban yn 2016. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i amcangyfrif cost o £1.10¹⁵⁵ fesul etholwr 16 a 17 oed.

559. Yng Nghymru, byddai hyn yn golygu costau gweithgarwch codi ymwybyddiaeth o £75,900.¹⁵⁶

560. Mae gan y Comisiwn Etholiadol swyddogaeth hefyd wrth ddylunio'r ffurflenni ar gyfer y canfasiad blynyddol a'r gwahoddiadau i gofrestru. Roedd y costau a amcangyfrifwyd ar gyfer y Comisiwn Etholiadol yn y Nodiadau Esboniadol a oedd yn ategu *Bil Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio)*¹⁵⁷ yn cynnwys £40,000 ar gyfer trefnu bod defnyddwyr yn profi'r fersiwn newydd o'r ffurflen Gwahoddiad i Gofrestru er mwyn sicrhau ei bod yn eglur ac yn hawdd ei deall. Amcangyfrifodd y Comisiwn hefyd y byddai dylunio'r ffurflen (a gwneud newidiadau mân sydd eu hangen i ffurflenni cysylltiedig eraill, gan gynnwys y Ffurflen Ymholiad Aelwyd) yn costio £35,000 arall. Tybir na fyddai meintiau cymharol poblogaethau'r Alban a Chymru yn effeithio ar y costau hyn ond, ar ôl rhoi cyfrif am chwyddiant, tybir y byddai'r costau hyn yn cael eu codi i amcangyfrif o £42,400 a £37,100, yn ôl eu trefn.

Tabl 28 Crynodeb o'r costau i'r Comisiwn Etholiadol

Cost	Swm (£)
Gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y Comisiwn Etholiadol	75,900
Dylunio ffurflenni cofrestru newydd	37,100
Trefnu bod defnyddwyr yn profi ffurflenni cofrestru newydd	42,400
Cyfanswm	155,400

10.3.1.4. Costau i Gomisiwn y Cynulliad

561. Dywedodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad y gallai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio gyda threigl amser, ond y "gallai gostwng yr oedran pleidleisio leihau'n gyffredinol nifer y bobl

¹⁵⁵ Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar £127,300 ÷ 115,844.

¹⁵⁶ Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar £1.10 x 69,029, sef £75,931.90.

¹⁵⁷ Llywodraeth yr Alban, Nodiadau Esboniadol i Fil Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio), Ebrill 2015

sy'n pleidleisio i ddechrau (gan fod pobl ifanc 16 ac 17 oed yn debygol o bleidleisio ar gyfradd islaw'r cyfartaledd ar gyfer yr holl etholaeth)".¹⁵⁸

562. Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio eu hawl i bleidleisio, argymhellodd y panel, wrth ostwng yr oedran pleidleisio i 16, y byddai'n rhaid darparu addysg a gwybodaeth am ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth, a chodi ymwybyddiaeth mewn ffordd briodol. Daeth y thema hon i'r amlwg hefyd yn y dystiolaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad ac mewn trafodaeth â rhanddeiliaid.

563. Mae paragraff 5 o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn pennu pwerau penodol Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r systemau presennol neu arfaethedig ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad ac etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pwy sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, yn ogystal â newidiadau i'r rheolau anghymhwyso ac ati. Mae paragraff 6 o'r un Atodlen yn galluogi Comisiwn y Cynulliad i ddarparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol, mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion hynny, pe bai'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

564. Pwerau dewisol Comisiwn y Cynulliad yw'r rhain, nid dyletswyddau na rhwymedigaethau. Serch hynny, mae gan Comisiwn y Cynulliad ddisgresiwn eang o ran y rôl y mae'n dymuno ei chwarae, os o gwbl. Er enghraifft, gall ymgymryd â'r gwaith hwnnw ei hun, gweithio mewn partneriaeth ag eraill, neu ariannu eraill i ymgymryd â'r gwaith hwnnw.

565. Cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2011 a 2016, cyflwynodd Comisiwn y Cynulliad ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r etholiad, ac i annog pobl i gofrestru a phleidleisio.

566. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad wedi ymrwymo i gydweithio oherwydd bod ganddynt fuddiant cyffredin yn y maes gwaith hwn. Gallai gweithgarwch gynnwys hysbysebu ar y cyfryngau prif ffrwd, dosbarthu deunyddiau print i aelwydydd ledled Cymru, a chynhyrchu adnoddau a gwasanaeth allgymorth wedi'i dargedu i gyrraedd sefydliadau addysg a grwpiau ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw union natur yr ymgyrch na phwy fydd yn gyfrifol am ei rhoi ar waith wedi'u pennu eto.

567. Prif nod yr ymgyrch yw gwella ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc a fydd wedi cyrraedd yr oedran pleidleisio erbyn etholiad cyntaf 2021. Amcan yr ymgyrch

¹⁵⁸ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, *Senedd sy'n gweithio i Gymru*, Tachwedd 2017, paragraff 15.40

hon yw darparu neges glir, addysgiadol a deniadol i bobl ifanc ledled Cymru am y newidiadau arfaethedig i'r etholfraint. Y nod yw gwneud y newid i'r etholfraint yn llwyddiannus ac yn gadarnhaol, gan liniaru'r risg y bydd yn gostwng y nifer sy'n pleidleisio. Y dyhead yw sicrhau bod mwy o bobl yn pleidleisio ar draws pob demograffeg drwy weithredu'n eang ar draws Cymru gyfan, er na chytunwyd ar dargedau penodol hyd yn hyn.

568. Fel y nodwyd dan opsiwn 1, caiff gwariant sy'n ymwneud yn benodol â gweithgarwch etholiadol ei ariannu o gyllideb "costau etholiad" Comisiwn y Cynulliad. Swm ychwanegol yw hwn y mae'r Comisiwn yn ei gael gan Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn ariannol cyn etholiad ac ym mlwyddyn ariannol etholiad. Mae'r symiau hyn wedi'u neilltuo; ni ddaw symiau na chânt eu defnyddio ar gyfer eitemau sy'n gysylltiedig ag etholiad o Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chânt eu defnyddio ar gyfer gwariant arall sy'n ymwneud â'r Comisiwn. Yn 2015-16, sef y flwyddyn ariannol cyn etholiad diwethaf y Cynulliad, cymeradwyodd y Cynulliad swm o £500,000 ar gyfer costau etholiad, a chafodd ei gynnwys yng nghyllideb y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn honno. O'r swm hwnnw, gwariwyd £427,000 ar weithgarwch a oedd yn ymwneud ag etholiad. Yn 2016-17, gofynnwyd am £2.5 miliwn ar gyfer costau a oedd yn ymwneud ag etholiad.

569. Mae symiau tebyg ar gyfer cyllideb "costau etholiad" eisoes wedi'u cynnwys yng nghynllun cyllideb tair blynedd y Comisiwn ar gyfer 2020-21 a 2021-22.

570. Cyn etholiad 2016, gwariwyd £75,000 ar ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Er nad yw manylion yr ymgyrch wedi'u pennu eto, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rhagwelir y byddai cyllideb o £200,000 yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth cyn etholiad 2021. O'r ffigur hwnnw, byddai £150,000 yn ymwneud yn benodol â'r Bil hwn, i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r oedran pleidleisio.

571. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae ffigur o £150,000 wedi'i gynnwys i adlewyrchu costau Comisiwn y Cynulliad sy'n ymwneud â hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid i'r oedran pleidleisio.

Tabl 29 Cost hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid i'r oedran pleidleisio i Gomisiwn y Cynulliad

Cost	Swm (£)
Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r newid i'r oedran pleidleisio	150,000

10.3.2. Manteision

572. Mae'r rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed mewn addysg amser llawn, sy'n golygu eu bod yn fwy agored i addysg wleidyddol o ryw fath nag y byddent wedi bod yn y gorffennol. Mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau cyfryngau electronig hefyd yn uchel ymhlith y grŵp oedran hwn.

573. Mae dinasyddiaeth ac ymwybyddiaeth ddinesig yn rhannau pwysig o'r cwricwlwm ac, ar hyn o bryd, mae gan ddysgwyr gyfle i astudio gwleidyddiaeth a materion cyfoes drwy'r cyrsiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, a Bagloriaeth Cymru.

574. Mae'r thema "Dinasyddiaeth Weithredol" yn y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) presennol, y ddogfen allweddol y dylai ysgolion a cholegau ei defnyddio i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth ABCh bresennol i blant rhwng 7 a 19 oed, yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai hyn olygu bod y rhan hon o'r boblogaeth yn fwy ymwybodol o faterion gwleidyddol.

575. Mae refferendwm yr Alban yn 2014 – pan roddwyd y bleidlais i bobl 16 oed am y tro cyntaf yn y DU – yn rhoi arwydd o'r cyfraddau cofrestru tebygol. Cofrestrodd 109,533 o bobl 16- a 17 oed, yr amcangyfrifir mai 89 y cant o'r rhai cymwys oedd hyn.

576. Amcangyfrifwyd y pleidleisiodd 75 y cant o'r holl bobl 16 a 17 oed a oedd yn gymwys yn refferendwm 2014, o gymharu hynny â 54 y cant o bobl 18-24 oed a 72 y cant o bobl 25-34 oed, er ei fod yn is na chanran yr holl etholwyr (85 y cant). Mae hyn yn cefnogi'r ddadl o blaid estyn yr etholfraint, oherwydd y gallai profiad cynnar o bleidleisio arwain at ymgysylltiad parhaus, a'r gobaith yw y byddai hynny'n arwain at fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd yn fwy cyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd. Pe bai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng, byddai angen mynd ati o ddifrif i sicrhau'r cyfraddau cofrestru gorau posibl. Gallai hyn fod yn haws ar gyfer y grŵp oedran hwn na'r rhai sydd ychydig flynyddoedd yn hŷn gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn dal i fod gartref ac, fel y nodwyd yn gynharach, yn mynd i'r ysgol.

10.4. Crynodeb

577. Ni fyddai opsiwn 1 yn newid y sefyllfa bresennol. Ni fydd ansawdd ac effeithiolrwydd y system etholiadol leol yn newid.

578. Byddai opsiwn 2 yn sicrhau ystod eang o fanteision fel uchod. Gallai gostyngiad yn yr oedran pleidleisio olygu bod mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn etholiadau wrth iddynt fynd yn hŷn.

579. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

11. Aseiad o gostau newidiadau sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad

580. Yn 2014, yn dilyn gwahoddiad gan y Prif Weinidog, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad (y Pwyllgor) ymchwiliad i anghymhwyso, gan gyhoeddi adroddiad.¹⁵⁹ Roedd yr adroddiad yn cynnwys 21 o argymhellion ar gyfer newid. Roedd rhai o'r argymhellion yn cynnig newid y gyfraith ynghylch anghymhwyso, gan gynnwys darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* a *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007*. Roedd yr argymhellion hefyd yn ymwneud â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 a wnaed gan Weinidogion Cymru.

581. Pan gyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor, nid oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud newidiadau i'r darpariaethau perthnasol. Yn unol â hynny, roedd argymhellion y Pwyllgor wedi'u hanelu at Lywodraeth y DU yn bennaf.

582. Fodd bynnag, yn unol â'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad gan *Ddeddf Cymru 2017*, mae bellach o fewn cymhwysedd y Cynulliad i wneud y newidiadau a argymhellwyd gan y pwyllgor i'r gyfraith ar anghymhwyso.

583. Ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1: gwneud dim.
- Opsiwn 2: gwneud newidiadau technegol i'r drefn o ran anghymhwyso a newidiadau i'r swyddi sy'n anghymhwyso pobl rhag bod yn Aelodau

11.1. Opsiwn 1: gwneud dim

11.1.1. Disgrifiad

584. Opsiwn 1 yw cynnal y fframwaith anghymhwyso presennol drwy beidio â gwneud y newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwyso a argymhellwyd gan y Pwyllgor.

¹⁵⁹ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad, [Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Gorffennaf 2014

11.1.2. Costau ac arbedion

585. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn sicrhau costau nac arbedion ychwanegol gan y byddai'n golygu cynnal y sefyllfa bresennol.

586. Gallai costau godi o ganlyniad i gollir cyfle i wneud y newidiadau i'r gyfraith bresennol ar anghymhwysu a argymhellwyd gan y Pwyllgor. Yn yr adroddiad ar ei ymchwiliad i anghymhwysu,¹⁶⁰ nododd y Pwyllgor argymhellion "nid yn unig i gael gwared ar y cymhlethdodau, ond hefyd i sicrhau nad yw'r digwyddiadau yn dilyn etholiad 2011 yn cael eu hailadrodd".¹⁶¹ Amlinellir y digwyddiadau hynny ym mharagraff 179. Roeddent yn cynnwys ymchwiliadau gan gyrff gwahanol ynghylch ethol pobl wedi'u hanghymhwysu ac amgylchiadau eu hethol, a nodir y costau perthnasol isod:

Tabl 30 Costau ymchwiliadau a gynhaliwyd yn dilyn ethol personau wedi'u hanghymhwysu yn 2011

Gweithgarwch	Cost (£)
Cynhaliodd Comisiynydd Safonau'r Cynulliad ymchwiliad i ymddygiad y ddau berson wedi'u hanghymhwysu a etholwyd i'r Cynulliad yn 2011	2,000 ¹⁶²
Cynhaliodd Heddlu De Cymru ymchwiliad i achos posibl o dorri'r gyfraith gan y personau wedi'u hanghymhwysu a etholwyd i'r Cynulliad yn 2011	6,300 ¹⁶³
Cyfanswm y gost	8,300

587. Cynhaliodd dau sefydliad arall ymchwiliadau hefyd i amgylchiadau pan etholwyd y ddau berson wedi'u hanghymhwysu: y Comisiwn Etholiadol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw costau'r ymchwiliadau hyn yn hysbys. Ni allai'r Comisiwn Etholiadol ddarparu tystiolaeth o gostau ei ymchwiliad am fod gormod o amser wedi mynd heibio ers y digwyddiadau ac nid oedd cofnodion ariannol o'r adeg honno ar gael. Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2011 ac nid oedd modd cadarnhau faint a gostiodd ei ymchwiliad. Mae'n rhesymol tybio bod y costau a ysgwyddwyd gan y Comisiwn Etholiadol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhai sylweddol.

¹⁶⁰ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad, *Ymchwiliad i anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Gorffennaf 2014

¹⁶¹ Ibid, t.6

¹⁶² Cost wirioneddol: £1,968.

¹⁶³ £6,346 (y ffigur a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru).

588. Fel yr awgrymodd y Pwyllgor, byddai peidio â deddfu i weithredu ei argymhellion yn creu risg bosibl o ddigwyddiadau tebyg i'r rhai yn 2011. Nid yw'r costau uchod yn fesur ystyrion o'r costau o golli'r cyfle hwn i ddeddfu ar anghymhwysu. Fodd bynnag, maent yn dangos y gellid wynebu costau pe bai digwyddiadau 2011 yn cael eu hailadrodd.

589. Mae costau parhaus yn deillio o'r darpariaethau deddfwriaethol presennol ar anghymhwysu. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchmynion Anghymhwysu'n rheolaidd (h.y. Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 16(5) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*) cyn etholiadau'r Cynulliad. Mae Gorchmynion Anghymhwysu yn dynodi'r swyddi y gwaherddir eu deiliaid rhag dod yn Aelodau'r Cynulliad. Mae'n debygol y bydd angen Gorchmyn cyn etholiad nesaf y Cynulliad pa un a fydd y Comisiwn yn cyflwyno deddfwriaeth ar anghymhwysu ai peidio, er enghraifft i anghymhwysu deiliaid swyddi neu rolau penodol a grëwyd ers cyflwyno'r Gorchmyn presennol yn 2015 y mae eu buddiannau'n gwrthdaro â bod yn Aelod Cynulliad. Byddai angen nodi'r gost o weithredu Gorchmyn Anghymhwysu newydd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Gorchmyn. Yn unol â hynny, ni nodir y gost yma.

590. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau fel mater o drefn cyn etholiadau'r Cynulliad ynghylch pwy gaiff sefyll etholiad. Bydd angen i'r canllawiau ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021 adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwysu yn sgil y Bil. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi amcangyfrif y byddai cyflwyno'r canllawiau hyn yn costio £6,181. Mae hon yn gost barhaus a wynebwr pa un a fydd Comisiwn y Cynulliad yn deddfu ar anghymhwysu ai peidio (h.y. nid yw'n gost ychwanegol).

591. Mae tîm Cymorth Busnes i Aelodau Comisiwn y Cynulliad yn anfon llythyrau at ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad yn rheolaidd i roi gwybod iddynt am y rheolau ar anghymhwysu. Atodir rhestr o anghymwysiaid i'r llythyrau hyn. Amcangyfrifir bod paratoi ac anfon llythyrau o'r fath at ymgeiswyr yn costio £191. Mae hon yn gost barhaus y byddai'n rhaid ei thalu pa un a fydd newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwysu ai peidio. Fel y cyfryw, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae hyn wedi cael ei drin fel cost ychwanegol o £0 ar gyfer opsiwn 1.

11.1.3. Manteision a risgiau

592. Nododd y Pwyllgor ddiffyg cysondeb ac eglurder yn y gyfraith ar anghymhwysu. Byddai penderfyniad i beidio â gwneud y newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwysu a argymhellwyd gan y Pwyllgor yn peri risg sylweddol y byddai

digwyddiadau fel y rhai a gafwyd yn 2011 yn cael eu hailadrodd oherwydd diffyg cysondeb ac eglurder yn y gyfraith ar anghymhwysu.

593. Nid oes manteision clir yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

11.2. Opsiwn 2: gwneud newidiadau technegol i'r drefn o ran anghymhwysu a newidiadau i'r swyddi sy'n anghymhwysu pobl rhag bod yn Aelodau

11.2.1. Disgrifiad

594. Opsiwn 2 yw deddfu i wneud y canlynol:

- rhoi effaith i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ar newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad;
- cynnwys darpariaethau i wneud diwygiadau technegol i'r fframwaith deddfwriaethol ar anghymhwysu;
- cynnwys darpariaethau i gyflwyno anghymwysiaid newydd a diwygio'r rhestr anghymwysiaid bresennol.

11.2.2. Costau ac arbedion

595. Yn gyffredinol, ni ddylai'r newidiadau deddfwriaethol o ran anghymhwysu a wneir yn sgil y Bil arwain at fawr ddim goblygiadau ariannol.

596. Ni ragwelir y bydd anghymhwysu aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn arwain at gostau sylweddol (yr unig gost a nodwyd yw £37).

597. Ar hyn o bryd, yn unol â rheol 9(4)(c)(ii) yn Atodlen 5 i *Orchymyn 2007*, mae'r ffurflenni statudol y mae'n ofynnol i ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad eu llenwi yn nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr ddatgan nad ydynt wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelod Cynulliad. Mae'n drosedd peidio â dweud y gwir wrth ateb. Os bydd ymgeisydd yn datgan ei fod wedi'i anghymhwysu, ni chaiff barhau â'i ymgeisyddiaeth. Mae'r Bil yn diwygio rheol 9(4)(c)(ii) i nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr ddatgan nad ydynt wedi'u hanghymhwysu rhag sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad. Felly, dan opsiwn 2, bydd angen i Weinidogion Cymru wneud unrhyw newid o'r fath sy'n briodol i'r ffurflenni er mwyn sicrhau eu bod yn gofyn am ddatganiad ynghylch bod yn anghymwys i ymgeisio i ddod yn Aelod Cynulliad yn unig, yn hytrach na datganiad ar fod yn anghymwys i wasanaethu yn y Cynulliad. Fodd bynnag, mae ffurflenni o'r fath yn cael eu diwygio'n rheolaidd cyn etholiadau ac mae'r gost o ddiwygio'r un cwestiwn hwn yn annhebygol o

effeithio'n sylweddol ar gost arferol y gwaith o ddiwygio'r ffurflenni hyn. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, triniwyd hyn fel cost ychwanegol o £0.

598. Fel y nodwyd ym mharagraff 591 uchod, mae tîm Cymorth Busnes i Aelodau Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi llythyrau at ymgeiswyr cyn etholiadau'r Cynulliad i roi gwybod iddynt am y darpariaethau anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad. Amcangyfrifir y byddai'n costio £37 i ddiwygio templed safonol y llythyrau i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol ar anghymhwys a wneir yn y Bil hwn. Fel y nodwyd yn opsiwn 1, mae'r gost o baratoi ac anfon llythyrau at ymgeiswyr yn gost barhaus a fyddai'n cael ei hysgwyddo ni waeth pa newidiadau deddfwriaethol a gyflwynir ar anghymhwys.

599. Ni ragwelir y bydd darpariaethau'r Bil ar anghymhwys yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno unrhyw newidiadau fel arall i ganllawiau mewnol neu Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

600. Ni ragwelir y bydd anghymhwys aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn arwain at arbedion sylweddol ac, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nodwyd £0 ar gyfer costau o'r fath.

601. Gallai anghymhwys aelodau o Dŷ'r Arglwyddi arwain at arbedion cyfyngedig ar gyfer Tŷ'r Arglwyddi, oherwydd y byddai llai o aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn gymwys i hawlio lwfansau a threuliau dyddiol. Nid yw'r rhan fwyaf o aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn cael cyflog am eu dyletswyddau seneddol, ond maent yn gymwys i gael lwfansau ac, o fewn terfynau penodol, y costau teithio y maent yn eu hysgwyddo wrth gyflawni eu dyletswyddau seneddol. Ni chaniateir i aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd wedi cael caniatâd i fod yn absennol er mwyn gwasanaethu yn y Cynulliad, neu sydd wedi ymddeol neu ymddiswyddo fel arall o'r Tŷ, gymryd rhan yn nhrefodion Tŷ'r Arglwyddi ac, felly, ni fyddant yn gymwys i hawlio lwfansau a threuliau dyddiol. Caiff aelodau o Dŷ'r Arglwyddi nad ydynt yn cael cyflog hawlio lwfans presenoldeb ar gyfradd safonol o £153 neu £305 (cyfradd newydd o 1 Ebrill 2018), neu £150 neu £300 (hen gyfradd hyd at 31 Mawrth 2018), neu cânt ddewis gwneud hawliad am bob diwrnod y byddant yn eistedd yn y Tŷ. Mater i aelodau yw penderfynu a ddylid hawlio'r lwfans dyddiol ar y gyfradd uwch neu'r gyfradd is.

602. Fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, tybiwyd y byddai hyn yn sicrhau arbedion o £0. Y rheswm dros hynny yw y byddai patrwm presenoldeb unrhyw Aelod a oedd yn Aelod o Dŷ'r Arglwyddi a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn debygol o fod yn anarferol (ac felly byddai'n anodd seilio asesiad ar batrymau presenoldeb cyfartalog yn Nhŷ'r Arglwyddi). At hynny, gallai Aelodau o'r fath ddewis peidio â gwneud hawliad am bob diwrnod y byddant yn

eistedd yn y Tŷ. Mae hefyd yn anodd asesu'n gywir nifer yr Aelodau a allai fod yn aelod o'r ddau sefydliad dros gyfnod o amser. Felly, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o or-ddweud yr arbedion y gellid eu sicrhau o bosibl drwy ddilyn yr opsiwn hwn, nodir arbediad o £0. Gellid nodi hefyd na fyddai arbedion a sicrheir yn ymddangos drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

603. Fel y nodwyd yn flaenorol dan opsiwn 1, cynhaliodd pedwar sefydliad/corff ymchwiliadau ar ôl i bersonau wedi'u hanghymhwyso gael eu hethol yn 2011, a'r costau hysbys yn sgil hynny oedd £8,314. Gellid dadlau, felly, y bydd opsiwn 2 yn sicrhau arbedion i bwrs y wlad, oherwydd dylai opsiwn 2 helpu i osgoi achosion o ethol pobl sydd wedi'u hanghymhwyso, sydd felly'n lleihau'r angen am ragor o ymchwiliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n amhosibl amcangyfrif faint yn union o bersonau wedi'u hanghymhwyso y gellid eu hethol yn y dyfodol. Felly, nodir arbediad posibl o £0 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

604. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid eraill ynghylch costau ac arbedion posibl y Bil. Ni nodwyd costau nac arbedion gan rhanddeiliaid heblaw am y rhai uchod.

11.2.3. Manteision a risgiau

605. Un o fanteision y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ar anghymhwyso fydd darparu fframwaith cliriach a mwy cyson ar anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad. Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, bydd hyn yn helpu i osgoi ailadrodd digwyddiadau tebyg i'r rhai ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2011, gan gynnwys cost digwyddiadau o'r fath.

606. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â materion etholiadol a chyfansoddiadol, fel etholfraint y Cynulliad ac enw'r sefydliad yn ôl eu trefn. Gellir dadlau bod y rheolau ar anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad yn fater etholiadol, gan fod y rheolau'n gymwys i bersonau na ellir eu hethol i'r Cynulliad, a hefyd yn fater cyfansoddiadol gan fod y rheolau'n nodi pwy gaiff gynrychioli etholwyr ym mhrif sefydliad democrataidd, deddfwriaethol Cymru. Gellir dadlau bod y Bil hwn yn rhoi cyfle priodol i ddeddfu i weithredu argymhelliad y Pwyllgor, a bod rhagor o gyfleoedd i wneud hynny yn ystod gweddill y Cynulliad hwn yn debygol o fod yn brin iawn.

607. Nid oes risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig ag opsiwn 2. Ar hyn o bryd, mae dau Aelod Cynulliad sydd hefyd yn aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau na fydd darpariaethau'r Bil ar anghymhwyso yn effeithio'n annheg ar y ddau berson hyn. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys gohirio cychwyn y darpariaethau perthnasol nes y caiff y Cynulliad hwn ei ddiddymu, fel ffordd o sicrhau na fydd anghymhwyso aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau'r

Cynulliad yn effeithio ar y ddau berson hyn yn ystod y Cynulliad hwn. Mae'r Bil hefyd yn darparu esemptiad rhag anghymhwysio ar gyfer aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd wedi cael caniatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi. Mae hyn yn golygu, pe bai'r naill neu'r llall neu'r ddau berson hyn yn cael eu hethol i'r Cynulliad nesaf ac yn parhau i fod yn aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, y byddent yn gallu cymryd eu sedd yn y Cynulliad ar yr amod eu bod wedi cael caniatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi.

12. Aseiad cost o'r angen am ddyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig

608. Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd ddeddfwriaethol ar y Cynulliad i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig. Pe bai'r Cynulliad yn gwneud argymhellion iddo, ni fyddai dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb.

609. Ystyriwyd dau opsiwn:

- **Opsiwn 1:** gwneud dim.
- **Opsiwn 2:** Gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig, a dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i argymhellion a wneir gan y Cynulliad yn sgil ystyriaeth o'r fath (yr opsiwn a ffefrir).

610. Opsiwn arall fyddai cynnwys dyletswydd yn Rheolau Sefydlog y Senedd yn unig, yn hytrach nag mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i ddiystyru, gan na fyddai'r nod arall, sef gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i'r Cynulliad, yn cael ei gyflawni, gan nad yw'r Rheolau Sefydlog yn estyn i sefydliad y tu allan i'r Senedd.

12.1. Opsiwn 1: gwneud dim

12.1.1. Disgrifiad

611. Dan opsiwn 1, byddai'r dull ad-hoc presennol i ystyriaeth y Senedd o'r trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol yn parhau. Caiff pwyllgorau'r Senedd, fel y gwnaeth rhai mewn Cynulliadau blaenorol,¹⁶⁴ fynd ar drywydd ymchwiliadau ar eu liwt eu hunain yn hyn o beth,

¹⁶⁴ Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2007, adroddodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Trydydd Cynulliad ar ymchwiliad i *Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio*. Yn yr un modd, ym mis Tachwedd 2006,

ond ni fyddai dyletswydd arnynt i wneud hynny. Yn ogystal, pe bai'r Senedd yn gwneud argymhellion i'r Comisiwn Etholiadol, ni fyddai dyletswydd arno i ymateb.

12.1.2. Costau ac arbedion

612. Ni fyddai costau nac arbedion ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

613. Er bod cost yn ymwneud â chynnal ymchwiliad pwyllgor, oherwydd natur ad-hoc ymchwiliadau pwyllgorau blaenorol y Cynulliad i oruchwyliaeth y Comisiwn Etholiadol, mae lefel uchel o ansicrwydd yn ymwneud â'r posibilrwydd y bydd pwyllgor yn gwneud hynny mewn pum mlynedd.

614. Felly, at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, y gost barhaus sy'n gysylltiedig ag opsiwn 1 yw dim.

12.1.3. Manteision a risgiau

615. Ni nodwyd manteision yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

616. Y risg dan opsiwn 1 yw'r potensial i golli cyfleoedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol. Efallai y bydd pwyllgor Cynulliad am gynnal ymchwiliad yn hyn o beth, ond gallai blaenoriaethau eraill, a gofynion a osodir arno drwy'r Rheolau Sefydlog, olygu na all fynd ar drywydd ei nod.

12.2. Opsiwn 2: gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig

12.2.1. Disgrifiad

617. Dan opsiwn 2, byddai dyletswydd statudol ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig. Byddai dyletswydd statudol ar y Comisiwn Etholiadol hefyd i ymateb i argymhellion a wneir iddo gan y Senedd.

618. Gallai adolygiadau a gynhelir gan y Senedd gynnig cyfleoedd i ystyried materion allweddol megis:

cyflwynodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus adroddiad ynghylch *Trefniadau Etholiadol yng Nghymru*.

-
- cost etholiadau a refferenda datganoledig Cymru;
 - cyllido costau o'r fath gan y Cynulliad;
 - sut y byddai'r arian sy'n ofynnol i dalu costau o'r fath yn cael ei drosglwyddo o San Steffan i'r Cynulliad;
 - y trefniadau i alluogi'r Cynulliad i ddwyn y Comisiwn Etholiadol i gyfrif am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru;
 - sut y byddai trefniadau craffu o'r fath yn gweithio ochr yn ochr â gwaith craffu Senedd y DU ar y Comisiwn Etholiadol.

619. Nid yw'r opsiwn hwn yn pennu sut y dylai'r Senedd ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol. Yn hytrach, y bwriad yw y caiff y Senedd wneud darpariaeth yn ei Rheolau Sefydlog ar sut y dylid cyflawni'r ddyletswydd. Byddai'r Cynulliad yn gallu dirprwyo swyddogaethau i Lywydd, pwyllgor neu is-bwyllgor y Cynulliad i ymgymryd â'r ddyletswydd honno.

620. Hefyd, ni fyddai gofynion na chyfyngiadau ynghylch pa mor aml y dylai'r Cynulliad ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol. Gall pa mor aml yr arferir y ddyletswydd hon ddibynnu ar ddigwyddiadau etholiadol yng Nghymru, boed yn etholiadau cyffredinol arferol neu eithriadol, ac ar unrhyw angen a ganfuwyd i newid trefniadau'r Comisiwn Etholiadol yn sgil rheoleiddio digwyddiadau o'r fath.

621. Dan yr opsiwn hwn, byddai dyletswydd statudol ar y Comisiwn Etholiadol hefyd i ymateb i argymhellion a wneir iddo. Byddai dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i argymhellion o'r fath yn unig, yn hytrach na'u derbyn a'u gweithredu o reidrwydd.

12.2.2. Costau ac arbedion

622. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r opsiwn hwn yn pennu sut y dylai'r Senedd ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol, na pha mor aml y dylid ystyried trefniadau o'r fath.

623. Serch hynny, at ddibenion modelu ariannol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn tybio y byddai ystyriaeth o'r fath:

- yn cael ei chynnal gan un o bwyllgorau'r Senedd;
- yn cynnwys chwe awr o amser pwyllgor;

- yn digwydd ddwywaith mewn pum mlynedd (ar ôl etholiad y Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru¹⁶⁵).

624. Mae'r gost amcangyfrifedig i bwyllgor ystyried y mater hwn wedi'i chynnwys yn Nhabl 32. Mae hyn yn cynnwys amser staff i baratoi at gyfarfodydd, mynd i gyfarfodydd, a drafftio allbynnau ohonynt. Ar y dybiaeth bod ymchwiliad o'r fath yn cael ei gynnal ddwywaith mewn pum mlynedd, amcangyfrifir mai £39,200 yw cyfanswm y gost barhaus ar gyfer y cyfnod hwn.

Tabl 31 Costau amcangyfrifedig i'r pwyllgor ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol

Gweithgareddau sy'n ymwneud â'r pwyllgor	Gradd	Diwr nodu	Cyfanswm y gost (£)
Clerc y Pwyllgor – paratoi at gyfarfodydd pwyllgor, mynd iddynt a drafftio allbynnau	Band Rheoli 2 ¹⁶⁶	6.8	1,900
Ymchwilydd – paratoi papurau briffio gan Ymchwil y Senedd ar gyfer cyfarfodydd a mynd i gyfarfodydd	Band Gweithredol 2	3.8	1,100
Cynghorydd Cyfreithiol – paratoi cyngor ar gyfer cyfarfodydd a mynd i gyfarfodydd	Band Gweithredol 2	6.0	1,700
Dirprwy Glerc – cydgysylltu cyfarfodydd a'u hallbynnau cysylltiedig	Band Rheoli 2	9.0	1,500
Swyddog Cymorth Pwyllgor – gweinyddu cyfarfodydd	Cymorth Tîm	6.0	600
Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd, gan gynnwys amser paratoi	Band Rheoli 1	1.7	400
Cyfieithu papurau, adroddiadau a dogfennau cyfarfod cysylltiedig	Band Rheoli 2	3.0	500
Drafftio Cofnod y Trafodion yn ystod cyfarfodydd	Band Rheoli 2	0.8	200

¹⁶⁵ Dros bum mlynedd, byddai'r ddau etholiad hynny'n cael eu cynnal unwaith fel arfer.

¹⁶⁶ Mae'n bosibl y gall Ail Glerc Pwyllgor (Band Rheoli 1) ymgymryd â'r gweithgaredd hwn, a fyddai'n lleihau tua £500 ar y costau cyffredinol. Fodd bynnag, mae uchafswm y gost wedi'i gynnwys yma.

Golygu Cofnod Trafodion ar ôl cyfarfodydd	Band Rheoli 1	3.0	600
Darlledu cyfarfodydd – contractwr allanol	Amh.	Amh.	11,200
Cyfanswm			19,600

625. Gellir nodi nad yw amser aelodau pwyllgorau wedi'i gostio yn y tabl uchod. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd costau ariannol yr Aelodau'n parhau i fod yn gyson, ni waeth beth yw nifer y cyfarfodydd pwyllgorau a gynhelir.

626. Fodd bynnag, gellir nodi bod cost cyfle anfeintioledig, ac felly anhysbys, hefyd yn codi o ddefnyddio amser aelodau pwyllgorau yn y modd hwn. Ni all amser sy'n cael ei dreulio ar ymchwiliad pwyllgor o'r natur hon gael ei dreulio'n paratoi i graffu ar Weinidogion Llywodraeth Cymru, ymgysylltu ag etholwyr, na mynd ar drywydd ymchwiliadau pwyllgorau i faterion eraill.

627. Rhagwelir y bydd y Comisiwn Etholiadol yn mynd i gostau amser staff mewn perthynas â mynd i gyfarfodydd pwyllgor o'r fath ac ymateb i argymhellion a wneir gan y Senedd. Ceir trosolwg o'r costau amcangyfrifedig hyn yn Tabl 32. Yn seiliedig ar y dybiaeth uchod y byddid yn cynnal ymchwiliad pwyllgor o'r fath ddwywaith y flwyddyn mewn 5 mlynedd, amcangyfrifir mai tua £19,600 fyddai cyfanswm y gost barhaus i'r Comisiwn Etholiadol dros y cyfnod hwn.

Tabl 32 Costau parhaus i'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â phwyllgor yn ystyried y trefniadau goruchwyllo a'r trefniadau ariannol ar gyfer ei waith

Gweithgarwch	Gradd gyfatebol i Lywodraeth Cymru	Canra n o'r amser blyneddol cyffredinol	Cyfanswm y gost (£)
Paratoi at gyfarfodydd pwyllgor a mynd i'r cyfarfodydd hynny	Band Gweithredol 2	5 ¹⁶⁷	3,900
Gwaith ymchwil a llunio adroddiadau pwyllgor	Band Rheoli 1	10 ¹⁶⁸	5,900

¹⁶⁷ 5 y cant o'r amser cyffredinol, ar gyflog blyneddol o £77,308 gan gynnwys argostau, yn ogystal â mynd i 2 awr o gyfarfodydd pwyllgor (a gyfrifir fel £80.14), sy'n cyfateb i £3,945.54.

¹⁶⁸ 10 y cant o'r amser cyffredinol, ar gyflog blyneddol o £58,742 gan gynnwys argostau, sy'n cyfateb i £5,874.20.

Cyfanswm			9,800
----------	--	--	-------

628. Felly, disgwylir mai £58,800 fydd cyfanswm y gost barhaus dan yr opsiwn hwn.

12.2.3. Manteision a risgiau

629. Bydd gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a gorchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig yn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu o gynnal etholiadau ac y gellir gwneud gwelliannau yn y dyfodol mewn ffordd systematig.

630. Bydd hefyd yn sicrhau y caiff effeithlonrwydd a gwerth am arian wrth gynnal etholiadau Cymru a refferenda datganoledig eu hystyried yn rheolaidd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellir gwneud cynnydd cadarnhaol pan fo Pwyllgor wedi cynnal ei ffocws dros amser.¹⁶⁹ Yn y pen draw, tybir felly y bydd y gwaith craffu hwn a gynhelir yn arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae ansicrwydd mawr yn cael ei briodoli i'r arbediad cost posibl hwn, sydd hefyd yn debygol o gael ei wireddu y tu allan i'r cyfnod gwerthuso pum mlynedd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

631. Ni ragwelir bod risgiau yn gysylltiedig â mynd ar drywydd yr opsiwn hwn.

632. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

¹⁶⁹ Er enghraifft, yn ei **Adroddiad Etifeddiaeth** (Mawrth 2016), nododd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad nifer o enghreifftiau lle y cyflawnwyd cynnydd penodol o ganlyniad i ffocws parhaus ar fater penodol gan y Pwyllgor.

13. Aseiad o gost newidiadau er mwyn gallu gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar resymoli'r gyfraith etholiadol

633. Deilliodd prosiect diwygio'r gyfraith etholiadol o Unfed Raglen Diwygio'r Gyfraith ar Ddeg Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr.¹⁷⁰ Mae ei gwmpas, a bennwyd yn 2012, yn estyn i gyfraith gweinyddiaeth etholiadol, troseddau a heriau cyfreithiol. Cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Chwefror 2016.¹⁷¹ Nod yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad interim yw symleiddio'r trefniadau gweinyddol sy'n ymwneud ag etholiadau a safoni'r trefniadau hynny yn y pedair rhan o'r DU (oni bai bod rheswm da dros ddilyn dull gwahanol, er enghraifft mewn perthynas â darpariaethau ieithyddol yng Nghymru neu oherwydd systemau etholiadol gwahanol).

634. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad interim, bwriad Comisiwn y Gyfraith oedd llunio adroddiad terfynol a deddfwriaeth ddrafft i roi effaith i'w argymhellion terfynol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hyd yn hyn. Dywedodd Llywodraeth y DU ddiwedd 2016 nad oedd digon o gapasiti seneddol ar gyfer Bil etholiadol i fwrw ymlaen â'r argymhellion.¹⁷² Nid yw'n glir o hyd a fydd Comisiwn y Gyfraith yn cyhoeddi argymhellion diwygiedig mewn adroddiad terfynol ar ei brosiect ar ddiwygio'r gyfraith etholiadol.

635. Ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1: gwneud dim.
- Opsiwn 2: rhoi pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud y is-ddeddfwriaeth o'r fath sy'n ofynnol i sicrhau bod etholiadau yng Nghymru yn cael eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar gyfer gweinyddu etholiadau y caiff Comisiwn y Gyfraith eu gwneud maes o law (yr opsiwn a ffefrir).

¹⁷⁰ Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, [Prosiect diwygio'r gyfraith etholiadol](#)

¹⁷¹ Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon, [Cyfraith etholiadol: adroddiad interim](#) (Saesneg yn unig), Chwefror 2016

¹⁷² Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, [Prosiect diwygio'r gyfraith etholiadol](#)

13.1. Opsiwn 1: gwneud dim

13.1.1. Disgrifiad

636. Gohirio penderfyniad ar gamau deddfwriaethol nes y bydd Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol a'i argymhellion.

13.1.2. Costau ac arbedion

637. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at gostau nac arbedion ychwanegol uniongyrchol.

13.1.3. Manteision a risgiau

638. Diben argymhellion Comisiwn y Gyfraith yw symleiddio'r trefniadau gweinyddol sy'n ymwneud ag etholiadau, a safoni'r trefniadau ar draws y DU (oni bai bod rheswm da dros ddargyfeirio).

639. Ni fyddai peidio â chymryd camau deddfwriaethol ar hyn o bryd yn atal argymhellion rhag cael eu gweithredu'n ddeddfwriaethol nac yn weinyddol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol.

640. Fodd bynnag, heb bŵer addas i wneud is-ddeddfwriaeth i weithredu'r argymhellion ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau lleol yng Nghymru, mae'n bosibl y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ychwanegol. Byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol, oedi a goblygiadau ar gyfer amser y Cynulliad (ond nid yw'r rhain yn hysbys ar hyn o bryd).

13.2. Opsiwn 2: pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth

13.2.1. Disgrifiad

641. Cynnwys pŵer yn y ddeddfwriaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o'r fath sydd ei hangen i sicrhau y caiff etholiadau yng Nghymru eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar gyfer gweinyddu etholiadau a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith.

13.2.2. Costau ac arbedion

642. Ni fyddai darparu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn arwain yn uniongyrchol at gostau nac arbedion ychwanegol.

643. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith asesiad o effeithiau ei argymhellion interim ar ddiwygio'r gyfraith etholiadol a chydabu y gallai'r sefydliadau sy'n gyfrifol am

weithredu'r cynigion ysgwyddo rhai costau ariannol. Ni roddodd amcangyfrif meintioledig o'r costau hynny ond, yn lle hynny, dywedodd:

“Transitional costs: Training costs will fall on central, devolved and local government in relation to their various responsibilities for administering elections and referendums.

On going costs: There are only minimal on-going costs in relation to electoral administration generally (second residences, combination). In relation to challenges to electoral events, there may be costs in relation to one recommendation; the proposal for the establishment of a structured system for informal complaints.”¹⁷³

644. Wrth gydnabod y costau posibl hynny, dywedodd Comisiwn y Gyfraith hefyd y dylai gweithredu ei argymhellion arwain at arbedion ariannol sylweddol, ond ni ddarparodd ffigurau amcangyfrifedig yr arbedion hynny:

“Key monetised benefits relate to the potential for substantial efficiency savings. These will benefit each of the central, devolved and local government bodies exercising responsibility for various elements of the system of electoral administration.”¹⁷⁴

645. Mater i Weinidogion Cymru yw'r defnydd o'r pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac amseriad unrhyw ddefnydd o'r fath. Bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ddarostyngedig i'r gofynion arferol ar gyfer paratoi asesiadau effaith a memoranda esboniadol, yn ogystal â gwaith craffu gan y Cynulliad a'i bwyllgorau. Felly, nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

13.2.3. Manteision a risgiau

646. Byddai rhoi pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, yn hytrach na chynnwys darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn lleihau, i raddau, reolaeth y Cynulliad dros amseriad unrhyw ddeddfwriaeth, a'r manylion penodol sydd ynddi.

647. Fodd bynnag, caiff y risg hon ei lliniaru drwy gymhwyso'r weithdrefn graffu gadarnhaol i offerynnau statudol a gyflwynir dan y pŵer, a thrwy gyfyngu ar y pŵer

¹⁷³ Comisiwn y Gyfraith, *Asesiad Effaith Interim ar Gyfraith Etholiadol*, Chwefror 2016 (Saesneg yn unig)

¹⁷⁴ Comisiwn y Gyfraith, *Asesiad Effaith Interim ar Gyfraith Etholiadol*, Chwefror 2016 (Saesneg yn unig)

i sicrhau mai dim ond i roi effaith i argymhellion a wneir gan Comisiwn y Gyfraith y gellir ei ddefnyddio.

648. Caiff y pŵer gwneud deddfwriaeth ei fewnosod yn adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion i wneud darpariaethau ynghylch etholiadau. Mae Gorchmynion a wneir o dan adran 13 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

649. Yn ogystal â rhoi cynigion Comisiwn y Gyfraith ar waith, mae sawl mantais i'r rhestr o ddibenion y gellir defnyddio'r pŵer yn adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ar eu cyfer, gan gynnwys:

- pwysleisio pwysigrwydd gwaith Comisiwn y Gyfraith i'r trefniadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, fel bod y Cynulliad, ei Aelodau a'i bwyllgorau yn ystyried yr argymhellion hyn yn briodol;
- ychwanegu at y rhestr o ddibenion penodol yn is-adran (2) o adran 13 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* y gellir defnyddio'r pŵer yn is-adran (1) ar eu cyfer, er mwyn nodi'n glir bod gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ddiben penodol;
- er mwyn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer yr holl etholiadau datganoledig yng Nghymru yn parhau i fod yn gyson ac yn gadarn, nodi yn y Bil y gellir defnyddio'r pŵer i roi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru.

650. Nododd Comisiwn y Gyfraith fanteision anariannol hefyd a fyddai'n deillio o weithredu ei argymhellion:

“The UK and devolved governments and legislatures will also benefit from an electoral legislative framework that more easily enables policy changes to be implemented.

... sustained or enhanced confidence in elections and thereby the maintenance or improvement of confidence in democratic institutions, providing stability and legitimacy. These benefits fall on the general public, the political and governmental system, and indirectly on all other economic and social actors.”¹⁷⁵

¹⁷⁵ Comisiwn y Gyfraith, *Asesiad Effaith Interim ar Gyfraith Etholiadol*, Chwefror 2016 (Saesneg yn unig)

13.2.4. Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

651. Yn gryno, dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

- Opsiwn 1: gwneud dim. Byddai gohirio camau deddfwriaethol yn galluogi'r Cynulliad i ystyried argymhellion terfynol Comisiwn y Gyfraith maes o law, ond gallai arwain at oedi wrth roi argymhellion ar waith pe bai angen rhagor o deddfwriaeth sylfaenol.
- Opsiwn 2: cynnwys pŵer yn y ddeddfwriaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o'r fath sydd ei hangen i sicrhau y caiff etholiadau yng Nghymru eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar gyfer gweinyddu etholiadau a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith maes o law. Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi diwygiadau i gael eu rhoi ar waith yn brydlon, heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol, gan roi cyfle i'r Cynulliad graffu ar yr is-ddeddfwriaeth ar yr adeg briodol.

652. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 2, ar y sail bod pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth wedi'i gyfyngu'n briodol ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol sy'n rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng:

- goruchwyliaeth y Cynulliad o weinyddu etholiadau datganoledig yng Nghymru;
- sicrhau y gellir gweithredu argymhellion perthnasol Comisiwn y Gyfraith mewn ffordd amserol ac effeithiol.

14. Aseiad o'r gost o ddiwygio trefniadau mewnol a gweithredol y Cynulliad: ymestyn y cyfnod ar ôl etholiad pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf, ac egluro pŵer Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau

653. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau mewnol a gweithredol y Cynulliad. Nodir rhai gofynion gweithdrefnol yn fanwl ar wyneb *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae darpariaethau eraill yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* yn nodi materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. O ran materion nad oes sôn amdanynt yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* (ac nad oes gofynion deddfwriaethol eraill yn gymwys), mae gan y Cynulliad yr hyblygrwydd i bennu ei weithdrefnau ei hun. Caiff wneud hyn drwy ffurfioli rheolau yn y Rheolau Sefydlog, neu drwy arfer a chynsail.

654. Mae *Deddf Cymru 2017* yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad dros lawer o'r darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n pennu'r fframwaith gweithdrefnol. Ystyriwyd a fyddai diwygio'r darpariaethau hyn yn sicrhau cydbwysedd mwy priodol rhwng cadernid gweithdrefnol a'r hyblygrwydd sy'n addas i deddfwrfa genedlaethol bennu ei threfniadau drwy ei mecanweithiau gweithdrefnol mewnol ei hun.

655. Ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1: gwneud dim.
- Opsiwn 2: ymestyn y cyfnod ar ôl etholiad pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf, ac egluro'r darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n galluogi Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

14.1. Opsiwn 1: gwneud dim

14.1.1. Disgrifiad

656. Cadw'r darpariaethau presennol yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, a pharhau i sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion y Cynulliad yn cydymffurfio â'r darpariaethau.

14.1.2. Costau ac arbedion

657. Ni fyddai costau nac arbedion ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

14.1.3. Manteision a risgiau

658. Un o fanteision cadw'r trefniadau presennol yw eu bod yn gyfarwydd i Aelodau'r Cynulliad, swyddogion, a'r rhai sy'n rhan o waith y Cynulliad.

659. Fodd bynnag, byddai gwneud dim yn gyfystyr â cholli cyfle i sicrhau bod gan y Cynulliad yr hyblygrwydd sy'n briodol i ddeddfwrfa genedlaethol bennu ei gweithdrefnau a'i harferion gwaith ei hun drwy ei mecanweithiau gweithdrefnol mewnol, heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol ar sail barhaus.

14.2. Opsiwn 2: ymestyn y cyfnod ar ôl etholiad pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf, ac egluro pŵer Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau

14.2.1. Disgrifiad

660. Elfen gyntaf opsiwn 2 yw ymestyn y cyfnod ar ôl etholiad pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf.

661. Mae Rheol Sefydlog 12.7 yn darparu y caiff dyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad eu pennu gan Lywydd y Cynulliad, neu gan Glerc y Cynulliad os yw'r Llywydd yn anfodlon gweithredu neu os nad oes modd iddo wneud. Ar hyn o bryd, mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod cyntaf gael ei gynnal o fewn saith diwrnod i etholiad arferol neu eithriadol. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu ar gyfer sut y caiff y cyfnod hwn ei gyfrifo, er enghraifft sut y caiff gwyliau banc neu gyfnodau o alar cenedlaethol eu hystyried.

662. Nid yw'r cyfnod saith diwrnod yn rhoi llawer o amser i bleidiau gwleidyddol gyfarfod, ystyried, a negodi clymbleidiau posibl neu drefniadau eraill cyn y mae'n

rhaid i'r Cynulliad gyfarfod. Mae'n arbennig o bwysig caniatáu cyfnod addas ar gyfer negodiadau o'r fath dan system etholiadol sy'n llai tebygol o arwain at fod un blaid yn creu llywodraeth fwyafriol. Mae hyn yn wir am system etholiadol bresennol y Cynulliad, ac am y systemau etholiadol a gynigiwyd gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol y Cynulliad.

663. Byddai'r darpariaethau yn y Bil yn ymestyn y cyfnod pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf o 7 diwrnod i 14. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwelliant a wnaed i *Ddeddf yr Alban 1998* gan *Ddeddf yr Alban 2012*, a gynyddodd y terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid i Senedd yr Alban ethol Llywydd a dirprwyon o 7 diwrnod i 14. Er bod yn rhaid i Senedd yr Alban gyfarfod o fewn saith diwrnod ar ôl etholiad o hyd, mae hynny er mwyn galluogi Aelodau o Senedd yr Alban i dyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch, sy'n rhan o weithrefn ffurfiol Senedd yr Alban. Nid yw tyngu'r llw na chadarnhau teyrngarwch yn rhan o drafodion ffurfiol y Cynulliad.

664. Ail elfen yr opsiwn hwn yw egluro pŵer Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau.

665. Yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, caiff Comisiwn y Cynulliad godi tâl am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â'i swyddogaethau. Mae pŵer arall, nad yw'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Comisiwn, yn caniatáu i nwyddau gael eu gwethu. Er enghraifft, caiff y Comisiwn werthu nwyddau yn ei siop.

666. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* hefyd yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'r ddarpariaeth wedi'i drafftio yn creu amwysedd posibl o ran gallu'r Comisiwn i godi tâl am wasanaethau o'r fath. Byddai'r darpariaethau yn y Bil yn datrys yr amwysedd hwn, gan nodi'n glir y caiff y Comisiwn godi tâl am wasanaethau o'r fath.

14.2.2. Costau ac arbedion

667. Ni fydd dyddiad y cyfarfod cyntaf yn effeithio o gwbl ar y costau sy'n gysylltiedig â chynnal y Cyfarfod Llawn cyntaf – yr un fydd y costau, ni waeth pryd y cynhelir y cyfarfod.

668. Hefyd, o edrych ar y Cyfarfodydd Llawn cynnar a gynhaliwyd yn y Trydydd, y Pedwerydd a'r Pumed Cynulliad (a nodir y tabl isod), mae'n annhebygol y bydd ymestyn y cyfnod pryd y mae'n rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf yn effeithio ar nifer gyffredinol y Cyfarfodydd Llawn a gynhelir. Ym mhob achos, er i'r cyfarfod cyntaf

gael ei gynnal bedwar diwrnod ar ôl yr etholiad, ni sefydlwyd patrwm arferol y Cyfarfodydd Llawn, sef dydd Mawrth a dydd Mercher tan y chweched wythnos lawn ar ôl etholiad y Cynulliad. Os unrhyw beth, mae hyn yn awgrymu y bydd amseriad enwebu'r Prif Weinidog yn cael mwy o ddylanwad ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir cyn toriad yr haf na dyddiad y cyfarfod cyntaf. Ni fydd ymestyn y terfyn amser ar gyfer y cyfarfod cyntaf yn effeithio ar y cyfnod 28 diwrnod pryd y mae'n rhaid enwebu Prif Weinidog. Felly, ni ragwelir y bydd ymestyn y cyfnod pryd y mae'n rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf yn arwain at gostau nac arbedion o ganlyniad i nifer y Cyfarfodydd Llawn a gynhelir.

Tabl 33 Cyfarfodydd Llawn cynnar mewn Cynulliadau blaenorol

Blwyddyn yr etholiad	Cyfarfod Llawn pan etholwyd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd	Cyfarfod Llawn pan enwebwyd y Prif Weinidog	Nifer y Cyfarfodydd Llawn a gynhaliwyd cyn sefydlu'r patrwm cyfarfodydd arferol	Cyfanswm y Cyfarfodydd Llawn a gynhaliwyd cyn toriad yr haf
2007	Cyfarfod cyntaf (pedwar diwrnod ar ôl yr etholiad)	Ail gyfarfod (15 diwrnod ar ôl yr etholiad)	3	13
2011	Cyfarfod cyntaf (pedwar diwrnod ar ôl yr etholiad)	Cyfarfod cyntaf (pedwar diwrnod ar ôl yr etholiad)	4	14
2016	Cyfarfod cyntaf (pedwar diwrnod ar ôl yr etholiad)	Ail gyfarfod (naw diwrnod ar ôl yr etholiad)	4	14

669. Mae'r cynnig polisi'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu pryd i gyfarfod ar ôl etholiad, a phryd i ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd o ganlyniad i hynny. Mae adran 25(3) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu, ar ôl diddymu Cynulliad at ddibenion etholiad, fod y Llywydd yn parhau yn y swydd nes y caiff Llywydd arall ei ethol gan y Cynulliad newydd. Felly, nid yw pryd y caiff y Llywydd newydd ei ethol yn effeithio ar gostau cyflog cyffredinol.

670. Fodd bynnag, mae adran 25(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod swydd y Dirprwy Lywydd yn dod i ben ar ôl diddymu'r Cynulliad.

Felly, mae pryd y caiff Dirprwy Lywydd ei ethol yn effeithio ar y cyfnod y mae'r cyflog hwnnw (sy'n fwy na'i gyflog fel Aelod Cynulliad) yn daladwy. Mae Tabl 34 isod yn dangos yr arbediad amcangyfrifedig o ran cyflog y Dirprwy Lywydd os caiff cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl yr etholiad yn 2021-22 ei gynnal 14 o ddiwrnodau ar ôl yr etholiad yn lle 7 diwrnod ar ôl yr etholiad.

Tabl 34 Arbediad posibl ar gyflog y Dirprwy Lywydd yn y flwyddyn ariannol 2021-22 yn sgil ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad¹⁷⁶

	Swm amcangyfrifedig y cyflog ychwanegol a delir i Ddirprwy Lywydd os caiff y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad 2021-22 ei gynnal 7 diwrnod ar ôl yr etholiad (£000)	Swm amcangyfrifedig y cyflog ychwanegol a delir i Ddirprwy Lywydd os caiff y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad 2021-22 ei gynnal 14 o ddiwrnodau ar ôl yr etholiad (£000)	Arbediad posibl (£000)
Cyflog blynyddol deiliad swydd y Dirprwy Lywydd (£21,934 yn ychwanegol at gyflog blynyddol Aelod ar hyn o bryd). Amcangyfrifir mai £23,049 fydd y cynnydd hwn erbyn 2021-22 (h.y. y flwyddyn gyntaf pan fyddai'r terfyn amser newydd ar gyfer y cyfarfod cyntaf yn gymwys)	20.2	19.6	0.6

¹⁷⁶ Mae'r ffigurau hyn ar gyfer y flwyddyn 2021-21 wedi'u seilio ar swm gwirioneddol y cyflog ychwanegol a gaiff ei dalu i'r Dirprwy Lywydd yn 2019-20, yn unol â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau, gan gynnwys cynnydd blynyddol amcangyfrifedig. Amcangyfrifir mai 1.9 y cant yw'r cynnydd blynyddol i'r cyflog ychwanegol ar gyfer 2020-21 a 2021-22. Mae'r ffigur 1.9 y cant yn seiliedig ar y cynnydd blynyddol cyfartalog i gyflog y Dirprwy Lywydd rhwng 2017-18 a 2019-20, h.y. 2.1 y cant yn 2017-18, 2.3 y cant yn 2018-19 ac 1.2 y cant yn 2019-20. Dim ond yr arbediad o ran cyflog y Dirprwy Lywydd y mae'r ffigurau yn y tabl hwn yn ei ddangos ac nid ydynt yn ystyried argostau, Yswiriant Gwladol, pensiwn ac ati.

671. Ni fyddai'r polisi'n arwain at gostau nac arbedion eraill.

672. Yn dechnegol, byddai angen amser staff, amser y Pwyllgor Busnes ac amser y Cynulliad i adolygu ac addasu'r Rheolau Sefydlog a'r arferion gwaith er mwyn adlewyrchu ymestyn y cyfnod ar ôl etholiad y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf o fewn iddo. Fodd bynnag, rhagwelir na fyddai angen llawer o amser i wneud y gwaith hwn, sef newid y cyfeiriadau at "saith diwrnod" i "14 o ddiwrnodau" yn bennaf. Yn ymarferol, byddai gwaith o'r fath hefyd yn rhan o waith arferol Comisiwn y Cynulliad, gan fod Rheolau Sefydlog ac arferion gwaith y Cynulliad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nodir £0 ar gyfer y gost hon.

673. Yn dechnegol, byddai angen amser staff hefyd i ddiweddarau'r canllawiau a'r wybodaeth gyhoeddus ar gyfer yr Aelodau. Unwaith eto, ystyrir na fyddai angen llawer o amser staff i wneud y gwaith, sef newid y cyfeiriadau at "saith diwrnod" i "14 diwrnod" yn bennaf. Yn ymarferol, ni fyddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol y tu hwnt i waith arferol, gan y caiff gwybodaeth ei hadolygu o bryd i'w gilydd ac y caiff canllawiau a gwybodaeth eu paratoi'n bwrpasol ar gyfer pob etholiad. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, nodir £0 ar gyfer y gost hon.

674. Credir na fydd egluro pŵer Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau yn arwain at gostau nac arbedion uniongyrchol. Mae hynny am nad oes gan Comisiwn y Cynulliad gynlluniau, ar hyn o bryd, i ddefnyddio'r eglurhad drwy godi tâl am wasanaethau a ddarperir (heblaw am y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Comisiwn).

675. Os bydd y Comisiwn yn datblygu cynlluniau o'r fath, byddai angen gwneud asesiad llawn o'r costau, yr arbedion a'r incwm posibl yn sgil cynlluniau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw'r costau a'r arbedion hyn yn hysbys ar hyn o bryd, felly ni ellir eu meintoli yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

14.3. Manteision a risgiau

676. Ni nodwyd risgiau'n gysylltiedig ag ymestyn yr amser pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf: y cyfan y mae hyn yn ei wneud yw rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cynulliad ynghylch pryd y bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf. Pe bai digwyddiadau allanol yn ei gwneud yn hanfodol neu'n fanteisiol i'r Cynulliad gyfarfod yn gynharach ar ôl etholiad, ni fyddai'r darpariaethau yn y Bil yn rhwystr i hyn. Byddai'r hyblygrwydd ychwanegol yn rhoi mwy o amser i bleidiau gwleidyddol drafod a negodi, gan ei gwneud yn haws iddynt ddod i gytundeb ar lywodraethiant Cymru ar ôl etholiad.

677. Ni nodwyd risgiau mewn perthynas â chynnwys darpariaethau yn y Bil a fyddai'n rhoi mwy o eglurder ynghylch swyddogaethau'r Comisiwn, a'i allu i godi tâl am wasanaethau a ddarperir nad ydynt yn gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau. Un fantais bosibl yw y gallai hyn alluogi'r Comisiwn i archwilio dulliau mwy effeithiol o ddefnyddio ei ystâd, er y byddai hyn yn ddarostyngedig i flaenoriaethau a phenderfyniadau Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol.

14.4. Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

678. Yn gryno, dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

- Opsiwn 1: gwneud dim. Cadw'r darpariaethau presennol yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n pennu trefniadau gweithdrefnol y Cynulliad.
- Opsiwn 2: ymestyn y cyfnod ar ôl etholiad pryd y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf, ac egluro'r darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n galluogi Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau a ddarperir ganddo nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau.

679. Yr opsiwn a ffefrir, ac a adlewyrchir yn y Bil, yw opsiwn 2.

Rhan 3: Asegiadau effaith eraill

15. Diben a chefnidir yr asesiadau effaith

680. Diben yr asesiadau effaith isod yw ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar grwpiau neu feysydd penodol ac ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar y Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol.

681. Cynhaliwyd yr asesiadau effaith hyn yn unol â'r gofynion a nodir naill ai yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad neu yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, neu fel mater o arfer gorau. Gellir nodi nad yw'r asesiadau effaith hyn yn ceisio gwerthuso materion nad yw'r Bil hwn yn ymdrin â hwy, megis agenda ehangach diwygio etholiadol, a materion eraill yn adroddiad y Panel Arbenigol. Fel y nodwyd eisoes, gellir ymdrin â rhai o'r materion hyn mewn ail gam deddfu, ond ystyriwyd na fyddai'n ymarferol dadansoddi'r materion hyn yn y ddogfen hon.

682. Fodd bynnag, mae'r asesiadau effaith yn ceisio gwerthuso effeithiau'r Bil ar bob grŵp o bobl, nid dim ond y rhai y mae'n effeithio arnynt yn gadarnhaol. Er enghraifft, ystyriwyd effaith y Bil ar blant a phobl ifanc na fyddant yn cael yr hawl i bleidleisio, yn ogystal â'r rhai a gaiff yr hawl honno.

683. Mae gwybodaeth gefndir i'r meysydd polisi a drafodir yn yr asesiadau effaith i'w gweld yn y ddogfen hon fel a ganlyn:

- Enw'r Cynulliad – 4.2;
- Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad – 4.3;
- Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad – 4.4;
- Dyletswydd ar y Senedd i ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol – 4.5;
- Gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar resymoli'r gyfraith etholiadol – **Error! Reference source not found.**;
- Dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad – 4.7;
- Pwerau Comisiwn y Cynulliad – 4.8.8.

15.1. Pwy a gymerodd ran/pwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r asesiadau effaith hyn?

684. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Defnyddiwyd yr

ymatebion i'r ymgynghoriadau i helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r asesiadau effaith hyn.

685. Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r asesiadau effaith hefyd gan drafodaethau anffurfiol â swyddogion o nifer o randdeiliaid arbenigol, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

15.2. Crynodeb o'r canfyddiadau

686. Mae rhai o'r asesiadau effaith isod yn nodi effeithiau negyddol posibl ar grwpiau neu feysydd penodol. Fel y nodwyd yn yr asesiadau, cytunwyd ar fesurau lliniaru i osgoi neu leihau effeithiau negyddol.

687. Mae'r asesiadau effaith hefyd yn nodi y gallai rhai o ddarpariaethau'r Bil gael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau neu feysydd penodol.

688. Ni nodwyd effeithiau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ailystyried neu ohirio cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, a'r bwriad o hyd yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ar ei ffurf bresennol.

16. Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

689. Cynhaliwyd dau asesiad o effaith y ddeddfwriaeth hon ar gyfiawnder. Roedd yr asesiad cyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar estyn etholfraint y Cynulliad i bobl 16 a 17 oed. Roedd yr ail Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder yn cwmpasu'r elfennau sy'n weddill o'r Bil.

16.1. Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder 1: Estyn etholfraint y Cynulliad

16.1.1. Beth yw'r cynnig?

690. Mae'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys elfennau sy'n gysylltiedig ag etholfraint y Cynulliad a'r newid enw. Dim ond materion sy'n ymwneud â'r etholfraint a drafodir yn y cyflwyniad hwn. Mae'r diwygiadau i'r etholfraint yn estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed yng Nghymru. Ystyriwyd effeithiau'r materion a ganlyn:

- Estyn yr etholfraint. Gallai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a chynyddu nifer yr etholwyr arwain at gynnydd dilynol mewn troseddau etholiadol (fel methu ymateb i wahoddiad i gofrestru neu droseddau pleidleisio) yn sgil y ffaith bod mwy o etholwyr.
- Diogelu data etholiadol pobl ifanc. Mae'r Bil yn cynnwys trosedd ddiannod newydd, sef datgelu gwybodaeth am bobl ifanc o dan 16 oed heb awdurdod statudol.

16.1.2. Nodwch enw'r ddeddfwriaeth hon (ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig). Sut yr ydych yn disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu deddfu?

691. Caiff y darpariaethau eu deddfu drwy'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag etholfraint y llywodraeth leol a chofrestru etholwyr wedi'i nodi'n bennaf yn *Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*. Mae adran 12 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod hawl i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y rhai sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac sydd wedi cofrestru i wneud hynny. Mae *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007* yn cynnwys darpariaeth ynghylch cofrestru, pleidleisio a materion etholiadol eraill yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

16.1.3. Nodwch y dyddiad arfaethedig a) pan ddisgwylir i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym a b) pan ddisgwylir i'r effaith gyntaf ar y system gyfiawnder godi.

692. Bydd y darpariaethau i estyn yr etholfraint yn dod i rym o ddyddiad etholiad nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru y disgwylir ei gynnal ar hyn o bryd ym mis Mai 2021. Caiff unigolion eu hychwanegu at y gofrestr etholiadol fel rhan o'r canfasiad blynyddol a fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2020. Bydd unrhyw effaith ar y system gyfiawnder yn fach iawn ond, os bydd achosion, byddent yn codi o bosibl yn sgil casglu gwybodaeth am bobl ifanc fel rhan o ganfasiad mis Gorffennaf 2020.

16.1.4. Os newidir neu os cyflwynir trosedd, sanctsiwn neu gosb, pa rai o'r grwpiau a ganlyn y bydd y cynnig yn effeithio arnynt ac ym mha amgylchiadau? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)

- Unigolion
- Sefydliadau Preifat (e.e. Busnesau)
- Sefydliadau Cyhoeddus (e.e. Adrannau'r Llywodraeth)

16.1.4.1. Estyn yr etholfraint

693. Mae fframwaith sanctsiynau presennol wedi'i nodi yn *DCB 1983* ar gyfer troseddau etholiadol gwahanol (e.e. rhoi manylion cofrestru ffug, pleidleisio lluosog ac ati). Mae *Gorchymyn 2007* yn adlewyrchu'r fframwaith hwn i raddau helaeth. Nodir y byddai estyn yr etholfraint i grŵp ehangach o bobl yn golygu y bydd y fframwaith sanctsiynau hwn yn gymwys i fwy o bobl. Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y troseddau a gyflawnir. Yn sicr, dyna'r profiad yn yr Alban lle mae'r etholfraint wedi'i hestyn i bobl 16 a 17 oed ers 2015 o dan *Ddeddf Etholiadau'r Alban (Costwng yr Oedran Pleidleisio) 2015*.

16.1.4.2. Rhyddhau manylion etholiadol pobl ifanc.

694. Byddai'r drosedd ddiannod newydd, sef datgelu manylion etholiadol am bobl ifanc o dan 16 oed, yn effeithio ar unigolion a allai gyflawni troseddau o'r fath. Pe bai trosedd bosibl yn cael ei nodi, mater i'r heddlu fyddai ymchwilio iddi. Mae trosedd gyfatebol yng nghyfraith yr Alban yn dilyn estyn yr etholfraint i bobl 16 oed ac nid oes tystiolaeth o'r Alban bod troseddau wedi'u cyflawni.

16.1.5. Ai dim ond yng Nghymru y bydd eich deddfwriaeth yn cael effaith neu a ydych yn cydweithio â gweinyddiaethau eraill?

- Cymru yn unig
- Lloegr
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Arall (rhowch fanylion)

695. Dim ond i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru y bydd y cynigion i estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed yn gymwys. Mae posibilrwydd y gallai person ifanc sydd dan ofal awdurdod lleol yng Nghymru fyw mewn rhan arall o'r DU. Byddai'n gallu cofrestru drwy ddefnyddio datganiad o gysylltiad lleol a chael pleidlais drwy ddirprwy neu drwy'r post. Nid ystyrir y bydd hyn yn cael effaith ar y system gyfiawnder.

16.1.6. A allai eich deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar ymwelwyr â Chymru?

696. Ni fydd y deddfwriaeth hon yn effeithio ar ymwelwyr â Chymru. Mae gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod pryd a sut i gofrestru i bleidleisio.

697. Mae dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol (SCE) yr Awdurdod Lleol i gynnal cofrestr etholwyr. Rhaid i SCE gymryd pob cam ymarferol i gynnal y gofrestr a sicrhau, cyn belled â phosibl, fod pawb sy'n gymwys i bleidleisio wedi'i gynnwys ar y gofrestr.

698. Bydd newidiadau i'r etholfraint hefyd yn cael eu cyfleu drwy ymgyrch yn y cyfryngau.

16.1.7. Beth yw'r opsiynau dan sylw a sut y mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?

699. Ystyriwyd opsiynau o ran sefydlu trosedd newydd, sef datgelu gwybodaeth am bobl ifanc heb gydymffurfio â'r gofynion rhagnodedig.

- Gwneud dim: Gwrthodwyd yr opsiwn gwneud dim o ystyried pwysigrwydd diogelu gwybodaeth bersonol pobl ifanc. Mae gwaharddiad ar rannu gwybodaeth (gydag eithriadau statudol penodol) yn gyson â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ond byddai'n aneffeithiol heb sancsiwn cyfatebol am achosion o dorri'r rheolau.

-
- Ffyrdd eraill o gyflawni'r amcan: Byddai cosb sifil wedi bod yn ffordd arall o orfodi neu wneud darpariaeth y gallai datgelu gwybodaeth heb awdurdod statudol priodol fod wedi effeithio ar hawl unigolyn i bleidleisio. Fodd bynnag, ystyrir y byddai trosedd ddiannod yn ffordd gymesur o fynd i'r afael â'r ymddygiad hwn ac y byddai creu trosedd yn adlewyrchu difrifoldeb datgelu data personol pobl ifanc. Mae'n gyson â sut y caiff troseddau etholiadol tebyg eu trin yn *Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*.

16.1.7.1. Sicrhau bod y darpariaethau newydd yn cyd-fynd â'r fframwaith sancsiynau presennol o ran etholiadau:

700. O ran y drosedd newydd arfaethedig, mae'n gyson â dull tebyg iawn yn adran 14 o *Ddeddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015*.

701. O ran y fframwaith sancsiynau presennol a nodir yng *Ngorchymyn 2007*, nid oes cynigion i newid y sancsiynau hyn: byddant yn gymwys i'r grŵp estynedig o bleidleiswyr cofrestredig pan fydd yr etholfraint wedi'i hestyn. Mae'r sancsiynau ar gyfer troseddau etholiadol gwahanol, e.e. rhoi manylion cofrestru ffug, pleidleisio lluosog ac ati, ac maent yn gadarn ac yn effeithiol fel rhwystr. Prin yw'r dystiolaeth bod nifer fawr o droseddau etholiadol yn cael eu cyflawni ledled y DU, ac mae hyd yn oed llai o dystiolaeth o drosedd yng Nghymru (gweler y ffigurau isod). Mae hefyd angen sicrhau cysondeb â throseddau sy'n bodoli eisoes yn ogystal â'r angen i gynnal ffydd y boblogaeth yn gyffredinol bod data pobl ifanc yn cael eu diogelu drwy rwystr cadarn. Ni ddisgwylir i'r newidiadau i'r gyfraith etholiadol yng Nghymru na'r drosedd ddiannod newydd arfaethedig y cyfeiriwyd ati uchod gael effaith sylweddol ar y system gyfiawnder.

16.1.7.2. Tystiolaeth o droseddau sy'n bodoli eisoes ar draws y DU.

702. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi data gan heddluoedd ar draws y DU ynghylch achosion honedig o dwyll etholiadol yn y DU bob blwyddyn (yn dechrau yn 2010). Mae'r ffigurau cyhoeddedig diweddaraf yn nodi mai 336 oedd cyfanswm y troseddau twyll etholiadol honedig ar draws y DU yn 2017. O'r rhain, roedd 36 yn ymwneud â chofrestru etholiadol a 104 yn ymwneud â phleidleisio. Y math mwyaf cyffredin o dwyll cofrestru yw rhoi gwybodaeth ffug mewn ceisiadau cofrestru etholiadol.

703. Ystyrir bod risg isel y bydd estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed yn arwain at gyflawni mwy o droseddau.

16.1.8. Os ydych yn creu sancsiwn sifil neu gosb newydd, pa lys neu dribiwnlys ddylai ymdrin ag ef yn eich barn chi?

704. Amherthnasol.

16.1.9. Troseddau a chosbau sifil a sancsiynau: Pa rai o'r canlynol ydych yn eu creu/diwygio?

- Sancsiynau sifil
- Cosbau penodedig
- Gorchmynion sifil
- Cosbau troseddol
- Troseddau
- Arall (rhowch fanylion)

705. Mae'n bosibl y bydd y troseddau etholiadol presennol yn *DCB 1983* yn gymwys i ystod ehangach o bobl yn sgil y cynnig i estyn yr etholfraint. Cynigir na fydd y gosb sifil yn adran 9E(4) o'r Ddeddf (methu ag ymateb i wahoddiad i gofrestru) yn gymwys i berson a oedd o dan 16 oed pan osodwyd y gofyniad i wneud cais cofrestru.

706. Fel y nodwyd uchod, mae trosedd ddiannod newydd yn cael ei chreu sy'n ymdrin â datgelu gwybodaeth am bobl ifanc (o dan 16 oed) a roddwyd gan swyddog cofrestru etholiadol.

16.1.10. Os ydych yn creu trosedd, a yw'n drosedd ddiannod yn unig, yn drosedd y gellir ei rhoi ar brawf y naill ffordd neu'r llall, neu'n drosedd dditiadwy yn unig?

- Trosedd ddiannod yn unig (gwrandawriad gerbron mainc o ynadon lleyg/barnwr yn unig)
- Trosedd y gellir ei rhoi ar brawf y naill ffordd neu'r llall
- Trosedd dditiadwy yn unig (gwrandawriad gerbron barnwr a rheithgor)

16.1.11. Pwy fydd yn gyfrifol am orfodi'ch cynnig deddfwriaethol a sut y byddant yn cyflawni'r rôl hon? A fydd llai o angen am gamau gorfodi?

707. Byddai'r heddlu yn gyfrifol am ymchwilio i achos honedig o'r drosedd newydd o ddatgelu gwybodaeth am bobl ifanc gan swyddog cofrestru etholiadol heb gydymffurfio â'r meini prawf statudol fel arall. Ni ragwelir y bydd y drosedd newydd yn arwain at fwy o gamau gorfodi. Mae erlyniadau am droseddau etholiadol yn eithaf prin (gweler isod).

16.1.12. Beth yw nifer yr achosion a ragwelir bob blwyddyn? Rhowch fanylion am unrhyw dystiolaeth o dybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.

708. Yn ôl Amcangyfrifon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017), roedd 69,029 o bobl 16 a 17 oed yng Nghymru yng nghanol 2017.¹⁷⁷ Felly, nifer amcangyfrifedig y bobl i'w hychwanegu at y gofrestr yw 69,029.

709. Prin y caiff troseddau etholiadol eu herlyn ar draws y DU. Mae adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar ddadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn y DU yn 2017 yn dangos mai nifer yr achosion oedd 336. Rhoddwyd gwybod am 12 o'r achosion hyn gan heddluoedd Cymru yn 2017 o 2,279,216 o etholwyr.

710. Mewn 207 o'r holl achosion, ni chymerodd yr heddlu ragor o gamau ar ôl i'r ymchwiliadau ddod i ben a chafodd 82 eu datrys yn lleol. Pan gyhoeddwyd yr adroddiad, roedd 44 o achosion wrthi'n cael eu harchwilio, roeddent yn disgwyl cyngor o ran erlyn mewn saith achos, roedd gwrandawriad llys ar y gweill mewn dau achos, roedd un person wedi'i ryddhau, roedd wyth person wedi cael rhybudd, cafwyd un person yn euog ac roedd y Comisiwn Etholiadol wedi rhoi 13 o'r achosion yn y categori "arall".

711. O'r 336 o achosion, nifer yr achosion ym mhob categori yw:

- Pleidleisio - 104 o achosion, sef 31 y cant o'r holl achosion a gofnodwyd;
- Ymgyrchu - 165 o achosion, sef 49 y cant o'r holl achosion a gofnodwyd;
- Enwebu - 25 o achosion, sef 7 y cant o'r holl achosion a gofnodwyd;
- Cofrestru - 36 o achosion, sef 11 y cant o'r holl achosion a gofnodwyd;
- Gweinyddu - 3 achos, sef 1 y cant o'r holl achosion a gofnodwyd;
- Amrywiol - 3 achos, sef 1 y cant o'r holl achosion a gofnodwyd.

712. Crëwyd troseddau tebyg ynghylch rhyddhau data etholiadol pobl ifanc ar ôl estyn yr etholfraint yn yr Alban ac mae swyddogion yn yr Alban wedi cadarnhau na chafwyd cynnydd mewn achosion mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer yr etholwyr nac mewn perthynas â'r troseddau newydd.

¹⁷⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Cogledd Iwerddon, (Saesneg yn unig) Mehefin 2017

16.1.13. A ydych yn disgwyl i achosion gael eu gwranddo yn y Llys Ynadon, Llys y Goron neu mewn Llys Sifil? Beth fyddai'r cyfrannau?

713. Byddai achosion ynghylch y drosedd newydd o ddatgelu gwybodaeth am bobl ifanc heb awdurdod statudol yn cael eu gwranddo yn y Llys Ynadon.

714. Fel y nodwyd uchod, ni chafwyd llawer o dystiolaeth o dwyll etholiadol yng Nghymru, felly ni ragwelir llawer o effaith ar y System Gyfiawnder. Cafodd yr etholfraint ei hestyn i bobl 16 a 17 oed yn yr Alban a chyflwynwyd trosedd debyg o ddatgelu gwybodaeth am bobl ifanc yno. Mae'r ffigurau o'r wlad honno'n awgrymu effaith isel. Mae swyddogion o'r Alban yn cadarnhau nad ydynt wedi cael gwybod am droseddau etholiadol ychwanegol sy'n cael eu herlyn o ganlyniad i estyn yr etholfraint.

16.1.14. Nodwch yr uchafswm dirwy a/neu gosbau carchar cysylltiedig.

715. Nid oes terfyn uchaf i'r ddirwy bosibl ar gyfer y drosedd newydd, sef datgelu gwybodaeth am bobl ifanc heb awdurdod statudol.

716. Ar gyfer cyd-destun, gall troseddau etholiadol presennol arwain at ddirwyon neu gyfnod o garchar. Mae enghreifftiau wedi'u nodi isod.

Crynodeb o'r drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Cosb
Rhoi manylion cofrestru ffug	Unrhyw berson	Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn
Cofrestru heb hawl i wneud hynny	Unrhyw berson	Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn
Gwneud cais am bleidlais drwy'r post, pleidlais drwy ddirprwy, datganiad o wasanaeth neu ddatganiad o gysylltiad lleol sy'n ffug neu'n dwyllodrus	Unrhyw berson	Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn
Dynwared	Unrhyw berson (sy'n cyflawni, yn cefnogi, yn annog, yn cynghori neu'n comisiynu'r drosedd o ddynwared)	Yn achos euogfarn ddiannod: dirwy ddiderfyn a/neu hyd at chwe mis o garchar. Yn achos ditriad: dirwy a/neu hyd at ddwy flynedd o garchar

Pleidleisio dan anghymhwyster cyfreithiol	Unrhyw berson	Dirwy ddiderfyn
Pleidleisio lluosog	Unrhyw berson	Dirwy ddiderfyn
Torri dyletswydd swyddogol	Clerc y Goron neu ei ddirprwy, y swyddog cofrestru, y swyddog canlyniadau, unrhyw berson sy'n gyfrifol, ar ôl etholiad seneddol neu etholiad llywodraeth leol, am bapurau pleidleisio a dogfennau eraill a ddefnyddiwyd.	Dirwy ddiderfyn

16.1.15. Rhowch fanylion am droseddau drwy ddirprwy neu droseddau presennol a/neu gosbau y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt.

Crynodeb o'r drosedd	Person neu bersonau sy'n atebol	Cosb
Rhoi manylion cofrestru ffug	Unrhyw berson	Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn
Cofrestru heb hawl i wneud hynny	Unrhyw berson	Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn
Gwneud cais am bleidlais drwy'r post, pleidlais drwy ddirprwy, datganiad o wasanaeth neu ddatganiad o gysylltiad lleol sy'n ffug neu'n dwyllodrus	Unrhyw berson	Hyd at chwe mis o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn
Dynwared	Unrhyw berson (sy'n cyflawni, yn cefnogi, yn annog, yn cynghori neu'n comisiynu'r drosedd o ddynwared)	Yn achos euogfarn ddiannod: dirwy ddiderfyn a/neu hyd at chwe mis o garchar. Yn achos ditiad: dirwy a/neu hyd at ddwy flynedd o garchar
Pleidleisio dan anghymhwyster cyfreithiol	Unrhyw berson	Dirwy ddiderfyn
Pleidleisio lluosog	Unrhyw berson	Dirwy ddiderfyn

Torri dyletswydd swyddogol	Clerc y Goron neu ei ddirprwy, y swyddog cofrestru, y swyddog canlyniadau, unrhyw berson sy'n gyfrifol, ar ôl etholiad seneddol neu etholiad llywodraeth leol, am bapurau pleidleisio a dogfennau eraill a ddefnyddiwyd	Dirwy ddiderfyn
Gwneud datganiad ffug neu lofnodion ffug yn fwriadol ar bapurau enwebu	Yr ymgeisydd	Hyd at flwyddyn o ddedfryd a dirwy ddiderfyn.

717. Mae'r drosedd newydd, sef datgelu gwybodaeth am bobl ifanc o ran diwygio etholiadol yn seiliedig ar drosedd yn yr Alban yn adran 14 o *Ddeddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015*. Mae'r elfen o ddirwy ddiderfyn yn gyson â throseddau etholiadol eraill.

16.1.16. Rhowch fanylion am y ddeddfwriaeth berthnasol (lle y bo'n briodol) a chadarnhewch a gytunwyd ar y gwaith o greu neu ddiwygio troseddau a chosbau yn unol â'r canllawiau sydd ar gael

718. Nodir troseddau etholiadol yn *DCB 1983*. Mae'r cynigion wedi ystyried y canllawiau ar greu troseddau newydd. Ychydig iawn o dwyll etholiadol a geir yn y DU. Nid oes fawr ddim achosion o dwyll etholiadol yng Nghymru yn enwedig, felly mae'n bosibl bod y sancsiynau presennol yn helpu i'w atal. Mae hygrdedd etholiadau'n hollbwysig i ffydd y cyhoedd mewn etholiadau teg a rhydd ac mae rhwystr cadarn er budd y cyhoedd.

16.1.17. Beth fydd y goblygiadau ar gyfer unigolyn a gaiff ei ddyfarnu'n euog o'r drosedd hon yn y tymor byr, y tymor canolig ac ar hyd ei oes, a sut y mae hynny'n yn gymesur â'r drosedd a grëwyd?

16.1.17.1. Datgelu gwybodaeth am berson ifanc yn groes i'r cyfyngiadau statudol.

719. O ran y drosedd newydd hon, y goblygiadau yn y tymor byr fyddai talu dirwy'n syth pe bai rhywun yn cael ei ddyfarnu'n euog. Gallai fod niwed i enw da'r unigolyn pe bai'n cael ei ddyfarnu'n euog a allai arwain at oblygiadau tymor

canolig. Ni ragwelir y byddai goblygiadau gydol oes yn sgil euogfarn am y drosedd hon.

720. Ystyrir bod y gosb yn gymesur yng nghyd-destun y sensitifrwydd ynghylch gwybodaeth bersonol am bobl ifanc a'r angen i sicrhau ei bod yn cael ei thrin yn ofalus a bod datgelu'r wybodaeth honno'n ddarostyngedig i gyfyngiadau. Bydd gwybodaeth etholiadol am bobl ifanc o dan 16 oed yn cynnwys manylion am enwau, oedrannau a chyfeiriadau ac mae'n bwysig (ac yn gyson â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) y gosodir cyfyngiadau i atal datgelu'r wybodaeth honno ymhellach, a bod sancsiynau priodol yn gosb am wneud hynny.

16.1.17.2. Effeithiau eraill

721. Ni fydd euogfarn am y drosedd hon yn rhan o adroddiad credyd.

16.1.18. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus?

722. Nac ydy.

16.1.19. Amcangyfrif y newid i faich achosion y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (gan gynnwys tribiwnlysoedd datganoledig)

723. Byddai'r gwrandawriadau ar gyfer y troseddau newydd a grëwyd yn cael eu cynnal yn y Llys Ynadon. Fodd bynnag, mae paragraffau blaenorol wedi amlinellu bod y dystiolaeth yn awgrymu mai ychydig iawn o droseddau etholiadol a geir ar draws y DU. O ganlyniad, ystyrir y byddai cynnydd yn nifer yr achosion yng Nghymru yn annhebygol. Ni ragwelir y bydd angen newid proses y llysoedd, gan y bydd proses bresennol y llysoedd troseddol yn gymwys.

724. Mae tystiolaeth o'r Alban, lle cafodd yr etholfraint ei hestyn i gynnwys pobl 16 oed, yn dangos nad oedd fawr ddim effaith ar y llysoedd na'r gwasanaethau tribiwnlys.

16.1.20. Cadarnhewch a fyddai dyletswydd ar y llysoedd/tribiwnlysoedd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am euogfarnau a wneir dan y drosedd hon.

725. Amherthnasol.

16.1.21. Hawliau apelio: A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio neu ehangu awdurdodaeth bresennol yn y System Tribiwnlysoedd Unedig neu'r llwybr i adolygiad barnwrol?

726. Amherthnasol.

16.1.22. A ydych yn disgwyl sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd?

727. Amherthnasol.

16.1.23. I ba raddau y gallai fod yn briodol defnyddio gweithdrefnau datrys anghydfodau amgen (gan gynnwys cyfryngu)?

728. Amherthnasol.

16.1.24. Os mai'r cynnig yw ychwanegu trosedd newydd, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithredu i erlyn diffynyddion? Os na fydd, nodwch pwy fydd yn erlyn.

729. Byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymdrin â'r drosedd newydd, sef datgelu gwybodaeth am berson ifanc.

16.1.25. A fydd angen trefnau gorfodi ar y cynnig er mwyn ymdrin â dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol? Os bydd, pwy ydych yn disgwyl a fydd yn gorfodi'r rhain?

730. Bydd - Yn achos y drosedd newydd, sef datgelu gwybodaeth am berson ifanc, dirwy ddiderfyn fydd y gosb a gaiff ei gorfodi drwy fecanweithiau arferol y Llys.

16.1.26. Rheolau Gweithdrefnol, Canllawiau Dedfrydu a Chosbi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM: A ydych yn rhagweld y bydd yn rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llys a/neu'r Tribiwnlys?

731. Amherthnasol.

16.1.27. A fydd y cynigion yn golygu bod angen diwygio canllawiau dedfrydu a/neu ganllawiau cosbau?

732. Amherthnasol

16.1.28. Cymorth cyfreithiol a ffioedd llys: Pa dystiolaeth sydd y bydd unigolion y mae eich cynnig yn effeithio arnynt yn gallu fforddio: cynrychiolaeth gyfreithiol a chyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau gwrandawriad teg o'u hachos; ffioedd llys cysylltiedig?

733. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol benodi swyddog o'r cyngor fel Swyddog Canlyniadau a swyddog o'r cyngor fel Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yng Nghymru, mae'n arfer cyffredin i'r ddwy swyddogaeth hyn gael eu cyflawni gan y Prif Weithredwr. Mae'r rhan fwyaf o Brif Weithredwyr yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn, felly ystyrir bod y risg na fydd Prif Weithredwyr yn gallu fforddio eu treuliau cyfreithiol a'u ffioedd llys yn isel iawn.

734. Mae canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad yn atgoffa Swyddogion Canlyniadau eu bod yn gyfrifol yn bersonol am sut y cynhelir yr etholiadau, ac fel rhan o'u gwaith cynllunio, dylent allu dangos bod ganddynt yswiriant digonol.

735. Gall unigolion heblaw am Brif Weithredwyr awdurdodau lleol hefyd gael eu cyhuddo o'r drosedd ac maent yn debygol o fod o amrywiaeth o grwpiau economaidd-gymdeithasol, felly mae'n anodd asesu eu gallu i dalu costau cyfreithiol. Bydd angen i unigolion sy'n cael eu cyhuddo o drosedd ddiannod wneud cais am gymorth cyfreithiol. Bydd y penderfyniad a ddylid rhoi cymorth cyfreithiol ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol o ran gallu unigolion i dalu eu costau cyfreithiol eu hunain a phrawf budd cyfiawnder. Os mai dirwy yw'r gosb, mae'n annhebygol o basio'r prawf budd cyfiawnder ac ni fyddai'r unigolyn yn cael cymorth cyfreithiol.

736. Mae'n wir hefyd y gall diffynyddion sy'n cael eu rhyddfarnu o drosedd y cawsant eu cyhuddo ohoni adennill eu costau cyfreithiol (neu gyfran ohonynt). Mae adran 16 o *Ddeddf Eryl Troseddau 1985* yn darparu y caiff llysoedd orchymyn y dylid ad-dalu, o gronfeydd canolog, gostau cyfreithiol diffynnydd a ryddfarnir sydd wedi talu am ei gynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat. Mae *Rheoliadau Costau mewn Achosion Troseddol (Cyffredinol) 1986* hefyd yn gymwys.

16.1.29. Ar ôl i'ch cynnig ddod i rym, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion geisio cyngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol mewn unrhyw un o'r meysydd a ganlyn?

- Troseddol
- Sifil (gan gynnwys Teuluol)
- Lloches
- Pan nad oes cymorth cyfreithiol ar gael (rhowch dystiolaeth ategol)

737. O ran troseddau diannod, bydd y rhai sy'n cael eu cyhuddo o drosedd ddiannod etholiadol yn ddarostyngedig i'r profion budd cyfiawnder a'r profion modd arferol sy'n gymwys i geisiadau am gymorth cyfreithiol. Yn achos trosedd ddiannod lle mai dirwy yw'r gosb, mae'n annhebygol y byddai unigolyn yn pasio'r prawf budd cyfiawnder am gymorth cyfreithiol ac yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol.

16.1.30. Os yw'n bosibl y bydd effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau cymorth cyfreithiol yn cynyddu neu'n gostwng (ac i ba raddau)?

738. Amherthnasol.

16.1.31. A fydd y cynigion yn arwain at newid yn nifer y troseddwy'r sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa (gan gynnwys ar remánd) neu ar brawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)?

739. Yn ôl adroddiad y Comisiwn Etholiadol, sef "Dadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn y DU yn 2017", o'r 336 o achosion o dwyll honedig a gofnodwyd yn 2017, cafwyd un euogfarn, un rhyddfarn, dwy enghraifft o ddechrau achos llys a saith achos lle y parheir i ddisgwyl cyngor am erlyniad.¹⁷⁸

740. Ystyrir bod y cynigion polisi yn annhebygol o gynyddu nifer y troseddwy'r sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa.

16.1.32. A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd sy'n bodoli eisoes sydd â dedfryd o garchar neu brawf, neu'n newid y ffordd y mae troseddwy'r yn mynd drwy'r gwasanaeth carchardai/y gwasanaeth prawf?

741. Nid yw'r troseddau presennol yn newid ac nid oes cynigion i greu dedfrydau o garchar.

16.2. Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder 2: Y darpariaethau sy'n weddill o'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

742. Roedd yr ail Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder yn archwilio'r elfennau o'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* nad oedd yn ymwneud ag estyn etholfraint y Cynulliad. Rhoddir manylion am yr Asesiad o'r Effaith isod.

¹⁷⁸ Comisiwn Etholiadol, "Dadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn y DU yn 2017", Mawrth 2018.

16.2.1. Beth yw'r cynnig?

743. Mae'r cynigion isod yn diweddarau'r ffordd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu. Cyflwynir Bil gan y Llywydd a fydd yn cynnwys y materion a ganlyn:

- Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 'Senedd'. Gellir galw'r 'Senedd' hefyd yn 'Welsh Parliament'. Bydd hyn o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru drwy ddisgrifio'r sefydliad mewn ffordd sy'n haws ei deall. Ni fydd effaith negyddol y tu hwnt i'r costau gweithredu cyfyngedig.
- Diweddarau'r darpariaethau anghymhwysu yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* i'w gwneud yn bosibl ymddiswyddo o'r rhan fwyaf o'r swyddi anghymwys rhwng yr etholiad a thyngu'r llw, yn hytrach na gwahardd deiliad y swyddi hynny rhag ymgeisio. Bydd y newidiadau o fudd i'r cyhoedd a phleidiau gwleidyddol drwy gynnig mwy o ddewis o ymgeiswyr. Yr unig bobl yr effeithir arnynt yn andwyol fydd ymgeiswyr posibl eraill sy'n wynebu mwy o gystadleuaeth wrth iddynt ymgeisio. Bydd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi wedi'u hanghymhwysu oni bai eu bod wedi cael caniatâd i fod yn absennol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r drefn bresennol o anghymhwysu Aelodau Seneddol. Gweler adran 16.2.2 am gyfeiriadau at yr effaith ar swyddi yn y system cyfiawnder troseddol.
- Rhoi pwerau datganedig i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion i'w gwneud gan Gomisiwn y Gyfraith i symleiddio'r gyfraith etholiadol. Ni fydd y pŵer ei hun yn arwain at fuddion uniongyrchol nac effeithiau andwyol. Gall y pwerau presennol fod yn ddigonol, ond ni ellir dweud hynny'n sicr nes i'r argymhellion terfynol gael eu cyhoeddi. Ystyrir felly ei fod yn fwy sicr, ac yn fwy tryloyw, i achub ar y cyfle i ddarparu pŵer datganedig.
- Gwneud newidiadau mân i drefniadau mewnol y Cynulliad fel newid y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad cyffredinol y Cynulliad a darparu pŵer datganedig i godi tâl am wasanaethau. Ni fydd y newidiadau hyn yn arwain at fuddion uniongyrchol nac effeithiau negyddol y tu hwnt i'r effaith anuniongyrchol, sef galluogi'r sefydliad i weithredu'n fwy effeithiol.

744. Ni ellir cyflawni dim o'r rhain heb ddeddfwriaeth.

745. Ni chaiff troseddau newydd eu creu. Bydd llai o risg y bydd ymgeiswyr mewn perygl o gael eu herlyn am wneud datganiad ffug nad ydynt wedi'u hanghymhwyso gan y bydd llawer llai o swyddi a allai eu hatal rhag ymgeisio.

746. Mae'r Bil hefyd yn estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i'r rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder yn benodol ar y mater hwn (ceir manylion ym mhennod 16.1).

16.2.2. Nodwch enw'r ddeddfwriaeth hon (ac unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig).

747. Y teitl arfaethedig yw'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*.

748. Caiff darpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth hon eu cychwyn ddau fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol, ar ddyddiad penodedig yn y dyfodol (newid enw) a thrwy orchymyn cychwyn. Bydd y darpariaethau anghymhwyso'n dod i rym ar ôl diddymu'r Cynulliad presennol ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2021.

749. Mae rhai darpariaethau anghymhwyso presennol yn berthnasol drwy gyfeirio at y rhai sy'n gymwys i Dŷ'r Cyffredin. Bydd y rhain yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch drwy gael eu hailddatgan (a'u diwygio) drwy gael eu nodi'n llawnach yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

750. Yng nghyd-destun asesiad o'r effaith ar gyfiawnder, ni chynigir parhau i anghymhwyso barnwyr yr Alban a Gogledd Iwerddon yn awtomatig yn unol â'r drefn bresennol sy'n dilyn darpariaethau anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin. Ystyrir bod y posibilrwydd y byddant am sefyll fel ymgeiswyr yng Nghymru mor annhebygol nad oes angen gwneud hyn. Mae Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol wedi'u hanghymhwyso ar hyn o bryd yn yr un modd. Ni fyddant yn cael eu nodi yn y Bil, a disgwylir iddynt gael eu hychwanegu at y rhestr o swyddi a fyddai'n atal rhywun rhag bod yn Aelod Cynulliad, ond y gellir ymddiswyddo ohonynt ar ôl etholiad.

751. Ni fydd gwaharddiad cyffredinol bellach ar ganiatáu i swyddogion yr heddlu fod yn ymgeiswyr, ond rhagwelir y byddant yn cael eu nodi yn y gorchymyn anghymhwyso fel swyddi y dylid ymddiswyddo ohonynt os bydd un o'u deiliaid yn cael ei ethol.

16.2.3. Nodwch y dyddiad arfaethedig pan ddisgwylir i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym a'r dyddiad y disgwylir i'r effaith gyntaf ar y system gyfiawnder godi.

752. O ran yr effaith gyfyngedig a ragwelir ar y system gyfiawnder (o ran anghymhwys), ni ddisgwylir effaith cyn etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2021.

16.2.4. Os newidir neu os cyflwynir trosedd, sancsiwn neu gosb, pa rai o'r grwpiau a ganlyn y bydd y cynnig yn effeithio arnynt ac ym mha amgylchiadau? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)

753. Amherthnasol.

16.2.5. Ai dim ond yng Nghymru y bydd eich deddfwriaeth yn cael effaith?

- Cymru yn unig
- Lloegr
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Arall (rhowch fanylion)

754. Er y bydd gan argymhellion terfynol Comisiwn y Gyfraith oblygiadau i bob rhan o'r DU, dim ond i etholiadau datganoledig yng Nghymru y mae'r pwerau yn y Bil hwn yn gymwys. Amcanion y Comisiwn yw lleihau gwahaniaethau diangen rhwng y deddfau sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau mewn rhannau gwahanol o'r DU.

16.2.6. A fydd eich deddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar ymwelwyr â Chymru?

755. Bydd y darpariaethau anghymhwyso'n wahanol iawn i rannau eraill o'r DU, er enghraifft drwy ddarparu y gall ymgeiswyr llwyddiannus ymddiswyddo o swyddi sy'n anghymhwysu cyn tyngu'r llw teyrngarwch. Rhagwelir y bydd cydweithio'n agos â'r Comisiwn Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru yn sicrhau bod y gwahaniaethau'n cael eu dwyn i sylw'r pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn gyffredinol.

16.2.7. Beth yw'r opsiynau dan sylw a sut y mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?

756. Dim ond drwy ddeddfwriaeth y gellir cyflawni'r newidiadau arfaethedig.

16.2.8. Os ydych yn creu sancsiwn sifil neu gosb newydd, pa lys neu dribiwnlys ddylai ymdrin ag ef yn eich barn chi?

757. Amherthnasol.

16.2.9. Troseddau a Chosbau Sifil a Sancsiynau: pa rai o'r canlynol yr ydych yn eu creu/diwygio? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)

- Sancsiynau sifil
- Cosbau penodedig
- Gorchmynion sifil
- Cosbau troseddol
- Troseddau
- Arall (rhowch fanylion)

758. Dim un o'r uchod

16.2.10. Pwy fydd yn gyfrifol am orfodi'ch cynnig deddfwriaethol a sut y byddant yn cyflawni'r rôl hon? A fydd llai o angen am gamau gorfodi?

759. Bydd y darpariaethau anghymhwysu diwygiedig yn parhau i gael eu gorfodi gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, ond disgwylir y bydd llai o angen am gamau gorfodi oherwydd bydd y gofyniad i ymgeiswyr ddatgan nad ydynt wedi'u hangymhwysu'n gymwys i restr fyrrach o lawer o swyddi.

16.2.11. Beth yw nifer yr achosion a ragwelir bob blwyddyn? Rhowch fanylion am unrhyw dystiolaeth o dybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.

760. Dim ond dau achos posibl a gafwyd o wneud datganiad ffug o ran anghymhwysu yn etholiadau'r Cynulliad ers 1999. Byddai wedi bod yn bosibl ymddiswyddo o'r ddwy swydd berthnasol dan y newidiadau arfaethedig, felly ni fyddai'r achosion hyn wedi arwain at ymchwiliad. Felly, amcangyfrifwn na fyddai achosion yn y rhan fwyaf o etholiadau'r Cynulliad yn y dyfodol, fel yn y gorffennol.

16.2.12. A ydych yn disgwyl i achosion gael eu gwranddo yn y Llys Ynadon, Llys y Goron neu mewn Llys Sifil? Beth fyddai'r cyfrannau?

761. Ni chafwyd achosion ym mhwm etholiad cyffredinol diwethaf y Cynulliad. Ni ddisgwylir i hyn newid.

16.2.13. Nodwch yr uchafswm dirwy a/neu gosbau carchar cysylltiedig.

762. Amherthnasol.

16.2.14. Rhowch fanylion am droseddau drwy ddirprwy neu droseddau presennol a/neu gosbau y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt.

763. Amherthnasol.

16.2.15. Rhowch fanylion am y ddeddfwriaeth berthnasol (lle y bo'n briodol) a chadarnhewch a gytunwyd ar y gwaith o greu neu ddiwygio troseddau a chosbau yn unol â'r canllawiau sydd ar gael

764. Amherthnasol.

16.2.16. Beth fydd y goblygiadau ar gyfer unigolyn a gaiff ei ddyfarnu'n euog o'r drosedd hon yn y tymor byr, y tymor canolig ac ar hyd ei oes, a sut y mae hynny'n yn gymesur â'r drosedd a grëwyd?

765. Amherthnasol.

16.2.17. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus? Os ydyw, rhowch eich asesiad o'r tebygolrwydd y bydd unigolion neu fusnesau yn cymryd camau yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

766. Bydd yr unig ddyletswyddau'n rhai ymhlyg (h.y. ar y Cynulliad i newid ei enw ei hun). Nid oes risg o gamau gweithredu am beidio â chydymffurfio, na chosb ar sefydliadau eraill os byddant yn defnyddio'r enw anghywir.

16.2.18. A ydych yn disgwyl y bydd newid ym mhroses y Llys neu'r Tribiwnlys neu gynnydd neu ostyngiad mewn ceisiadau/achosion i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a/neu Dribiwnlysoedd Cymru drwy greu neu ddiwygio'r gyfraith hon?

767. Ni ragwelir newid.

16.2.19. Cadarnhewch a fyddai dyletswydd ar y llysoedd/tribiwnlysoedd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am euogfarnau a wneir dan y drosedd hon.

768. Amherthnasol.

16.2.20. A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio neu ehangu awdurdodaeth bresennol yn y System Tribiwnlysoedd Unedig neu'r llwybr i adolygiad barnwrol?

769. Amherthnasol.

16.2.21. A ydych yn disgwyl sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd?

770. Amherthnasol.

16.2.22. I ba raddau y gallai fod yn briodol defnyddio gweithdrefnau datrys anghydfodau amgen (gan gynnwys cyfryngu)?

771. Amherthnasol.

16.2.23. Os mai'r cynnig yw ychwanegu trosedd newydd, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithredu i erlyn diffynyddion? Os na fydd, nodwch pwy fydd yn erlyn.

772. Amherthnasol.

16.2.24. A fydd angen trefnau gorfodi ar y cynnig er mwyn ymdrin â dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol? Os bydd, pwy ydych yn disgwyl a fydd yn gorfodi'r rhain?

773. Amherthnasol.

16.2.25. A ydych yn rhagweld y bydd yn rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llys a/neu'r Tribiwnlys?

774. Amherthnasol.

16.2.26. A fydd y cynigion yn golygu bod angen diwygio canllawiau dedfrydu a/neu ganllawiau cosbau?

775. Amherthnasol.

16.2.27. Pa dystiolaeth sydd y bydd unigolion y mae eich cynnig yn effeithio arnynt yn gallu fforddio: cynrychiolaeth gyfreithiol a chynngor cyfreithiol er mwyn sicrhau gwrandawriad teg o'u hachos; ffioedd llys cysylltiedig?

776. Amherthnasol.

16.2.28. Ar ôl i'ch cynnig ddod i rym, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion ofyn am gynngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol?

777. Amherthnasol.

16.2.29. Os yw'n bosibl y bydd effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau cymorth cyfreithiol yn cynyddu neu'n gostwng (ac i ba raddau)?

778. Amherthnasol.

16.2.30. A fydd y cynigion yn arwain at newid yn nifer y troseddwy'r sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa (gan gynnwys ar remánd) neu ar brawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)?

779. Dim newid.

16.2.31. A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd sy'n bodoli eisoes sydd â dedfryd o garchar neu brawf, neu'n newid y ffordd y mae troseddwy'r yn mynd drwy'r gwasanaeth carchardai/y gwasanaeth prawf?

780. Nac ydy.

17. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

17.1. Enw'r ddeddfwriaeth

781. *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).*

17.2. Dyddiad yr asesiad effaith

782. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

17.3. Diben yr asesiad effaith hwn

783. Cynhaliwyd yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â'r gofyniad ym mharagraff 8(1) o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

784. Diben yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb yw nodi a oes effeithiau gwahaniaethol, neu effeithiau gwahaniaethol posibl, o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil, ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a nodir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*. Mae hefyd yn disgrifio'r camau sydd eu hangen i liniaru neu ddileu effeithiau gwahaniaethol negyddol ac yn nodi cyfleoedd i wneud y gorau o'r effeithiau cadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

17.4. Cyflwyniad: pwy a gymerodd ran/pwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r asesiadau effaith hyn?

785. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau wrth lunio'r asesiad effaith hwn, gan gynnwys y rhai a gafwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol hefyd â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, i lywio datblygiad yr asesiad effaith hwn.

17.5. Effeithiau ar gydraddoldeb

17.5.1. Oedran

786. Yn dilyn y ddau ymarfer ymgynghori a'r gwaith ymchwil, nid ystyrir y bydd y newidiadau polisi a ganlyn a gyflwynir gan y Bil yn cael effaith wahaniaethol o ran oedran:

- enw'r Cynulliad;

-
- dyletswydd ar y Senedd i ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol;
 - gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli'r gyfraith etholiadol;
 - dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad;
 - pwerau Comisiwn y Cynulliad.

787. Ystyrir bod dau newid polisi yn cael effaith wahaniaethol o ran oedran:

- yr etholfraint: gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16;
- anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad.

17.5.1.1. Etholfraint: Yr oedran pleidleisio isaf yn 16

788. Gelwir yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn etholfraint y Cynulliad. Yr oedran pleidleisio presennol yw 18.

789. Wrth ddatblygu'r adran hon o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ystyriwyd y canlynol yn benodol:

- Protocol 1, Erthygl 3 o'r *Ddeddf Hawliau Dynol*, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth gynnal etholiadau rhydd ar gyfnodau rhesymol drwy bleidlais gudd, dan amodau a fydd yn sicrhau y caiff pobl fynegi eu barn yn rhydd wrth ddewis deddfwrfa.
- Erthygl 14 o'r *Ddeddf Hawliau Dynol*, sy'n ei gwneud yn ofynnol y gellir sicrhau'r hawliau a'r rhyddid a nodir yn y Confensiwn hwn heb wahaniaethu ar unrhyw sail megis rhyw, hil, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

790. Ystyriwyd yn benodol hefyd faterion cydraddoldeb a godwyd yn yr ymgynghoriadau amrywiol sy'n gysylltiedig â gostwng yr oedran pleidleisio. Nodir y rhain yn y paragraffau isod.

791. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod pobl ifanc eu hunain o'r farn y dylid gostwng yr oedran pleidleisio. Arweiniodd y Fonesig Rosemary Butler,

Llywydd y Pedwerydd Cynulliad, ymgynghoriad¹⁷⁹ a ddylai fod gan bobl 16 a 17 oed yr hawl i bleidleisio. Er na chafodd ei gynllunio i fod yn ymarfer ystadegol cadarn o ran ei fethodoleg, cymerodd dros 10,000 o bobl ifanc, o bob rhan o Gymru, ran yn yr ymgynghoriad. O'r rhain, roedd 53 y cant o blaid gostwng yr oedran pleidleisio, roedd 29 y cant yn erbyn, ac roedd 18 y cant yn ansicr.

792. Yn yr un modd, pan gynhaliodd tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad weithdai gyda phobl ifanc i glywed eu barn am gynnig y Panel Arbenigol i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn y dyfodol, canfuwyd y canlynol:

- Roedd dros hanner y bobl ifanc a holwyd am yr oedran pleidleisio isaf priodol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o blaid ei ostwng o 18 i 16. Roedd traean ohonynt o blaid ei gadw yn 18 oed.
- Roedd pobl ifanc a oedd yn honni eu bod yn gwybod llawer am wleidyddiaeth a bod ganddynt gryn ddiddordeb yn y maes yn fwy cefnogol na phobl ifanc eraill o ostwng yr oedran pleidleisio isaf o 18 i 16 oed.

793. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael hefyd yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r cyhoedd o blaid gostwng yr oedran pleidleisio. Roedd y rhan fwyaf (59 y cant) o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad, sef Creu Senedd i Gymru, yn teimlo y dylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16.¹⁸⁰

794. Nododd 15 o'r 20 sefydliad a ymatebodd i ymgynghoriad Creu Senedd i Gymru y dylid gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16. Roeddent yn cynnwys Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Cyngor Tref Maesteg, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, Cymdeithas Hansard, Comisiynydd Plant Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Mudiad Meithrin, Chwarae Teg, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Werdd Cymru ac Academi Morgan. Nododd pedwar sefydliad y dylid cadw 18 oed fel yr oedran pleidleisio isaf, gan gynnwys Cyngor Cymuned Llanpumsaint a Grŵp Gweithredu 50+ Sir y Fflint.

¹⁷⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [A ddylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16? Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad "Pleidleisio@16?" y Llywydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru](#), Gorffennaf 2015

¹⁸⁰ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Creu senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018

795. Roedd ymgynghoriad Creu Senedd i Gymru hefyd yn gofyn i ymatebwyr nodi manteision gostwng yr oedran pleidleisio isaf. Roedd y manteision a nodwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys:

- ymgysylltiad a chyfranogiad gwleidyddol gwell;
- cynrychiolaeth well;
- democratiaeth well;
- mwy o bobl yn pleidleisio mewn etholiadau, gyda rhai'n nodi y byddai pobl ifanc a gâi'r bleidlais yn parhau i bleidleisio yn nes ymlaen fel oedolion;
- byddai'r addysg ynghylch ddinasyddiaeth a gwleidyddiaeth i gyd-fynd â gostwng yr oedran pleidleisio yn arwain at bleidleiswyr mwy gwybodus;
- polisiau a fyddai'n canolbwyntio'n fwy ar bobl ifanc;
- grymuso pobl ifanc a gwneud iddynt deimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

796. Er enghraifft, dywedodd aelod o'r cyhoedd:

“Byddai'r manteision yn cyflwyno pobl ifanc i'r system wleidyddol ar adeg yn eu bywydau pan fod ganddynt frwdfrydedd ac ysgogiad. Dylid annog hyn drwy'r addysg a gânt yn yr ysgol, a thrwy rieni a phawb sy'n rhan o ddatblygiad pobl ifanc.

Fel rhiant, gallaf weld y byddai'n werthfawr iawn pe bai fy mhlentyn yn gallu pleidleisio tra ei bod hi'n dal i fyw gyda ni cyn iddi fynd i'r brifysgol. Byddai'n helpu i wneud pleidleisio a chyfranogiad gwleidyddol yn arfer.

Po fwyaf o bobl iau sy'n cymryd rhan wrth lunio'r dyfodol, y gorau y bydd pethau i bawb ohonom.”

797. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd addysg am ddinasyddiaeth neu wleidyddiaeth. Aeth rhai mor bell â dweud y dylai'r addysg hon fod yn orfodol mewn ysgolion. Yn ôl yr ymatebwyr, roedd manteision addysg am ddinasyddiaeth neu wleidyddiaeth yn cynnwys sicrhau bod pleidleiswyr ifanc yn wybodus a helpu i fynd i'r afael â difaterwch tuag at wleidyddiaeth. Er enghraifft, gofynnodd un aelod o'r cyhoedd:

“Ystyriwch gyflwyno pleidleisiau yn 16 oed fel rhan o ddiwygio polisi addysg o ddechrau addysg ffurfiol yn yr ysgol gynradd fel bod disgyblion yn cael dysgu beth yw etholiadau, sut maen nhw’n gweithio, yr hyn y maent yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer ac am y llywodraeth yn gyffredinol.”

798. Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr a fyddai’r addysg hon yn cael ei chyflwyno mewn ffordd wleidyddol ddiuedd.

799. Roedd nifer fach o ymatebwyr i ymgynghoriad *Creu Senedd i Gymru* yn pryderu am barodrwydd pobl 16 a 17 oed i bleidleisio, gyda rhai’n nodi pryder ynghylch aeddfedrwydd pobl 16 a 17 oed, a pha mor hawdd y byddai dylanwadu ar eu barn wleidyddol pe baent yn cael y bleidlais, gan gyfeirio’n arbennig at ddylanwad y cyfryngau cymdeithasol.

800. Nododd 20 o sefydliadau eu bod o blaid gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16, gan gynnwys Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Hansard, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, ac eraill.

801. Nododd dau sefydliad eu gwrthwynebiad i ostwng yr oedran pleidleisio: Plaid Diddymu Cynulliad Cymru a Grŵp Gweithredu 50+ Sir y Fflint.

802. Bydd estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed, drwy ddiffiniad, yn effeithio’n uniongyrchol ar un grŵp â nodwedd warchoddedig: h.y. pobl ifanc. Am y tro cyntaf, bydd pobl 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau’r Cynulliad o 2021. Bydd pobl ifanc yr oedran hwn yn cael addysg wleidyddol mewn ysgolion a’r strwythurau cymorth i’w helpu i bleidleisio am y tro cyntaf. Wrth asesu’r dystiolaeth ynghylch cydraddoldeb a gasglwyd drwy ymarferion ymgynghori amrywiol, daethpwyd i’r casgliad y byddai deddfu i addasu’r etholfraint bresennol er mwyn newid yr oedran pleidleisio isaf i 16 oed yn creu’r potensial i gynnig ffordd gadarnhaol o hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl 16 a 17 oed. Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio’n agos gydag awdurdodau lleol a sefydliadau sy’n gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’u hawl i bleidleisio a sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses wleidyddol.

803. Gellir nodi, er bod y Bil yn etholfreinio’r rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau’r Cynulliad, na fydd yn etholfreinio plant 15 oed ac iau. Darperir esboniad llawn o’r rhesymau dros hyn yn adran 19.4.4 o’r Asesiad Effaith Hawliau Plant yn y ddogfen hon.

17.5.1.2. Peidio ag etholfreinio pobl nad ydynt yn ddinasyddion o'r UE na'r Gymanwlad

804. Gellir nodi na fydd yr holl bobl 16 a 17 oed yng Nghymru yn cael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Ni fydd pobl 16 a 17 oed nad ydynt yn ddinasyddion o'r UE na'r Gymanwlad yn cael yr hawl i bleidleisio ac, er ei bod yn debygol y bydd nifer fach o bobl yn y grŵp hwn, mae'n debygol o gynnwys ffoaduriaid a phobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

805. Nodir sail resymegol y Bil am beidio ag etholfreinio'r grŵp hwn yn fanylach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a'r asesiad o effaith y Bil ar Hawliau Dynol (a nodir isod, fel rhan o'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb). Yn gryno, mae nifer o ddadleuon o blaid ac yn erbyn etholfreinio'r grŵp hwn.

806. Mae'r dadleuon o blaid yn cynnwys y canlynol:

- mae pobl o'r fath yn talu trethi, ac yn cymryd rhan mewn cymdeithas ddinesig ym mhob ffordd arall;
- roedd mwyafrif (66 y cant) o ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad, sef *Creu Senedd i Gymru*,¹⁸¹ yn cefnogi datganiad y dylai holl breswylwyr Cymru allu pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ni waeth beth yw eu cenedligrwydd.

807. Mae'r dadleuon yn erbyn etholfreinio'r grŵp yn cynnwys y canlynol:

- gellir canfod bod pleidleisio'n arwydd o'r berthynas rhwng y dinesydd a'r genedl-wladwriaeth;
- mae hawliau dinesydd (gan gynnwys hawliau pleidleisio) yn gysylltiedig â chyfrifoldebau cyfatebol i genedl-wladwriaeth (er enghraifft, y cyfrifoldeb i fynd ar reithgor pan geir galwad, a bod yn bresennol cyhyd ag y bo'n angenrheidiol er mwyn dwyn rheithfarn).

808. Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, mae dadleuon cyfartal iawn ynghylch y mater hwn, ac efallai y bydd y Cynulliad am drafod y mater hwn ymhellach yn ystod ei waith craffu deddfwriaethol ar y Bil.

809. Fodd bynnag, at ddiben cyflwyno'r Bil, mae Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu nad oes consensws gwleidyddol clir ar hyn o bryd ar y mater hwn oherwydd cymhlethdod y dadleuon cyfartal iawn yn ei gylch. Yn niffyg consensws

¹⁸¹ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Comisiwn y Cynulliad, Ymgynghoriad ynghylch Creu Senedd i Gymru: Crynodeb o'r prif ganfyddiadau*, Gorffennaf 2018

o'r fath, nid yw'n briodol i gorff trawsbleidiol wneud newidiadau i'r gyfraith ar y mater hwn. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn cynnal sefyllfa bresennol gyfreithiol ar y mater hwn: h.y. na fyddai preswylwyr nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Yn anffodus, rhaid dilyn y dull hwn hefyd i breswylwyr 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, oherwydd y byddai'n gwbl amhriodol i bobl 16 a 17 oed gael yr hawl i bleidleisio, ac yna i'r hawl hon gael ei thynnu'n ôl yn 18 oed.

810. Mae perygl o hyd y gall pobl ifanc o'r fath deimlo eu bod yn cael eu heithrio neu y gwahaniaethir yn eu herbyn, oherwydd na fydd ganddynt hawl sydd gan eu cyfoedion. Fodd bynnag, rhagwelir y caiff y perygl hwn ei liniaru gan ymgyrchoedd addysg wleidyddol a gwybodaeth gyhoeddus (i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid i'r oedran pleidleisio) gan gynnwys esboniadau clir ynghylch pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Rhagwelir y bydd gwybodaeth o'r fath yn cynnwys manylion ynghylch sut y gallai pobl nad ydynt wedi'u hetholfreinio ar hyn o bryd fod yn gymwys i bleidleisio yn y dyfodol (h.y. drwy ddod yn ddinesydd Prydeinig). Bydd ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus hefyd yn nodi y bydd preswylwyr nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad ac nad ydynt wedi'u hetholfreinio ar hyn o bryd yn:

- cael pleidleisio dros gyrff nad oes ganddynt bwerau deddfu sylfaenol, mewn etholiadau i'r Senedd leuencid a llywodraeth leol (ar yr amod y caiff y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru, ei wneud yn ddeddf);
- yn dal i gael eu cynrychioli gan Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (yn yr un modd ag y byddai plant 15 oed ac iau);
- yn dal i gael cymryd rhan yn uniongyrchol yng ngwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddeisebau cyhoeddus a chymryd rhan mewn ymchwiliadau pwyllgor, ac ati.

811. Gellir nodi hefyd na fyddai'r Bil yn etholfreinio pobl 16 a 17 oed nad oes ganddynt yr hawl gyfreithiol i fod yn y DU wrth geisio cofrestru. Gall hyn gynnwys ceiswyr lloches (ffoaduriaid). Eto, rhagwelir y bydd ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus yn cynnwys esboniadau clir ynghylch pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad er mwyn lliniaru unrhyw ddryswch y gall hyn ei achosi.

17.5.1.3. Peidio ag etholfreinio carcharorion, gan gynnwys troseddwy'r ifanc

812. Grŵp arall o bobl 16 a 17 oed na fyddant yn cael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yw troseddwy'r ifanc. Nodir yn fanylach sail resymegol y Bil

dros beidio ag etholfreinio'r grŵp hwn yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a ganlyn.

813. Yn gryno, mae ystod sylweddol o faterion cyfreithiol, moesegol, democrataidd ac ymarferol, a materion o ran hawliau dynol, sy'n ymwneud â rhoi'r bleidlais i garcharorion. Mae angen ystyried y rhain yn fanwl a dod i benderfyniad yn eu cylch. Er i'r ymgynghoriad, sef *Creu Senedd i Gymru*, ddwyn sylw ar ystod o randdeiliaid cyfiawnder, carchar a chymorth i ddioddefwyr, dim ond 12 sefydliad a ymatebodd i gwestiynau ynghylch pleidleisio gan garcharorion, ac nid oedd yr un ohonynt yn cynrychioli carcharorion, carchardai na dioddefwyr trosedd. Mae hyn yn dangos yr angen am ragor o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth cyn y gellir dod i gasgliadau a ddylid rhoi'r hawl bleidleisio i garcharorion yng Nghymru ac, os felly, sut a phryd.

814. Fel y cyfryw, nid yw'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn ceisio mynd i'r afael â phleidleisio gan garcharorion, gan gynnwys pleidleisio gan droseddwyr ifanc. Yn lle hynny, ar 6 Medi 2018, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i nodi y byddai'n croesawu'n fawr i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i drafod yr egwyddor a ddylid caniatáu i garcharorion – gan gynnwys troseddwyr ifanc – bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Rhagwelir y bydd dadansoddiad y Pwyllgor o'r mater hwn yn sail dystiolaeth sylweddol i fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol, moesol, democrataidd, ymarferol a materion o ran hawliau dynol sy'n ymwneud â phleidleisio gan garcharorion – gan gynnwys pleidleisio gan droseddwyr ifanc – ac felly'n pennu'r potensial i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

815. Am y rheswm hwn, nid yw'r Bil yn estyn yr hawl i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad os cânt eu gwahardd rhag pleidleisio gan *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil yr angen i drafod ymhellach y materion cyfreithiol, moesol, democrataidd, ymarferol a materion o ran hawliau dynol cysylltiedig uchod.

816. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd troseddwyr ifanc mewn carchardai yn dal i gael y cyfle i ddysgu am bleidleisio drwy'r addysg a gânt yn y carchar. Er na fydd pobl ifanc o'r fath yn cael y cyfle i bleidleisio tra byddant yn y carchar, mae'n bwysig nodi y byddant yn cael pleidleisio ar ôl iddynt adael y carchar, felly ni ddylid gwrthod cyfleoedd iddynt ddysgu am eu hawliau pleidleisio.

17.5.1.4. Cofrestru i bleidleisio

817. Yn olaf, er y bydd y Bil yn etholfreinio'r rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed, gellir nodi nad yw'n wir y bydd yr holl bobl 16 a 17 etholfreiniedig, o reidrwydd, yn cofrestru i bleidleisio.

818. Mae tystiolaeth hanesyddol yn awgrymu bod unigolion â nodweddion gwarchoddedig yn llai tebygol o gofrestru i bleidleisio ac yn llai tebygol o arfer eu hawl i bleidleisio. Ym mis Medi 2018, lluniodd Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin bapur briffio¹⁸² a nododd y canlynol:

- roedd pobl ifanc yn llai tebygol na grwpiau oedran eraill o fod ar y gofrestr etholiadol ac o bleidleisio;
- roedd lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o fod ar y gofrestr etholiadol ac o bleidleisio, er bod ffactorau heblaw am eu hethnigrwydd yn debygol o esbonio hyn;
- roedd gweithwyr heb sgiliau a'r rhai di-waith yn y tymor hir hefyd yn llai tebygol o fod ar y gofrestr etholiadol ac o bleidleisio;
- roedd pobl ag anabledau corfforol yn fwy tebygol o gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol nag unrhyw grŵp arall, ond maent yn llai tebygol o bleidleisio.

819. Yn yr un modd, yn ei gyhoeddiad, sef *A yw Cymru'n Decach?: Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2015*,¹⁸³ nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol dystiolaeth o'r DU sy'n awgrymu bod pobl ifanc, pobl o rai lleiafrifoedd ethnig a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o gofrestru i bleidleisio na phersonau eraill. Yn amlwg, mae rhai pobl ifanc yn dod dan un neu ddau o'r categorïau olaf o bersonau, a all gynyddu ymhellach y tebygolrwydd na fyddant yn cofrestru i bleidleisio.

820. Mae hyn yn dangos bod rhai pobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl ifanc, yn llai tebygol o gofrestru i bleidleisio, yn llai tebygol o bleidleisio, ac yn fwy tebygol o gael trafferth wrth fwrw eu pleidlais.

821. Un o amcanion polisi y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yw galluogi ymgysylltiad tymor hwy, a pharhaus, â gwleidyddiaeth ddemocrataidd, gan gynnwys ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Yn refferendwm

¹⁸² Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Political disengagement in the UK: who is disengaged?](#) Papur briffio CBP-7501, Medi 2018.

¹⁸³ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, [A yw Cymru'n Decach?](#), Rhagfyr 2015

annibyniaeth yr Alban yn 2014, amcangyfrifwyd y pleidleisiodd 75 y cant o bobl 16 a 17 oed. I'r gwrthwyneb, canran y bobl 18-24 oed a bleidleisiodd (a fyddai wedi cael eu categoreiddio'n bobl "ifanc" yn hanesyddol) oedd 54 y cant.¹⁸⁴ Mae hyn yn awgrymu y gallai pobl 16 a 17 oed, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, fod yn fwy tebygol na phobl 18-24 oed o gofrestru a cheisio pleidleisio. Credir y gallai profiad cynnar o bleidleisio arwain at ymgysylltiad parhaus. Felly, gallai gostwng yr oedran pleidleisio – yn y tymor hwy – arwain at fwy o bobl yn pleidleisio, gan gynnwys ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

822. Gall ymgyrch i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid yn yr oedran pleidleisio, a'r addysg gysylltiedig ynghylch hawliau pobl 16-17 oed i bleidleisio, gael effaith fuddiol hefyd ar gynyddu nifer y bobl mewn grwpiau â nodweddion gwarchoddedig sy'n cofrestru i bleidleisio

823. Mae'r thema "Dinasyddiaeth Weithgar" yn y fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) presennol, y ddogfen allweddol y dylai ysgolion a cholegau ei defnyddio i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth ABCh bresennol i blant rhwng 7 a 19 oed, yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai hyn olygu bod y rhan hon o'r boblogaeth yn fwy ymwybodol o faterion gwleidyddol.

824. Rhagwelir hefyd, wrth ddatblygu adnoddau addysg, y rhoddir sylw arbennig i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, pobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol, a phobl ifanc a addysgir gartref. Mae'n bwysig na chaiff personau o'r fath eu heithrio'n anfwriadol rhag pleidleisio, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a deunyddiau addysg.

825. O dan adran 19 o *Ddeddf Addysg 1996*, mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu bod addysg addas, heblaw addysg yn yr ysgol, yn cael ei darparu i blant o oedran ysgol gorfodol na chaiff addysg addas oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, oni bai y gwneir trefniadau o'r fath iddynt. Felly, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu addysg addas y tu allan i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol na chaiff addysg ar faterion pleidleisio fel arall.

826. Un grŵp o bobl ifanc y mae'n bosibl na chaiff eu cynnwys mewn ymgyrch gofrestru leol fyddai pobl ifanc o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, fel rhan o'i gyfrifoldebau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o etholiadau, mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda'r Mudiad Teithwyr i annog pobl i gofrestru.

¹⁸⁴ Y Comisiwn Etholiadol, *Scottish Independence Referendum: Report on the Referendum Held on 18 September 2014 (Saesneg yn unig)*, Rhagfyr 2014

Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i wneud yr un peth yn y canfasiad ar gyfer 2020.

17.5.1.5. Anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad

827. Gellir gwneud dadl betrus y gallai anghymhwys aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod hefyd yn Aelodau'r Cynulliad ar yr un pryd gael mwy o effaith ar bobl hŷn, ac y gallai ostwng oedran cyfartalog Aelodau'r Cynulliad (pe na fyddai aelodau o'r fath yn cael caniatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi). Y rheswm am hyn yw mai 53 yw oedran cyfartalog Aelod yn y Cynulliad Cenedlaethol¹⁸⁵ ac mai 70 yw oedran cyfartalog aelod o Dŷ'r Arglwyddi yn ystod yr un cyfnod.¹⁸⁶

828. Fodd bynnag, oherwydd y byddai gan aelodau o Dŷ'r Arglwyddi y mae'r anghymhwysiad hwn yn effeithio arnynt yr opsiwn i gael caniatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi, neu ymdddeol neu ymddiswyddo fel arall fel aelod o Dŷ'r Arglwyddi, ystyrir bod effaith yr anghymhwysiad hwn o ran oedran yn ddibwys. Mae nifer y personau yr effeithir arnynt hefyd yn debygol o fod yn isel iawn.

17.5.2. Anabledd

17.5.2.1. Cofrestru i bleidleisio

829. Yn ei adroddiad, sef *Etholiadau i bawb: Profiadau pobl ag anabledau yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin 2017*, nododd y Comisiwn Etholiadol yr anawsterau a wynebwyd gan bobl anabl wrth arfer eu hawl i bleidleisio, ac mae'n argymhell y "dylai'r Llywodraeth ystyried ffyrdd gwahanol y gall pobl ag anabledau bleidleisio er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis iddynt".¹⁸⁷

830. Nid ystyrir y bydd unrhyw un o'r newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad sy'n deillio o'r Bil hwn yn cael effaith uniongyrchol mewn perthynas ag anabledd.

831. Bydd y cymorth presennol i helpu pobl ag anabledau i gofrestru a phleidleisio yn estyn i bobl 16 a 17 oed. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Cofrestru Digidol y DU yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen o gyfarwyddiadau ar gyfer

¹⁸⁵ Gwybodaeth a roddwyd gan dîm Cymorth Busnes i Aelodau'r Cynulliad, Tachwedd 2018.

¹⁸⁶ Gwybodaeth a roddwyd gan y Gwasanaeth Ymholiadau, Negeseuon Allanol Tŷ'r Arglwyddi, Medi 2018.

¹⁸⁷ Y Comisiwn Etholiadol, *Etholiadau i bawb: Profiadau pobl ag anabledau yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8 Mehefin 2017*, Tachwedd 2017, t.1

defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau i bleidleisio sy'n nodi sut y gall pleidleiswyr anabl gael help i fwrw eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol neu bleidleisio drwy ddirprwy.¹⁸⁸

832. Gall pleidleiswyr anabl wneud y canlynol:

- gofyn i Swyddog Llywyddu'r orsaf bleidleisio farcio'r papur pleidleisio drostynt;
- dod â rhywun i'r orsaf bleidleisio i'w helpu i bleidleisio;
- defnyddio dyfais blastig a gaiff ei gosod ar y papur pleidleisio i'w helpu i bleidleisio;
- gweld fersiwn print bras o'r papur pleidleisio.

833. Cynghorau sy'n penderfynu ymhle i osod gorsafoedd pleidleisio yn eu hardal. Wrth wneud hynny, mae angen iddynt ystyried mynediad i bleidleiswyr anabl. Os na all rhywun fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio oherwydd anabledd corfforol, gall Swyddog Llywyddu ei orsaf bleidleisio fynd â'r papur pleidleisio ato.

834. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried newidiadau i ddulliau a threfniadau pleidleisio a fyddai, os cânt eu gweithredu a'u cymhwyso i etholiadau'r Cynulliad, yn helpu i fynd i'r afael â rhwystrau rhag pleidleisio, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag anabledd yn benodol.

835. Ar ôl y ddau ymarfer ymgynghori ac ymchwil, nid ystyrir bod y newidiadau polisi a ganlyn y mae'r Bil yn eu gweithredu yn cael effaith wahaniaethol mewn perthynas ag anabledd:

- enw'r Cynulliad;
- dyletswydd ar y Senedd i ystyried trefniadau ariannol a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol;
- gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli'r gyfraith etholiadol;
- dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad;
- pwerau Comisiwn y Cynulliad;

¹⁸⁸ Y Comisiwn Etholiadol, <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr>

-
- etholfraint: yr oedran pleidleisio isaf yn 16;
 - anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad.

17.5.3. ailbennu rhywedd/hunaniaeth rywedd

836. Ar ôl yr ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

17.5.4. Priodas a phartneriaeth sifil

837. Ar ôl yr ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

17.5.5. Beichiogrwydd a mamolaeth

838. Ar ôl yr ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

17.5.6. Hil

17.5.6.1. Cofrestru i bleidleisio

839. Er y bydd yr etholfraint yn cael ei hestyn i bobl 16 a 17 oed, bydd y categorïau presennol o bobl na chânt bleidleisio'n parhau. Felly, dim ond dinasyddion o Brydain a'r UE a dinasyddion cymhwysol y Gymanwlad fydd yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Ni fydd pobl nad ydynt o'r Gymanwlad na'r UE sy'n byw yng Nghymru yn cael pleidleisio (pobl 16 a 17 oed ac oedolion). Gallai'r rhai nad ydynt yn cael eu hetholfreinio hefyd gynnwys ffoaduriaid a phobl 16 a 17 oed o gymunedau Pobl Dduon a Lleafrifoedd Ethnig. Er mwyn helpu i liniaru effeithiau posibl sy'n deillio o beidio ag etholfreinio'r grwpiau hyn, bydd ymgyrchoedd addysg wleidyddol a chyfathrebu yn egluro pwy gaiff bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad er mwyn i bobl ifanc sy'n perthyn i grwpiau o'r fath ac eraill ddeall eu hawliau'n glir.

840. Fel y nodwyd uchod, yn ei gyhoeddiad, sef *A yw Cymru'n Decach?: Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2015*,¹⁸⁹ nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a

¹⁸⁹Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *A yw Cymru'n Decach?*, Rhagfyr 2015

Hawliau Dynol dystiolaeth o'r DU sy'n awgrymu bod pobl o rai lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gofrestru i bleidleisio na phersonau eraill.

841. Nid yw'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn cynnwys darpariaethau y bwriedir yn uniongyrchol iddynt fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall ymgyrch ac addysg eang sy'n anelu at hybu ymwybyddiaeth o hawl pobl ifanc i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad gael effaith gadarnhaol ar y mater hwn yn anuniongyrchol, gan y bydd yn cael ei gyfeirio at yr holl bobl ifanc, gan gynnwys y rhai o leiafrifoedd ethnig. Hefyd, os bydd pobl ifanc yn penderfynu cofrestru i bleidleisio - o ganlyniad i weithgareddau addysg a chodi ymwybyddiaeth - mae'n bosibl y gall hyn annog aelodau hŷn o'r teulu i gofrestru i bleidleisio.

842. Ar ôl yr ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn, a gall gael effaith gadarnhaol yn anuniongyrchol.

17.5.7. Crefydd a chred neu ddiffyg cred

843. Ar ôl yr ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

844. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y bydd modd i ddeunyddiau addysg a ddatblygir i helpu pobl ifanc ddysgu am eu hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad gael eu haddasu yn ôl amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys addysg yn y cartref.

17.5.8. Rhyw

845. Gellid gwneud dadl betrus yn ddamcaniaethol y bydd gwahardd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn cael effaith anghymesur ar ddynion yn hytrach nag ar fenywod. Y rheswm am hyn yw bod 584 o aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn ddynion, a bod 207 o aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn fenywod (ffigurau mis Medi 2018).¹⁹⁰ Fodd bynnag, oherwydd y byddai gan aelodau o Dŷ'r Arglwyddi y mae'r anghymhwysiad hwn yn effeithio arnynt yr opsiwn i gael caniatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi, neu ymddeol neu ymddiswyddo fel arall fel aelod o Dŷ'r Arglwyddi, ystyrir bod effaith yr anghymhwysiad hwn o ran oedran yn ddibwys. Mae nifer y personau yr effeithir arnynt hefyd yn debygol o fod yn isel iawn.

¹⁹⁰ Gwybodaeth a roddwyd gan Wasanaeth Ymholiadau Cyfathrebu Allanol Tŷ'r Arglwyddi, 9 Medi 2018.

846. Fel y cyfryw, ar ôl yr ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

17.5.9. Cyfeiriadedd rhywiol

847. Ar ôl yr ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl yn y grŵp gwarchoddedig hwn.

17.5.10. Pobl â chyfrifoldebau gofalu a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol

848. Er nad yw wedi'i gynnwys dan nodweddion gwarchoddedig o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*, ystyriwyd a all y Bil gael effaith wahaniaethol ar bobl â chyfrifoldebau gofalu neu bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol.

849. Nid yw pawb yn gymwys i fod yn Aelod Cynulliad. Mae rhestr o rai o'r meini prawf sy'n anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad wedi'i chynnwys yn adrannau 16 i 19 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Er enghraifft, ni chaniateir i Aelodau Seneddol fod yn Aelodau'r Cynulliad ar yr un pryd, na barnwyr, gweision sifil, swyddogion y Cynulliad, na swyddogion cyhoeddus, megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nodir meini prawf eraill sy'n anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth, er enghraifft Gorchmynion Anghymhwys.

850. Caiff person ei anghymhwys rhag bod yn Aelod Cynulliad os yw'n dal un o'r swyddi sy'n anghymhwys pan gaiff ei enwebu i sefyll etholiad i fod yn Aelod Cynulliad. Pan gânt eu henwebu, rhaid i'r ymgeiswyr wneud datganiadau ffurfiol nad ydynt wedi'u hanghymhwys rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad. Os ydynt yn ymwybodol eu bod yn dal unrhyw un o'r swyddi sy'n anghymhwys, ni ddylent dderbyn enwebiad fel ymgeiswyr i fod yn Aelodau'r Cynulliad nes iddynt ymddiswyddo o'r swyddi sy'n anghymhwys.

851. Yn 2014, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i'r modd y mae'r trefniadau anghymhwys yn

gweithio. Cyhoeddodd adroddiad¹⁹¹ a wnaeth nifer o argymhellion ar sut y dylid newid y trefniadau cyfreithiol fel eu bod yn gweithio'n fwy effeithiol:

852. Byddai un o'r newidiadau a gynigir gan y Pwyllgor yn ei adroddiad yn golygu y dylai anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad ddod i rym ar ôl tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch fel Aelod Cynulliad, yn amodol ar ychydig o eithriadau oherwydd natur y swyddi a wneir. Roedd y Pwyllgor yn credu y byddai hyn yn newid sylweddol a fyddai'n galluogi mwy o bobl i sefyll etholiad oherwydd na fydd angen iddynt roi'r gorau i'w cyflogaeth er mwyn gwneud hynny. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, felly gellid ystyried y byddai'n lleihau neu'n dileu rhwystr posibl rhag sefyll etholiad a, thrwy hynny, gynyddu'r posibilrwydd o sicrhau cynrychiolaeth amrywiol. Mae'r Bil yn rhoi effaith i'r ddarpariaeth hon.

17.6. Hawliau Dynol

853. Rhaid i Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.¹⁹²

854. Mae nifer o ddarpariaethau'r Bil y mae Hawliau'r Confensiwn yn berthnasol iddynt, neu y gallant fod yn berthnasol iddynt.

17.6.1. Yr etholfraint

855. Mae adran 10 o'r Bil yn estyn yr etholfraint ar gyfer pleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i bobl 16 a 17 oed. Er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio, rhaid i bobl 16 neu 17 oed fodloni'r un meini prawf (ac eithrio oed) â pherson sy'n 18 oed neu'n hŷn.

856. Ar sail yr etholfraint bresennol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ni fyddai gan y grwpiau a ganlyn hawl i bleidleisio:

- carcharorion a ddedfrydwyd sydd wedi'u gwahardd rhag pleidleisio gan adran 3 o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*;
- pobl sy'n byw yng Nghymru, ond nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig, yn ddinasyddion cymhwysol y Gymanwlad nac yn ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

¹⁹¹ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Pedwerydd Cynulliad), [Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Gorffennaf 2014

¹⁹² Deddf Llywodraeth Cymru 2006, is-dran 108A(2)(e)

857. Ystyriwyd a yw gwahardd y grwpiau hyn yn gyson ag Erthygl 3 o Brotocol 1 i'r *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol* (yr hawl i etholiadau rhydd a theg) os ystyrir ei bod yn berthnasol.

858. Mae dyfarniadau olynol Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi canfod bod y Deyrnas Unedig yn torri Erthygl 3 o Brotocol 1 oherwydd na chaiff carcharor sy'n cael dedfryd i gyfnod yn y carchar bleidleisio tra ei fod yn y carchar. Y prif achos yw *Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig* (Rhif 2) yn 2005.¹⁹³ Er bod gan wladwriaethau lwfans dehongli eang yn y maes hwn, natur lwyr y gwaharddiad a wrthwynebir.

859. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i roi'r hawl i garcharorion bleidleisio ym mhob etholiad yn y DU os ydynt ar drwydded dros dro neu dan gyrffyw lle maent yn cael eu cyfyngu i'r cartref. Hefyd, yn y dyfodol, caiff ei gwneud yn gliriach wrth ddedfrydu bod mynd i'r carchar yn golygu colli'r hawl i bleidleisio.

860. Mae Cyngor Ewrop, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop, wedi cymeradwyo dull Llywodraeth y DU fel ymateb cymesur.

861. Rhagwelir y bydd y trefniadau gweinyddol newydd, sy'n galluogi rhagor o garcharorion i bleidleisio, ar waith cyn cynnal yr etholiadau cyntaf o dan y Bil.

862. Hefyd, mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad wedi cytuno (ar gais y Llywydd) i gynnal archwiliad o bleidleisio gan garcharorion yng ngwanwyn 2019, a fydd yn llywio trafodaethau am etholfraint y Cynulliad a llywodraeth leol yn y dyfodol.

863. Nid ystyrir bod Erthygl 3 o Brotocol 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Wladwriaethau sy'n Barti i'r Confensiwn ganiatáu i bobl nad ydynt yn ddinasyddion o'r Wladwriaeth honno bleidleisio mewn etholiadau seneddol. Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop¹⁹⁴ yn caniatáu lwfans dehongli eang i Wladwriaethau mewn perthynas ag Erthygl 3 ac mae'n debygol o ganiatáu un arbennig o eang mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch pa wladolion tramor preswyl, os oes rhai, y caniateir iddynt bleidleisio yn eu hetholiadau deddfwriaethol.

864. Yn yr un modd, nid ystyrir y gweithredir yn groes i Erthygl 3 o Brotocol 1 ynghyd ag Erthygl 14 (diogelu rhag gwahaniaethu), sef honni gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail cenedligrwydd. Mae'n bwysig nodi bod Erthygl 16 o'r Confensiwn yn pennu nad oes dim yn Erthyglau 10, 11 na 14 yr ystyrir ei fod yn atal

¹⁹³ *Achos Hirst yn erbyn y Deyrnas Unedig* (Rhif 2) Llys Hawliau Dynol Ewrop 681 (6 Hydref 2005)

¹⁹⁴ *Achos Davydov ac eraill yn erbyn. Rwsia*, rhif 75947/11, ECHR 2017 (30 Mai 2017)

Uwchbartion Contract rhag gosod cyfyngiadau ar weithgarwch gwleidyddol estroniaid. Er nad yw Erthygl 16 yn cyfeirio at Erthygl 3 o Brotocol 1, ymddengys ei bod yn nodi dull cyffredinol y Confensiwn ar gyfer y pwnc.

865. Er y bydd y Bil yn cadw'r sefyllfa bresennol lle y caniateir i ddinasyddion y Gymanwlad a dinasyddion gwledydd eraill yr UE sefyll a phleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad, mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu'r cytundebau cyfatebol¹⁹⁵ sydd ar waith gyda gwledydd yr UE a'r Gymanwlad – mewn geiriau eraill, caiff eu dinasyddion hwy bleidleisio yn etholiadau'r DU a chaiff dinasyddion y DU bleidleisio yn eu rhai hwy.

17.6.1.1. Rhannu data

866. Gall Erthygl 8 o'r Confensiwn (yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol) fod yn berthnasol i rannu cofrestrau etholiadol. Fodd bynnag, mae'r Bil yn gosod rhagor o gyfyngiadau ar argaeledd a defnyddio data am bobl o dan 16 oed.

867. Dim ond Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff fydd yn gallu cael gafael ar y data ar y rhai o dan 16 oed a defnyddio'r data hynny. Fodd bynnag, gellir datgelu'r data i'r unigolyn ei hun neu at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol sy'n ymwneud â throsedd etholiadol. Ni fydd y rhai o dan 16 oed yn ymddangos ar fersiwn gyhoeddedig o'r gofrestr, ac eithrio mewn amgylchiadau a ddiffiniwyd yn fanwl. Yr eithriad i'r egwyddor gyffredinol honno fydd hawl swyddogion canlyniadau, y Comisiwn Etholiadol a grwpiau penodol eraill i gael copi o'r gofrestr a fydd yn cynnwys manylion am yr holl bobl sydd â hawl i bleidleisio yn y digwyddiad etholiadol.

868. Mae datgelu data o'r fath, fel y'i galluogir gan y Bil, yn mynd ar drywydd amcanion dilys o dan Erthygl 8(2), yn bennaf i amddiffyn hawliau pobl eraill drwy sicrhau tegwch yn yr etholiad sy'n defnyddio'r data. Drwy ganiatáu i bobl benodol yn unig gael gafael ar y data hynny, dan gamau diogelu, mae'r darpariaethau'n taro'r cydbwysedd cywir rhwng bywyd preifat yr unigolion ifanc ar y gofrestr a budd y cyhoedd wrth gynnal etholiadau.

17.6.2. Anghymhwysu

869. Mae adrannau 29 i 34 o'r Bil yn sefydlu fframwaith anghymhwysu newydd. Mae pobl sydd â rolau penodol (nad ydynt yn gydnaws â bod yn Aelod Cynulliad) wedi'u hanghymhwysu rhag sefyll etholiad i'r Cynulliad, a chaiff eraill eu

¹⁹⁵ Cweler, er enghraifft, Erthygl 20 (2)(b) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (Saesneg yn unig).

hanghymhwysu rhag tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch fel Aelodau'r Cynulliad.

870. Os bydd y darpariaethau'n berthnasol i Erthygl 3 o Brotocol 1, nid ystyrir eu bod yn ei thorri. Mae paragraffau 863 ac 864 yn nodi sut y credir y bydd y Llys yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag Erthygl 3. Bwriedir i'r fframwaith anghymhwysu newydd gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau i'r Cynulliad drwy alluogi ymgeiswyr i ymddiswyddo dim ond ar ôl iddynt gael eu hethol yn llwyddiannus, lle y bu'n ofynnol iddynt, hyd yn hyn, ymddiswyddo cyn dod yn ymgeisydd.

871. Er bod y Bil yn gosod cyfyngiadau mwy o ran dau gategori o swyddi, sef Arglwydd Raglawiaid (a swyddi tebyg) ac Arglwyddi. Bwriad hyn yw diogelu'r system gyfan rhag gwrthdaro buddiannau, ac mae'r cynnig yn gymesur â'r nod hwnnw.

872. Nid ystyrir y gweithredir yn groes i Erthygl 3 o Brotocol 1 ynghyd ag Erthygl 14 (diogelu rhag gwahaniaethu), sef honni gwahaniaethu anghyfreithlon rhwng deiliaid y swyddi sy'n rhwystr rhag sefyll fel ymgeisydd a'r rhai sy'n rhwystr rhag bod yn Aelod; nac o ran y ddau fath o ddeiliaid swyddi y bydd y Bil yn gosod cyfyngiadau newydd neu fwy arnynt. Roedd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad yn nodi cyfiawnhad clir a rhesymol dros wahaniaethu rhwng y ddau gategori o ymgeisydd ac am osod cyfyngiadau mwy ar aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a'r Arglwydd Raglawiaid ac ati, yn seiliedig ar yr amcan dilys, sef cynyddu cyfranogiad yn y broses etholiadol a diogelu'r system gyfan rhag gwrthdaro buddiannau, ac mae'r cynigion yn gymesur â'r nodau hynny.¹⁹⁶

17.7. Crynodeb o effaith y Bil ar gydraddoldeb

873. Nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effeithiau negyddol ar gydraddoldeb.

874. Credir y bydd y ddarpariaeth i estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i bobl 16 a 17 oed yn cynyddu cyfle cyfartal o ran cyfrannu at benderfyniadau, cyfranogiad gwleidyddol a dinesig ac yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ganlyniad i hynny.

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (Y Pedwerydd Cynulliad), [Ymchwiliad i anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Gorffennaf 2014

18. Asesiad o'r Effaith ar Ieithoedd Swyddogol

18.1. Dyddiad yr asesiad effaith

875. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

18.2. Diben yr asesiad effaith

876. Cynhaliwyd yr asesiad hwn o'r effaith ar ieithoedd swyddogol yn unol â gofynion Atodlen 2, paragraff 8 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

877. Diben yr asesiad hwn o'r effaith ar ieithoedd swyddogol yw ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar ddwy iaith swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef y Gymraeg a'r Saesneg, ac ystyried newidiadau sydd eu hangen ar y Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar yr ieithoedd hynny.

18.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

878. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol hefyd â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, i lywio datblygiad yr asesiad effaith hwn.

18.4. Yr effeithiau ar yr ieithoedd swyddogol

879. Ar sail yr ymarferion ymgynghori uchod ac ymchwil a wnaed gan swyddogion y Comisiwn, nid ystyrir bod nifer o ddarpariaethau'r Bil yn cael effaith sylweddol ar y naill na'r llall o ieithoedd swyddogol y Cynulliad. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad;
- anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad;
- dyletswydd ar y Senedd i ystyried trefniadau ariannol a goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol;
- dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad;

-
- egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau.

880. Caiff y darpariaethau hyn, a'r sail resymegol dros beidio ag ystyried eu bod yn cael effaith sylweddol ar y naill neu'r llall o ieithoedd swyddogol y Cynulliad, eu trafod yn eu tro isod.

18.5. Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

881. Ymgynghorodd Comisiwn y Cynulliad rhwng 12 Chwefror a 6 Ebrill 2018 ar gynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol a mewnol y Cynulliad. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch pwy ddylai bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, gan gynnwys a ddylid estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed, gwladolion tramor a chategoriâu penodol o garcharorion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i gwestiynau ynghylch yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn teimlo y dylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16.

882. Mae'r newidiadau i etholfraint y Cynulliad a gynigir yn y Bil hwn yn ymwneud â Chymru gyfan a byddent yn effeithio ar bob cymuned ddaearyddol yn yr un ffordd, ni waeth beth yw ei phroffil ieithyddol.

883. Yn ôl canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion, ym mis Gorffennaf 2018, roedd 30,010 o ddisgyblion yn mynd i ysgolion uwchradd lle mai'r Gymraeg:

- oedd yr unig gyfrwng neu'r prif gyfrwng addysgu; neu
- oedd y cyfrwng addysgu ar gyfer rhan o'r cwricwlwm.¹⁹⁷

884. Bydd gwasanaethau etholiadol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn parhau i gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel y maent ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol Cymru yn darparu gwasanaethau etholiadol i ddinasyddion ac yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, felly dylent ddarparu gwasanaethau etholiadol presennol neu newydd yn Gymraeg. Mae'n bosibl y bydd effaith ar awdurdodau lleol o ran costau cyfieithu uwch i ddarparu gwasanaethau etholiadol yn Gymraeg i ragor o etholwyr. Fel y nodwyd o'r blaen, rhagwelir y bydd 69,029 o etholwyr newydd yn cael eu hychwanegu at gofrestrau etholiadol drwy ostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 18 i 16. Mae'n rhesymol tybio y byddai'n well gan gyfran o'r bobl ifanc hyn ddefnyddio gwasanaethau etholiadol yn Gymraeg.

¹⁹⁷ Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, 25 Gorffennaf 2018

885. Hefyd, mae'r Comisiwn Etholiadol yng Nghymru yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Byddai'n bartner allweddol wrth gyfleu'r newidiadau arfaethedig i'r etholfraint. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymrwymedig i weithredu'n ddwyieithog. Mae ganddo swyddog Cymraeg, a Bwrdd Cynghori ar y Gymraeg. Yn ei adroddiad ar etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2016, cyfeiriodd y Comisiwn Etholiadol at rai o'i weithgareddau codi ymwybyddiaeth dwyieithog cyn etholiadau'r Cynulliad. Roeddent yn cynnwys:

- hysbysebu ar draws y cyfryngau cymdeithasol, sianeli gwefan, teledu a radio;
- llyfryn i bob aelwyd yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am gofrestru i bleidleisio; sut i lenwi papurau pleidleisio, sut i bleidleisio ac ati;
- datblygu gwefan fymhleidlaisi.co.uk i gynnwys rhagor o wybodaeth leol.

886. Rhagwelir y bydd ymgyrchoedd dwyieithog tebyg yn cael eu cynnal cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

887. Er mwyn cefnogi estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed, byddai ymgyrch addysg yn cael ei datblygu i'w defnyddio mewn ysgolion. Byddai hyn yn golygu darparu deunyddiau dysgu ychwanegol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau addysg. Byddai adnoddau o'r fath yn cael eu creu'n ddwyieithog yn unol â'r dyletswyddau statudol ar y sefydliadau perthnasol sy'n eu creu, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol. Felly, gellid dadlau y gallai gostwng yr oedran pleidleisio gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'r Saesneg drwy ychwanegu at nifer ac ansawdd y deunyddiau sydd ar gael yn y ddwy iaith. Ni fyddai effaith wahaniaethol mewn perthynas â'r ieithoedd hynny.

18.6. anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad

888. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i newid y gyfraith ynghylch anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad. Ystyrir na fyddai'r cynigion polisi hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg na'r Saesneg.

889. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i anghymhwys aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad. Gwnaed pob ymdrech i ganfod cyfran yr aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sy'n siarad Cymraeg er mwyn canfod a oes perygl o effaith anghymesur bosibl ar y Gymraeg o ganlyniad i'r anghymhwysiad ychwanegol hwn. Fodd bynnag, nid yw Tŷ'r Arglwyddi yn cadw gwybodaeth o'r fath am ei arglwyddi, felly nid yw'n bosibl rhagweld effaith o'r fath.

18.7. Yr angen am ddyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig

890. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig. Mae'r darpariaethau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol ymateb i argymhellion a wneir gan y Senedd yn sgil arfer y ddyletswydd hon.

891. Nid ystyrir bod y ddarpariaeth hon yn debygol o gael effaith sylweddol ar ieithoedd swyddogol y Cynulliad. Pe bai'r Cynulliad yn cysylltu â rhanddeiliaid wrth ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo gwaith y Comisiwn Ewropeaidd, byddai'r Cynulliad yn cyfathrebu yn ei ddwy iaith swyddogol a byddai'r rhanddeiliaid hynny'n gallu darparu tystiolaeth yn y naill iaith neu'r llall, neu'r ddwy iaith. Byddai adroddiadau a gâi eu cyhoeddi gan y Cynulliad yn sgil ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo gwaith y Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn unol â gofynion ei Gynllun Ieithoedd Swyddogol.

892. Fodd bynnag, gellid dadlau, pe bai ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo gwaith y Comisiwn Ewropeaidd yn golygu y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn dod yn atebol i'r Cynulliad am ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru, y gall hyn gael goblygiadau cadarnhaol i'r Gymraeg. Y rheswm dros hyn yw, wrth arfer y ddyletswydd hon, y gallai'r Cynulliad ystyried i ba raddau y cynhelir etholiadau mewn modd sy'n diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg.

18.8. Dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad

893. Nid ystyrir bod darpariaethau sy'n ymwneud â'r mater hwn yn effeithio mewn unrhyw fodd ar ieithoedd swyddogol y Cynulliad.

18.9. Egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau

894. Nid ystyrir bod darpariaethau sy'n ymwneud â'r mater hwn yn effeithio mewn unrhyw fodd ar ieithoedd swyddogol y Cynulliad.

18.10. Enw'r Cynulliad

895. Disgwylir i ddau fater gael effaith wahaniaethol mewn perthynas â'r ieithoedd swyddogol:

- enw'r Cynulliad,
- darpariaethau i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

896. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i newid enw'r Cynulliad. I gael gwybodaeth gefndir am y mater hwn, darllenwch adran 4.2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

897. Cytunodd mwy na thri o bob pump (60.9 y cant) o ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad ynghylch newid enw'r Cynulliad y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw. Cytunodd mwyafrif (80.1 y cant) o'r ymatebwyr â'r datganiad, sef bod "enw sefydliad yn bwysig i egluro'r hyn y mae'n ei wneud".

898. Wrth ystyried yr enw priodol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gellir nodi'r canlynol:

- cytunodd 73.2 y cant o'r ymatebwyr mai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" fyddai'n disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru orau;
- cytunodd 69 y cant mai enw dwyieithog sy'n cynnwys "Welsh Parliament" a "Senedd Cymru" fyddai'n disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru orau;
- roedd 53 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r enw Cymraeg yn unig, sef "Senedd", yn disgrifio rôl a chyfrifoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarnhaol;
- roedd 38 y cant o blaid enw dwyieithog sy'n cynnwys "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a "National Assembly for Wales".

899. Bwriad gwreiddiol Comisiwn y Cynulliad oedd newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Senedd Cymru / Welsh Parliament", gan adlewyrchu barn yr ymatebwyr.

900. Fodd bynnag, fel y nodir ym Mhennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn (Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud), pan drafododd yr Aelodau gynnig sy'n gofyn am gytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil arfaethedig y Comisiwn, awgrymodd nifer o Aelodau'r Cynulliad y dylai'r Cynulliad gael ei ailenwi yn "Senedd".

901. Canfu ymgysylltiad rhwng y Llywydd (fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad) ac Aelodau unigol y Cynulliad a grwpiau'r pleidiau fod gan yr enw uniaith, sef "Senedd", fwy o gefnogaeth ymhlith Aelodau'r Cynulliad nag unrhyw un o'r enwau eraill a ystyriwyd, gan gynnwys Senedd Cymru/Welsh Parliament.

902. Ar y sail hon, penderfynwyd newid enw'r Cynulliad ac y byddai'r Bil, wrth ei gyflwyno, yn cynnig yr enw "Senedd". Mae'r ddarpariaeth yn y Bil sy'n pennu y bydd y Cynulliad yn cael ei alw'n "Senedd" hefyd yn darparu y caiff y Senedd ei galw'n "Welsh Parliament". Bydd defnyddio "Welsh Parliament" ochr yn ochr â'r enw "Senedd" yn cynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r gair Cymraeg i ddeall ystyr yr enw a bydd yn pwysleisio ymhellach statws cyfansoddiadol y sefydliad fel senedd genedlaethol i Gymru.

903. Ers 1 Mawrth 2006, mae'r Cynulliad wedi'i leoli mewn adeilad o'r enw y Senedd. Defnyddir y term "Senedd" yn eang yn y cyfryngau ar hyn o bryd i gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad, nid yr adeilad yn unig. Ystyrir y bydd defnyddio enw sydd eisoes yn gyfarwydd yng Nghymru yn helpu i feithrin cydnabyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o waith ein senedd genedlaethol ar wahân i waith Llywodraeth Cymru.

904. Mae mabwysiadu enw uniaith yn gyfle i gynyddu proffil a statws y Gymraeg a'r defnydd ohoni yng Nghymru a'r tu hwnt a normaleiddio'r term. Roedd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn awgrymu teitlau Cymraeg yn unig ar gyfer uwch swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol: Llywydd), Dirprwy Lywydd ac Aelod Cynulliad. Wrth gynnig enwau Cymraeg yn unig ar gyfer y sefydliad ac uwch swyddogion, cymharodd rhai ymatebwyr hyn â defnyddio'r gair Gwyddeleg yn unig, sef "Oireachtas", yn enwau Saesneg a Gwyddeleg Senedd Iwerddon ("Houses of the Oireachtas" a "Tithe an Oireachtas" yn ôl eu trefn), lle mae gan uwch swyddogion deitlau Gwyddeleg yn unig. Enwau Gwyddeleg yn unig, sef "Dáil Éireann" a "Seanad Éireann", sydd gan ddau dŷ'r Oireachtas. Mae'r rhain yn enwau Gwyddeleg yn unig sy'n cael eu defnyddio a'u deall yn eang yn Iwerddon a'r tu hwnt.

905. Mae'r enw "Senedd" hefyd yn perthyn i deulu rhyngwladol o enwau megis "Senate" a "Seanad" sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio deddfwrfeydd cenedlaethol neu rannau o ddeddfwrfeydd. Yn hynny o beth, byddai ailenwi'r Cynulliad yn Senedd yn rhoi enw i'r sefydliad a fyddai'n hawdd ei adnabod mewn rhai rhannau o'r byd fel cyfeiriad at ddeddfwrfa genedlaethol, seneddol.

906. Yn unol â gofynion *Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012*, mae Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu Cynllun leithoedd Swyddogol. Cytunodd y Comisiwn ar y cynllun presennol ddechrau'r Pumed

Cynulliad ym mis Gorffennaf 2017.¹⁹⁸ Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg i adlewyrchu statws cyfartal ieithoedd swyddogol y Cynulliad. Mae adran 13.2 o'r cynllun yn nodi'r canlynol:

“Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn un ddwyieithog. Fodd bynnag, adnabyddir rhai termau gan un enw yn y ddwy iaith swyddogol, gan gynnwys y rhai a ganlyn:

- Llywydd
- Senedd, Neuadd, Cwrt, Oriel, Siambr;
- Tŷ Hywel; Siambr Hywel; a
- Pierhead.”

907. Byddai mabwysiadu'r enw “Senedd” yn darparu un enw newydd ar gyfer y Cynulliad i'w ddefnyddio yn nwy iaith swyddogol y Cynulliad yn yr un modd â'r enwau uchod.

908. Caiff y dull hwn ei ddefnyddio mewn deunydd brandio sy'n gysylltiedig â'r newid enw ac ar wybodaeth gyhoeddus megis arwyddion, gan ddangos bod y term “Senedd” yn adlewyrchu rôl y sefydliad fel Senedd Cymru.

909. Gellir dadlau nad yw mabwysiadu term Cymraeg (h.y. Senedd) fel enw newydd y Cynulliad yn adlewyrchu statws cyfartal dwy iaith swyddogol y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad i adlewyrchu statws cyfartal y ddwy iaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy iaith gael eu trin yn union yr un ffordd, fel y dangosir gan y rhestr o enwau uchod sy'n ymwneud â'r Cynulliad. Ystyrir y bydd mabwysiadu term Cymraeg fel enw newydd y Cynulliad, i'w ddefnyddio yn nwy iaith swyddogol y Cynulliad, yn helpu i gyflawni statws mwy cyfartal i'r ddwy iaith gyda threigl amser, o ran y defnydd ohonynt a'u proffil. Mae'r Bil hefyd yn darparu y bydd y Senedd hefyd yn cael ei galw'n Welsh Parliament, sy'n lliniaru effeithiau'r ddadl hon ymhellach.

¹⁹⁸ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y cynllun ieithoedd swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad, Gorffennaf 2017

18.11. Gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli'r gyfraith etholiadol

910. Yn 2016, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid rhesymoli'r cyfreithiau presennol sy'n ymwneud ag etholiadau yn un fframwaith deddfwriaethol, cyson sy'n darparu cysondeb ar draws etholiadau, yn unol â chymhwysedd deddfwriaethol pob un o ddeddfwrfeydd y DU. Mae *Deddf Cymru 2017* yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad dros etholiadau. Pe bai Llywodraeth Cymru yn dewis defnyddio'r pŵer galluogi a ddarparwyd gan y Bil i resymoli'r cyfreithiau presennol sy'n ymwneud ag etholiadau Cymru yn un fframwaith deddfwriaethol, cyson, gellid dadlau y byddai'n gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch yn Gymraeg ac yn Saesneg fel ei gilydd.

911. At hynny, gan fod yr holl ddeddfwriaeth a wneir yn y Cynulliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddai un fframwaith deddfwriaethol ar etholiadau a ddatblygir yng Nghymru ar gael yn nwy iaith swyddogol y Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau Cymru a wneir yn Senedd y DU ar gael yn Saesneg yn unig. Felly, gallai gweithredu'r ddarpariaeth hon yn y Bil gael effaith gadarnhaol ar argaeledd deddfwriaeth yn y Gymraeg, gan godi statws a phroffil yr iaith a helpu i hwyluso ei defnydd o ganlyniad i hynny. Ni fyddai effaith ar y defnydd o'r Saesneg gan fod yr holl ddeddfwriaeth o'r fath ar gael yn Saesneg, a bydd hyn yn parhau.

18.12. Crynodeb o effaith y Bil ar yr Ieithoedd Swyddogol

912. Nid ystyrir y bydd darpariaethau'r Bil yn cael effeithiau negyddol ar y naill na'r llall o ieithoedd swyddogol y Cynulliad.

913. Credir y gallai dewis "Senedd" fel enw'r Cynulliad gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

914. Credir y gallai'r ddarpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i resymoli'r gyfraith etholiadol yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

19. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

19.1. Dyddiad yr asesiad effaith

915. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

19.2. Diben yr asesiad effaith

916. Nid yw'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant yn ofyniad statudol, ond cafodd ei lunio fel arfer da.

917. Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant yn ystyried effaith y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ar blant yng Nghymru a'u hawliau o dan Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

918. Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw CCUHP sy'n gymwys i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Cafodd ei gadarnhau gan y DU ym mis Rhagfyr 1991, a daeth i rym yn y DU ym mis Ionawr 1992.

919. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r Confensiwn yn 2004 yn sail i wneud penderfyniadau polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hawliau plant yng Nghymru yn cael eu diogelu ymhellach gan *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r hawliau a rhwymedigaethau sylweddol yn CCUHP a'i brotocolau dewisol.

920. Mae asesiadau o'r effaith ar hawliau plant yn allweddol i weithredu CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cynnal fel ffordd o sicrhau yr ystyrir hawliau plant yn briodol wrth gyflwyno deddfwriaeth neu arfer swyddogaethau Gweinidogol. Er bod y rhwymedigaethau hyn ar Weinidogion Cymru wrth gyflwyno deddfwriaeth, mae hefyd yn bwysig i Filiau anllywodraethol ystyried CCUHP yn llawn a lluniwyd yr asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant i lywio'r cynigion yn y Bil.

921. Wrth lunio'r Bil, ystyriwyd yr effaith bosibl ar blant a grwpiau penodol o blant. Roedd hyn yn sail i'r dadansoddiad o'r modd y mae'r Bil yn effeithio ar Erthyglau'r Confensiwn.

19.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

922. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn.

923. Roedd rhai o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc, a chyfeirir atynt isod.

924. Fel rhan o ymgynghoriad Pleidleisio@16 a gynhaliwyd gan y Llywydd rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mehefin 2015, dywedodd 53 y cant y dylid gostwng yr oedran pleidleisio o 18 i 16, dywedodd 29 y cant na ddylid gwneud hynny, ac nid oedd 18 y cant yn gwybod.¹⁹⁹

925. Yn 2017, sefydlwyd Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol gan Gomisiwn y Cynulliad i ddarparu cyngor diduedd gwleidyddol ar nifer Aelodau'r Cynulliad, y system etholiadol a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Ar ôl adroddiad y panel, lansiodd y Comisiwn ymgynghoriad yn gofyn am farn am ei argymhellion, ac am ddiwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a gweithredol y Cynulliad. Ni chodwyd pryderon penodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, er y codwyd rhai pryderon ehangach a allai gael effaith bosibl ar hawliau plant. Trafodir y rhain yn yr adran "Canlyniadau anfwriadol a risgiau".

926. Ymgynghorodd y Comisiwn rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2017 ar ei gynigion i sefydlu Senedd leuenctid. Wedi hynny, penderfynwyd sefydlu Senedd leuenctid Cymru, a dechreuodd cyfnod pleidleisio'r Senedd leuenctid gyntaf ym mis Tachwedd 2018.

927. Ymgynghorodd Comisiwn y Cynulliad rhwng 12 Chwefror a 6 Ebrill 2018 ar ei ddogfen, sef "Creu Senedd i Gymru", a nododd nifer o faterion mewn perthynas â gweithrediad ac etholfraint y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch pwy ddylai bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, gan gynnwys a ddylid estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau ynghylch gostwng yr oedran pleidleisio isaf, dywedodd 59 y cant y dylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16, dywedodd 39 y cant y dylai aros yn 18 a dywedodd dau y cant nad oeddent yn gwybod. Ni nododd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad y

¹⁹⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [A ddylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16? Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad "Pleidleisio@16?" y Llywydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru](#), Gorffennaf 2015

byddai'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn cael effeithiau penodol ar blant a phobl ifanc.

928. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol â swyddogion o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wrth lunio'r asesiad effaith hwn i ofyn eu barn am sut y byddai polisiau'r Bil yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

19.4. Yr effeithiau ar hawliau plant

19.4.1. Diben y Bil a'i effaith ar blant

929. Nodau'r Bil yw ailenwi'r Cynulliad, gweithredu argymhelliad y Panel Arbenigol ar yr oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad drwy estyn yr etholfraint ar gyfer pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol i bobl 16 a 17 oed, a chyflwyno diwygiadau eraill i etholiad y Cynulliad a threfniadau gweithredol a allai ei gwneud yn ddeddfwrfa fwy hygyrch ac effeithiol.

930. Y bwriad yw y caiff y darpariaethau hyn eu cynnwys yn y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*, a gaiff ei gyflwyno ym mis Chwefror 2019 ac y disgwylir iddo gael y Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn. Bydd y darpariaethau i estyn yr etholfraint yn dod i rym o ddyddiad etholiad cyffredin nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru y trefnir ei gynnal ym mis Mai 2021 ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu y bydd pobl sy'n troi'n 14 ac yn 15 oed a phobl 16 a 17 oed yn cael eu hychwanegu at y gofrestr etholiadol fel rhan o'r canfasiad blynyddol a fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2020.

931. Bydd y cynnydd yn yr etholfraint yn effeithio ar gyfran fawr o bobl 16 a 17 oed, ond nid pob un, sy'n byw yng Nghymru a fydd bellach yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru. Ar hyn o bryd, caiff unigolion bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad os ydynt dros 18 oed ac yn un o ddinasyddion y DU, y Gymanwlad, Gweriniaeth Iwerddon neu'r UE. Yr unig newid yw y byddai'r oedran yn cael ei ostwng i 16 yn lle 18 mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad.

932. Os ydym yn derbyn y diffiniad o blentyn fel person nad yw wedi cyrraedd 18 oed eto (yn unol â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ac Erthygl 1 o *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*), bydd cynigion Comisiwn y Cynulliad yn effeithio'n uniongyrchol ar grŵp penodol o blant: y gyfran fawr o bobl 16 a 17 oed a fydd yn cael eu cynnwys yn y gofrestr etholiadol ac yn cael pleidleisio.

933. Trafodir yr angen am y Bil yn fanwl mewn manau eraill yn y Memorandwm Esboniadol, ac ni chaiff pob un o'r dadleuon a gyflwynwyd eu hailadrodd yn yr asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant.

19.4.2. Dadansoddi effaith y Bil ar blant a'u hawliau o dan CCUHP

934. Mae'r Bil yn berthnasol i nifer o erthyglau yn CCUHP. Yr erthyglau mwyaf perthnasol a nodwyd yw Erthyglau 12 a 13 a 17, sy'n cyfeirio at barchu barn y plentyn, rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth. Mae hefyd yn codi rhai materion mewn perthynas ag Erthygl 14, sy'n cyfeirio at ryddid meddwl, cred a chrefydd, ac Erthygl 30, sy'n ymwneud â phlant o grwpiau lleiafrifol neu gynhenid.

935. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad sef, '*Creu Senedd i Gymru*', cyfyngodd Comisiynydd Plant Cymru ei sylwadau ynglŷn â hawliau plant i'r cynigion sy'n ymwneud â gostwng yr oedran pleidleisio. Gellid cymryd hyn fel arwydd ei bod o'r farn y byddai'r materion eraill a godwyd yn yr ymgynghoriad yn cael effaith gyfyngedig ar hawliau plant a phobl ifanc. Yr erthyglau mwyaf perthnasol i'r cynigion i ostwng yr oedran pleidleisio, yn ôl y Comisiynydd, oedd Erthygl 2, Erthygl 12, Erthygl 13 ac Erthyglau 28 a 29. Ystyrir y rhain i gyd yn y dadansoddiad a ganlyn.

936. Mae **Erthyglau 1, 3, 4 a 5** yn cynnwys egwyddorion cyffredinol y Confensiwn o ran pwy sy'n cael ei warchod, cadarnhad y dylai pob sefydliad perthnasol weithio tuag at fudd pennaf plant a rhyddid rhieni.

Mae Erthyglau 1, 3, 4 a 5 yn cael eu parchu gan y Bil.

937. Mae **Erthygl 2** yn ymdrin â hawl plant i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu. Wrth ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16, mae'r Bil yn galluogi pobl 16 a 17 oed i gymryd rhan mewn etholiadau, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc anabl.

938. Fodd bynnag, ni fydd gostwng yr oedran pleidleisio yn gymwys i wladolion tramor na chânt bleidleisio (h.y. y rhai sy'n ddinasyddion nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad), ceiswyr lloches, na'r rhai sydd yn y ddalfa fel troseddwy'r ifanc.

19.4.2.1. Dinasyddion 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad

939. Byddai'n gwbl amhriodol i bobl 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ac yna iddynt gollu'r hawl hon ar ôl troi'n 18 oed.

940. Yn gyntaf, oherwydd y byddai hyn yn gwahaniaethu'n weithredol tuag at ddinasyddion (18 oed neu'n hŷn) nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad ar sail oedran. Byddai'n anodd cyfiawnhau i bobl 18 oed pam eu bod yn cael eu heithrio o weithgaredd y cawsant gymryd rhan ynddo o'r blaen.

941. Yn ail, oherwydd y byddai'r dull hwn yn anymarferol i'w weinyddu. Yn hytrach na nodi'r bobl a ddaeth yn gymwys i bleidleisio, byddai'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd nodi'r personau a ddaeth yn anghymwys i bleidleisio. Mae'n bosibl iawn y byddai dryswch ymhlith yr etholwyr a'r rhai y mae'n ofynnol iddynt weinyddu etholiadau.

942. Yn drydydd, oherwydd nad oes sail dros gynnig dull o'r fath, ar sail trafodaeth gyhoeddus nac ymatebion i ymgynghoriad y Cynulliad.

943. O ganlyniad, wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, ni ellir gofyn a ddylid etholfreinio pobl 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad.

944. Yn hytrach, cwestiwn dilys yw a ddylid estyn etholfraint y Cynulliad i'r *holl* ddinasyddion dros 16 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, sydd â'r hawl gyfreithiol i aros yn y DU, ar yr un pryd ag estyn hawliau pleidleisio i bobl 16 a 17 oed.

945. Yn ei ymgynghoriad, sef "Creu Senedd i Gymru", gofynnodd Comisiwn y Cynulliad i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y dylai'r holl breswylwyr cyfreithlon yng Nghymru gael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ni waeth beth yw eu cenedligrwydd neu eu dinasyddiaeth. O'r 1,480 o ymatebion, roedd 66 y cant ohonynt (980) yn teimlo y dylid caniatáu i bawb sy'n byw'n gyfreithlon yng Nghymru bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, ni waeth beth yw eu cenedligrwydd neu eu dinasyddiaeth (roedd 42 y cant (620) yn cytuno'n gryf a 24 y cant (360) yn cytuno).

946. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedd materion eraill, risgiau neu fanteision y dylid eu hystyried mewn perthynas â newid hawliau gwladolion nad ydynt o'r DU sy'n byw'n gyfreithlon yng Nghymru i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r cynnig hwn yn cynnwys y canlynol: dylid estyn y bleidlais i'r holl bobl y mae penderfyniadau'r Cynulliad yn effeithio arnynt sydd, yn ôl rhai ymatebion, yn cynnwys unrhyw un sy'n byw yng Nghymru; ac y byddai'n annog integreiddio drwy wneud i fewnfudwyr deimlo'n rhan o fywyd Cymreig. Awgrymodd rhai ymatebion y dylid cael amodau ar yr hawl i ddinasyddion nad ydynt o'r DU bleidleisio, megis talu trethi.

947. Roedd 16 y cant (100) o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn teimlo mai dim ond dinasyddion y DU ddylai gael caniatâd i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Roedd y rhesymau a roddwyd i ategu'r farn hon yn cynnwys:

- mewn gwledydd eraill, mae'r hawl i bleidleisio yn gyfyngedig i ddinasyddion y gwledydd hynny;

-
- ni ddylid caniatáu i wladolion nad ydynt o'r DU effeithio ar gyfreithiau'r DU na Chymru;
 - nid yw'r rhai sy'n byw yn y DU nad ydynt wedi dod yn ddinasyddion yn gwbl ymrwymedig i'r DU, felly ni ddylent gael y cyfle i fynegi barn mewn etholiadau.

948. Awgrymodd rhai ymatebwyr mai dim ond dinasyddion y DU sy'n byw yng Nghymru neu sydd â'u prif breswylfa yng Nghymru y dylid caniatáu iddynt bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

949. Cyfeiriodd 13 y cant (80) o'r ymatebion yn benodol at gyfnod preswyllo gofynnol fel amod ar gyfer pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Roedd rhai am weld cyfnod preswyllo gofynnol yn y DU ac roedd eraill yn cynnig cyfnod preswyllo gofynnol yng Nghymru. Byddai'r cyfnodau preswyllo gofynnol a awgrymwyd, yn amrywio o 1 i 10 mlynedd, yn cynyddu pŵer cymharol etholaethau trefol ac yn cymhell rhai entrepreneuriaid a phleidiau gwleidyddol i dymheru eu rhethreg yn erbyn mewnfudo.²⁰⁰

950. Felly, gellir dadlau'n rhesymol y dylai pob person sydd â hawl gyfreithiol i fyw yng Nghymru gael cymryd rhan mewn etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Efallai y bydd pobl o'r fath yn rhesymol yn cyfeirio at y ffaith eu bod yn talu trethi ac yn cymryd rhan mewn cymdeithas ddinesig ym mhob ffordd arall.

951. Gellir nodi hefyd y bydd pobl o'r fath yn cael pleidleisio mewn etholiadau i Senedd Ieuencid Cymru, a bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i wneud newidiadau deddfwriaethol fel y caiff pobl o'r fath bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Ar hyn o bryd, mae personau gwahanol wedi'u hetholfreinio i bleidleisio yn etholiadau cyffredinol y DU o'u cymharu â'r rhai sydd wedi'u hetholfreinio i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad. Serch hynny, byddai'n fwy cyfleus yn weinyddol i'r un bobl gael pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad. Mae gwahaniaethau rhwng etholfreiniau llywodraeth leol a'r Cynulliad yn creu'r potensial ar gyfer dryswch, ymhlith yr etholwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am weinyddu etholiadau a gallai hynny, yn ei dro, effeithio ar yr ymgysylltiad â phleidleiswyr.

952. Hefyd, cafwyd 1,570 o ymatebion i gwestiwn a ofynnodd a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â datganiad y dylai'r un bobl gael pleidleisio yn etholiadau'r

²⁰⁰ *If Immigrants Could Vote in the UK: A Thought Experiment with Data from the 2015 General Election.* Political Quarterly, Fox, S., Johnston, R., a Manley, D. J. (2016), Prifysgol Bryste.

Cynulliad a llywodraeth leol. O'r 1,570 o ymatebion hyn, roedd 62 y cant (980) yn cytuno'n gryf ac roedd 24 y cant (370) ychwanegol yn cytuno â'r datganiad.

953. Fodd bynnag, gellir gwneud gwrth-ddadl bod pleidleisio'n arwydd o'r berthynas rhwng y dinesydd a'r genedl-wladwriaeth. Gellir dadlau bod y berthynas hon yn mynd yn ddyfnach na'r berthynas rhwng y preswlydd a'r wladwriaeth.

954. Mae'n berthynas sy'n adlewyrchu'r ffaith bod mwy o hawliau hefyd yn golygu mwy o gyfrifoldebau. Er enghraifft, mae gofyniad ar ddinasyddion sy'n ddyinion rhwng 19 a 45 oed yng Ngwlad Groeg i ymgymryd â gwasanaeth milwrol, ond nid oes gofyniad o'r fath i breswylwyr. Yn yr un modd, mae gan ddinasyddion y DU (a dinasyddion yr UE a'r Gymanwlad) gyfrifoldeb i ymateb i alwad i wasanaethu ar reithgor, a bod yn bresennol cyhyd ag y bo'n angenrheidiol er mwyn dwyn rheithfarn. Nid yw'r cyfrifoldeb hwn yn berthnasol i ddinasyddion nad ydynt o'r DU (nad ydynt yn ddinasyddion yr UE na'r Gymanwlad chwaith).

955. Gellir dadlau bod uniondeb y berthynas hon rhwng y genedl-wladwriaeth a'r dinesydd yn fwy arwyddocaol mewn cyfnod pan fo llawer yn symud o wlad i wlad. Gellir dadlau ei bod yn bosibl y bydd person sy'n rhagweld bod ei berthynas â gwlad wedi'i chyfyngu gan amser yn pleidleisio mewn ffordd wahanol nag y byddai pe bai'n rhagweld bod y berthynas honno'n barhaol.

956. Gellir dadlau bod pleidleisio'n hawl a geir drwy ddod yn ddinesydd Prydeinig, drwy ddangos ymrwymiad a pherthynas â'r wlad sy'n mynd y tu hwnt i breswylfa a chyflogaeth. Hefyd, mae gan ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a'r Gymanwlad hawl i bleidleisio ar hyn o bryd, gan adlewyrchu'r ymrwymadau a chysylltiadau hanesyddol dwfn rhwng y gwledydd hyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gan benderfyniadau a wneir wrth bleidleisio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru oblygiadau parhaus i ddinasyddion o'r fath, yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Gymanwlad drwyddynt draw. Ond mae pleidleisio yn parhau i fod yn arwydd o'r berthynas rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth, sef ethol seneddwyr a fydd yn pennu'r cyfreithiau a fydd yn llywodraethu'r wlad.

957. Nodwyd, yn gynharach, fod manteision i etholfraint debyg rhwng etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad o safbwynt gweinyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, gellir hefyd nodi bod gwahaniaethau sylfaenol rhwng cylch gwaith y cyrff etholedig hyn. Mae llywodraeth leol yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau lleol, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar breswylwyr lleol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud penderfyniadau ar faterion o egwyddor a chyfeiriad, gwerthoedd a chyfreithiau Cymru gyfan. Felly, mae dadl ddilys o blaid galluogi preswylwyr i bleidleisio mewn etholiadau lleol, ond cadw'r hawl i bleidleisio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r rhai sydd wedi gwneud

ymrwymiad dyfnach o fod yn ddinesydd yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd neu'r Gymanwlad.

958. Mae dadleuon cyfartal iawn ynghylch y mater hwn, ac efallai y bydd y Cynulliad am ystyried y mater hwn ymhellach yn ystod ei waith craffu deddfwriaethol ar y *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)*.

959. Fodd bynnag, at ddiben cyflwyno'r Bil, mae Comisiwn y Cynulliad wedi penderfynu nad oes consensws gwleidyddol clir ar hyn o bryd ar y mater hwn oherwydd cymhlethdod y dadleuon cyfartal iawn yn ei gylch. Yn niffyg consensws o'r fath, nid yw'n briodol i gorff trawsbleidiol wneud newidiadau i'r gyfraith ar y mater hwn. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn cynnal sefyllfa bresennol gyfreithiol ar y mater hwn: h.y. na fyddai preswylwyr nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

960. Fel anghenraid, rhaid dilyn y dull hwn hefyd i breswylwyr 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, oherwydd y byddai'n gwbl amhriodol – fel y nodwyd uchod – i bobl 16 a 17 oed gael yr hawl i bleidleisio, ac yna i'r hawl hon gael ei thynnu'n ôl yn 18 oed.

961. Mae perygl o hyd y gall pobl ifanc o'r fath deimlo eu bod yn cael eu heithrio neu y gwahaniaethir yn eu herbyn, oherwydd na fydd ganddynt hawl sydd gan eu ffrindiau a'u cyd-ddisgyblion. Fodd bynnag, rhagwelir y caiff y perygl hwn ei liniaru gan ymgyrchoedd addysg wleidyddol a gwybodaeth gyhoeddus (i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid i'r oedran pleidleisio) gan gynnwys esboniadau clir ynghylch pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Bydd gwybodaeth o'r fath hefyd yn manylu ar sut y gall person ddod yn gymwys i bleidleisio yn y dyfodol, er enghraifft drwy ddod yn ddinesydd Prydeinig. Bydd ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus hefyd yn nodi y bydd pobl o'r fath yn:

- cael pleidleisio i gyrff nad oes ganddynt bwerau deddfu sylfaenol, mewn etholiadau i'r Senedd leuencid a llywodraeth leol;
- yn dal i gael eu cynrychioli gan Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (yn yr un modd ag y byddai plant 15 oed ac iau);
- yn dal i gael cymryd rhan yn uniongyrchol yng ngwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddeisebau cyhoeddus a chymryd rhan mewn ymchwiliadau pwyllgor, ac ati.

962. Am y rheswm hwn, nid yw'r Bil yn estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i bobl 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil dadleuon gwleidyddol cyfartal iawn a amlinellwyd

uchod ac, fel y cyfryw, nid ystyrir bod hyn yn torri hawl plant i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.

963. Gellir nodi hefyd na fyddai'r Bil yn etholfreinio pobl 16 a 17 oed nad oes ganddynt yr hawl gyfreithiol i fod yn y DU wrth geisio cofrestru. Gall hyn gynnwys ceiswyr lloches (ffoaduriaid). Eto, rhagwelir y bydd ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus yn cynnwys esboniadau clir ynghylch pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad er mwyn lliniaru unrhyw ddryswch y gall hyn ei achosi.

19.4.3. Troseddwy'r ifanc

964. Er bod y Bil hwn yn etholfreinio pobl 16 a 17 oed, nid yw darpariaethau presennol (adran 3 o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*) yn etholfreinio'r rhan fwyaf o garcharorion ar hyn o bryd.

965. O ganlyniad, mae'r darpariaethau yn *Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* yn golygu na fyddai estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed o fudd i droseddwy'r ifanc (h.y. y rhai a gedwir yn yr hyn sy'n cyfateb i sefydliadau cosbi i bobl ifanc) o dan 18 oed.

966. Ar hyn o bryd, gwaherddir y rhan fwyaf o garcharorion yn y DU rhag pleidleisio ym mhob etholiad, ond caiff carcharorion ar remánd bleidleisio. Fodd bynnag, mewn dyfarniadau olynol gan Lys Hawliau Dynol Ewrop, cafwyd bod y DU yn torri Erthygl 3 o Brotocol 1 o'r *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*. Traddodwyd pob un o'r dyfarniadau hyn cyn i gymhwysedd y Cynulliad ar faterion etholiadol ddod i rym o dan *Ddeddf Cymru 2017* ac maent yn egluro nad yw cydymffurfio â'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob carcharor gael pleidleisio, ond y dylid gwneud penderfyniadau ystyriol ar hawliau pleidleisio carcharorion mewn etholiadau i ddeddfwrfeydd.

967. Wrth ymateb i'r dyfarniadau hyn, ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i roi'r hawl i garcharorion bleidleisio mewn etholiadau yn y DU os ydynt ar drwydded dros dro neu dan gyrffyw lle maent yn cael eu cyfyngu i'r cartref. Hefyd, yn y dyfodol, caiff ei gwneud yn gliriach wrth ddeddfrydu bod mynd i'r carchar yn golygu colli'r hawl i bleidleisio. Cyflawnir y newidiadau hyn drwy gyflwyno ac egluro trefniadau gweinyddol a chanllawiau, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar hyd at 100 o droseddwy'r ledled y DU ar unrhyw adeg, ond ni wyddys ar faint o bobl y byddent yn effeithio yng Nghymru.

968. Mae Cyngor Ewrop, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop, wedi cymeradwyo dull Llywodraeth y DU

fel ymateb cymesur. Nid yw'r gymeradwyaeth hon yn rhwymo'r Llys, gan na fydd y Llys yn mynegi barn gyfreithiol am ddigonolrwydd y trefniadau oni bai, a nes y cyfeirir achos arall ato sydd a wnelo â hawl carcharorion yn y DU i bleidleisio.

969. Yn 2017, cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei bwriadau, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr etholfraint mewn perthynas â llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys caniatáu i garcharorion bleidleisio. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyfartal iawn ynghylch yr egwyddor o ganiatáu i garcharorion bleidleisio.

970. Yn ei ymgynghoriad ym mis Chwefror 2018, sef *Creu Senedd i Gymru*, gofynnodd Comisiwn y Cynulliad i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y dylid caniatáu i garcharorion bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad os ydynt ar drwydded dros dro neu dan gyrffiw lle maent yn cael eu cyfyngu i'r cartref, yn unol â bwriad Llywodraeth y DU ar gyfer etholiadau'r DU. O'r 1,450 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 54 y cant (780)²⁰¹ yn cytuno ac roedd 34 y cant (490)²⁰² yn anghytuno.

971. Ym mis Ionawr 2018, fel rhan o'i pharatoadau ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), sydd i'w gyflwyno yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn trafod cynigion i ganiatáu i garcharorion bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru lle byddant yn cael eu rhyddhau yn ystod tymor y cyngor sydd i'w ethol.

972. Yn ei ymgynghoriad ym mis Chwefror 2018, sef *Creu Senedd i Gymru*, gofynnodd Comisiwn y Cynulliad i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno y dylai carcharorion y mae eu dyddiad rhyddhau cyn diwedd tymor y Cynulliad y maent yn pleidleisio ar ei gyfer gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. O'r 1,440 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 49 y cant (700)²⁰³ yn cytuno ac roedd 36 y cant (530) yn anghytuno.²⁰⁴

973. Hefyd, gofynnodd yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr nodi materion eraill, risgiau neu fanteision mewn perthynas â newid hawliau carcharorion i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Er y mynegwyd cefnogaeth ymylol yn y cwestiynau blaenorol dros ganiatáu i rai carcharorion bleidleisio, y mater mwyaf cyffredin a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd na ddylid caniatáu i garcharorion

²⁰¹ Roedd 26 y cant (370) yn cytuno'n gryf ac roedd 28 y cant (410) yn cytuno.

²⁰² Roedd 22 y cant (310) yn anghytuno'n gryf ac roedd 12 y cant (180) yn anghytuno.

²⁰³ Roedd 23 y cant (330) yn cytuno'n gryf ac roedd 26 y cant (370) yn cytuno.

²⁰⁴ Roedd 16 y cant (230) yn anghytuno ac roedd 21 y cant (300) yn anghytuno'n gryf.

bleidleisio. Soniodd 28 y cant (140) o ymatebion am hyn. Roedd y rhesymau a roddwyd i ategu'r farn hon yn cynnwys:

- mae colli hawliau'n rhan o gosb carcharorion, a dylai hynny gynnwys colli'r hawl i bleidleisio;
- ni ddylai carcharorion gael y cyfle i fynegi barn ynghylch pwy sy'n llywodraethu'r wlad ac yn gwneud cyfreithiau.

974. Nododd 10 y cant (50) o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn mai dim ond ar ôl iddynt adael y carchar y dylid caniatáu i garcharorion bleidleisio:

“Ni ddylai'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau sy'n ddigon difrifol i'w carcharu gael yr hawl i bleidleisio nes iddynt dalu eu dyled yn llawn i gymdeithas.” (Aelod o'r cyhoedd)²⁰⁵

975. Dywedodd 18 y cant (90) o'r ymatebion y dylai pob carcharor gael pleidleisio. Roedd y rhesymau a roddwyd i ategu'r farn hon yn cynnwys:

- mae gwledydd eraill yn caniatáu i garcharorion bleidleisio;
- mae penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad yn effeithio ar garcharorion yng Nghymru;
- Bydd carcharorion yn teimlo bod iddynt fwy o ran mewn cymdeithas os ydynt yn cael pleidleisio.

976. Dywedodd un ymatebydd:

“Rwy'n cytuno â'r ddau gynnig hyn fel man cychwyn, ond rwy'n credu y dylent fynd ymhellach – ni ddylai carcharorion gael eu difreinio oherwydd yr hyn a wnaethant yn y gorffennol – maen nhw'n dal i fyw yn y wlad hon, ac ni ddylent golli eu hawliau dynol sylfaenol oherwydd eu bod yn y carchar ar hyn o bryd.” (Aelod o'r cyhoedd)²⁰⁶

977. Cyfeiriodd 12 y cant (60) o ymatebion at adsefydlu carcharorion, gyda llawer yn dadlau y byddai hawl i bleidleisio yn eu helpu i ailintegreiddio â'r gymdeithas. Awgrymodd rhai y dylid darparu addysg ym maes dinasyddiaeth neu wleidyddiaeth i garcharorion.

²⁰⁵ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Creu senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad, Hydref 2018, t. 57.

²⁰⁶ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Creu senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad, Hydref 2018, t. 57.

978. Roedd y materion eraill a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- yr etholaeth lle y dylai carcharorion gael eu cofrestru i bleidleisio (h.y. yr etholaeth lle y cawsant eu carcharu neu lle y maent yn byw fel arfer). Dangosodd yr ymatebwyr a gododd y mater hwn ffafriaeth glir i garcharorion bleidleisio yn yr etholaeth lle y maent yn byw fel arfer;
- y trefniadau gweinyddol y byddai eu hangen er mwyn caniatáu i garcharorion bleidleisio;
- yr angen i ystyried dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop.

979. Ymatebodd 12 sefydliad i'r cwestiwn hwn. Tynnodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru sylw at y ffaith y gallai caniatáu i garcharorion yng Nghymru bleidleisio olygu bod carcharorion sy'n ddynion yn cael etholfraint, ond nid carcharorion sy'n fenywod, gan nad oes carchardai yng Nghymru i fenywod. Awgrymodd sefydliadau hefyd y canlynol:

- byddai caniatáu i garcharorion bleidleisio'n arwain at faich a chostau gweinyddol ychwanegol sylweddol;
- y dylid cael cysondeb ar draws yr etholfreiniau ar gyfer etholiadau gwahanol.

980. Pwysleisiodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru y Comisiwn Etholiadol yr angen am waith cynllunio gofalus ac adnoddau ychwanegol pe bai carcharorion yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad:

“Bydd angen i unrhyw system ar gyfer caniatáu i droseddwyr a garcharwyd gyfranogi fod yn ymarferol a chael ei chynllunio mewn partneriaeth agos â chyrrff y Llywodraeth sy'n gyfrifol am y carchardai a'r gwasanaethau a'r ystadau cysylltiedig. Gallai system o'r fath fod yn faich ar adnoddau ar gyfer gweinyddwyr etholiadau a byddai angen adnoddau ychwanegol i'w sefydlu a'u gweinyddu.”²⁰⁷

981. Yn gryno, mae'n amlwg bod y materion cyfreithiol, moesegol, democrataidd ac ymarferol, a'r materion o ran hawliau dynol, sy'n gysylltiedig â rhoi'r bleidlais i garcharorion – gan gynnwys troseddwyr ifanc – yn rhai sylweddol, ac mae angen ystyried y rhain yn fanwl a dod i benderfyniad yn eu cylch.

²⁰⁷ Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Creu senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad*, Hydref 2018, t. 58

982. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, tynnwyd sylw amrywiaeth o randdeiliaid ym meysydd cyfiawnder, carchardai a chymorth i ddiodefwr at yr ymgynghoriad ynghylch Creu Senedd i Gymru. Fodd bynnag, dim ond 12 sefydliad a ymatebodd i'r cwestiynau ynghylch rhoi'r bleidlais i garcharorion, ac nid oedd yr un ohonynt yn cynrychioli carcharorion, carchardai na diodefwr troseddau. Mae hyn yn dangos yr angen am waith trylwyr o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth cyn y gellir dod i gasgliadau ynghylch a ddylid rhoi'r bleidlais i garcharorion yng Nghymru ac, os felly, sut a phryd.

983. Am y rhesymau hyn, nid yw'r *Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)* yn ceisio mynd i'r afael â phleidleisio gan garcharorion, gan gynnwys pleidleisio gan droseddwr ifanc.

984. Yn lle hynny, ar 6 Medi 2018, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i nodi y byddai'n croesawu'n fawr i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i drafod yr egwyddor a ddylid caniatáu i garcharorion – gan gynnwys troseddwr ifanc – bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.²⁰⁸

985. Yn dilyn hynny, lansiodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymchwiliad i'r mater hwn.²⁰⁹ Nododd y Pwyllgor yn ei gylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad ei fod yn bwriadu ystyried:

- dadleuon o blaid ac yn erbyn rhoi'r hawl i rai carcharorion, neu bob un, bleidleisio yn etholiadau Cymru, ac a ellid gwahaniaethu rhwng categorïau gwahanol o garcharor ar sail hyd y ddedfryd, dyddiad rhyddhau disgwylidig, neu fathau o drosedd;
- materion ymarferol, megis cofrestru etholiadol (gan gynnwys cyfeiriad), dull pleidleisio, ymgysylltiad carcharorion â'r broses wleidyddol, rhoi gwybodaeth ac addysg o ran gwleidyddiaeth a dinasyddiaeth;
- materion trawsffiniol oherwydd bod carcharorion o Gymru yn cael eu carcharu yn Lloegr, ac i'r gwrthwyneb;
- a yw ystyriaethau arbennig yn cynnwys troseddwr ifanc yn y ddalfa os estynnir yr hawl i bleidleisio i bobl 16 a 17 oed yn gyffredinol;

²⁰⁸ Y Llywydd, [Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 6 Medi 2018](#)

²⁰⁹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, [Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion](#)

-
- ymagweddau gwledydd eraill o ran hawl carcharorion i bleidleisio.

986. Rhagwelir y bydd dadansoddiad y Pwyllgor o'r mater hwn yn sail dystiolaeth sylweddol i fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol, moesol, democrataidd, ymarferol a'r materion o ran hawliau dynol sy'n ymwneud â phleidleisio gan garcharorion – gan gynnwys pleidleisio gan droseddwyr ifanc – ac felly'n pennu'r potensial i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol.

987. Am y rheswm hwn, nid yw'r Bil yn estyn yr hawl i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad os cânt eu gwahardd rhag pleidleisio gan *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*.

988. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil yr angen am drafod y materion cyfreithiol, moesol, democrataidd, ymarferol a'r materion o ran hawliau dynol cysylltiedig uchod ymhellach ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei fod yn torri hawl plant i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.

989. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd troseddwyr ifanc mewn carchardai yn dal i gael y cyfle i ddysgu am bleidleisio drwy'r addysg a gânt yn y carchar. Er na fydd pobl ifanc o'r fath yn cael y cyfle i bleidleisio tra byddant yn y carchar, mae'n bwysig nodi y byddant yn cael pleidleisio ar ôl iddynt adael y carchar, felly ni ddylid gwrthod cyfleoedd iddynt ddysgu am eu hawliau pleidleisio.

19.4.4. Peidio ag etholfreinio pobl 0-15 oed

990. Gellir nodi, er bod y Bil yn etholfreinio'r rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, na fydd yn etholfreinio plant 15 oed ac iau.

991. Nododd y Panel Arbenigol nad oes un trothwy oedran ar gyfer hawliau a chyfrifoldebau. O'i enedigaeth, caiff person wneud cais am basport y DU (er bod rhaid i berson â chyfrifoldeb rhiant lofnodi cais gan y rhai o dan 16 oed), a gall fod yn atebol i dalu trethi penodol. O 5 oed, caiff person yfed alcohol gartref neu mewn eiddo preifat arall. O 10 oed, gellir ei ddwyn yn droseddol gyfrifol (o 8 oed yn yr Alban).

992. Er ei fod yn bersonol yn argymhell y dylai'r oedran pleidleisio isaf yn etholiadau'r Cynulliad barhau yn 18 oed, mewn tystiolaeth ysgrifenedig at y Panel Arbenigol, dywedodd Craig Johnson fel a ganlyn:

“a fair response to somebody calling for votes at 16 would be to ask, ‘what do you have against 15 year olds?’”²¹⁰

²¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig 28 y Panel Arbenigol, Craig Johnson, a gyflwynwyd yn bersonol

993. Fodd bynnag, ni chodwyd y mater hwn fel pryder mewn ymatebion i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad, sef *Creu Senedd i Gymru*, ac ni chafwyd sail dystiolaeth glir hyd yn hyn dros ostwng yr oedran pleidleisio y tu hwnt i 16.

994. Mae ymchwil yn dangos nad oes gan unrhyw wlad yn y byd oedran pleidleisio is nag 16 ar hyn o bryd. Gellir nodi hefyd y bydd plant a phobl ifanc 11 i 18 oed yn cael pleidleisio dros ymgeiswyr i Senedd Ieuenctid Cymru. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i blant a phobl ifanc bleidleisio yn yr ysgol a chynghorau ieuenctid. Mewn gwirionedd, mae'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau democrataidd yn cynyddu wrth i berson ifanc fynd yn hŷn, ar y cyd â'i ymwybyddiaeth ac addysg wleidyddol.

995. Gellir nodi hefyd y bydd plant a phobl ifanc hyd at 15 oed:

- yn dal i gael eu cynrychioli gan Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- yn dal i gael cymryd rhan yn uniongyrchol yng ngwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddeisebau cyhoeddus a chymryd rhan mewn ymchwiliadau pwyllgor, ac ati.

19.4.5. Y gallu i sefyll yn etholiadau'r Cynulliad

996. Ni fydd newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Yn lle hynny, bydd angen i ddarpar Aelodau'r Cynulliad, fel ar hyn o bryd, fod yn 18 oed ar y diwrnod y cânt eu henwebu er mwyn sefyll etholiad.

997. Felly, yn ddamcaniaethol, gellir cyflwyno dadl bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc ar sail oedran, ac y dylid gostwng yr oedran ymgeisyddiaeth. Yn wir, yn yr Alban, mae Alex Cole-Hamilton ASA, Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol, wedi cyflwyno cynnig, a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol, yn galw i'r oedran isaf i ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiadau seneddol yr Alban gael ei ostwng i 16.²¹¹

998. Fodd bynnag, ni chodwyd y mater hwn fel pryder yn ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad, ac mae ymchwil wedi nodi nad oes gan yr un wlad yn y byd oedran ymgeisyddiaeth sy'n is na 18 ar hyn o bryd. Byddai angen ystyried hefyd sut y byddai cynnig o'r fath yn rhyngweithio â chyfreithiau amddiffyn plant (er enghraifft, terfynau ar oriau gwaith).

²¹¹ [Senedd yr Alban, Cynnig S5M-11890: Alex Cole-Hamilton, Gorllewin Caeredin, Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban, Dyddiad Rhoi: 26/04/2018](#)

999. Mae'n bosibl hefyd nodi bod yr holl bobl 11 i 17 oed sy'n byw²¹² neu'n cael addysg yng Nghymru yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau etholaethol i Senedd Ieuenctid Cymru. Mae cyfleoedd hefyd i sefyll fel ymgeisydd mewn cynghorau ysgol ac ieuenctid.

1000. O ganlyniad, nid ystyrir bod y penderfyniad i beidio â gostwng oedran ymgeisyddiaeth etholiadau i'r Cynulliad yn torri hawl plant i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.

Yn gryno, ystyrir bod y Bil yn parchu Erthygl 2.

1001. Mae **Erthygl 12** yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried o ddifrif. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i 16, ar ôl i'r panel arbenigol ddod i'r casgliad y byddai gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn fodd grymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc.

1002. Yn 2015, cyhoeddodd y Cynulliad adroddiad, ar ôl ymgynghori â mwy na 10,000 o blant a phobl ifanc, a ganfu fod 53 y cant o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16.²¹³ Byddai'r Bil hwn yn ateb galwad gan y bobl ifanc eu hunain i ganiatáu iddynt fynegi eu barn drwy'r broses ddemocrataidd.

1003. Bydd gostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn fynegi eu barn ac i'r farn honno gael ei hystyried o ddifrif. Byddai'n grymuso plant a phobl ifanc, gan ganiatáu iddynt arfer eu hawl i bleidleisio a gwella atebolrwydd democrataidd drwy helpu i sicrhau y caiff eu buddiannau eu hystyried.

1004. Mae Erthygl 12 hefyd yn nodi y dylai plant sy'n gallu ffurfio eu barn eu hunain gael yr hawl i leisio eu barn am yr holl faterion sy'n effeithio arnynt, a bod "pwys priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn ôl ei oedran a'i aeddfedrwydd".

1005. Mae'r Bil yn caniatáu cymhwyso CCUHP yn gymesur wrth ehangu'r etholfraint i bobl 16 a 17 oed. Ar ôl trafod, ymhlith pethau eraill, eu haeddfedrwydd,

²¹² Yn unol â diffiniad preswlydd yn barhaol neu fel arfer yng Nghymru.

²¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [A ddylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16? Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad "Pleidleisio@16?" y Llywydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru](#), Gorffennaf 2015

eu lefelau cyfranogiad a hawliau amrywiol eraill, argymhellodd y panel mai dyma'r oedran pan ddylid caniatáu i bobl ifanc bleidleisio.

1006. Hefyd, cafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd rhwng 8 Rhagfyr 2016 a 3 Mawrth 2017. Cafodd ei hyrwyddo drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad; rhwydweithiau amrywiol ac addysg, ymgysylltiad â phobl ifanc, sesiynau allgymorth cymunedol, a chydag ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad.²¹⁴

Rhoddir effaith i Erthygl 12 o dan y Bil.

1007. Mae **Erthygl 13** yn datgan bod rhaid i bob plentyn fod yn rhydd i fynegi ei farn a chael gafael ar bob math o wybodaeth.

1008. Mae gostwng yr oedran pleidleisio yn rhoi cyfle i bobl ifanc yn y grŵp oedran hwnnw fynegi eu barn drwy gymryd rhan yn y broses etholiadol.

Rhoddir effaith i Erthygl 13 o dan y Bil.

1009. Mae **Erthygl 14** yn darparu y bydd Gwladwriaethau sy'n Barti yn parchu hawl y plentyn i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd.

1010. Gall gostwng yr oedran pleidleisio i 16 roi cyfle i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed roi llais i'w credoau drwy gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd wrth benderfynu pwy fydd yn eu cynrychioli mewn etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Bil yn parchu Erthygl 14.

1011. Mae Erthygl 16 yn darparu bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i breifatrwydd.

1012. Mae gostwng yr oedran pleidleisio isaf, o reidrwydd, yn golygu y bydd setiau newydd o ddata yn cael eu cynnal am blant a phobl ifanc (pleidleiswyr 16 a 17 oed a phobl sy'n troi'n 14 ac yn 15 oed).

1013. Mae'r risg o dorri data'n cael ei lliniaru gan ddarpariaeth ynglŷn â thrin data o'r fath a chreu trosedd am dorri dyletswydd mewn cysylltiad â datgelu data person ifanc yn anghywir. Mae'r Bil yn dweud y canlynol:

²¹⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#).

“Ni chaiff swyddog cofrestru gyhoeddi, cyflenwi neu ddatgelu fel arall wybodaeth person ifanc, heblaw yn unol â’r canlynol—

(a) adran 24, neu

(b) rheoliadau o dan adran 25.”²¹⁵

1014. Bydd pŵer newydd hefyd yn cael ei greu mewn perthynas â chyflwyno mesurau diogelu ychwanegol am wybodaeth sy’n ymwneud â phobl sy’n troi’n 14 ac yn 15 oed.

1015. Gellir nodi hefyd y bydd gan bleidiau gwleidyddol fynediad at y gofrestr lawn at ddibenion etholiadol, ac y byddant felly’n gallu anfon gwybodaeth at bleidleiswyr posibl. Yn ddamcaniaethol, gellid ystyried bod hyn yn torri hawl pobl ifanc i breifatrwydd. Fodd bynnag, ystyrir bod hawl pobl ifanc i wybodaeth a chyfranogiad yn gorbwyso hyn yn sylweddol. Os bydd pobl ifanc yn pleidleisio’n 16 oed, mae angen y wybodaeth angenrheidiol arnynt, gan gynnwys gwybodaeth gan bleidiau gwleidyddol am yr ymgeiswyr y cânt bleidleisio drostynt.

Mae Erthygl 16 yn cael ei pharchu o dan y Bil

1016. Mae Erthygl 17 yn darparu bod gan bob plentyn yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan amrywiaeth o ffynonellau ac y dylai’r llywodraeth annog y cyfryngau i roi gwybodaeth y gall plant ei deall.

1017. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 8 Rhagfyr 2016 a 3 Mawrth 2017 ac, o’r ymatebwyr unigol, roedd 10 y cant o dan 16 ac 11.2 y cant rhwng 16 a 18 oed. Roedd dros dri o bob pump (60.9 y cant) o’r ymatebwyr yn cytuno y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru newid ei enw. Ar ôl yr ymgynghoriad hwn, ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ei fod am ddeddfu i newid enw’r sefydliad.

1018. Mae tystiolaeth yn dangos nad oes gan bobl Cymru ddealltwriaeth drylwyr o rôl a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yr ystyrir bod ei enw’n cyfrannu at yr ansicrwydd hwn. Rhagwelir y bydd newid enw’r Cynulliad yn codi ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaethau’r ddeddfwrfa a’r llywodraeth ymhlith pobl Cymru ac yn annog ymgysylltiad â’r broses ddemocrataidd.²¹⁶

²¹⁵ Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), adran 23.

²¹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#).

1019. Dylai eglurder mewn perthynas ag enw'r ddeddfwrfa gael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y cyfryngau o'r gwahaniaeth rhwng rôl y ddeddfwrfa a rôl Llywodraeth Cymru a chywirdeb wrth adrodd ar waith y ddeddfwrfa.

1020. Dylai hyn, yn ei dro, helpu i wella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o rôl y Cynulliad.

1021. Gellir nodi hefyd y bydd y gofrestr lawn ar gael i bleidiau gwleidyddol at ddibenion etholiad. Mae hyn yn golygu y bydd modd i bleidiau roi gwybodaeth i bleidleiswyr posibl am ymgeiswyr sy'n ceisio ennill eu pleidlais.

Rhoddir effaith i Erthygl 17 o dan y Bil

1022. Mae Erthygl 20 yn darparu bod rhaid i'r llywodraeth roi amddiffyniad arbennig a chymorth i blant na allant fyw gyda'u teulu.

1023. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i fynd i'r afael â materion sy'n codi ynghylch Plant sy'n Derbyngofal, sef yn bennaf plant yng ngofal yr awdurdod lleol (ac sydd hefyd yn rhoi llety iddynt o bosibl). Mae'n bosibl y bydd llai o sefydlogrwydd ymhlith y garfan hon o bobl ifanc o ran preswylfa ac efallai y bydd rhai yn symud rhwng lleoliadau yng Nghymru a Lloegr yn aml. Am y rheswm hwn, gwneir darpariaethau penodol i alluogi'r bobl ifanc hyn²¹⁷ i gofrestru yn unol â'r lleoliad yng Nghymru lle mae ganddynt gysylltiad lleol. Cyn-breswylfa neu gyfeiriad awdurdod lleol fydd hyn.

1024. Yn ogystal, byddai plant sy'n derbyn gofal o Loegr sydd wedi eu lleoli yng Nghymru ac sydd â chyswllt arwyddocaol ag ardal yng Nghymru yn cael eu hetholfreinio. Gwneir darpariaethau cyfatebol i bobl 14 a 15 oed sy'n derbyn gofal gael eu cofrestru fel pobl sy'n cyrraedd oedran pleidleisio, gyda gofal penodol ynghylch cyfrinachedd.

Mae Erthygl 20 yn cael ei pharchu o dan y Bil

1025. Mae Erthygl 22 yn datgan y dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a enir yn y wlad honno.

²¹⁷ Un eithriad i hyn yw plant sy'n derbyn gofal na chânt bleidleisio am reswm arall – er enghraifft, oherwydd eu bod yn ddinasyddion nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, neu sydd yn y carchar.

1026. Ar hyn o bryd, ni chaiff ffoaduriaid bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU, llywodraeth leol na'r Cynulliad Cenedlaethol a bydd hyn yn parhau i fod yn wir mewn perthynas ag etholiadau Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol.

1027. Gellir nodi hefyd na fyddai'r Bil yn etholfreinio pobl 16 a 17 oed nad oes ganddynt yr hawl gyfreithiol i fod yn y DU wrth geisio cofrestru. Gall hyn gynnwys ceiswyr lloches (ffoaduriaid).

1028. Am y rheswm hwn, nid yw'r Bil yn estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i bobl 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad. Mae'n debygol y bydd y grŵp hwn yn cynnwys pobl sydd wedi cael lloches (ffoaduriaid). Fel y nodwyd yn flaenorol, gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil dadleuon gwleidyddol cyfartal iawn.

1029. Rhagwelir y bydd ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus yn cynnwys esboniadau clir ynghylch pwy sy'n cael pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad er mwyn lliniaru unrhyw ddryswch y gall hyn ei achosi.

1030. Gellir nodi hefyd y bydd pobl 16 a 17 oed nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad (gan gynnwys ffoaduriaid) yn cael pleidleisio mewn etholiadau i Senedd leuencid Cymru, a rhagwelir y byddant yn cael pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol o 2022 ymlaen (yn amodol ar y *Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)* yn dod yn ddeddf).

1031. Hefyd, nodir bod Llys Hawliau Dynol Ewrop yn caniatáu lwfans dehongli eang i Wladwriaethau mewn perthynas ag Erthygl 3 (o'r *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*), ac mae'n debygol o ganiatáu un arbennig o eang mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch pa wladolion tramor preswyl, os oes rhai, y caniateir iddynt bleidleisio yn eu hetholiadau deddfwriaethol.

1032. Er y bydd y Bil yn cadw'r sefyllfa bresennol lle y caniateir i ddinasyddion y Gymanwlad a dinasyddion gwledydd eraill yr UE sefyll a phleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad, mae'r sefyllfa hon yn adlewyrchu'r cytundebau cyfatebol sydd ar waith gyda gwledydd yr UE a'r Gymanwlad – mewn geiriau eraill, caiff eu dinasyddion hwy bleidleisio yn etholiadau'r DU a chaiff dinasyddion y DU bleidleisio yn eu rhai hwy.

Yn gryno, ystyrir bod y Bil yn parchu Erthygl 22.

1033. Mae **Erthygl 23** yn darparu bod gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, chyn belled ag y bo'n bosibl, annibyniaeth a rhan weithgar yn y gymuned.

1034. Rhagwelir y bydd deunyddiau addysg sy'n cael eu llunio i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn cael eu datblygu o ystyried anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau.

1035. Gellir nodi hefyd y bydd hawliau presennol pleidleiswyr anabl hefyd yn gymwys i bleidleiswyr 16 a 17 oed sy'n anabl. Er enghraifft, bydd modd iddynt ofyn am gymorth i farcio'r papur pleidleisio, defnyddio dyfais bleidleisio drwy gyffwrdd (i helpu pobl â nam ar eu golwg neu'r rhai sydd heb ddigon o ddehurwydd i farcio eu papur pleidleisio'n gyfrinachol), cyfeirio at fersiwn print bras o'r papur pleidleisio, a gwybod bod rhaid rhoi sylw i hygyrchedd i bleidleiswyr anabl pan ddynodir mannau pleidleisio.

Mae Erthygl 23 yn cael ei pharchu o dan y Bil

1036. Mae Erthygl 28 yn nodi bod gan bob plentyn yr hawl i addysg, ac mae Erthygl 29 yn pennu nodau addysg o'r fath.

1037. Dywedodd y Panel Arbenigol, ochr yn ochr â'r gostyngiad yn yr oedran pleidleisio isaf, y dylid darparu addysg wleidyddol a dinasyddiaeth briodol i blant a phobl ifanc, a fyddai'n rhan o ystod ehangach o gamau gweithredu gan y Cynulliad, Llywodraeth Cymru ac eraill i gynyddu cyfranogiad gwleidyddol ac ymgysylltu â phobl ifanc.

1038. Yn yr un modd, wrth ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad, argymhellodd Comisiynydd Plant Cymru y canlynol:

“independent civic and democratic education should be provided as part of the curriculum reform process and enable children and young people to creatively and critically engage in political issues that matter to them.”²¹⁸

1039. Er nad yw'n ofyniad o'r Bil ei hun, rhagwelir y bydd ymgyrch addysg a chodi ymwybyddiaeth yn cael ei datblygu i sicrhau bod pobl 16 a 17 oed yn ymwybodol o'r cyfle i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Gall hyn gynnwys hysbysebu, deunydd ysgrifenedig a hyrwyddo wyneb yn wyneb mewn ysgolion a sefydliadau eraill. Rhagwelir y bydd gwaith o'r fath yn cael ei adolygu'n barhaus.

Rhoddir effaith i Erthyglau 28-29 o dan y Bil.

²¹⁸ Comisiynydd Plant Cymru, Creu Senedd i Gymru, ymateb i'r ymgynghoriad, 6 Ebrill 2018.

19.5. Yr effaith ar grwpiau penodol o blant

1040. Wrth lunio'r Bil, ystyriwyd yr effaith bosibl ar blant a grwpiau penodol o blant. Ymdriniwyd â rhai o'r rhain uchod mewn perthynas ag erthyglau penodol, er enghraifft plant sy'n derbyn gofal, gwladolion tramor nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, a throseddwy'r ifanc sydd yn y carchar.

1041. Fel y nodwyd yn gynharach, ni fyddai troseddwy'r ifanc 16 a 17 oed a gedwir yn yr hyn sy'n cyfateb i sefydliadau cosbi i bobl ifanc yn cael pleidleisio tra byddant mewn sefydliadau o'r fath i bobl 16 a 17 oed. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil yr angen i drafod ymhellach y materion cyfreithiol, moesol, democrataidd, ymarferol a materion o ran hawliau dynol cysylltiedig uchod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd troseddwy'r ifanc mewn carchardai yn dal i gael y cyfle i ddysgu am bleidleisio drwy'r addysg a gânt yn y carchar. Er na fydd pobl ifanc o'r fath yn cael y cyfle i bleidleisio tra byddant yn y carchar, mae'n bwysig nodi y byddant yn cael pleidleisio ar ôl iddynt adael y carchar, felly ni ddylid gwrthod cyfleoedd iddynt ddysgu am eu hawliau pleidleisio.

1042. Fel y nodwyd yn gynharach, ni fydd pobl ifanc nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad yn cael yr hawl i bleidleisio. Mae'n debygol y bydd y grŵp hwn yn cynnwys cyfran sylweddol o bobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a ffoaduriaid. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod:

- byddai'n gwbl amhriodol i bobl 16 a 17 oed sy'n wladolion nad ydynt o'r UE na'r gymanwlad gael eu hetholfreinio, ac yna iddynt gollir etholfraint honno yn 18 oed;
- mae dadleuon cyfartal iawn ynghylch etholfreinio gwladolion nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad yn gyffredinol.

1043. Fel y nodwyd yn gynharach hefyd, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i ymdrin â materion sy'n codi ynghylch plant sy'n derbyn gofal. Mae'n bosibl y bydd llai o sefydlogrwydd ymhlith y grŵp hwn o bobl ifanc o ran eu preswylfa ac efallai y bydd rhai yn symud rhwng lleoliadau yng Nghymru a Lloegr yn aml. Am y rheswm hwn, gwneir darpariaethau penodol i alluogi'r bobl ifanc hyn²¹⁹ i gofrestru yn unol â'r lleoliad yng Nghymru lle mae ganddynt gysylltiad lleol. Cyn-breswylfa neu gyfeiriad awdurdod lleol fydd hyn.

1044. Yn ogystal, byddai plant sy'n derbyn gofal o Loegr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac a all ddangos cyswllt sylweddol â'r ardal honno yng Nghymru yn cael

²¹⁹ Un eithriad i hyn yw plant sy'n derbyn gofal na chânt bleidleisio am reswm arall – er enghraifft, oherwydd eu bod yn ddinasyddion nad ydynt o'r UE na'r Gymanwlad, neu sydd yn y carchar.

eu hetholfreinio. Gwneir darpariaethau cyfatebol i bobl 14 a 15 oed sy'n derbyn gofal gael eu cofrestru fel pobl sy'n cyrraedd oedran pleidleisio, gyda gofal penodol ynghylch cyfrinachedd.

19.6. Canlyniadau anfwriadol a risgiau

1045. Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig fod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol, a risgiau na fydd y canlyniadau'n union fel y'u bwriadwyd.

1046. Fel y nodwyd yn flaenorol, gallai achosi dryswch ymhlith gweinyddwyr a'r etholwyr pleidleisio fod yn un o'r canlyniadau anfwriadol posibl o newid etholfraint y Cynulliad. Er enghraifft, er y bydd gan y rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol, ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU.

1047. Fodd bynnag, credir y bydd y risg hon yn cael ei lliniaru gan y bwriad i roi gwybodaeth am y newidiadau i'r oedran pleidleisio mewn da bryd i sicrhau bod pobl 16 a 17 oed yn cael gwybod ym mha etholiadau y mae ganddynt yr hawl i bleidleisio.

1048. Canlyniad anfwriadol posibl arall yw y gallai etholfreinio pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad – yn y tymor hwy – arwain at newidiadau cymdeithasol yn y dehongliad o oedolyn. Gallai hyn, yn ei dro, effeithio ar bolisiau a chyfreithiau amddiffyn plant. Ar hyn o bryd, nod penodol nifer o gyfreithiau yw amddiffyn plant a phobl ifanc hyd at 18 oed, oherwydd eu bod yn agored i niwed. Er enghraifft, yng Nghymru, 18 yw'r oedran pan gaiff person datwâ yn gyfreithlon, defnyddio bwth lliw haul, prynu tybaco, neu gael eu tyllu mewn rhannau personol o'r corff.

1049. Fodd bynnag, nid oes cyswllt uniongyrchol rhwng y cyfreithiau hyn a'r oedran pleidleisio. Dylid nodi hefyd bod y cyhoedd, yn hanesyddol, wedi bod yn gyfarwydd ag oedrannau gwahanol sy'n gysylltiedig â hawliau a chyfrifoldebau gwahanol (er enghraifft, yr oedran y caiff person yrru'n gyfreithlon yw 17). At hynny, bydd yr oedran i ymgeisio i sefyll etholiad yn y Cynulliad yn parhau'n 18 oed. Fel y cyfryw, ystyrir mai risg isel sydd y bydd y canfyddiadau cymdeithasol o oedolyn yn newid o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Ystyrir bod yr ystod o ddadleuon y cyfeiriwyd atynt eisoes o blaid gostwng yr oedran pleidleisio yn gorbwyso'r risg hon.

19.7. Crynodeb o effaith y Bil ar hawliau plant

1050. Yn gryno, ystyrir bod y Bil yn ategu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rhoddwyd sylw dyledus i hawliau plant wrth lunio'r Bil.

1051. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad wrth ddatblygu'r Bil hwn, gyda fersiynau hawdd eu darllen o'r ddau ohonynt, er mwyn galluogi ystod ehangach o bobl sydd â buddiant posibl yn y Bil (gan gynnwys plant a phobl ifanc) i gymryd rhan ynddynt.

1052. Ystyriwyd yr effaith ar grwpiau penodol a, lle bo angen, mae'r cynigion wedi'u haddasu er mwyn sicrhau bod y Bil yn cael effaith mor gadarnhaol â phosibl heb achosi niwed i grwpiau penodol. Ystyriwyd y risgiau posibl a'r canlyniadau anfwriadol, sydd wedi dylanwadu ar gynnwys y Bil.

20. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

20.1. Dyddiad yr asesiad effaith

1053. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

20.2. Diben yr asesiad effaith

1054. Nid yw'r Asesiad Effaith Iechyd hwn yn ofyniad statudol ond cafodd ei ddatblygu fel arfer da.

1055. Diben yr Asesiad Effaith Iechyd hwn yw ystyried effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol darpariaethau'r Bil ar iechyd, iechyd meddwl a llesiant, ac ystyried y newidiadau sydd eu hangen ar y Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol yn y meysydd hynny.

20.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

1056. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn.

1057. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol â swyddogion Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth lunio'r asesiad effaith hwn, i geisio eu barn am sut y gallai polisiau'r Bil effeithio ar iechyd, iechyd meddwl a llesiant.

20.4. Effeithiau cyffredinol y Bil ar iechyd

1058. Nid ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn cael effaith (nid un fuddiol na negyddol) ar iechyd.

1059. Fodd bynnag, credir bod etholfreinio pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn cael nifer o effeithiau cadarnhaol posibl ar iechyd, fel y nodir isod.

20.5. Effeithiau uniongyrchol ar iechyd, iechyd meddwl a llesiant

1060. Ystyriwyd a allai'r Bil achosi salwch neu effeithio ar gynhwysiant cymdeithasol, annibyniaeth a chyfranogiad fel arall.

1061. Byddai estyn etholfraint y Cynulliad i bobl 16 a 17 oed yn cael effaith gadarnhaol o ran eu galluogi i gymryd rhan ym mhrosesau democrataidd cymdeithas.

1062. Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, ni chredir y byddai'r Bil yn cael effeithiau uniongyrchol o ran salwch, cynhwysiant cymdeithasol nac annibyniaeth.

1063. Yn yr un modd, ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil gael effaith ar iechyd byd-eang.

20.6. Effeithiau ar amodau byw cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a allai effeithio'n anuniongyrchol ar iechyd

1064. Gall estyn etholfraint y Cynulliad i bobl 16 a 17 oed, a rhoi dylanwad uniongyrchol i bobl ifanc ar gyfansoddiad llywodraethau yn y dyfodol, o ganlyniad i hynny, gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol o ran amodau byw cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a allai effeithio'n anuniongyrchol ar iechyd.

1065. Nododd ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2015 y materion a ganlyn sy'n peri pryder penodol o ran gwella bywydau plant a phobl ifanc:

- “Angen plant am gynhesrwydd emosïynol a chefnogaeth (plant a phobl ifanc yn bennaf)
- Rhianta, cymorth rhianta ac anghenion rhieni (gweithwyr proffesiynol yn bennaf)
- Materion addysgol yn cynnwys (i blant a phobl ifanc) ansawdd yr addysg a'r cyfleusterau addysgol ac (i oedolion) cefnogaeth addysgol a materion cysylltiedig â phrofion a straen arholiadau
- Mynediad at ofal iechyd a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, yn ogystal ag anghenion iechyd grwpiau penodol (i oedolion)
- Prinder canfyddedig yn y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl
- Pwysigrwydd chwarae a rhyddid a chyfleusterau hamdden yn yr ardal leol
- Pwysigrwydd mynediad at dechnoleg a'r rhyngryd (plant a phobl ifanc yn bennaf)

-
- Yr iaith Gymraeg, gan gynnwys yr angen am fwy o gefnogaeth i ysgolion a gweithgareddau tu allan i'r ysgol
 - Pontio o wasanaethau plant i oedolion (nodwyd gan weithwyr proffesiynol yn bennaf).²²⁰

1066. Gellir tybio'n rhesymol y bydd o leiaf gyfran o bobl ifanc a gaiff eu hetholfreinio i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn awyddus i bleidleisio o blaid y personau mwyaf galluog, yn eu barn hwy, i fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn yr un modd, gellir tybio'n rhesymol y bydd pleidiau'n fwy tebygol o ddatblygu polisiau cyfatebol i apelio at bleidleiswyr ifanc.

1067. Mae goblygiadau clir i nifer sylweddol o'r materion hyn ar gyfer gwella iechyd a llesiant. Er enghraifft, byddai gwella argaeledd cyfleusterau hamdden mewn ardal leol yn helpu unigolion i fod yn gorfforol egnïol. Yn yr un modd, gallai polisiau a gaiff eu datblygu i ddiwallu "Angen plant am gynhesrwydd emosiynol a chefnogaeth", a "P[h]rinder canfyddedig yn y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl" gael buddion iechyd meddwl cadarnhaol. Yn yr un modd, byddai'n amlwg bod ystod eang o fuddion iechyd i bolisiau sy'n mynd i'r afael â "mynediad at ofal iechyd a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw".

1068. Gellir dadlau hefyd y gall etholfreinio'r rhan fwyaf o bobl 16 a 17 oed gael effaith anuniongyrchol, fuddiol ar iechyd meddwl ynddo'i hun. Gall yr ymdeimlad o gael ei eithrio o benderfyniadau sy'n effeithio ar berson, neu'r ymdeimlad o beidio â rheoli penderfyniadau o'r fath fel arall, gael effaith negyddol ar iechyd meddwl person. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd etholfreinio pobl 16 a 17 oed yn etholiadau'r Cynulliad (a chael ychydig o reolaeth ynghylch penderfyniadau sylfaenol ar lywodraethu eu gwlad o ganlyniad i hynny) yn cael effaith anuniongyrchol, fuddiol ar iechyd meddwl.

20.7. Yr effaith ar allu unigolyn i wella ei iechyd a'i lesiant ei hun

1069. Ni fyddai'r Bil yn cael effaith andwyol ar allu unigolion i fod yn gorfforol egnïol, dewis bwyd iach, ac yfed ac ysmygu llai.

1070. Fel y nodwyd uchod, gellir dadlau hefyd y gallai'r Bil gael effaith gadarnhaol ar ddarparu lleoedd i bobl ifanc fod yn gorfforol egnïol.

²²⁰ Comisiynydd Plant Cymru, [Beth Nesa? What Next? Y canfyddiadau](#), Chwefror 2016.

20.8. Y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu fynediad atynt

1071. Ni chredir y byddai'r Bil yn cael effaith uniongyrchol ar y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, nac ar y fynediad atynt.

1072. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, gellir dadlau y gallai etholfreinio plant a phobl ifanc i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad gael effaith gadarnhaol, anuniongyrchol (o ystyried bod "mynediad at ofal iechyd" yn un o'r materion a nodwyd fel pryder penodol.

21. Datblygu cynaliadwy

21.1. Dyddiad yr asesiad effaith

1073. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

21.2. Diben yr asesiad effaith

1074. Nid yw'r Asesiad Effaith Datblygu Cynaliadwy hwn yn ofyniad statudol ond cafodd ei lunio fel arfer da.

1075. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwella'r ffordd y gallwn gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn nodi'r diffiniad a ganlyn:

“ystyr ‘datblygu cynaliadwy’ yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.”²²¹

1076. Felly, diben yr asesiad effaith hwn yw ystyried yr effaith, os oes un, a gaiff y Bil hwn ar ddatblygu cynaliadwy.

21.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

1077. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn.

21.4. Yr effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy

1078. Ar sail yr ymarferion ymgynghori uchod ac ymchwil a wnaed gan swyddogion y Comisiwn, gall y darpariaethau a ganlyn yn y Bil sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn effeithio ar ddatblygu cynaliadwy.

²²¹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rhan 2 “gwella llesiant” adran 2 “datblygu cynaliadwy”.

21.4.1. Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

1079. Gellir dadlau y gall etholfreinio pobl 16 a 17 oed arwain yn anuniongyrchol at fwy o ffocws ar ddatblygu cynaliadwy, gan fod yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn codi'n aml fel pryderon allweddol i'r demograffig hwn.²²²

1080. Mae'r ddadl hon yn seiliedig ar y dybiaeth bod pleidleiswyr yn fwy tebygol o bleidleisio dros y personau a'r pleidiau y maent yn credu y byddant yn mynd i'r afael â'r materion sy'n bryder iddynt.

21.4.2. Egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau

1081. Gellir cyflwyno dadl betrus y byddai egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad (mewn perthynas â'i allu i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau) yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â chynaliadwyedd ei wasanaethau. Fodd bynnag, nid ystyrir bod y ddadl hon yn cael effaith sylweddol mewn perthynas â chynaliadwyedd gwasanaethau, gan nad yw'r Comisiwn, ar hyn o bryd, yn bwriadu codi tâl am wasanaethau a ddarperir (heblaw mewn cysylltiad â'i swyddogaethau). Yn hytrach, prif fwriad egluro'r ddeddfwriaeth (i gael gwared ar yr amwysedd) yw lleihau'r potensial ar gyfer her gyfreithiol yn y dyfodol, pe bai'r Comisiwn yn newid ei bolisi yn y dyfodol.

21.4.3. Crynodeb o effaith y Bil ar ddatblygu cynaliadwy

1082. Ni chredir bod y Bil yn cael effaith negyddol ar ddatblygu cynaliadwy.

1083. Credir y gall darpariaethau'r Bil gael effaith gadarnhaol, anuniongyrchol ar ddatblygu cynaliadwy.

²²² Gweler, er enghraifft, [The Guardian, Young people urge UK politicians to help safeguard nature](#), 25 Gorffennaf 2016, sy'n nodi bod bron naw o bob 10 person ifanc yn meddwl ei bod yn bwysig i wleidyddion ofalu am fywyd gwyllt a'r amgylchedd, neu'r [BBC, Survey: Half of young people want electric cars](#), 12 Gorffennaf 2018, sy'n nodi yr hoffai hanner y bobl ifanc yn y DU fod yn berchen ar gar trydan - o gymharu hynny â dim ond chwarter o'u rhieni.

22. Yr effaith ar fusnesau bach a'r trydydd sector

22.1. Dyddiad yr asesiad effaith

1084. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

22.2. Diben yr asesiad effaith

1085. Nid yw'r asesiad effaith hwn ar fusnesau bach a'r trydydd sector yn ofyniad statudol, ond mae wedi'i lunio fel arfer da.

1086. Diben yr asesiad effaith hwn yw ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar fusnesau bach a'r trydydd sector, ac ystyried y newidiadau sydd eu hangen ar y Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol yn y sectorau hynny.

22.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

1087. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn, ynghyd ag ymchwil a wnaed gan swyddogion y Comisiwn.

22.4. Effeithiau'r Bil ar fusnesau bach a'r trydydd sector

1088. Nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil ar y materion a ganlyn yn effeithio mewn unrhyw fodd ar fusnesau bach na'r trydydd sector:

- yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad;
- enw'r Cynulliad;
- dyletswydd ar y Senedd i ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol;
- dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad;
- egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau;

-
- gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli'r gyfraith etholiadol.

1089. Fodd bynnag, ystyrir bod anghymwysiaidau (rhag bod yn Aelod Cynulliad) yn cael effaith bosibl ar y trydydd sector, fel y nodir isod.

22.5. Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad

1090. Mae'r Bil yn cael effeithiau ar sefydliadau yn y trydydd sector, ond nid ystyrir y bydd y rhain yn sylweddol, nac y byddant yn gwbl negyddol na chadarnhaol eu natur.

1091. Yn benodol, mae'r Bil yn sefydlu fframwaith anghymwysiaidau newydd, fel bod pobl sydd â swyddi penodol wedi'u hanghymhwyso rhag sefyll fel ymgeiswyr i'w hethol i'r Cynulliad, ac y bydd eraill yn cael eu hanghymhwyso dim ond rhag tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch fel Aelod Cynulliad.

1092. Gellir ystyried bod rhai o'r swyddi hyn yn berthnasol i'r trydydd sector, megis aelodau o Gyngor Celfyddydau Cymru, neu Gyngor Gofal Cymru.

1093. Ar hyn o bryd, rhaid i bersonau â swyddi o'r fath ymddiswyddo cyn sefyll etholiad. Gall hyn gael dwy effaith negyddol. Yn gyntaf, os yw personau o'r fath yn ymddiswyddo er mwyn sefyll etholiad, mae hyn yn tarfu ar y sefydliadau y maent yn gweithio iddynt (oherwydd bod rhaid iddynt gael staff newydd yn eu lle). Yn ail, efallai na fydd ymgeiswyr am sefyll oherwydd y byddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo o'u swyddi presennol cyn gwneud hynny. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl nad yw'r Cynulliad yn elwa ar sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth bersonol personau o'r fath am weithio gyda'r trydydd sector.

1094. Mae anghymhwyso person sydd â swydd o'r fath ar adeg tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch yn datrys y ddau fater uchod. Felly, gellir dadlau bod y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar y trydydd sector.

1095. Fodd bynnag, gellid dadlau i'r gwrthwyneb y gellid cael cynnydd, o ganlyniad i'r effeithiau hyn, yn nifer y personau sydd â swyddi o'r fath a fyddai'n fodlon sefyll etholiad. Pe bai'r ymgeiswyr hyn yn cael eu hethol wedyn, byddai'n ofynnol iddynt ymddiswyddo o'u swyddi. Yn ei dro, gellid ystyried bod hyn yn cael effaith negyddol ar gwmnïau yn y trydydd sector, gan y byddai'n ofynnol iddynt benodi staff newydd yn eu lle.

1096. Wrth ystyried y ddwy ddadl hyn, dylid nodi yr effeithir ar nifer fach o bersonau.

22.6. Crynodeb o effaith y Bil ar fusnesau bach a'r trydydd sector

1097. Ystyrir na fydd effeithiau sylweddol ar y trydydd sector, nac y bydd effeithiau o'r fath yn gwbl negyddol na chadarnhaol eu natur.

1098. Ni nodwyd effeithiau sylweddol mewn perthynas â busnesau bach.

23. Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

23.1. Dyddiad yr asesiad effaith

1099. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

23.2. Diben yr asesiad effaith

1100. Nid yw'r Asesiad Effaith Preifatrwydd hwn yn ofyniad statudol, ond cafodd ei lunio fel arfer da.

1101. Diben yr asesiad effaith hwn yw ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar breifatrwydd, ac ystyried y newidiadau sydd eu hangen ar y Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar breifatrwydd.

1102. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi nodi'r bwriad i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i bobl 16 a 17 oed.

1103. Er mwyn rhoi effaith i estyn yr etholfraint, bydd angen newid y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sy'n ategu'r gwaith o gasglu, trin a phrosesu data personol ar ffurf cofrestrau etholiadol. Mae manylion personol am y rhai sy'n gymwys i bleidleisio eisoes yn cael eu casglu a'u prosesu gan swyddogion cofrestru etholiadol.

23.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

1104. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn.

23.4. Yr effeithiau ar breifatrwydd

1105. Ar sail yr ymarferion uchod i'r ymgynghoriad ac ymchwil a wnaed gan swyddogion y Comisiwn, nid ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn cael effaith ar breifatrwydd.

1106. Fodd bynnag, credir bod nifer o oblygiadau posibl i breifatrwydd pe byddai pobl 16 a 17 oed yn cael etholfraint i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Ystyrir y rhain isod.

23.5. Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

1107. Mae gostwng yr oedran pleidleisio isaf, o reidrwydd, yn golygu y bydd setiau newydd o ddata yn cael eu cynnal am blant a phobl ifanc (pleidleiswyr 16 a 17 oed a phobl sy'n troi'n 14 ac yn 15 oed).

1108. Yng Nghymru, mae'n ofyniad statudol i bob awdurdod lleol, dan delerau *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*, benodi swyddog cofrestru etholiadol sydd â'r ddyletswydd statudol o lunio a chynnal y gofrestr etholiadol (y rhestr swyddogol o'r rhai sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn ardal yr awdurdod lleol). Mae eu ddyletswyddau hefyd yn cynnwys canfasiad blynyddol o etholwyr. Caiff y gofrestr etholiadol ei chyhoeddi bob blwyddyn ar 1 Rhagfyr.

1109. Mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr – y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir y gofrestr olygedig hefyd).

1110. Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, megis sicrhau mai dim ond pobl sy'n gymwys a gaiff bleidleisio. Caiff ei defnyddio hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith, megis canfod trosedd (e.e. twyll), galw pobl i wasanaethu ar reithgor a gwirio ceisiadau credyd. Mae hefyd ar gael i bleidiau gwleidyddol at ddibenion etholiadol.

1111. Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gellir ei phrynu gan unrhyw berson, cwmni neu sefydliad. Er enghraifft, caiff ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad.

1112. Mae enw a chyfeiriad pleidleiswyr yn cael eu cynnwys ar y gofrestr agored oni bai y gofynnir am eu dileu. Nid yw dileu manylion o'r gofrestr agored yn effeithio ar hawl unigolyn i bleidleisio.

1113. Ar hyn o bryd, dim ond y rhai 18 oed a throsodd sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar hyn o bryd, mae pleidleisio mewn etholiadau lleol yng Nghymru hefyd yn gyfyngedig i ddinasyddion Prydeinig sy'n byw yng Nghymru, dinasyddion cymhwysol y Gymanwlad sy'n byw yng Nghymru, dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon sy'n byw yng Nghymru, dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru, ac unigolion sydd wedi cofrestru i bleidleisio fel Gweision y Goron ac unigolion sydd wedi cofrestru i bleidleisio fel pleidleiswyr gwasanaeth.

1114. Os gweithredir y cynigion uchod, bydd yr hawl i bleidleisio yn cael ei hestyn i bobl 16 a 17 oed. Felly, byddai angen cynnwys eu manylion ar y gofrestr etholiadol.

1115. Bydd y gofrestr yn cynnwys pobl 16 a 17 oed fel etholwyr llawn. Hefyd, byddai gan bobl 14 a 15 oed hawl i gael eu cynnwys ar y gofrestr llywodraeth leol fel “cyrhaeddwyr”.

1116. Ni ddylid cynnwys gwybodaeth am y rhai o dan 16 oed ar yr un fersiwn o’r gofrestr nac ar restr pleidleiswyr absennol a gyhoeddir neu sydd ar gael fel arall.

1117. Bydd y risg o dorri’r rheolau data yn cael ei lliniaru gan ddarpariaeth ynglŷn â thrin data o’r fath a chreu trosedd ynghylch torri dyletswydd mewn cysylltiad â datgelu data person ifanc yn anghywir.

23.6. Crynodeb o effaith y Bil ar breifatrwydd

1118. Ystyrir y gallai’r ddarpariaeth i estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau’r Cynulliad i bobl 16 a 17 oed gael effaith negyddol ar breifatrwydd, ond bod yr effaith negyddol hon yn cael ei lliniaru drwy greu trosedd ynghylch torri dyletswydd mewn cysylltiad â datgelu data person ifanc yn anghywir.

24. Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig

24.1. Dyddiad yr asesiad effaith

1119. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

24.2. Diben yr asesiad effaith

1120. Nid yw'r asesiad hwn o'r effaith ar brawfesur gwledig yn ofyniad statudol, ond cafodd ei lunio fel arfer da.

1121. Ystyriwyd a allai unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil gael effaith andwyol ar y gymuned wledig. Diben yr asesiad hwn o'r effaith ar brawfesur gwledig yw ystyried newidiadau sydd eu hangen ar y Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol ar brawfesur gwledig.

24.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

1122. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn.

24.4. Yr effeithiau ar brawfesur gwledig

1123. Nid ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn cael effaith ar brawfesur gwledig o gwbl.

1124. Ystyrir bod dwy elfen o'r Bil (etholfreinio pobl 16 a 17 oed yn etholiadau'r Cynulliad, a darpariaethau'r Bil ar anghymwysiadau rhag bod yn Aelod Cynulliad) yn cael effeithiau posibl ar y gymuned wledig, ond nid ystyrir bod y rhain yn gwbl gadarnhaol na negyddol. Cânt eu hystyried yn eu tro isod.

24.5. Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

1125. O ran gostwng yr oedran pleidleisio, nodir na fydd cyfran sylweddol o bobl 16 a 17 oed, yn ôl y gyfraith, yn cael gyrru (ni chaiff pobl 16 oed yrru yn ôl y gyfraith, a bydd pobl 17 oed wedi cael llai o gyfleoedd i ddysgu gyrru na grwpiau oedran eraill).

1126. Felly, gellid dadlau bod pobl 16 a 17 oed mewn cymunedau gwledig yn wynebu mwy o heriau o ran cyrraedd gorsafoedd pleidleisio, o'u cymharu â phobl 16 a 17 oed mewn ardaloedd trefol.

1127. Fodd bynnag, mae lleoliadau gorsafoedd pleidleisio eisoes yn cael eu dewis gyda'r bwriad o leihau rhwystrau hygyrchedd i bleidleiswyr, a byddai pobl 16 a 17 oed, fel pleidleiswyr eraill, yn cael pleidleisio drwy'r post. Fel y cyfryw, nid ystyrir bod gostwng yr oedran pleidleisio yn cael effaith niweidiol ar y gymuned wledig.

1128. Mae hefyd yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried newidiadau i ddulliau a threfniadau pleidleisio a fyddai, pe baent yn cael eu gweithredu, yn helpu i fynd i'r afael â rhwystrau rhag pleidleisio, gan gynnwys y rhai sy'n arbennig o gyffredin mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, fel a ganlyn:

“Mae pleidleisio mewn etholiadau yn y wlad hon yn digwydd fwy neu lai yn yr un ffordd ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r rhan fwyaf ohonom ni'n mynd i orsaf bleidleisio ac yn taro croes ar ddarn o bapur gan ddefnyddio pensil plwm cydnerth ar ddarn o liny. Mae llawer o bobl yn hoffi hyn mewn gwirionedd, oherwydd mae hi'n gryn ddigwyddiad, yn gyfle i siarad â'r cymdogion, ac, yn gyffredinol, mae pobl yn ymddiried yn y broses. Fodd bynnag, Llywydd, rydym ni hefyd yn gwybod bod hyn yn fwyfwy anghyson â bywydau bob dydd pobl, ac mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc. Am y rheswm hwn, rwy'n bwriadu deddfu i gyflwyno cynlluniau arbrofol mewn etholiadau lleol ac isetholiadau a fyddai'n ymchwilio i'r dewisiadau o bleidleisio a chyfrif electronig, a phleidleisio mewn gwahanol fannau ar wahanol ddyddiau.”²²³

24.6. Anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad

1129. Fel y nodir yn asesiad effaith y Bil ar fusnesau preifat a'r trydydd sector, mae'r Bil yn sefydlu fframwaith newydd o anghymwysadau, fel y caiff pobl sydd â swyddi penodol eu hanghymhwysu rhag sefyll fel ymgeiswyr i'w hethol i'r Cynulliad, a bydd eraill yn cael eu hanghymhwysu ar adeg tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch fel Aelod Cynulliad.

1130. Gellir ystyried bod rhai o'r swyddi hyn yn berthnasol i'r gymuned wledig, megis y Prif Weithredwr ac aelodau Cyfoeth Naturiol Cymru, aelodau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, aelodau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ac aelodau

²²³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn, 30 Ionawr 2018.

Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru (ni fwriedir i hon fod yn rhestr gynhwysfawr).

1131. Ar hyn o bryd, rhaid i bersonau â swyddi o'r fath ymddiswyddo cyn sefyll etholiad. Gall hyn gael dwy effaith negyddol ar gymunedau gwledig Cymru. Yn gyntaf, os yw personau o'r fath yn ymddiswyddo er mwyn sefyll etholiad, gall hyn darfu ar y sefydliadau y maent yn gweithio iddynt (oherwydd bod rhaid iddynt gael staff newydd yn eu lle) a, thrwy gysylltiad, y gwaith roedd staff o'r fath yn gyfrifol amdano. Yn ail, efallai na fydd ymgeiswyr am sefyll fel ymgeiswyr (ar y sail y byddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo o'u swyddi presennol cyn gwneud hynny), a fyddai'n golygu na fyddai'r Cynulliad, o bosibl, yn elwa ar eu profiad o weithio gyda chymunedau gwledig Cymru.

1132. Mae anghymhwysio person sydd â swydd o'r fath ar adeg tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch yn datrys y ddau fater uchod. Felly, gellir dadlau bod y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig Cymru.

1133. Fodd bynnag, gellid dadlau i'r gwrthwyneb y gellid cael cynnydd, o ganlyniad i'r effeithiau hyn yn sgil y Bil, yn nifer y personau sydd â swyddi o'r fath sy'n fodlon sefyll etholiad. Pe bai'r ymgeiswyr hyn yn cael eu hethol wedyn, byddai'n ofynnol iddynt ymddiswyddo o'u swyddi. Yn ei dro, gellir ystyried bod hyn yn cael effaith negyddol ar y gymuned wledig, gan y byddai'n ofynnol i gyrff perthnasol benodi pobl newydd yn lle staff o'r fath (a allai, drwy gysylltiad, darfu ar eu gwaith).

24.7. Crynodeb o effaith y Bil ar brawfesur gwledig

1134. Wrth ystyried y dadleuon, mae'n amlwg ei bod yn debygol o effeithio ar nifer fach o bersonau. Fel y cyfryw, ystyrir na fydd effaith sylweddol o ran prawfesur gwledig.

1135. Yn gryno, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith andwyol o ran prawfesur gwledig.

25. Manteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol

25.1. Dyddiad yr asesiad effaith

1136. Dechreuwyd yr asesiad effaith hwn ym mis Mawrth 2017 a chafodd ei gynnal yn barhaus nes y cyflwynwyd y Bil ym mis Chwefror 2019.

25.2. Diben yr asesiad effaith

1137. Mae angen yr asesiad hwn o dan Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Rheol Sefydlog 26.6 (ix)).

1138. Diben yr asesiad hwn yw ystyried manteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol.

25.3. Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad effaith hwn?

1139. Mae manylion ynghylch pwy a gymerodd ran a phwy yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddatblygu'r Bil i'w gweld yn adran 5 o'r ddogfen hon. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau o fudd i lywio'r gwaith o lunio'r asesiad effaith hwn.

25.4. Yr effeithiau ar fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol

1140. Ar sail yr ymarferion ymgynghori uchod ac ymchwil a wnaed gan swyddogion y Comisiwn, nodwyd bod darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn yn cael effaith bosibl ar fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol.

25.5. Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

1141. Gallai estyn y bleidlais i bobl 16 a 17 oed arwain at fod y llywodraeth yn rhoi mwy o ffocws ar bolisiau sy'n bryder i bobl o'r fath. Mae amddiffyn yr amgylchedd yn destun pryder cyson i bobl yn y grŵp oedran hwn.²²⁴ Felly gellir cyflwyno dadl y gall y Bil fod â buddion amgylcheddol cadarnhaol yn anuniongyrchol.

²²⁴ Gweler, er enghraifft: Reuters, [Children around globe worry about education, environment: poll](#), 20 Tachwedd 2012

1142. Fodd bynnag, gellir dadlau hefyd fod cynyddu ôl troed carbon pob etholiad Cynulliad yn effaith uniongyrchol, anochel o gynyddu nifer y bobl sy'n gymwys i bleidleisio. Lliniariad posibl ar y ddadl hon yw bod pobl 16 a 17 oed yn fwy tebygol o rannu ceir neu ddefnyddio dull teithio llesol arall i gyrraedd gorsafoedd pleidleisio (gan na chaiff cyfran fawr o'r grŵp hwn yrru yn ôl y gyfraith).

1143. Gellir nodi manteision cymdeithasol hefyd drwy estyn y bleidlais i bobl 16 a 17 oed, o ran eu cynnwys mewn penderfyniadau cymdeithasol. Mae deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio isaf yn cynnig cyfle i hybu cyfle cyfartal i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ac ehangu ymgysylltiad democrataidd.

25.6. Enw'r Cynulliad

1144. Ystyrir bod nifer o fanteision cymdeithasol i'r Bil hwn. Credir y bydd newid enw'r Cynulliad i enw sy'n adlewyrchu'n fwy cywir ei rôl a'i gyfrifoldebau'n gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y ddeddfwrfa.

1145. Nid ystyrir bod darpariaethau sy'n ymwneud â'r materion a ganlyn yn effeithio o gwbl ar fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol:

- anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad;
- gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli'r gyfraith etholiadol;
- dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad;
- egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau.

25.7. Crynodeb o effeithiau'r Bil ar fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol

1146. Nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effeithiau negyddol ar fanteision nac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintioli'n ariannol.

1147. Credir y gallai'r ddarpariaeth i estyn yr hawl i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad gael effaith gymdeithasol gadarnhaol ac effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

1148. Credir y gallai'r ddarpariaeth i newid enw'r Cynulliad gael effaith gymdeithasol gadarnhaol.

Rhan 4: Nodiadau Esboniadol

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

NODIADAU ESBONIADOL

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar [] ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar []. Cawsant eu llunio gan [] i helpu darllynydd y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni.

RHAN 2

Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r "Senedd" ac i wneud newidiadau cysylltiedig eraill. Gellir galw'r 'Senedd' hefyd yn 'Welsh Parliament'. Bydd Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Ddeddfau'r Senedd neu'n Acts of the Senedd. Bydd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Aelodau'r Senedd neu'n Members of the Senedd. Bydd cyrff a phersonau cysylltiedig, megis Comisiwn y Cynulliad, Clerc y Cynulliad, y Bwrdd Taliadau a'r Comisiynydd Safonau, hefyd yn cael eu hailenwi. Mae'r Rhan hon yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall, yn benodol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("Mesur 2009"), a Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010"). Mae adran 150A(2) o Ddeddf 2006 yn sicrhau y bydd cyfeiriadau at y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad neu un o Ddeddfau'r Cynulliad mewn deddfwriaeth arall yn adlewyrchu'r enw newydd pan gaiff ei newid.

Adran 2 - Senedd

1. Mae adran 2(1) yn ail-enwi Cynulliad Cymru (a gyfansoddwyd gan adran 1 o Ddeddf 2006) yn "Senedd". Mae adran 2(2) yn darparu y bydd y Senedd hefyd yn cael ei galw'n "Welsh Parliament".

Adran 3 - Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2. Mae adran 3 yn darparu y bydd Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Ddeddfau'r Senedd neu'n Acts of the Senedd.

Adran 4 - Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3. Mae adran 4 yn darparu y bydd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Aelodau'r Senedd neu'n Members of the Senedd.

Adran 5 - Clerc y Cynulliad

4. Mae adran 5 yn darparu y bydd Clerc y Cynulliad yn cael ei alw'n Clerc y Senedd neu'n Clerk of the Senedd.

Adran 6 - Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5. Mae adran 6 yn darparu y bydd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei alw'n Gomisiwn y Senedd neu'n Senedd Commission.

Adran 7 - Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6. Mae adran 7 yn darparu y bydd Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei alw'n Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd neu'n Independent Remuneration Board of the Senedd.

Adran 8 - Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

7. Mae adran 8 yn darparu y bydd Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei alw'n Gomisiynydd Safonau y Senedd neu'n Senedd Commissioner for Standards.

Adran 9 - Diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol

8. Mae adran 9 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2006, Mesur 2009 a Mesur 2010.

Atodlen 1

Rhan 1 - Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

9. Mae paragraffau 1 i 17 yn gwneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf 2006 i adlewyrchu enw newydd y Cynulliad.
10. Mae paragraff 5 yn gwneud diwygiadau i Ran 1 o Ddeddf 2006. Mae'n diwygio'r dehongliad o ymadroddion fel eu bod yn cyfeirio at yr ymadroddion newydd fel y'u diwygiwyd.
11. Mae paragraff 8 yn gwneud diwygiadau i adran 1 o Ddeddf 2006 i ddarparu y gellir galw'r Senedd yn "Welsh Parliament" hefyd.
12. Mae paragraff 18 yn ei gwneud yn glir nad oes dim ym mharagraffau 1 i 17 o Ran 1 yn effeithio ar baragraff 19, sy'n rhestru geiriau neu ddarpariaethau yn Neddf 2006 na chânt eu newid.

Rhan 2 - Diwygiadau i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

13. Mae paragraffau 20 i 25 yn gwneud diwygiadau amrywiol i Fesur 2009 i adlewyrchu enw newydd y Cynulliad.
14. Mae paragraff 26 yn ei gwneud yn glir nad oes dim ym mharagraffau 20 i 25 o Ran 2 yn effeithio ar baragraff 27, sy'n rhestru geiriau neu ddarpariaethau ym Mesur 2009 na chânt eu newid.

Rhan 3 - Diwygiadau i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

15. Mae paragraffau 28 i 31 yn gwneud diwygiadau amrywiol i Fesur 2010 i adlewyrchu enw newydd y Cynulliad.
16. Mae paragraff 32 yn ei gwneud yn glir nad oes dim ym mharagraffau 28 i 31 o Ran 3 yn effeithio ar baragraff 33, sy'n rhestru geiriau neu ddarpariaethau ym Mesur 2010 na chânt eu newid.

RHAN 3

ETHOLIADAU

Etholfraint

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Yn bennaf, mae'r Rhan yn cynnwys diwygiadau i'r gyfraith etholiadol bresennol, yn enwedig Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (OS 2001/341) ("Rheoliadau 2001") sy'n darparu llawer o'r manylion gweithredol ar y system gofrestru (ymysg pethau eraill). Mae'r diwygiadau a wneir i Ddeddfau a rheoliadau yn y Rhan hon yn cael effaith at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd yn unig.

Adrannau 10 ac 11 – Estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd

17. Mae adrannau 10 ac 11 o'r Ddeddf yn galluogi pobl 16 a 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny.
18. Mae adran 10 yn diwygio adran 12(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), sy'n nodi pwy gaiff bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.
19. Mae adran 12(1)(a) o Ddeddf 2006 yn darparu mai'r personau sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd fydd y rhai a fyddai â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru. Mae adran 10 o'r Ddeddf hon yn cynnal y sefyllfa honno, ond yn gostwng yr oedran y caiff person bleidleisio yn etholiadau'r Senedd i 16 oed a hŷn.
20. Gan fod adran 12(1)(b) o Ddeddf 2006 yn darparu bod yn rhaid i'r personau sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd hefyd gael eu cofrestru yng nghofrestr etholwyr llywodraeth leol, mae'r Rhan hon yn gwneud nifer o newidiadau i'r broses ar gyfer cofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru i alluogi personau 16 oed a hŷn i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.
21. Mae adran 11 yn diwygio adran 4 o Ddeddf 1983 fel bod yr oedran pan gaiff person hawl i gael ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol yn newid o 18 oed neu'n hŷn i 16 oed neu'n hŷn.

Adran 12 – Canfasio blynyddol

22. Mae adran 12 yn gwneud diwygiadau i'r broses ganfasio aelwydydd flynyddol mewn perthynas ag etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru fel y'i nodir yn Deddf 1983 a Rheoliadau 2001.
23. Mae adran 12(1) yn addasu'r gofyniad i swyddogion cofrestru wneud ymholiadau o dŷ i dŷ at ddibenion cynnal cofrestr etholwyr llywodraeth leol fel nad yw'n gymwys i unrhyw berson o dan 16 oed.
24. Mae adran 12(2)(a) yn diwygio Rheoliadau 2001 fel bod y ffurflen ganfasio flynyddol ar gyfer etholwyr llywodraeth leol yn gofyn am enw llawn, dyddiad geni a chenedligrwydd pob person 14 a 15 oed sy'n gymwys i gofrestru yn y cyfeiriad. Mae'r

ddarpariaeth yn caniatáu i'r swyddog cofrestru, at ddibenion etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd, gynnwys y bobl a fydd yn 16 oed erbyn etholiad nesaf y Senedd ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol.

25. Mae adran 12(2)(b) yn atal swyddogion cofrestru rhag darparu dyddiad geni unrhyw berson o dan 16 oed ar ffurflenni canfasio wedi'u hargraffu ymlaen llaw.

Adran 13 - Gwahoddiadau i gofrestru

26. Mae adran 13 yn diwygio darpariaethau sy'n ymdrin â gwahoddiadau i gofrestru yn Neddf 1983 a Rheoliadau 2001 i gynnwys darpariaeth am bersonau o dan 16 oed.
27. Mae adran 13(1) yn diwygio adran 9E o Ddeddf 1983 fel na chaiff swyddog cofrestru osod cosb sifil ar berson nad yw'n cydymffurfio â gofyniad i wneud cais i gofrestru pan fo'r person hwnnw o dan 16 oed.
28. Mae adran 13(2) yn gwneud diwygiadau i reoliad 32ZC o Reoliadau 2001 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwahoddiad i wneud cais i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol, pan fo'r person a wahoddir o dan 16 oed, gynnwys esboniad o sut y caiff gwybodaeth y person ei chadw a'i defnyddio.
29. Mae adran 13(3) yn diwygio rheoliad 32ZD o Reoliadau 2001 fel na fydd yn ofynnol i swyddog cofrestru ymweld â chyfeiriad person a wahoddir i gofrestru pan roddir y gwahoddiad i berson o dan 16 oed.
30. Mae adran 13(4) yn diwygio rheoliad 32ZE drwy addasu'r amodau sy'n gymwys cyn y caiff swyddog cofrestru ofyn i berson o dan 16 oed gofrestru. Mewn achosion o'r fath, nid oes gofyniad i'r swyddog fod wedi rhoi gwybod i'r person y gellid gosod cosb sifil os na fydd y person yn gwneud cais i gofrestru. Mae hefyd yn dileu'r gofyniad i gynnwys gwybodaeth am y gosb sifil pan anfonir hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gofrestru at berson o dan 16 oed.

Adran 14 - Gwahoddiadau i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed

31. Mae adran 14 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru yn etholwr llywodraeth leol yng Nghymru. Gall fod angen gwneud y rheoliadau hyn o ganlyniad i ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

Adran 15 - Ceisiadau i gofrestru

32. Mae adran 15 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2001 mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.
33. Mae adran 15(2)(a) yn diwygio rheoliad 26 fel ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr na allant darparu dyddiad geni ddatgan a ydynt o dan 16 oed, yn 16 neu'n 17 oed, neu'n 18 oed neu'n hŷn.
34. Effaith y diwygiad yn adran 15(2)(b) yw ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gynnwys y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ym mharagraff (1A) wrth ddylunio ffurflenni cais perthnasol.

-
35. Mae adran 15(2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol nodi yn y ffurflenni cais perthnasol sut y caiff gwybodaeth am ymgeiswyr i gofrestru sydd o dan 16 oed ei chadw a'i defnyddio.
36. Mae adran 15(2)(d) yn diwygio rheoliad 26 drwy ddileu'r gofyniad i ddarparu rhif Yswiriant Gwladol wrth wneud cais i gofrestru pan fo'r ymgeisydd o dan 16 oed.
37. Mae hefyd yn dileu'r gofyniad ar swyddogion cofrestru i roi esboniad i'r ymgeiswyr o'r gofrestr olygedig pan fo'r ymgeisydd o dan 16 oed a phan fo'r swyddog cofrestru wedi awdurdodi'r ymgeisydd i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol dros y ffôn neu'n bersonol. Y rheswm am hyn yw na fydd manylion pobl 14 neu 15 oed yn cael eu cynnwys yn y gofrestr olygedig.
38. Mae adran 15(3) yn diwygio rheoliad 26B. Pan fo'r ymgeisydd o dan 16 oed, nid yw pŵer y swyddog cofrestru i ofyn am wybodaeth ychwanegol o dan y rheoliad hwnnw'n gymwys os oes gwybodaeth ar gael i'r swyddog cofrestru o gofnodion addysgol, a phan fo'r wybodaeth honno'n bodloni'r swyddog cofrestru o ran hunaniaeth yr ymgeisydd a'i hawl i gael ei gofrestru.
39. Mae adran 15(4) yn dileu'r gofyniad yn rheoliad 28 bod rhaid i gais i gofrestru, ac unrhyw wrthwynebiad i gais o'r fath, fod ar gael i'w archwilio, pan wneir cais gan berson o dan 16 oed. Ni fydd manylion ceisiadau personau o dan 16 oed yn cael eu cyhoeddi.
40. Mae adran 15(5) yn darparu nad yw rheoliad 29ZA yn gymwys mewn achosion pan wneir cais i gofrestru gan berson o dan 16 oed. Mae rheoliad 29ZA yn gwneud darpariaeth ynghylch dilysu gwybodaeth a ddarperir mewn cais i gofrestru sy'n cynnwys anfon y wybodaeth i'w gwirio ar sail cofnodion a gedwir gan Cyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Adran 16 - Adolygu'r hawl i gofrestru

41. Mae adran 16(2) yn darparu nad yw rheoliad 31D(2)(b) yn gymwys pan fo testun adolygiad o'r fath o dan 16 oed.
42. Mae rheoliad 31D(2)(b) o Reoliadau 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru wneud cofnod mewn rhestr (y gellir ei harchwilio) pan na fydd y swyddog yn fodlon bod gan destun adolygiad hawl i gael ei gofrestru.
43. Mae adran 16(3) yn diwygio rheoliad 31E fel nad yw'r gofyniad i gadw rhestr o adolygiadau'n gymwys pan fo testun yr adolygiad o dan 16 oed.

Adran 17 - Cofrestru'n ddiennw

44. Mae adran 17 yn ychwanegu at restr, yn rheoliad 31J, y personau a gaiff ardystio cais i gofrestru'n ddiennw a wneir gan berson o dan 16 oed mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n caniatáu i berson a awdurdoddir gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru lofnodi i ardystio y byddai diogelwch yr ymgeisydd (neu berson arall a enwir yn aelwyd yr ymgeisydd) mewn perygl pe byddai'r gofrestr yn cynnwys enw neu gyfeiriad cymhwysol yr ymgeisydd.

Adran 18 - Datganiad o gysylltiad lleol

45. Mae adran 18 yn diwygio adran 7B o Ddeddf 1983 mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.
46. Mae adran 7B yn nodi o dan ba amgylchiadau y caniateir i berson wneud datganiad o gysylltiad lleol. Effaith datganiad o gysylltiad lleol yw y gellir cofrestru datganwyr drwy nodi cyfeiriad heblaw'r un nad ydynt yn byw ynddo fel rheol.
47. Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 18(2) yn caniatáu i bersonau o dan 18 oed wneud datganiad o gysylltiad lleol os ydynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol neu'n cael eu cadw mewn llety diogel a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn amgylchiadau a bennir hefyd yn y rheoliadau.
48. Mae adran 18(3) yn diwygio adran 7B(4) o Ddeddf 1983 ac yn nodi'r gofynion o ran cyfeiriad person sy'n gwneud datganiad o gysylltiad lleol o dan adran 7B(2A). Rhaid i'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad yng Nghymru lle mae'r person wedi bod yn byw o'r blaen.
49. Mae adran 18(4) yn egluro na fydd y datganiadau a wneir yn rhinwedd adran 7B(2A) o Ddeddf 1983 yn cael effaith yn etholiadau seneddol y DU. Mae hefyd yn egluro na fydd datganiadau o gysylltiad lleol eraill a wneir gan bersonau o dan 17 oed, nad oes ganddynt hawl i gael eu cofrestru yn y gofrestr etholiadau seneddol, yn cael effaith yn etholiadau seneddol y DU.
50. Mae adran 18(4) hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y dylid nodi datganiadau o gysylltiad lleol ar y gofrestr.

Adran 19 - Datganiadau o wasanaeth

51. Mae adran 19(2) yn diwygio adran 14 o Ddeddf 1983 i ganiatáu i unigolion penodol o dan 18 oed feddu ar gymhwyster gwasanaeth at ddibenion Deddf 1983. Mae'n rhaid bod gan yr unigolyn o dan 18 oed riant neu warcheidwad sydd â chymhwyster gwasanaeth ac mae'n rhaid ei fod yn byw mewn man penodol er mwyn bod gyda'r riant hwnnw neu'r gwarcheidwad hwnnw. Effaith y diwygiad yw ei fod yn ymestyn, at ddibenion etholiadau'r Senedd, y categorïau o bersonau a gaiff wneud datganiad o wasanaeth. Drwy gael caniatâd i wneud datganiad o wasanaeth, caiff personau cymwys o dan 18 oed gofrestru i bleidleisio drwy nodi eu cyfeiriad cartref (neu eu cyfeiriad blaenorol) yng Nghymru, yn hytrach na'r cyfeiriad lle y mae eu riant neu eu gwarcheidwad yn gwasanaethu (gwasanaeth milwrol fel rheol).
52. Mae adran 19(3) yn diwygio adran 15 o Ddeddf 1983 drwy wneud darpariaeth ar gyfer dirymu'r cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) pan fo'r person sydd wedi gwneud y datganiad o wasanaeth yn cyrraedd 18 oed. Mae datganiad o wasanaeth a wneir o dan adran 14(1A) yn peidio â bod yn weithredol pan fydd y person a wnaeth y datganiad yn cyrraedd 18 oed ac mae hawl y person i barhau i fod ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol hefyd yn dod i ben. Pan fydd yr hawl i fod ar y gofrestr yn dod i ben, rhaid dileu manylion y person o'r gofrestr.

-
53. Fel gyda datganiadau o gysylltiad lleol, mae adran 19(3)(b) yn egluro mai dim ond at ddibenion cofrestru person fel etholwr llywodraeth leol yng Nghymru y mae'r darpariaethau ar ddatganiadau o wasanaeth a fewnosodir gan y Ddeddf hon yn berthnasol ac nad dydynt yn cael effaith at ddibenion etholiadau seneddol y DU.
54. Mae adran 19(4) yn diwygio adran 16 o Ddeddf 1983 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys datganiad o wasanaeth.
55. Mae'r diwygiad yn darparu, o ran cofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru, nad oes angen ardystio datganiad o wasanaeth a wneir gan berson o dan 18 oed fel y nodir yn adran 14(1A).
56. Mae adran 19(5) yn gwneud newid canlyniadol i adran 17 o Ddeddf 1983 fel bod y ddarpariaeth gyffredinol ynghylch effaith barhaus datganiad o wasanaeth yn cael ei gwneud yn ddarostyngedig i adran 15(3A) o Ddeddf 1983.

Adran 20 - Cynnwys datganiadau o wasanaeth

57. Mae adran 20 yn diwygio Rheoliadau 2001 drwy addasu'r ddarpariaeth bresennol a gwneud darpariaeth ychwanegol ynglŷn â chynnwys datganiad o wasanaeth mewn achosion lle y mae datganydd yn hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A). Mae adran 20(2)(a) yn diwygio rheoliad 15 fel nad yw person sy'n hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) yn ddarostyngedig i'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan reoliad 15(1)(c) ond mae'n ofynnol iddo ddarparu'r wybodaeth a bennir yn rheoliad 15A.
58. Mae adran 20(2)(b) yn diwygio ystyr adran Llywodraeth yn rheoliad 15(3) mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru fel ei fod yn cynnwys unrhyw sefydliad lle mae gweision y Goron yn gweithio.
59. Mae adran 20(3) yn mewnosod rheoliad 15A yn rheoliadau 2001. Mae'r rheoliad yn gwneud darpariaeth ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen mewn datganiad o wasanaeth lle y mae person yn hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A). Mae'r rhain yn cynnwys manylion rhiant neu warcheidwad yr ymgeisydd sydd â chymhwyster gwasanaeth. Er enghraifft, rhaid i ddatganiad a wneir ar sail rhiant neu warcheidwad sy'n aelod o'r lluoedd arfog gynnwys y gwasanaeth, y rheng neu'r dosbarth, a rhif gwasanaeth, a chatrawd neu gorfflu (lle y bo'n briodol) y rhiant hwnnw neu'r gwarcheidwad hwnnw.

Adran 21 - Datganiadau o wasanaeth: darpariaeth bellach

60. Mae adran 21 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch datganiadau o wasanaeth mewn diwygiadau i Reoliadau 2001.
61. Mae adran 21(2) yn diwygio rheoliad 25 ac yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru anfon neges atgoffa at berson sydd â chymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) o Ddeddf 1983 y bydd y datganiad o wasanaeth yn peidio â bod yn weithredol ac y bydd yr hawl i barhau i fod yn gofrestredig yn dod i ben pan fydd y person yn cyrraedd 18 oed.

-
62. Mae adran 21(3)(a) yn diwygio rheoliad 26B fel nad yw person sy'n hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A) yn ddarostyngedig i'r gofyniad i ddarparu'r dogfennau a nodir ym mharagraffau (2) i (6) o'r rheoliad.
63. Mae adran 21(3)(b) hefyd yn diwygio rheoliad 26B drwy bennu'r dogfennau y gall fod eu hangen ar swyddog cofrestru yn achos person sy'n hawlio cymhwyster gwasanaeth o dan adran 14(1A). Caiff swyddog cofrestru ofyn i'r ymgeisydd ddarparu pasbort neu gerdyn adnabod yr ymgeisydd, neu gopi o un. Os darperir copi, rhaid iddo gael ei ardystio gan swyddog perthnasol. Mae adran 21(3)(b) yn mewnosod diffiniad o swyddog perthnasol yn rheoliad 26B ac yn eithrio rhiant, gwarcheidwad, priod neu bartner sifil yr ymgeisydd o'r diffiniad hwnnw.

Adran 22 - Cofrestr etholwyr

64. Mae adran 22 yn diwygio adran 9 o Ddeddf 1983. Mae'r diwygiad yn darparu, lle caiff y gofrestr o etholwyr seneddol a'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol eu cyfuno a lle mae'n cynnwys cofnod ar gyfer person 16 neu 17 oed sydd wedi'i gofrestru fel etholwr llywodraeth leol yn unig, rhaid i'r cofnod nodi'r dyddiad y bydd y person yn cyrraedd 18 oed.
65. Effaith hyn fydd sicrhau y bydd swyddogion cofrestru yn cael eu hysbysu pan fydd yr etholwr yn cyrraedd 18 oed, a gellir cymryd camau wedi hynny i sicrhau cywirdeb y gofrestr gyfunol.

Adran 23 - Diogelu gwybodaeth am bersonau o dan 16 oed

66. Mae adran 23 yn gwahardd swyddogion cofrestru (a phersonau sy'n eu cynorthwyo) rhag cyhoeddi, cyflenwi neu ddatgelu gwybodaeth person ifanc ac eithrio lle y caniateir iddynt wneud hynny o dan y Ddeddf hon. Diffinnir "gwybodaeth person ifanc", at ddibenion adrannau 23, 24 a 25, fel unrhyw gofnod yn y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol, neu eitem mewn cofnod neu restr o bleidleiswyr absennol sy'n ymwneud â phersonau o dan 16 oed.

Adran 24 - Eithriadau i'r gwaharddiad ar ddatgelu

67. Mae adran 24 yn pennu o dan ba amgylchiadau y caniateir datgelu gwybodaeth person ifanc.
68. Mae adran 24(10) hefyd yn darparu na chaiff person y datgelir gwybodaeth person ifanc iddo o dan is-adran (2) neu (6) drosglwyddo'r wybodaeth honno i berson arall, oni bai bod y datganiad at ddibenion yr is-adrannau hynny.
69. Mae adran 24(11) yn darparu bod person y datgelir gwybodaeth person ifanc iddo o dan is-adran (2) neu (6) yn cyflawni trosedd ddiannod os yw'r person yn trosglwyddo'r wybodaeth honno'n groes i is-adran (10).

Adran 25 - Darpariaeth bellach ar gyfer eithriadau

70. Mae adran 25 yn nodi pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd.

71. Mae adran 25(2) yn nodi rhestr anghynhwysfawr o'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud yn y rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch:

- y personau y caniateir cyflenwi'r wybodaeth iddynt;
- at ba ddibenion y caniateir cyflenwi'r wybodaeth;
- y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r rhai sy'n cael y wybodaeth,
- y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r personau sy'n paratoi'r gofrestr lawn.

72. Mae adran 25(3) yn caniatáu i reoliadau ddiwygio neu ddiddymu unrhyw un o'r eithriadau ar gyfer gwahardd datgelu gwybodaeth pobl ifanc a nodir yn adran 24. Mae is-adran (3) hefyd yn caniatáu rheoliadau i greu troseddau diannod ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd.

73. Mae adran 25(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n briodol, yn eu barn hwy, cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.

Adran 26 - Diwygiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007

74. Mae adran 26 yn mewnosod diffiniad o oedran pleidleisio yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ac mae'n diwygio'r diffiniad o ddinesydd cymhwysol y Gymanwlad. Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch cynnal etholiadau'r Senedd, gan gynnwys darpariaeth ynghylch pleidleisio a phleidleiswyr. Mae'r diwygiad yn newid ystyr oedran pleidleisio i bobl 16 oed neu'n hŷn. O ran y diffiniad o "qualifying Commonwealth citizen", mae'r diwygiad hefyd yn newid "indefinite leave to remain within the meaning of that Act" i "any description of such leave".

Adran 27 - Dyletswydd i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir etholiadau Cymru

75. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig. Diben ystyriaeth o'r fath yw gwneud argymhellion ar gyfer diwygio trefniadau o'r fath. Gallai'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni gan y Senedd, neu gall y Senedd, drwy'r Rheolau Sefydlog, wneud darpariaeth sy'n dirprwyo'r swyddogaeth hon i'r Llywydd neu un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau. Mae'r adran hefyd yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i argymhellion sy'n berthnasol iddo drwy osod adroddiad gerbron y Senedd.

Adran 28 - Rheoliadau o dan y Rhan hon

76. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol sy'n ymwneud â chwmpas y rheoliadau a wneir o dan y Rhan hon a'r gweithdrefnau sy'n gymwys iddynt.

RHAN 4

Anghymhwysu

Anghymhwysu

Mae'r Rhan hon yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn ei adroddiad ar anghymhwysu ym mis Gorffennaf 2014. Mae'n cynnwys cyfeiriadau penodol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i amgylchiadau sy'n anghymhwysu a gymhwyswyd yn anuniongyrchol yn flaenorol drwy gyfeirio at anghymhwysu person rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin.

Mae'n gwahaniaethu rhwng yr amgylchiadau sy'n rhwystr rhag ymgeisyddiaeth i'r Senedd a'r swyddi sy'n rhwystr rhag bod yn Aelod o'r Senedd, ond nid rhag ymgeisyddiaeth. Mae'r olaf o'r uchod yn swyddi a allai arwain at wrthdaro buddiant pe byddai person yn Aelod o'r Senedd ond lle mae modd ymddiswyddo o'r swydd sy'n achosi'r gwrthdaro cyn tyngu'r llw, neu gadarnhau teyrngarwch.

Dargedwir y trefniadau arbennig a wneir mewn perthynas ag Aelodau Seneddol yn adrannau 17A a 17B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gwneir darpariaeth arbennig mewn perthynas ag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi.

Daw'r newidiadau hyn i rym ar adeg etholiad cyffredinol y Senedd y disgwylir ei gynnal ym mis Mai 2021.

Adran 29 - Anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o'r Senedd

77. Mae adran 29 yn diwygio adran 16 o Ddeddf 2006, sy'n cynnwys y fframwaith anghymhwysu presennol.
78. Mae is-adran (2)(a) yn anghymhwysu aelodau o Dŷ'r Arglwyddi rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn adran 17C newydd o Ddeddf 2006 (sy'n eithrio aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd â chaniatâd i fod yn absennol o'r Tŷ hwnnw rhag yr anghymhwysiad).
79. Mae is-adran (2) hefyd yn disodli'r anghymwysuadau presennol sy'n gysylltiedig ag anghymwysuadau rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin. Mae'n gwneud hynny drwy gyfeirio at Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006 sy'n nodi'r amgylchiadau sy'n anghymhwysu personau rhag sefyll etholiad i'r Senedd.
80. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 16(1)(b) o Ddeddf 2006, sef y paragraff sy'n cyflwyno'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi swyddi sy'n anghymhwysu drwy orchymyn. Mae'r diwygiad yn mewnosod croesgyfeiriad at yr is-adran newydd (1B) (a fewnosodir gan is-adran (3) o'r adran hon) sy'n cadarnhau nad yw swyddi a ddynodir drwy orchymyn yn anghymhwysu unigolion rhag bod yn ymgeiswyr i'r Senedd, a'u bod ond yn eu hanghymhwysu rhag bod yn Aelodau o'r Senedd os na fyddant wedi ymddiswyddo neu adael y swydd sy'n anghymhwysu fel arall cyn tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch.

-
81. Mae is-adran (2) yn dileu paragraffau (c) i (e) o adran 16(1) o Ddeddf 2006. Mae paragraffau (c) a (d) yn anghymhwysu Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad. Dargedwir yr anghymwysiaid, ond maent wedi'u cynnwys erbyn hyn gydag amgylchiadau eraill sy'n anghymhwysu yn Atodlen 1A i Ddeddf 2006.
82. Mae paragraff (1)(e) o adran 16, sy'n cael ei ddileu hefyd gan is-adran (2), yn cyfeirio at bersonau a gyflogir fel aelodau o staff y Cynulliad. Caiff ei ddisodli gan y cofnod sy'n ymwneud â Chlerc y Senedd yn Atodlen 1A. Gall aelodau eraill o staff gael eu dynodi yn y gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 16(1)(b) o Ddeddf 2006, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymddiswyddo cyn y gallent ymgymryd â swydd fel Aelod o'r Senedd. Gall eu contractau cyflogaeth a'r Cod Ymddygiad staff hefyd eu hatal rhag bod yn ymgeiswyr i'w hethol i'r Senedd.
83. Mae is-adran (3) yn cyflwyno is-adrannau (1A) ac (1B) i adran 16. Mae is-adran (1A) yn cadarnhau bod y personau sydd wedi'u hanghymhwysu yn rhinwedd paragraffau (zc) a (zd) - ac felly Atodlen 1A - **wedi'u** hanghymhwysu rhag bod yn ymgeiswyr i'w hethol i'r Senedd.
84. Mae is-adran (1B) yn cadarnhau **nad yw** personau sydd wedi'u hanghymhwysu yn rhinwedd is-adran (1)(b) - a gorchymynion a wneir gan Weinidogion Cymru o dani - wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn ymgeiswyr. Dim ond pe na fyddent yn ymddiswyddo neu'n gadael y swydd sy'n anghymhwysu fel arall cyn iddynt dyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch y byddant wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn Aelodau o'r Senedd. Mae adran 23 o Ddeddf 2006 yn pennu bod rhaid i Aelodau o'r Senedd dyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch o fewn dau fis i'w hethol. Ni chânt gymryd rhan yn nhrafodion y Senedd na derbyn taliad nes iddynt wneud hynny.
85. Bydd y geiriau "or otherwise vacated" yn yr is-adran newydd (1B) yn gymwys i swyddi y gallant fod wedi'u dynodi, ond na ellir ymddiswyddo'n ffurfiol ohonynt. Byddent yn cynnwys, er enghraifft, aelodau o'r lluoedd arfog a fyddai'n gymwys i gael eu rhyddhau yn hytrach nag ymddiswyddo.
86. Mae is-adran (4) yn dileu is-adrannau (2) i (4) o adran 16. Mae'r rhain yn ymwneud ag anghymwysiaid heblaw o dan Ddeddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975, anghymhwysu troseddwr ac anghymhwysu Arglwydd Raglawiaid, Rhaglawiaid ac Uchel-Siryfion. Yn hytrach, pennir yr anghymwysiaid hyn yn llawnach yn yr Atodlen 1A newydd.
87. Mae is-adran (5) yn diwygio is-adran (5) o adran 16 i'w gwneud yn glir bod y gair 'swydd' yn cynnwys 'unrhyw swydd neu gyflogaeth' lle bynnag y'i defnyddir at ddibenion yr adran hon.
88. Mae is-adran (6) yn cyflwyno'r Atodlen 1A newydd yn ffurfiol.

Adran 30 - Eithriadau a rhyddhad rhag anghymhwysu

89. Mae adran 30 yn diwygio adran 17 o Ddeddf 2006. Mae is-adran (2) yn dileu'r eithriad rhag anghymhwysu i Arglwyddi ac Arglwyddi Ysbrydol (archesgobion ac esgobion).

Disodlir hyn gan yr eithriad i aelodau o Dŷ'r Arglwyddi sydd â chaniatâd i fod yn absennol yn yr amgylchiadau a nodir yn yr adran 17C newydd.

90. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 17(2) i ddod ynghyd â rhyddhadau rhag anghymhwysu o dan adran 3 o Ddeddf Anheddu 1700 i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU, dinasyddion Iwerddon (pa un a ydynt yn byw yn y DU ai peidio), a dinasyddion cymhwysol y Gymanwlad (gweler paragraff 2 o Atodlen 1A).
91. Mae is-adran (4) yn dileu'r darpariaethau anghymhwysu cyfyngedig y caiff y Senedd roi rhyddhad iddynt. Yn flaenorol, dim ond mewn perthynas ag anghymhwysu o dan adrannau 16(1) a (4) y gellid rhoi rhyddhad. Mae adran 16(1) bellach, drwy gyfeirio naill ai at Atodlen 1A neu at y gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, yn cynnwys yr holl ddarpariaethau sy'n anghymhwysu. Diddymir adran 16(4) gan adran 29(4). Felly, mae'r geiriau sy'n cael eu dileu'n ddiangen. Bydd y Senedd yn cael rhoi rhyddhad os yw unrhyw sail dros anghymhwysu wedi'i dileu ac os yw'n briodol i'r Senedd benderfynu y dylid rhoi rhyddhad.

Adran 31 - Eithriad rhag anghymhwysu yn rhinwedd bod yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi

92. Mae adran 31 yn cyflwyno adran 17C newydd i Ddeddf 2006. Nid oedd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi wedi'u hanghymhwysu o'r blaen yn rhinwedd adran 17(1) o Ddeddf 2006 (a ddiddymwyd gan adran 30(2) o'r Ddeddf hon). Yn y dyfodol, bydd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn cael eu hanghymhwysu o dan adran 16(1)(zb) o Ddeddf 2006 (a fewnosodir gan adran 29(2)(a) o'r Ddeddf hon), yn amodol ar yr eithriad a gyflwynwyd gan yr adran hon i aelodau sydd wedi ceisio caniatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi.
93. O dan is-adran (1), ni fydd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn cael eu hanghymhwysu os byddant yn cael caniatâd i fod yn absennol ohono. Mae is-adran (2) yn esbonio y bydd yr eithriad hwn yn gymwys os byddant yn gwneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o'r Tŷ hwnnw o fewn 8 diwrnod i'w hethol ac yn darparu copi o'r cais i Glerc y Senedd.
94. Bydd Aelodau o'r Senedd sy'n dod yn aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn cael eu hanghymhwysu oni bai, o fewn 8 diwrnod i'w cyflwyno fel aelod o'r Tŷ hwnnw, eu bod yn gwneud cais am ganiatâd i fod yn absennol ac yn darparu copi i Glerc y Senedd (is-adrannau (3) a (4)).
95. Mae is-adran (5) yn gymwys i gyn Aelod o'r Senedd yr oedd ganddo ganiatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi ac sydd wedi'i ailethol i'r Senedd. Er mwyn i'r eithriad barhau i fod yn gymwys, bydd angen i'r Aelod (cyn tyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch) roi cadarnhad ysgrifenedig i'r Clerc bod y caniatâd i fod yn absennol yn parhau.
96. Mae is-adran (6) yn gwneud darpariaeth gyfatebol pan gynhelir etholiad cyffredinol y DU pan fo gan Aelod o'r Senedd ganiatâd i fod yn absennol o Dŷ'r Arglwyddi. Ar ôl diddymu Senedd y DU, bydd angen i'r Aelod adnewyddu'r caniatâd i fod yn absennol

ar gyfer Senedd newydd y DU a rhoi cadarnhad ysgrifenedig i'r Clerc ei fod wedi'i adnewyddu.

97. Ym mhob achos, bydd yr eithriad rhag anghymhwysu'n dod i ben os caiff y cais am ganiatâd i fod yn absennol ei dynnu'n ôl neu ei wrthod.

Adran 32 - Effaith anghymhwysu

98. Mae adran 32 yn diwygio adran 18 o Ddeddf 2006. Mae is-adran (2) yn cyflwyno is-adrannau newydd (A1) ac (A2) yn adran 18. Mae is-adran (A1) yn cadarnhau bod person sydd wedi'i anghymhwysu yn rhinwedd adran 16(1)(zc) neu (zd) wedi'i anghymhwysu rhag bod yn ymgeisydd yn ogystal ag Aelod o'r Senedd. Mae'r rhain yn bersonau mewn un o'r categorïau yn Rhan 1 o Atodlen 1A neu sy'n dal un o'r swyddi yn Rhan 2 o'r Atodlen honno.
99. Mae is-adran (A2) yn cadarnhau nad yw'r personau sydd wedi'u hangymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd o dan adran 16(1)(za), (zb neu (b) wedi'u hangymhwysu nes iddynt dyngu'r llw neu gadarnhau teyrngarwch ac felly maent yn gallu ymddiswyddo o'r swydd sy'n anghymhwysu cyn gwneud hynny.
100. Mae is-adran (3) yn diddymu is-adran (2) o adran 18 o Ddeddf 2006 a oedd yn gymwys i anghymhwysu aelod a oedd yn gyfyngedig i etholaeth neu ranbarth etholiadol penodol. Yr unig anghymhwysiad perthnasol oedd Arglwydd Raglawiaid, Arglwyddi ac Uchel-Siryfion. Yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad, mae'r anghymhwysiad hwnnw bellach wedi'i ymestyn i bob rhan o Gymru, felly nid yw is-adran (2) bellach yn berthnasol. Mae is-adrannau (4) a (5) yn diddymu darpariaethau cyfatebol yn is-adrannau (3) ac (8) o adran 18 o Ddeddf 2006 yn ôl eu trefn.

Adran 33 - Achosion barnwrol ynghylch anghymhwysu

101. Mae adran 33 yn diwygio adran 19 o Ddeddf 2006. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 19(1) i ddileu cyfeiriad arall at anghymhwysiad a oedd yn gyfyngedig i etholaeth neu ranbarth etholiadol penodol.
102. Mae is-adran (3) yn mewnosod is-adran (1A) newydd yn adran 19. Mae hyn yn atal cais rhag cael ei wneud i'r llys o dan yr adran hon mewn perthynas â swyddi sy'n anghymhwysu nes y bydd y cyfnod pan ganiateir ymddiswyddo ohonynt neu eu gadael fel arall wedi dod i ben.

Adran 34 - Diwygiadau canlyniadol

103. Mae adran 427(6B) o Ddeddf Ansolfedd 1986 yn gymwys i is-adrannau (4) i (6) o'r adran honno (sy'n ymdrin ag ansolfedd yn yr Alban) mewn perthynas ag Aelodau o'r Senedd. Mae is-adran (4) yn darparu, yn rhinwedd yr adran honno, mai dim ond os yw'r person yn parhau i fod wedi'i anghymhwysu o dan yr adran honno ar ddiwedd cyfnod chwe mis y bydd sedd aelod o Dŷ'r Cyffredin sydd wedi'i anghymhwysu yn cael ei gadael. Mae is-adran (6B) (b) yn cymhwysu'r ddarpariaeth honno i Gymru fel petai'n cyfeirio at adran 16(2) o Ddeddf 2006.

-
104. Roedd adran 16(2) (a ddiddymir gan y Ddeddf hon) yn cyfeirio at anghymhwysiad heblaw o dan Ddeddf Anghymhwysio Tŷ'r Cyffredin 1975. Mae'r anghymhwysiaid hynny bellach wedi'u nodi yn yr Atodlen 1A newydd, sy'n gymwys yn rhinwedd adran 16(1)(a). Mae'r is-adran hon yn rhoi'r croesgyfeiriad newydd yn lle'r hen un.
105. Yn Atodlen 5 (Rheolau Etholiadau'r Cynulliad) i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236), mae rheol 9(4)(c)(ii) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gydsynio i gael ei enwebu i ddatgan, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, nad yw wedi'i anghymhwysio rhag bod yn Aelod Cynulliad. Mae is-adran (2) o'r adran hon yn diwygio'r ddarpariaeth honno fel bod y datganiad yn cyfeirio at fod yn ymgeisydd, gan na fyddai'r datganiad presennol yn briodol ar gyfer y rhai sy'n dal swyddi y gellir ymddiswyddo ohonynt neu eu gadael fel arall.
106. Mae Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon (yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006) yn cynnwys cyfres o swyddi sy'n anghymhwysio eu deiliaid rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (neu o fod yn ymgeiswyr). Cynhwyswyd rhai o'r swyddi hynny yn yr Atodlen i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysio) 2015 (O.S. 2015/1536). Mae is-adran (3) o'r adran hon yn gwneud newidiadau canlyniadol i osgoi dyblygu neu anghysondeb.

Atodlen 2 - Atodlen 1A Newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

107. Mewnsoedir yr Atodlen hon gan adran 29 o'r Ddeddf hon yn Neddf 2006 fel Atodlen 1A newydd. Mae Rhan 1 yn nodi categorïau o bobl sydd wedi'u hanghymhwysio; mae Rhan 2 yn nodi swyddi sy'n anghymhwysio. Ym mhob achos, maent yn anghymhwysio personau rhag bod yn ymgeiswyr, yn ogystal ag Aelodau o'r Senedd. Ac eithrio fel y nodir isod, maent yn ailddatgan anghymhwysiaid presennol sy'n gymwys o dan adran 16 o Ddeddf 2006. Mae'r newidiadau sylweddol a wnaed oll yn ymwneud â Rhan 2 o'r Atodlen.
108. Bydd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi wedi'u hanghymhwysio yn y dyfodol oni bai eu bod wedi cael caniatâd i fod yn absennol yn yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn adran 17C.
109. Bydd person sy'n dal swydd fel Arglwydd Raglaw, Rhaglaw neu Uchel-Siryf wedi'i anghymhwysio ledled Cymru, yn hytrach na dim ond yn yr ardaloedd lle maent yn dal swydd.
110. Bydd deiliaid nifer lai o swyddi barnwrol wedi'u hanghymhwysio. Ni fydd deiliaid swyddi barnwrol rhan-amser wedi'u hanghymhwysio. Yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru, sef peidio â rhestru swyddi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon fel swyddi sy'n anghymhwysio mewn gorchmynion anghymhwysio, ni wneir darpariaeth erbyn hyn a fydd yn pennu bod swyddi barnwrol yn yr awdurdodaethau hynny yn swyddi sy'n anghymhwysio.
111. Ni fydd gweision sifil nac aelodau o'r heddlu a'r lluoedd arfog bellach wedi'u hanghymhwysio rhag bod yn ymgeiswyr, ond gellir eu cynnwys mewn gorchmynion sy'n anghymhwysio person rhag bod yn Aelod o'r Senedd.

-
112. Ni fydd staff Comisiwn y Senedd (ar wahân i'r Clerc) bellach wedi'u hanghymhwysu mewn deddfwriaeth rhag bod yn ymgeiswyr, ond gall eu telerau cyflogaeth a'u Cod Ymddygiad staff gael yr effaith honno.
113. Bydd deiliaid swyddi penodol y mae didueddrwydd gwleidyddol yn arbennig o bwysig iddynt wedi'u hanghymhwysu mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac fe'i gwneir yn glir y bydd deiliaid dros dro'r swyddi hynny, yn ogystal â dirprwyon statudol, wedi'u hanghymhwysu.

RHAN 5

Amrywiol

Amrywiol

Mae'r Rhan hon yn gwneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf 2006. Mae'n newid y dyddiad ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi effaith i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith er mwyn sicrhau cysondeb rhwng etholiadau i'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir y caiff Comisiwn y Senedd godi tâl am ddarparu nwyddau neu wasanaethau i'r cyhoedd.

Adran 35 - Amseriad y cyfarfod cyntaf

114. Mae adran 35 yn ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad cyffredinol arferol neu eithriadol o 7 i 14 diwrnod.

Adran 36 - Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau etc.

115. Mae adran 36 yn diwygio adran 13 o Ddeddf 2006 (pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch etholiadau) i ychwanegu is-adrannau 1A-1C newydd a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol) i roi effaith i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr. Diben y pŵer yw datblygu cysondeb rhwng y gyfraith sy'n gymwys i etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol. Bydd rheoliadau o dan adran 13(1A) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau llywodraeth leol yn ogystal ag etholiadau i'r Senedd.

Adran 37 - Comisiwn y Senedd

116. Mae adran 37 yn amnewid paragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006 i'w gwneud yn glir y caiff Comisiwn y Senedd godi tâl am ddarparu nwyddau neu wasanaethau.

RHAN 6

Cyffredinol

Cyffredinol

Adran 38 - Dehongliad cyffredinol

117. Mae adran 38 yn diffinio termau cyffredinol sy'n gymwys yn y Bil cyfan.

Adran 39 - Rhychwant

118. Mae adran 39 yn nodi ar wyneb y Bil ei fod yn rhychwantu Cymru a Lloegr. Mae hyn yn osgoi'r angen i ddarllenwyr fod yn ymwybodol o'r cyfyngiad i'r perwyl hwnnw yn adran 108A(2)(a) o Ddeddf 2006 neu'r ddarpariaeth ddehongli yn adran 154 o'r Ddeddf honno.

Adran 40 - Dod i rym

119. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn nodi darpariaethau'r Ddeddf a ddaw i rym ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol, er mai dim ond o ddyddiad etholiad cyffredinol y Senedd, y disgwylir ei gynnal ym mis Mai 2021, y bydd y darpariaethau sy'n gostwng yr oedran pleidleisio ac yn newid y gyfraith ar anghymhwysu yn cael effaith. Yn yr un modd, mae is-adran (3) yn darparu mai dim ond ar ôl yr etholiad hwnnw y bydd adran 35 (amseriad y cyfarfod cyntaf) yn gymwys.

120. Bydd y darpariaethau sy'n newid enw'r sefydliad (Rhan 2 o'r Bil, gan gynnwys Atodlen 1) yn dod i rym ar 6 Mai 2020.

Adran 41 - Enw byr

121. Mae adran 41 yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019.

Atodiadau

Atodiad 1: Cyd-destun Deddfwriaethol y Bil

Enw'r Cynulliad

1. Sefydlodd *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff corfforaethol, gyda'r llywodraeth a'r ddeddfwrfa'n gweithredu fel un endid.

2. Yn dilyn argymhellion Comisiwn Richard,²²⁵ gwahanodd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu'r sail statudol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Aelodau'r Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad a Deddfau'r Cynulliad:

- Mae **adran 1** yn darparu y bydd Cynulliad i Gymru ac y dylid ei alw'n Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'n National Assembly for Wales.
- Mae **adran 26** yn darparu y bydd y person a benodir gan y Cynulliad i fod yn Glerc iddo'n cael ei alw'n Glerc y Cynulliad, neu yn ôl teitl arall a nodir gan y Rheolau Sefydlog.
- Mae **adran 27** yn darparu y bydd corff corfforaethol a elwir yn Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol neu'n National Assembly Commission.
- Mae **adran 107** yn darparu bod y cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad i'w galw'n Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'n Acts of the National Assembly for Wales.

3. Mae adran 1 o *Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*²²⁶ yn gwneud darpariaeth y bydd Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

²²⁵ Sefydlwyd y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a elwir yn Gomisiwn Richard, ym mis Gorffennaf 2002 a chyflwynwyd adroddiad arno yng ngwanwyn 2004.

²²⁶ Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2009/4/contents

4. Mae adran 1 o *Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010*²²⁷ yn gwneud darpariaeth y bydd Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad

5. Mae adrannau 1 a 2 o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (DCB 1983)*²²⁸ yn nodi'r etholfraint sylfaenol ar gyfer etholiadau llywodraeth seneddol y DU a llywodraeth leol yn ôl eu trefn (ystyr etholiadau lleol yng Nghymru yw etholiadau i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i gynghorau cymuned). Mae gan berson hawl i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 12 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2006*) pe bai ganddo hawl i bleidleisio fel etholwr llywodraeth leol a'i fod ar y gofrestr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yn etholaeth berthnasol y Cynulliad.

Y system gofrestru bresennol

6. Er mwyn pleidleisio mewn etholiadau neu refferenda, mae angen i berson cymwys fod ar y gofrestr etholiadol. Mae adran 9 o *DCB 1983*, fel y'i diwygiwyd, yn datgan fel a ganlyn:

“Each registration officer shall maintain—

(a) a register of parliamentary electors for each constituency or part of a constituency in the area for which he acts; and

(b) a register of local government electors for the local government areas or parts of local government areas included in the area for which he acts.”

7. Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestr o enwau a chyfeiriadau pawb sy'n cael pleidleisio ac wedi cofrestru i wneud (neu a fydd â hawl i bleidleisio'n fuan) a chaiff ei chynnal gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol (SCE) ar gyfer pob prif gyngor.

Anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad

8. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag anghymhwys person rhag bod yn Aelod Cynulliad:

²²⁷ Mesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/4/enacted.

²²⁸ Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1983/2/contents

-
- Mae **adran 16** yn nodi anghymwysiadau rhag bod yn Aelod Cynulliad ac yn nodi y gall Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ddynodi swyddi eraill sy'n anghymhwysu.
 - Mae **adran 17** yn darparu ar gyfer eithriadau a rhyddhad rhag anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad, gan gynnwys penderfyniad gan y Cynulliad i anwybyddu anghymhwysiad mewn rhai amgylchiadau.
 - Mae **adran 17A** yn darparu ar gyfer eithriad rhag anghymhwysiad i Aelodau'r Cynulliad a etholwyd yn ddiweddar sy'n Aelodau Seneddol.
 - Mae **adran 17B** yn darparu eithriad rhag anghymhwysiad i Aelodau'r Cynulliad a ddychwelir fel Aelod Seneddol o fewn 372 o ddyddiau ar ôl etholiad cyffredinol nesaf Aelodau'r Cynulliad.
 - Mae **adran 18** yn darparu ar gyfer effaith anghymhwysu person rhag bod yn Aelod Cynulliad, gan gynnwys sedd wag a ddaliwyd yn flaenorol gan Aelod wedi'i anghymhwysu.
 - Mae **adran 19** yn darparu ar gyfer achosion barnwrol sy'n ymwneud ag anghymhwysiad gan gynnwys hawl unrhyw berson i wneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad bod person sy'n honni ei fod yn Aelod Cynulliad wedi'i anghymhwysu.
 - Mae **Rheol 9(4)(c)(ii) o Atodlen 5** i *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Gorchymyn 2007)*²²⁹, a wneir o dan adran 11 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*, yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgeiswyr i sefyll etholiad i'r Cynulliad yn datgan, pan fyddant yn derbyn yr enwebiad, nad oes ganddynt, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, swydd sy'n anghymhwysu (heblaw am swydd Aelod Seneddol).
 - Mae *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015*²³⁰, a wnaed yn unol ag adran 16(6) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn dynodi personau sydd wedi'u hangymhwysu

²²⁹ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2007/236/contents/made

²³⁰ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015, www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made

rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail swyddi a ddelir ganddynt.

Dyletswydd ar y Senedd i ystyried trefniadau ariannol a goruchwyllo gwaith y Comisiwn Etholiadol

9. Mae rhai agweddau ar etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru yn faterion a ddargedwir yn *Neddf Cymru 2017*. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau *PPERA 2000* mewn perthynas ag etholiadau Aelodau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae paragraff 25 o'r Atodlen 7A newydd i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (fel y'i mewnosodwyd gan *Ddeddf Cymru 2017*) yn eithrio'r darpariaethau yn *PPERA 2000* o'r cymal cadw hwn mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol, yn benodol:

- ariannu'r Comisiwn Etholiadol;
- paratoi, gosod a chyhoeddi adroddiadau am y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau;
- darparu copiâu o'r rheoliadau y bydd y Comisiwn Etholiadol yn eu gwneud neu roi gwybod am newid neu ddirymu rheoliadau o'r fath.

10. Mae paragraffau 8(1)(a) ac 8(1)(c) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu, oni bai bod y Gweinidog priodol²³¹ yn cydsynio, y bydd darpariaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol os yw, yn y drefn honno, yn rhoi neu'n gosod (neu'n rhoi neu'n gosod drwy is-ddeddfwriaeth), unrhyw swyddogaeth ar awdurdod a gedwir yn ôl, neu fod y ddarpariaeth yn rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n dileu (neu'n rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n dileu drwy is-ddeddfwriaeth), swyddogaethau i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdod a gedwir yn ôl. Mae "awdurdod a gedwir yn ôl" yn Weinidog y Goron neu'n adran llywodraeth ac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall nad yw'n awdurdod datganoledig Cymreig.²³² Mae "awdurdod

²³¹ Y "Gweinidog priodol" yw'r Ysgrifennydd Gwladol oni bai mai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw'r awdurdod a gedwir yn ôl ac, os felly, y Trysorlys yw'r "Gweinidog priodol".

²³² Fel y'i diffinnir yn adran 157A ac a restrir yn Atodlen 9A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

cyhoeddus” yn gorff, yn swydd neu’n ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus.²³³

11. Mae adran 27 o’r Bil yn rhoi swyddogaeth ar y Comisiwn Etholiadol. Nid yw’n ofynnol i’r Cynulliad geisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y ddarpariaeth yn rhinwedd paragraff 9(2) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli’r gyfraith etholiadol

12. Mae adrannau amrywiol yn Rhan 1 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn gwneud darpariaeth sy’n ymwneud ag etholiadau’r Cynulliad. Maent yn cynnwys:

- **Adran 2:** Etholaethau’r Cynulliad a rhanbarthau etholiadol;
- **Adran 3:** Etholiadau cyffredinol arferol;
- **Adran 4:** Pŵer i amrywio dyddiad etholiadau cyffredinol arferol;
- **Adran 5:** Etholiadau cyffredinol eithriadol
- **Adran 6:** Pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol;
- **Adran 7:** Ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol;
- **Adran 8:** Cyfrifo ffigurau rhanbarthau etholiadol;
- **Adran 9:** Dyrannu seddi i Aelodau rhanbarthau etholiadol;
- **Adran 10:** Seddi gwag etholaethol;
- **Adran 11:** Seddi gwag rhanbarthol etholiadol;
- **Adran 12:** Hawl i bleidleisio;
- **Adran 13:** Y pŵer i wneud darpariaethau ynghylch etholiadau ac ati;
- **Adrannau 16-19:** Anghymhwysu

²³³ Paragraff 8(4) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

13. Mae adrannau 5 i 7 o Ddeddf Cymru 2017 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad drwy ddiwygio adrannau o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, DCB 1983, Deddf Cynrychiolaeth y bobl 1985 a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA 2000). Mae'r adrannau hyn yn ymwneud â'r canlynol:²³⁴²³⁵

- **Adran 5:** Pwerau i wneud darpariaethau ynghylch etholiadau'r Cynulliad;
- **Adran 6:** Amseriad etholiadau'r Cynulliad;
- **Adran 7:** Cofrestru etholiadol – y gwasanaeth digidol

14. Yn ogystal â Deddfau'r Cynulliad y cyfeirir atynt uchod, nododd Comisiwn y Gyfraith y byddai angen diwygio deddfau ac is-ddeddfwriaeth amrywiol Senedd y DU er mwyn gweithredu ei argymhellion yn llawn:

“Electoral law in the UK has become complex, voluminous and fragmented. There is an enormous amount of primary and secondary legislative material governing elections and referendums. The twin aims of the project are to ensure, first, that electoral laws are presented within a rational, modern legislative framework, governing all elections and referendums within its scope; and secondly, that provisions of electoral law are modern, simple, and fit for purpose.”²³⁶

Dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad

15. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu ar gyfer y cyfnod y mae'n rhaid i'r Cynulliad gyfarfod am y tro cyntaf ar ôl etholiad Cynulliad:

- Mae **adran 3(2)(b)** yn darparu bod rhaid i'r Cynulliad gyfarfod o fewn cyfnod o saith diwrnod sy'n dechrau'n syth ar ôl diwrnod etholiad cyffredinol arferol os caiff ei gynnal ar y dydd lau cyntaf ym mis Mai mewn blwyddyn etholiad.

²³⁴ www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1985/50

²³⁵ www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/41/contents

²³⁶ Comisiwn y Gyfraith, „*Electoral Law: An Interim Report* t.5, (Saesneg yn unig) Chwefror 2016

-
- Mae **adran 4(2)(c)** yn darparu bod rhaid i'r Cynulliad gyfarfod o fewn cyfnod o saith diwrnod sy'n dechrau'n syth ar ôl diwrnod etholiad cyffredinol arferol os caiff ei gynnal ar ddyddiad heblaw am y dydd lau cyntaf ym mis Mai.
 - Mae **adran 5(4)(c)** yn darparu bod rhaid i'r Cynulliad gyfarfod o fewn cyfnod o saith diwrnod sy'n dechrau'n syth ar ôl diwrnod etholiad cyffredinol eithriadol.
 - Mae **adrannau 3(4), 4(3) a 5(7)** yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â chyfrifo'r cyfnod o saith diwrnod ym mhob achos, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â phenwythnosau, gwyliau banc, a diwrnodau a benodir ar gyfer diolchgarwch a galaru cyhoeddus. Mae **adrannau 4(3) a 5(7)** hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â thrin Dydd Gwener y Groglith at ddibenion cyfrifo'r cyfnod o saith diwrnod. Mae **adran 5(7)** hefyd yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud â thrin Noswyl Nadolig a Dydd Nadolig at ddibenion o'r fath.

Egluro pwerau Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau

16. Mae **Atodlen 2** i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â phwerau a swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad. Mae **paragraff 4(4)** o'r Atodlen honno'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â phwerau'r Comisiwn i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau a werthir neu a ddarperir i'r cyhoedd.

Atodiad 2: Yr oedran pleidleisio mewn mannau eraill yn y DU

Y DU

1. Dim ond pobl 18 oed a throsodd sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU ar hyn o bryd, er y caiff pobl 16 a 17 oed gofrestru i bleidleisio os byddant yn troi'n 18 o fewn 12 mis yn dechrau ar 1 Rhagfyr ar ôl y cais i gofrestru.

2. Mae'r galw i ganiatáu pleidlais i bobl 16 a 17 oed wedi cynyddu'n raddol ar draws y DU ers dechrau degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Cyflwynwyd dau Fil Aelodau Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin, ac un yn Nhŷ'r Arglwyddi, i ostwng yr oedran pleidleisio isaf. Cyflwynwyd diwygiad yn Nhŷ'r Arglwyddi i ostwng yr oedran pleidleisio isaf, yn yr un modd, mewn perthynas â Bil Refferendwm yr UE.

3. Y diben a nodir am y galwadau hyn i ostwng yr oedran pleidleisio isaf yw'r canlynol:

- caniatáu i bobl ifanc leisio barn am y gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau;
- cyflwyno ymdeimlad o gyfranogiad democrataidd ar oedran pan fo pobl ifanc yn fwy tebygol o fod mewn amgylchedd cyfarwydd a sefydlog;
- gwrthsefyll yr ymddieithriad â democratiaeth yn gyffredinol.

Yr Alban

4. Caniatwyd i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn y DU am y tro cyntaf yn y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban, a gynhaliwyd ar 18 Medi 2014. Ers refferendwm yr Alban, mae pobl 16 a 17 oed yn yr Alban hefyd wedi pleidleisio yn etholiadau lleol a seneddol yr Alban.

5. Mae refferendwm yr Alban yn 2014 yn rhoi rhywfaint o arwydd o'r cyfraddau cofrestru tebygol ymhlith pobl 16 a 17 oed. Yn yr Alban, mae 109,533 o bobl 16 a 17 oed wedi'u cofrestru i bleidleisio. Amcangyfrifir mai 89 y cant o'r rhai sy'n gymwys yw hyn. O gymharu â hynny, honnwyd bod 97 y

cant o'r holl etholwyr cymwys wedi'u cofrestru, gan awgrymu cyfraddau cofrestru uwch ar gyfer y boblogaeth gyffredinol na phobl 16 a 17 oed.

6. Fodd bynnag, amcangyfrifwyd bod 75 y cant o bobl 16 a 17 oed wedi pleidleisio, o'u cymharu â 54 y cant o bobl 18 i 24 oed a 72 y cant o bobl 25 i 34 oed, er ei fod yn is na'r ganran ar gyfer yr etholwyr yn gyffredinol (85 y cant). Ar y cyfan, mae hyn yn cefnogi dadl o blaid estyn yr etholfraint, oherwydd ei bod yn ddigon posibl y gallai profiad cynnar o bleidleisio arwain at ymgysylltiad parhaus, a'r gobaith yw y byddai hynny'n arwain at fwy o ddi-ddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd ac yn fwy cyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd.

Tabl 35 Y ganran a bleidleisiodd yn refferendwm annibyniaeth yr Alban yn ôl grŵp oedran²³⁷

Grŵp oedran	Y ganran a bleidleisiodd yn ôl adroddiadau
16-17	75 y cant
18-24	54 y cant
35-54	85 y cant
55 a throsodd	92 y cant

Ynys Manaw

7. Estynnodd Ynys Manaw yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed yn 2006.

²³⁷ Y Comisiwn Etholiadol, [Scottish Independence Referendum: Report on the Referendum Held on 18 September 2014](#) (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2014

Atodiad 3: Dadansoddiad o ddadleuon a godwyd yn hanesyddol yn erbyn gostwng yr oedran pleidleisio isaf

- 1.** Codwyd nifer o ddadleuon yn erbyn gostwng yr oedran pleidleisio isaf. Trafodir y rhain yn y paragraffau isod.
- 2.** Un gwrthwynebiad i ostwng yr oedran pleidleisio yw a yw'n cyd-fynd â hawliau a chyfrifoldebau eraill. Mae Tabl 32 o adroddiad y Panel Arbenigol²³⁸ yn nodi'r oeddrannau amrywiol pryd y caiff pobl ifanc hawliau a chyfrifoldebau, o'r gallu i ymuno â'r fyddin ac yfed alcohol gyda phryd o fwyd yn 16 oed, i briodi heb gydsyniad rhiant a gwasanaethu ar reithgor yn 18 oed. Trafododd y Panel Arbenigol yr oeddrannau pan geir hawliau amrywiol a daeth i'r casgliad nad oes yr un oedran penodol pan fo person ifanc yn ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau a'r hawliau sydd gan oedolyn:

“Er ei bod yn berthnasol, o bosibl, cymharu'r oeddrannau y mae pobl ifanc yn cael hawliau a chyfrifoldebau, neu'n dechrau arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau hynny, nid yw'r cymariaethau hynny yn dwyn perswâd o ran gwneud achos o blaid neu yn erbyn gostwng yr oedran pleidleisio.”²³⁹

- 3.** Pryder arall a nodwyd yn gyffredin ynghylch gostwng yr oedran pleidleisio yw a fydd pobl ifanc yn mynd ati i bleidleisio. Daeth Franklin²⁴⁰ i'r casgliad y byddai pobl ifanc yn fwy tebygol o bleidleisio yn eu hetholiadau cyntaf pe baent yn eu rhwydweithiau sefydledig, ag addysg berthnasol ar gael iddynt yn hytrach nag mewn cyfnod trosiannol megis dechrau cyflogaeth newydd neu fynd i'r Brifysgol. Gan mai ychydig o wledydd sydd wedi gostwng yr oedran isaf i 16, prin yw'r dystiolaeth i gymharu gwledydd tebyg i Gymru mewn perthynas â nifer y pleidleiswyr. Fodd bynnag, casgliadau adroddiad y Panel Arbenigol yw “mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn tueddu i gefnogi'r farn bod pobl 16 a 17 oed yn fwy tebygol o bleidleisio na phobl 18 i 24 oed os yw eu hetholfraint yn rhan o becyn sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer y grŵp oedran

²³⁸ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, *Senedd sy'n gweithio i Gymru*, t. 185

²³⁹ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, *Senedd sy'n gweithio i Gymru*, t. 193

²⁴⁰ Franklin, M (2004), Voter Turnout and the Dynamics of Electoral Competition in Established Democracies since 1945, Gwasg Prifysgol Caergrawnt/Caergrawnt

hwn”.²⁴¹ Er enghraifft, yn Awstria, mae nifer y pleidleiswyr 16 a 17 oed yn uwch nag ymhlith pobl 18 i 21 oed (er ei bod yn is na phleidleiswyr hŷn).

4. Pwynt arall yr ystyrir ei fod yn rhwystr posibl i ostwng yr oedran pleidleisio yw ansawdd y penderfyniadau sy’n cael eu llywio gan wybodaeth wleidyddol ac aeddfedrwydd. Roedd paragraffau 15.21 i 15.24 o adroddiad y Panel Arbenigol yn nodi rhywfaint o’r dystiolaeth mewn perthynas â’r gwahaniaethau rhwng y wybodaeth sydd gan bobl 16 oed o’u cymharu â phobl 18 oed. Casglwyd y dystiolaeth hon o wledydd sydd wedi gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16 a gwledydd nad ydynt wedi gwneud hynny. Mae’r dystiolaeth gyffredinol yn gymysg. Fodd bynnag, yn Awstria lle mae gwybodaeth a thrafodaeth wleidyddol ar gael mewn ysgolion i bobl 16 oed, ni cheir gwahaniaethau rhwng dealltwriaeth wleidyddol pobl 16 oed a phleidleiswyr ychydig yn hŷn.

5. Cydnabyddir bod gan bobl ifanc yng Nghymru o dan 18 oed gyfran sylweddol iawn yn nyfodol Cymru a sut y caiff ei chynnal, ni waeth beth yw lefel eu gwybodaeth ynghylch y mater a ddylid caniatáu iddynt bleidleisio ai peidio. Adlewyrchir hyn gan Senedd Ieuencid Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar.

6. Yn olaf, mynegwyd pryderon weithiau mai prin yw’r dystiolaeth ryngwladol i werthuso effaith gostwng yr oedran pleidleisio. Fodd bynnag, mae’r bleidlais eisoes gan bobl 16 a 17 oed yn Ynys Manaw, Jersey, Guernsey, Brasil ac Awstria. Gall pobl 16 a 17 oed hefyd bleidleisio mewn rhai etholiadau yn yr Alban, yr Almaen, Malta a Norwy. Mae’r oedran pleidleisio isaf mewn rhai gwledydd hefyd yn amrywio, gan ddibynnu ar statws person. Er enghraifft, yn Slofenia caiff person 16 oed bleidleisio os yw mewn cyflogaeth. Yn yr un modd, yn Hwngari, caiff pobl 16 oed bleidleisio os ydynt yn briod.

7. Trafododd y Panel Arbenigol y dystiolaeth ryngwladol sydd ar gael a daeth i’r casgliad a ganlyn:

“Gan mai ychydig iawn o leoedd sydd wedi gostwng yr oedran pleidleisio i 16, prin yw’r dystiolaeth sydd ar gael i brofi’r dadleuon hyn. Fodd bynnag, mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn tueddu i gefnogi’r farn bod pobl ifanc 16 ac 17 oed yn fwy tebygol o bleidleisio na phobl ifanc 18 i 24 oed os yw eu hetholfraint yn rhan

²⁴¹ Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy’n gweithio i Gymru](#), paragraff 15.19

o becyn sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer y grŵp oedran hwn".²⁴²

²⁴² Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, **Senedd sy'n gweithio i Gymru**, t.195

Atodiad 4: Y rhesymeg dros ddewis y dull drafftio o ran newid yr enw, gan hepgor rhai cyfeiriadau at ‘Cynulliad’ yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006

1. Ar hyn o bryd, mae adran 1(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn nodi:

“There is to be an Assembly for Wales to be known as the National Assembly for Wales or Cenedlaethol Cynulliad Cymru (referred to in this Act as ‘the Assembly’).”

2. Pe bai'r Bil yn cael ei basio ar ei ffurf bresennol, byddai adran 1 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn cael ei diwygio fel a ganlyn-

“(1) There is to be an Assembly for Wales to be known as the ‘Senedd’.

(2) The Senedd may also be known as the ‘Welsh Parliament’.”

3. Byddai ailddrafftio adran 1(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a dileu'r gair “Cynulliad” yn arwain at ddatganiad cyfansoddiadol mwy addas, a chliriach, er enghraifft:

“There is to be a Welsh Parliament to be known as the Senedd.”

4. Mae'r dull a fabwysiadwyd ym mharagraff 2 uchod yn adlewyrchu'r cyfyngiadau y mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn eu rhoi ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Y sefyllfa ddiodyfyn yw na chaiff y Cynulliad ddiwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Esbonnir y sefyllfa hon ym mharagraff 7(1) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

5. Mae paragraff 7(2) o Atodlen 7B yn nodi rhai eithriadau datganedig i'r sefyllfa ddiodyfyn hon. O ganlyniad i hyn, caiff y Cynulliad, mewn gwirionedd, ddiwygio rhai darpariaethau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

6. Mae adran 1(1) yn dod o fewn yr eithriad ac felly, caniateir ei diwygio, ac eithrio'r geiriau sydd wedi'u hamlygu mewn print bras (ym mharagraff 1 uchod). Felly, y man cychwyn yw na chaiff y Cynulliad ddiwygio'r geiriau hyn.

-
- 7.** Fodd bynnag, mae cynnig amgen. Caniateir gwneud diwygiadau i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* lle maent yn ganlyniadol ar newid enw'r sefydliad. Caniateir hyn yn benodol o dan baragraff 7(4) o Atodlen 7B. Byddai hyn yn trechu'r sefyllfa ddiodyn a nodir ym mharagraff 7(1).
- 8.** Gellir dadlau bod diwygio'r gair 'Cynulliad' (lle y mae'n ymddangos gyntaf yn adran 1(1)) yn ganlyniad i newid ei enw'n Senedd. Mae hwn yn opsiwn deniadol ac mae angen ei ystyried ymhellach.
- 9.** Wrth basio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, penderfynodd Senedd y DU mai 'Cynulliad' yn hytrach na 'Senedd' fyddai'r corff y byddai'n ei greu. Byddai diwygio'r gair hwnnw (lle y mae'n ymddangos gyntaf yn adran 1(1)) yn golygu newid y sefydliad yn rhywbeth heblaw Cynulliad. Byddai gwneud hyn yn fynegiant o bolisi ar wahân, sef newid ei natur. At ei gilydd, felly, ni fyddai gwneud hynny'n ganlyniad i newid ei enw. Ac, os nad yw'n ganlyniadol, ni ellir ei ddiwygio.
- 10.** Cyn dod i gasgliad, mae angen mynd i'r afael â dadl arall.
- 11.** Gellir tybio'n rhesymol mai diben y cyfyngiad ar ddiwygio adran 1(1) oedd sicrhau bod y Cynulliad yn gallu newid ei enw ond dim byd arall. Yn fwy penodol, pe bai gan y Cynulliad bŵer i ddiwygio'r cyfan o adran 1(1), mae hyn yn awgrymu y byddai ganddo bŵer i ddiddymu ei hun. Hefyd, wrth basio'r deddfwriaeth, mae'n siŵr nad bwriad Senedd y DU oedd caniatáu i'r Cynulliad wneud hynny.
- 12.** Unwaith eto, mae hon yn ddadl ddeniadol.
- 13.** Wrth ddehongli deddfwriaeth, dim ond os yw geiriau'r deddfwriaeth yn arwain at amwysedd y mae'r diben yn berthnasol. Lle bo'r geiriau yn glir, bydd y llysoedd yn eu dehongli fel y cawsant eu hysgrifennu. Mae geiriau Atodlen 7B, sy'n cyfyngu ar ddiwygio adran 1(1), yn glir.
- 14.** Yn olaf, ac er mwyn bod yn gyflawn, dylid nodi bod yr un dadleuon yn codi o ran adran 107(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac na ellir diwygio honno chwaith —

“The Assembly may make laws, to be known as Acts of the National Assembly for Wales or Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (referred to in this Act as ‘Acts of the Assembly’.”

15. Os caiff y Bil ei basio ar ei ffurf bresennol, bydd adran 107(1) yn datgan fel a ganlyn —

“The Assembly may make laws, to be known as Acts of the Senedd or Deddfau'r Senedd.”

Atodiad 5: Termau a ddefnyddir i ddisgrifio deddfwrfeydd y wladwriaeth a'r is-wladwriaeth

Tabl 36 Termau a ddefnyddir i ddisgrifio deddfwrfeydd y wladwriaeth a'r is-wladwriaeth

Gwlad	Sefydliad	Pwerau
Y DU	Senedd y wladwriaeth: Senedd y DU Is-wladwriaeth (cenhedloedd): Senedd neu Gynulliad	Mae pwerau'r deddfwrfeydd datganoledig yn y DU yn amrywio. Cânt i gyd ddeddfu ac mae ganddynt yr hawl i gasglu rhai ffrydiau referniw a threthi. Ym mis Ebrill 2018, symudodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, yn unol â'r hyn sydd ar waith yn yr Alban, er bod gwahaniaethau o hyd rhwng y pwerau penodol a gedwir.
Yr Eidal	Senedd y wladwriaeth: Senedd yr Eidal Is-wladwriaeth (rhanbarthau): Cyngor Rhanbarthol neu Gynulliad Rhanbarthol	Caiff rhanbarthau'r Eidal ddeddfu ac mae ganddynt yr hawl i gasglu rhai ffrydiau referniw a threthi. Mae gan y rhanbarthau bŵer deddfwriaethol llwyr mewn cysylltiad ag unrhyw fater nad yw wedi'i gadw'n benodol i gyfraith y wladwriaeth. Maent yn cadw 20 y cant o'r holl drethi a godir, gan eu defnyddio'n bennaf i ariannu'r system gofal iechyd sy'n seiliedig ar drefn ranbarthol. Mae gan bob rhanbarth senedd etholedig, o'r enw Consiglio Regionale (cyngor rhanbarthol), neu Assemblea Regionale (cynulliad rhanbarthol) a llywodraeth o'r enw Giunta Regionale (cyngres ranbarthol), dan arweiniad arlywydd rhanbarthol sy'n cael ei ethol yn uniongyrchol.

Sbaen	<p>Senedd y wladwriaeth: Senedd Sbaen</p> <p>Is-wladwriaeth (cymunedau, rhanbarthau a gwledydd hanesyddol ymreolaethol): Senedd neu Gynulliad</p>	<p>Mae pwerau cymunedau ymreolaethol Sbaen yn amrywio. I seneddau'r cenhedloedd hanesyddol – Gwlad y Basg, Navarra, Catalwnia, Castilla y Leon) y datganolwyd y rhan fwyaf o'r pwerau. Yn wahanol i'r rhanbarthau eraill, mae Gwlad y Basg a Navarra yn gyfrifol am weinyddu a chasglu trethi'n uniongyrchol, ac maent yn talu cyfran ohonynt i Lywodraeth Sbaen.</p> <p>Er enghraifft, caiff Senedd Gwlad y Basg ddeddfu mewn meysydd fel cynllunio trefol, gwaith cyhoeddus, tai, diogelu'r amgylchedd, materion diwylliannol, chwaraeon a hamdden, twristiaeth, iechyd a lles cymdeithasol, a meithrin yr iaith ranbarthol. Mae ganddi ei heddlu ei hun (yr Ertzaintza), mae'n rheoli'r cyfundrefnau addysg ac iechyd, ac mae ganddi orsaf radio/teledu.</p> <p>Enghreifftiau: Senedd Gwlad y Basg, Senedd Navarra, Senedd Catalwnia, Senedd Galisia, Cynulliad Madrid.</p>
Yr Almaen	<p>Senedd y wladwriaeth: Senedd yr Almaen</p> <p>Is-wladwriaeth (gwladwriaethau ffederal): Senedd y wladwriaeth</p>	<p>Mae'r Almaen yn weriniaeth ffederal sy'n cynnwys un ar bymtheg o daleithiau ffederal o'r enw "Länder". Mae gan bob un ei senedd daleithiol ei hun. Llywodraeth yr Almaen sy'n gwbl gyfrifol am bynciau fel materion tramor ac amddiffyn, ac mae'r taleithiau a'r ffederasiwn yn rhannu'r awdurdod dros bynciau eraill. Mae'r Länder yn cadw'r awdurdod deddfwriaethol am feysydd fel diwylliant, addysg a hyfforddiant swyddi.</p>
Awstralia	<p>Senedd y wladwriaeth: Senedd Awstralia</p> <p>Is-wladwriaeth (gwladwriaethau ffederal): Senedd neu Gynulliad</p>	<p>Mae Awstralia yn ffederasiwn a chanddi chwe thalaith a dwy diriogaeth hunanlywodraethol. Mae gan bob un ei chyfansoddiad a'i deddfwrfa ei hun. Mae'r taleithiau'n cadw'r pŵer i wneud eu cyfreithiau eu hunain.</p> <p>Mae cyfreithiau'r taleithiau'n ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r taleithiau'n bennaf, megis: ysgolion, iechyd, seilwaith a thrafnidiaeth gyhoeddus, cyfleustodau,</p>

		<p>mwyngloddio ac amaethyddiaeth, yr heddlu a charchardai.</p> <p>Enghreifftiau: Senedd Queensland, Senedd De Cymru Newydd, Cynulliad Deddfwriaethol Tiriogaeth y Gogledd.</p>
Gwlad Belg	<p>Senedd y wladwriaeth: Senedd Ffederal Gwlad Belg</p> <p>Is-wladwriaeth (gwladwriaethau ffederal): Senedd</p>	<p>Mae gan Fflandrys, Wallonia-Brwsel a Phrifddinas-Ranbarth Brwsel a'r cymunedau Ffrengig, Almaenig a Fflandrysaidd seneddau sydd â phwerau deddfwriaethol dros feysydd megis trafnidiaeth, gwaith cyhoeddus, polisi dŵr, materion diwylliannol, addysg, iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, tai, neilltuo parthau, a pholisi economaidd a diwydiannol. Maent yn dibynnu ar drefn o rannu refeniw ar gyfer eu cyllid. Mae ganddynt yr awdurdod i gasglu ychydig o drethi (gordaliadau'n bennaf).</p> <p>Enghreifftiau: Senedd Fflandrys, Senedd Wallonia, Senedd Ffederasiwn Wallonia-Brwsel, Senedd Prifddinas-Ranbarth Brwsel.</p>
Ffrainc	<p>Senedd y wladwriaeth: Senedd Ffrainc</p> <p>Is-wladwriaeth (rhanbarthau): Cyngor Rhanbarthol</p>	<p>Mae Senedd Ffrainc yn cynnwys y Senedd (Sénat) a'r Cynulliad Cenedlaethol (Assemblée nationale). Nid oes gan y rhanbarthau awdurdod deddfwriaethol ar wahân, felly ni chânt ysgrifennu eu cyfraith statudol eu hunain.</p>
Canada	<p>Senedd y wladwriaeth: Senedd Canada</p> <p>Is-wladwriaethol (taleithiau a thiriogaethau): Cynulliad Deddfwriaethol</p>	<p>Mae Canada yn ffederasiwn a chanddi senedd genedlaethol a llywodraeth ffederal a deg o ddeddfwrfeydd taleithiol. Mae gan bob talaith (a thiriogaeth) ei deddfwrfa ei hun. Mae gan bob Cynulliad deddfwriaethol reolaeth dros feysydd megis; ysgolion, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phrifyrdd. Mae gan y cynullïadau deddfwriaethol bwerau trethu o ran trethi incwm corfforaethol personol a threthi defnyddwyr.</p> <p>Enghreifftiau: Cynulliad Deddfwriaethol Alberta; Cynulliad Deddfwriaethol Brunswick Newydd; Cynulliad Cenedlaethol Québec.</p>

Atodiad 6: Anghymwysiadau mewn manau eraill yn y DU a Dáil Éireann

Mae gan bob un o'r deddfwrfeydd yn y DU ei rheolau ei hun ar anghymhwysio ond, at ei gilydd, mae'r rhain yn debyg iawn. Mae Tŷ'r Oireachtas a Thŷ'r Arglwyddi'n anghymhwysio'r rhai sy'n iau nag 21 oed, ond 18 oed yw'r oedran isaf ar gyfer Aelodau ym mhob deddfwrfa arall. Mae swyddi sy'n anghymhwysio'n tueddu i fod yn debyg, yn ogystal â'r seiliau anghymhwysio oherwydd carchariad, brad a methdaliad. Nodir rhai pwyntiau pwysig yn Tabl 37.

Tabl 37 Crynodeb o'r gyfraith ar anghymhwysio yn neddfwrfeydd y DU

Sefydliad	Rheolau
Tŷ'r Cyffredin	Mae'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu anghymhwysio person rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin wedi'i chydgrynhoi yn <i>Neddf Anghymhwysio Tŷ'r Cyffredin 1975</i> . ²⁴³ Fodd bynnag, mae deddfiadau eraill a'r gyfraith gyffredin hefyd yn anghymhwysio amrywiaeth o bobl, megis pobl ifanc dan oed ac estroniaid, ymysg categorïau eraill. Mae rhai troseddau etholiadol yn cynnwys anghymhwysio fel cosb a nodir y rhain yn <i>Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983</i> .
Senedd yr Alban	Rhodddwyd pŵer i Senedd yr Alban ddeddfu ar anghymhwysio yn rhinwedd <i>Deddf yr Alban 2016</i> . ²⁴⁴ Nid yw wedi defnyddio'r pŵer hwn eto. Ceir y rhestr ddiweddaraf o swyddi sy'n anghymhwysio yng <i>Ngorchymyn Senedd yr Alban (Anghymhwysio) 2015</i> , ²⁴⁵ sy'n anarferol gan ei fod yn cynnwys llawer o swyddi sy'n benodol i ranbarthau eraill y DU, megis Comisiynydd y Gymraeg. Ni chymhwysir anghymhwysiad am fod yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi.
Dáil Éireann	Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu anghymhwysio yn y Dáil wedi'i chynnwys yn <i>Neddf etholiadol 1992</i> . ²⁴⁶ Mae hyn yn cynnwys mathau tebyg o anghymwysiadau i <i>Ddeddf</i>

²⁴³ *Deddf Anghymhwysio Tŷ'r Cyffredin 1975*

www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1975/24/contents

²⁴⁴ *Deddf yr Alban 2016* www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/11/contents/enacted

²⁴⁵ *Gorchymyn Senedd yr Alban (Anghymhwysio) 2015*

www.legislation.gov.uk/cy/sdsi/2015/9780111028490

²⁴⁶ *Deddf Etholiadol 1992* www.irishstatutebook.ie/eli/1992/act/23/enacted/en/html

	<p><i>Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975</i>, ond mae'n cynnwys terfyn oedran o 21 yn lle 18 (yr un cyfyngiad oedran â Thŷ'r Arglwyddi) a bod yn gynghorydd mewn awdurdod lleol. Gwneir datganiadau yn ystod y cyfnod ymgeisyddiaeth.</p>
<p>Cynulliad Gogledd Iwerddon</p>	<p>Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu anghymhwysu i'w gweld yn bennaf yn <i>Neddf Anghymhwysu Cynulliad Gogledd Iwerddon 1975</i>.²⁴⁷ Mae anghymhwysu'n fater a gedwir yn ôl, ond gall y Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â'r maes hwn gyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni chymhwysir anghymhwysiad am fod yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi. Gwneir datganiadau yn ystod y cyfnod ymgeisyddiaeth.</p>

²⁴⁷ Deddf Anghymhwysu Cynulliad Gogledd Iwerddon 1975
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1975/25

Atodiad 7: Y gofynion o ran yr uchafswm amser ar gyfer cynnal y cyfarfod cyntaf mewn deddfwrfeydd eraill

1. Mae'r arfer mewn deddfwrfeydd eraill ynghylch o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad yn amrywio. Er enghraifft:

- mae *Deddf Gogledd Iwerddon 1998* (fel y'i diwygiwyd) yn datgan bod rhaid i Gynulliad Gogledd Iwerddon gyfarfod o fewn wyth diwrnod ar ôl etholiad, a bod ethol Llywydd a Dirprwy Lywyddion yn gorfod bod yr eitem gyntaf;
- rhaid cynnal cyfarfod cyntaf Senedd Seland Newydd o fewn chwe wythnos i etholiad;
- ar gyfer Tŷ'r Cyffredin, mae'r dyddiad ar gyfer cynnull Senedd newydd wedi'i osod yn y proclamaswn a ddiddymodd yr un blaenrol (h.y. mae'r cyfnodau'n amrywio – er enghraifft, saith diwrnod gwaith ydoedd yn 2015, ond tri diwrnod gwaith yn 2017).

2. Mae'r cyfnod wedi'i ymestyn yn ddiweddar yn yr Alban, yn unol ag argymhellion y Comisiwn ar Ddatganoli yn yr Alban (Comisiwn Calman). Nododd Papur Gorchymyn 2010 Llywodraeth y DU, *sef Strengthening Scotland's future*, fod Comisiwn Calman wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

“that the current drafting of section 19(1) of the Scotland Act 1998 caused some practical difficulties following the 2007 Holyrood election, when the close result made the main political parties reluctant at first to allow one of their members to take on the non-voting role of Presiding Officer.

Whilst the Parliament was able to work around the restriction imposed in section 19(1), the Commission recommended that there should be a period of 14 days for the Parliament to elect a Presiding Officer after MSPs have taken their oaths.

The [UK] Government agrees that it is important there is sufficient time for political parties to conduct any negotiations necessary to form a Government.”²⁴⁸

3. Ar ôl cymeradwyo'r argymhelliad gan Bwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus Senedd yr Alban ym mis Medi 2010,²⁴⁹ diwygiwyd *Deddf yr Alban 1998* gan *Ddeddf yr Alban 2012*, gan ymestyn y gofyniad i Senedd yr Alban ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd(ion) o 7 i 14 diwrnod.

²⁴⁸ UK Government, *Strengthening Scotland's future*, Cm 7973, Tachwedd 2010, t.48.

²⁴⁹ Pwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus Senedd yr Alban, *The recommendations of the Commission on Scottish Devolution regarding Scottish Parliament procedures*, 24 Medi 2010, paragraffau 110-2.

Atodiad 8: Mynegai o ofynion Rheol Sefydlog 26.6

Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag unrhyw Fil ar ôl ei gyflwyno.

Rheol Sefydlog	Adran o'r Memorandwm Esboniadol	Pennawd yr adran/y bennod	Cyfeirnod
26.6(i)	Datganiad y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad	Datganiad yr Aelod	Tudalen 4
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi'r Bil	Y cyd-destun a'r angen am y Bil Yr hyn mae'r Bil yn ei wneud	Pennod 3, tudalen 15 Pennod 4, tudalen 34
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y mabwysiadwyd y dull gweithredu a ddefnyddir yn y Bil	Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud Opsionau, costau a manteision	Pennod 4, tudalen 34 Pennod 8, tudalen 101
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghoriad, os oes un, a gynhaliwyd ar: Amcanion polisi'r Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; Manylion y Bil; a Bil drafft, naill ai'n llawn neu'n rhannol (ac, os yw'n rhannol, pa rannau)	Ymgynghoriad	Pennod 5, tudalen 70
26.6(v)	Nodi crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi'i ddiwygio	Ymgynghoriad	Pennod 5, tudalen 70

Rheol Sefydlog	Adran o'r Memorandwm Esboniadol	Pennawd yr adran/y bennod	Cyfeirnod
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, y rheswm dros y penderfyniad hwnnw	Y cyd-destun a'r angen am y Bil	Pennod 3, tudalen 15
26.6(vii)	Crynhoi'n wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil.	Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud Opsionau, costau a manteision Nodiadau esboniadol	Pennod 4, tudalen 34 Pennod 8, tudalen 101 Rhan 4, tudalen 276
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: Y costau gweinyddol a chydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; Yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; Costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil; Dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac Ar bwy y byddai'r costau'n syrthio	Opsionau, costau a manteision	Pennod 8, tudalen 101
26.6(ix)	Manteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu meintoli'n ariannol	Manteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu meintoli'n ariannol	Pennod 25, tudalen 274
26.6(x)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi'r	Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Pennod 6, tudalen 93

Rheol Sefydlog	Adran o'r Memorandwm Esboniadol	Pennawd yr adran/y bennod	Cyfeirnod
	<p>canlynol mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:</p> <p>Ar bwy neu i ba gorff y rhoddir y pŵer ac ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;</p> <p>Pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer;</p> <p>I ba weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer yn ddarostyngedig, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn honno (ac nid ei gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn arall)</p>		
26.6(xi)	<p>Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ynghylch a yw'r tâl yn briodol ai peidio.</p>	<p>Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol</p>	<p>Paragraff 340</p>
26.6A	<p>Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddangos lle yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6 ynddo, drwy gyfrwng mynegai neu fel arall.</p>	<p>Mynegai o ofynion Rheol Sefydlog 26.6</p>	<p>Atodiad 8, tudalen 317</p>
26.6B	<p>Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y</p>	<p>Atodiad 10: Tabl tarddiadau</p>	<p>Tudalen 371</p>

Rheol Sefydlog	Adran o'r Memorandwm Esboniadol	Pennawd yr adran/y bennod	Cyfeirnod
	Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.		
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys atodlen sy'n nodi geiriad y ddeddfwriaeth bresennol a ddiwygir gan y Bil, a nodi'n glir sut y mae'r Bil yn diwygio'r geiriad hwnnw.	Atodiad 9: Atodlen o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth	Tudalen 321

Atodiad 9: Atodlen o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth

Bwriad yr atodiad hwn yw dangos sut y bydd y ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei diwygio gan y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) fel y'i pasiwyd gan y Cynulliad.

Mae llinell drwy'r deunydd mewn deddfwriaeth gyfredol sydd i'w ddileu gan y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a ddangosir isod, e.e. ~~mae deunydd sydd wedi'i hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae'r deunydd sydd i'w ychwanegu gan y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) wedi'i danlinellu, e.e. mae deunydd sydd wedi'i ychwanegu yn edrych fel hyn. Mae'r holl newidiadau (dileu ac ychwanegu) sydd i'w gwneud i ddeddfwriaeth gyfredol gan y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) wedi'u hamlygu mewn ffont coch.

Lluniwyd yr atodlen hon o ddiwygiadau gan swyddogion Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Er y gwnaed ymdrechion i sicrhau ei bod yn gywir, ni ddylid dibynnu arni fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil. Dim ond i helpu pobl i ddeall effaith y mae'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) wedi'i lunio. Ni fwriedir ei defnyddio mewn cyd-destun arall.

Mae'r testun sy'n dilyn yn Saesneg yn unig gan mai yn Saesneg yn unig y gwnaed y ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol.

Dim ond y darpariaethau sy'n cynnwys newidiadau sylweddol a geir. Ni chynhwysir diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r darpariaethau newid enw yn adrannau 2 i 9 o'r Bil, ac eithrio yn adran 1 o *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Nid yw'r Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2006 (a fewnosodwyd gan Atodlen 2 i'r Bil) wedi'i chynnwys yma gan ei bod yn hollol newydd. Esbonnir y darpariaethau y mae ei chynnwys yn deillio ohonynt mewn atodlen ar wahân (gweler Atodiad 10). Nid yw Atodiad 10 wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn cyflwyno'r Bil ar 12 Chwefror 2019.

RHAN 1

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES SENEDD CYMRU

The Assembly The Senedd

1 The Assembly Senedd

(1) There is to be ~~an Assembly a parliament~~ for Wales to be known as the Senedd Cymru or the Welsh Parliament (referred to in this Act as "the Senedd") ~~National Assembly for Wales or Cynulliad Cenedlaethol Cymru (referred to in this Act as "the Assembly")~~.

(2) The Assembly Senedd is to consist of—

(a) one member for each Senedd Assembly constituency (referred to in this Act as ~~"Assembly constituency members"~~ "Senedd constituency member"), and

(b) members for each Assembly Senedd electoral region (referred to in this Act as ~~"Assembly regional members"~~ "Senedd regional member").

(2A) Members of the Senedd are to be known by that name or Aelodau o'r Senedd.

(3) Members of the Assembly Senedd ~~(referred to in this Act as "Assembly members")~~ are to be returned in accordance with the provision made by and under this Act for—

(a) the holding of general elections of Assembly Members of the Senedd (for the return of the entire Assembly Senedd), and

(b) the filling of vacancies in Assembly Senedd seats.

(4) The validity of any Assembly Senedd proceedings is not affected by any vacancy in its membership.

(5) In this Act "Assembly Senedd proceedings" means any proceedings of—

-
- (a) the ~~Assembly~~Senedd,
 - (b) committees of the ~~Assembly~~Senedd, or
 - (c) sub-committees of such committees.

3 Ordinary general elections

(1) The poll at an ordinary general election is to be held on the first Thursday in May in the fifth calendar year following that in which the previous ordinary general election was held, unless—

- (a) subsection (1A) prevents the poll being held on that day, or
- (b) the day of the poll is determined by a proclamation under section 4.

(1A) The poll is not to be held on the same date as the date of the poll at—

- (a) a parliamentary general election (other than an early parliamentary general election), or
- (b) a European Parliamentary general election.

(1B) Where subsection (1A) prevents the poll being held on the day specified in subsection (1), the poll is to be held on such day, subject to subsection (1A), as the Welsh Ministers may by order specify unless the day of the poll is determined by a proclamation under section 4(2) as modified by section 4(2A).

(2) If the poll is to be held on the first Thursday in May or on the day specified by an order under subsection (1B), the Assembly²⁵⁰—

- (a) is dissolved by virtue of this section at the beginning of the minimum period which ends with that day, and
- (b) must meet within the period of ~~seven~~fourteen days beginning immediately after the day of the poll.

(3) In subsection (2) “the minimum period” means the period determined in accordance with an order under section 13.

²⁵⁰ As previously noted, the Senedd and Elections (Wales) Bill replaces the word “Assembly” with “Senedd” here and in all following sections of the Government of Wales Act 2006, including its use in Assembly-related names and titles (e.g. Assembly Member). However, such changes are not shown in this section and all following sections of this schedule of amendments to legislation. The rationale for this approach is to highlight the more substantive changes to the wording of the Government of Wales Act 2006 made by the Bill.

(4) In calculating any period of days for the purposes of subsection (2)(b), the following days are to be disregarded—

(a) Saturday and Sunday,

(b) any day which is a bank holiday in Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971 (c. 80), and

(c) any day appointed for public thanksgiving or mourning.

(5) No order is to be made under subsection (1B) unless a draft of the statutory instrument containing it has been laid before, and approved by a resolution of, the Assembly.

4 Power to vary date of ordinary general election

(1) Subject to section 3(1A), the Presiding Officer may propose, for the holding of the poll at an ordinary general election, a day which is not more than one month earlier, nor more than one month later, than the first Thursday in May.

(2) If the Presiding Officer proposes a day under subsection (1), Her Majesty may by proclamation under the Welsh Seal—

(a) dissolve the Assembly,

(b) require the poll at the election to be held on the day proposed, and

(c) require the Assembly to meet within the period of ~~seven~~ fourteen days beginning immediately after the day of the poll.

(2A) Where a day is specified by an order under section 3(1B), subsection (1) applies as if the reference to the first Thursday in May were a reference to that day.

(3) In calculating any period of days for the purposes of provision made by virtue of subsection (2)(c), the following days are to be disregarded—

(a) Saturday and Sunday,

(b) Good Friday,

(c) any day which is a bank holiday in Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971 (c. 80), and

(d) any day appointed for public thanksgiving or mourning.

(4) The Welsh Ministers may by order make provision for—

-
- (a) any provision of, or made under, the Representation of the People Acts, or
- (b) any other enactment relating to the election of Assembly members,

to have effect with such modifications or exceptions as the Welsh Ministers consider appropriate in connection with the alteration of the day of the poll under this section.

	disqualified from being a Member of the Senedd.	
3(2)	In this schedule, a reference to a bankruptcy restrictions order or an interim order includes a reference to bankruptcy restrictions order or an interim order made under Schedule 2A to the Insolvency (Northern Ireland) Order 1989.	Mae adran 426A(8) o Ddeddf Ansoffedd 1986, ar hyn o bryd, yn gymwys yn anuniongyrchol yn rhinwedd adran 16(2).
4	Section 426B of the Insolvency Act 1986 (c. 45) applies in relation to this disqualification.	Mae adran 426B yn ei gwneud yn ofynnol i lys sy'n gwneud gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn cyfyngu rhyddhad dyled (neu orchymyn interim) mewn perthynas ag Aelod Cynulliad hysbysu'r Llywydd. Mae'r cyfeiriad hwn ati wedi'i gynnwys er eglurder.
5	A person who would be disqualified from being a Member of the House of Commons by virtue of section 427 of the Insolvency Act 1986 because of an award of sequestration made by a court in Scotland, and that section applies as modified by subsection (6B) of it.	Mae adran 427 o Ddeddf Ansoffedd 1986, ar hyn o bryd, yn gymwys yn anuniongyrchol yn rhinwedd adran (6B) ohoni.
	<i>Treason</i>	
6	A person who has been convicted of treason, in the manner provided for by section 2 of the Forfeiture Act 1870.	Ar hyn o bryd, mae'n gymwys yn anuniongyrchol yn rhinwedd adran 16(2).
	<i>Incapacities on conviction of corrupt or illegal practice</i>	
7	A person convicted of a corrupt or illegal practice under the Representation of the People Act 1983, and section 173 of that Act applies to membership of the	Mae adran 173 o Ddeddf 1983, ar hyn o bryd, yn gymwys yn anuniongyrchol yn rhinwedd adran 16(2).

	Senedd as an elective office to which that section applies.	
	<i>Other criminal offences</i>	
8	A person found guilty of one or more offences (whether before or after the passing of this Act and whether in the United Kingdom or elsewhere), and sentenced or ordered to be imprisoned or detained indefinitely or for more than one year, is disqualified from membership of the Senedd while detained anywhere in the United Kingdom, the Channel Islands, the Isle of Man or elsewhere in the European Union, in pursuance of the sentence or order or while unlawfully at large at a time when the person would otherwise be so detained.	Mae adran 1 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981, ar hyn o bryd, yn gymwys yn anuniongyrchol yn rhinwedd adran 16(2).
	<i>HOLDERS OF OFFICES WHO ARE DISQUALIFIED</i>	
9	The holders of the following offices are disqualified from membership of the Senedd-	
	Members of any other legislature, with the following exceptions— (a) Members of the House of Commons in the circumstances provided for in sections 17A and 17B; (b) Members of the House of Lords in the circumstances provided for in section 17C;	Mae aelodau o ddeddfwrfa unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Gymanwlad (ac Iwerddon) wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau Seneddol yn rhinwedd adran 1(1)(e) o Ddeddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975. Ar hyn o bryd, mae hyn yn gymwys yn anuniongyrchol yn rhinwedd adran 16(2). Mae Aelodau Seneddol wedi'u hanghymhwyso o dan adran 16(1)(za); nid yw aelodau o Dŷ'r Arglwyddi wedi'u

		hanghymhwysu oherwydd adran 17(1).
	The Auditor General for Wales / Archwilydd Cyffredinol Cymru;	Adran 16(1)(c)
	The Public Services Ombudsman for Wales / Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;	Adran 16(1)(c)
	A person who holds office as lord-lieutenant, lieutenant or high sheriff of any area in Wales;	Adran 16(4)
	The holders of the following judicial offices – (a) Judge of the Supreme Court; (b) Judge of the High Court of Justice or Court of Appeal; (c) Circuit Judge; (d) District Judge (Magistrates' Courts) (but not Deputy District Judge (Magistrates' Courts));	Ar hyn o bryd, mae'n gymwys yn anuniongyrchol yn rhinwedd cymhwysu adran 1(1) o Ddeddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975 i etholiadau'r Cynulliad yn rhinwedd adran 16(1)(a). Mae'r anghymhwysiad presennol hefyd yn cynnwys rhai beirniaid yn yr Alban a beirniaid milwrol.
	Members and staff of The Electoral Commission / Comisiwn Etholiadol;	Ar hyn o bryd, maent wedi'u hanghymhwysu gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwysu) 2015 ('Gorchymyn 2015').
	The Electoral Registration Officer for any area in Wales or the Returning Officer for a constituency or an electoral region of the Senedd;	Ar hyn o bryd, maent wedi'u hanghymhwysu gan Orchymyn 2015 - SCE fel deiliaid swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol mewn awdurdodau lleol a Swyddogion Canlyniadau drwy gyfeiriad uniongyrchol.
	Civil Service Commissioners;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015

	Commissioners for Equality and Human Rights;	Mae paragraff 46 o Atodlen 1 i Ddeddf Cydraddoldeb 2006 yn darparu'r canlynol: "A Commissioner or Investigating Commissioner, and a member of a decision-making committee of the Commission, shall be disqualified from being a member of the National Assembly for Wales."
	The Commissioner for Public Appointments;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	The Comptroller and Auditor General;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	The Senedd Commissioner for Standards / Comisiynydd Safonau y Senedd;	Nid yw Aelodau'r Cynulliad yn gymwys i fod yn Gomisiynydd Safonau yn rhinwedd adran 1 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Nid yw'r Comisiynydd wedi'i anghymhwysu, ar hyn o bryd, rhag bod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Cynulliad.
	Her Majesty's Chief inspector of Education and Training in Wales / Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	Members of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales / Aelodau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	Members of the Independent Remuneration Panel for Wales / Aelodau Panel Annibynnol Cymru ar Cydnabyddiaeth Ariannol;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015

	The Parliamentary Commissioner for Administration;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	The Welsh Language Commissioner / Comisiynydd y Gymraeg;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	The Commissioner for Older People in Wales/ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	The Children's Commissioner for Wales / Comisiynydd Plant Cymru;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	The Future Generations Commissioner for Wales / Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru;	Ar hyn o bryd, mae wedi'i anghymhwysu gan Orchymyn 2015
	Members of the Independent Remuneration Board of the Senedd / Aelodau Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd;	Mae Aelodau'r Cynulliad wedi'u hanghymhwysu rhag bod yn aelodau'r Bwrdd gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Nid yw aelodau'r Bwrdd wedi'u hanghymhwysu, ar hyn o bryd, rhag bod yn ymgeiswyr i'w hethol i'r Cynulliad.
	The Clerk of the Senedd / Clerc y Senedd;	Adran 16(1)(c) o Ddeddf 2006 - sydd, ar hyn o bryd, yn gymwys i holl staff Comisiwn y Cynulliad.
	Acting holders of the above offices;	Darpariaeth newydd yw hon.
	Statutory deputies of holders of the above offices.	Darpariaeth newydd yw hon.

Rhan 5: Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol

26. Gwelliannau i'r Bil

26.1. Y cefndir

- 1.** Cyflwynwyd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ar 12 Chwefror 2019. Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn (rhannau 1 i 4) ei lunio a'i osod ochr yn ochr â'r Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.6.
- 2.** Mae'r Bil yn ddarostyngedig i brosesau craffu deddfwriaethol y Cynulliad. Penderfynodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y byddai Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan yn craffu ar y Bil. Cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan ar 9 Hydref 2019 i ystyried yr holl welliannau arfaethedig i'r Bil yn ystod Cyfnod 2 o'r broses graffu.
- 3.** Yn ôl Rheol Sefydlog 26.27, os caiff Bil ei ddiwygio yn ystod Cyfnod 2, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig (oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig).
- 4.** Fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, mae'r Llywydd wedi paratoi'r rhan ychwanegol hon o'r Memorandwm Esboniadol i esbonio sut y cafodd y Bil ei ddiwygio yn ystod Cyfnod 2 ac i ddarparu asesiad o effeithiau'r gwelliannau hynny, gan gynnwys eu goblygiadau ariannol.
- 5.** Hefyd, derbyniwyd gwelliannau i'r Bil yn ystod Cyfnod 3 o waith craffu deddfwriaethol ar y Bil, a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2019. Nid yw Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i Memorandwm Esboniadol i Fil gael ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 3. Fodd bynnag, fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, at ddiben bod yn gyflawn, mae'r Llywydd wedi diweddarau'r rhan ychwanegol hon o'r Memorandwm Esboniadol i esbonio sut y cafodd y Bil ei ddiwygio yn ystod Cyfnod 3.
- 6.** Roedd y gwelliannau a dderbyniwyd ar ôl gwaith craffu Cyfnod 2 a Chyfnod 3 ar y Bil yn cynnwys nifer o newidiadau polisi sylweddol, yn ogystal â gwelliannau technegol. Gan nad yw'r gwelliannau technegol a dderbyniwyd yn effeithio ar gyflawni amcanion polisi'r Bil na'i oblygiadau ariannol, dim ond y gwelliannau polisi a dderbyniwyd sydd wedi'u hesbonio isod.
- 7.** Fel y trafodwyd yn ystod Cyfnod 1, byddai Comisiwn y Cynulliad yn croesawu gwaith craffu ar ôl deddfu ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

mewn perthynas â'i amcanion polisi a'r gwerth am arian a gyflawnir drwy ei weithredu. Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn bwriadu gwerthuso ei effeithiolrwydd ei hun wrth weithredu'r agweddau ar y ddeddfwriaeth y bydd yn gyfrifol amdanynt.

26.2. Trosolwg o'r prif welliannau polisi

8. Mae'r paragraffau a ganlyn yn nodi'r prif newidiadau polisi a dderbyniwyd i rannau penodol o'r Bil, yn ogystal ag effaith y newidiadau hynny ar yr asesiadau costau, manteision, arbedion ac effeithiau a ragwelwyd yn wreiddiol wrth gyflwyno'r Bil.

26.2.1. Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26.2.1.1. Trosolwg o'r gwelliannau a'u rhesymeg

9. Wrth ei gyflwyno, cynigiodd y Bil y dylid newid enw'r Cynulliad i 'Senedd' ac y dylid gwneud newidiadau cysylltiedig i deitlau Aelodau'r Cynulliad a chyrrff sy'n ymwneud â'r Cynulliad. Gweler adran 4.2 o'r Memorandwm Esboniadol i gael rhagor o wybodaeth am y darpariaethau newid enw a gynhwyswyd yn y Bil wrth ei gyflwyno.

10. Ystyriwyd rhoi effaith i'r enw newydd hwn drwy ddiwygio adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarllen "There is to be a Welsh Parliament to be known as the Senedd". Fodd bynnag, oherwydd pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i ddiwygio deuddeg gair cyntaf adran 1(1), dim ond yr ail ran o'r adran honno a ddiwygiodd y Bil wrth ei gyflwyno, i ddarllen "There is to be an Assembly for Wales to be known as the 'Senedd'". Gweler Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn i gael rhagor o fanylion.

11. Yn ystod hynt deddfwriaethol y Bil drwy'r Cynulliad, cyflwynodd gwahanol Aelodau welliannau i'r Bil i gynnig enwau gwahanol i'r Cynulliad.

12. Pleidleisiodd mwyafrif o'r Aelodau o blaid gwelliant a gyflwynwyd gan Carwyn Jones AC i gynnig yr enwau "Senedd Cymru" neu "Welsh Parliament". Yn ystod y ddadl Cyfnod 2, nododd Carwyn Jones AC mai'r rhesymeg y tu ôl i'r enwau arfaethedig oedd ei gwneud yn "glir yn y gyfraith mai 'Senedd Cymru' yw 'Welsh Parliament'". Esboniodd mai'r rhesymeg dros yr enwau a gynigiodd oedd darparu "sicrwydd cyfreithiol" drwy sicrhau y caiff ystyr "Senedd Cymru" yn y gyfraith ei ddeall yn glir.

13. Dywedodd Carwyn Jones AC mai nod set arall o welliannau ganddo, a dderbyniwyd hefyd yn ystod Cyfnod 2, oedd sicrhau'r defnydd o 'Senedd' fel enw cyffredinol y sefydliad. O ganlyniad i hynny, yr enw 'Senedd' yn bennaf sy'n ymddangos yn y Bil ac sydd wedi'i gynnwys yn yr enwau a'r teitlau amrywiol sy'n ymwneud â'r Senedd a nodir yn Rhan 2 o'r Bil diwygiedig. Mae

Tabl 38 yn nodi effaith y gwelliannau a dderbyniwyd ar yr enwau a'r teitlau hyn.

Tabl 38 Newidiadau arfaethedig i enwau, teitlau a disgrifiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad

Presennol	Newydd
National Assembly for Wales Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Welsh Parliament Senedd Cymru
Assembly Members (AM) Aelodau Cynulliad (AC)	Members of the Senedd (MS) Aelodau o'r Senedd (AS)
Clerk of the National Assembly for Wales Clerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Clerk of the Senedd Clerc y Senedd
National Assembly for Wales Commission Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Senedd Commission Comisiwn y Senedd
Acts of the National Assembly for Wales Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Acts of Senedd Cymru Deddfau Senedd Cymru
National Assembly for Wales Commissioner for Standards Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Senedd Commissioner for Standards Comisiynydd Safonau y Senedd
National Assembly for Wales Remuneration Board Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Independent Remuneration Board of the Senedd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

14. Ni fydd y newidiadau i ran 2 o'r Bil, a amlinellir yn Nhabl 39 uchod ac i deitlau'r Aelodau, yn cael effaith ar yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r newid enw, fel y nodir yn adran 4.2.3 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r dyddiad y daw'r darpariaethau newid enw i rym (6 Mai 2020) yn ddigyfnewid. Bydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid allanol i sicrhau y caiff y newid enw ei weithredu a'i gyfleu fel y nodwyd o'r blaen yn adran 4.2.3.

26.2.1.2. Trosolwg o effaith gwelliannau ar gostau, manteision ac arbedion

15. Ni nodwyd newidiadau sylweddol i'r costau sy'n ymwneud â darpariaethau newid enw'r Bil (fel y nodir yn Tabl 13) fel rhai sy'n deillio o'r gwelliannau a dderbyniwyd yn ystod Cyfnod 2 a Chyfnod 3. Bydd costau i eitemau megis arwyddion allanol, carpedi'r fynedfa, yn ogystal ag eitemau digidol fel parthau gwe, yn parhau i fod yn debyg ac nid ydynt yn dibynnu ar yr enw sy'n cael ei fabwysiadu.

16. Fel y dangosir yn Tabl 13 a Tabl 20, roedd Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn cynnwys £2500 i ailosod dau arwydd wedi'u brandio ym mynedfa Siambr Hywel. Mae'r arwyddion hyn yn waith celf a gafwyd dan drwydded. Gan y cadarnhawyd, erbyn hyn, nad yw ailosod yr arwyddion hyn yn dibynnu ar newid yr enw, dilëwyd y gost hon o amcangyfrifon cost y Bil (gweler amcangyfrifon costau trosiannol diwygiedig y Bil ar gyfer Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adran 26.4.2 isod).

26.2.1.3. Asesiad o effaith y gwelliannau

Asesiad o'r Effaith ar leithoedd Swyddogol

17. Fel y cyfeiriwyd ato ym Mhennod 18, yn dilyn ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad, penderfynodd y Comisiwn ym mis Mehefin 2017 newid enw'r Cynulliad i 'Senedd Cymru / Welsh Parliament'. Yn dilyn rhagor o drafodaethau, wrth ei gyflwyno, cynigiodd y Bil yr enw 'Senedd' a darparu y gallai'r 'Senedd' gael ei galw hefyd yn 'Welsh Parliament'.

18. Fel y nodwyd eisoes yn y Memorandwm Esboniadol, nid yw'r gofyniad i adlewyrchu statws cyfartal y ddwy iaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy iaith gael eu trin yn union yr un ffordd. Ystyriwyd y byddai mabwysiadu 'Senedd' fel enw newydd i'r Cynulliad yn helpu i sicrhau statws mwy cyfartal ar gyfer y ddwy iaith dros amser, o ran eu defnydd a'u proffil.

19. Yn ystod Cyfnod 2, cafodd y Bil ei ddiwygio i ddarparu ar gyfer yr enwau newydd "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament", yn hytrach na "Senedd" (er y cyfeirir ati'n gyffredin fel "Senedd" yn y Bil Cymraeg a'r Bil Saesneg ac mewn teitlau cysylltiedig yn Gymraeg a Saesneg, e.e. "Clerc y Senedd / Senedd Clerk, Comisiwn y Senedd / Senedd Commission). Effaith y gwelliant yw ei gwneud yn gliriach bod gan y sefydliad enw Cymraeg ac enw Saesneg mewn cyfraith. Mae paragraff 902 o'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd caniatáu defnyddio "Welsh Parliament" ochr yn ochr â'r term "Senedd"

yn Saesneg yn helpu'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r gair Cymraeg i ddeall ystyr yr enw a hefyd i bwysleisio statws cyfansoddiadol y sefydliad ymhellach fel senedd genedlaethol i Gymru. Gellir dweud bod yr un rhinweddau'n berthnasol wrth newid enw'r sefydliad i 'Senedd Cymru' a 'Welsh Parliament'.

26.2.2. Estyn yr etholfraint

26.2.2.1. Trosolwg o'r gwelliannau a'u rhesymeg

20. Wrth ei gyflwyno, cynigiodd y Bil y dylid gostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Senedd o 18 i 16 a, thrwy hynny, ganiatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Cynigiodd y Bil hefyd newidiadau i'r ffordd y gweinyddir etholiadau'r Senedd, gan gynnwys y broses gofrestru etholiadol, er mwyn hwyluso gostwng yr oedran pleidleisio. Gweler adran 4.3 o'r Memorandwm Esboniadol i gael rhagor o wybodaeth am y darpariaethau perthnasol a gynhwyswyd yn y Bil wrth ei gyflwyno.

21. Mae'r Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan wedi derbyn gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 sydd hefyd yn etholfreinio dinasyddion tramor cymhwysol. Mae dinesydd tramor cymhwysol yn rhywun nad yw'n ddinesydd Iwerddon, y Gymanwlad na'r UE (ar y sail bod personau o'r fath eisoes wedi'u hetholfreinio) ac sy'n berson nad oes angen caniatâd yr awdurdodau mewnfudo arno er mwyn dod i mewn i'r Deyrnas Unedig ac aros yno (y cyfeirir ato'n gyffredin fel "caniatâd i ddod i mewn neu aros") neu fod angen caniatâd o'r fath arno ac y'i rhoddwyd iddo. Mae'r gyfraith hefyd yn darparu y gellir trin categori bach o bobl hefyd fel rhai sydd â chaniatâd i aros neu ddod i mewn i'r DU. Yn yr un modd â phob pleidleisiwr cymwys arall, mae'n rhaid i ddinesydd tramor cymhwysol fodloni ei Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol ei fod yn preswyllo yn yr ardal y mae am gofrestru i bleidleisio ynddi, nad yw'n destun anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio a'i fod o oedran pleidleisio.

22. Wrth gynnig gwelliannau i etholfreinio dinasyddion tramor cymhwysol, nododd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"We are seeking to amend the Bill with respect to who may vote in Senedd elections for both principled and practical reasons. At present, European Union and Commonwealth citizens may vote in the Senedd elections. This means citizens of other countries, such as the United States of America, who have lived, worked and raised a family here are not able to vote. Our view is that people who

contribute to the economic and cultural life of our communities should have a say in the future of that community. Therefore, we are proposing amendments to the Bill to extend the franchise at Senedd elections to foreign citizens who are legally resident in Wales.”

23. Rhesymeg polisi Llywodraeth Cymru yw y bydd hyn yn ei gwneud yn glir y dylai pobl o bob gwlad a chenedligrwydd sydd wedi ymgartrefu yma allu cymryd rhan yn llawn wrth wneud ein democratiaeth leol yn fywiog ac yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai dinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru allu helpu i benodi'r rhai sy'n eu cynrychioli ac yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae Llywodraeth Cymru am hyrwyddo amrywiaeth a chynrychiolaeth ehangach. Bydd etholfreinio'r grŵp ehangaf posibl o bobl yn cefnogi'r nod hwn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi y dangosodd ei hymgyngghoriad ynghylch *Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru* fod 73 y cant o'r ymatebwyr yn gefnogol i gynnig y dylid estyn hawliau pleidleisio i bob preswlydd cyfreithiol yng Nghymru, ni waeth beth yw ei genedligrwydd neu ei ddinasyddiaeth. Yn yr un modd, yn ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad, sef *Creu Senedd i Gymru*, roedd 66 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r holl breswylwyr cyfreithlon yng Nghymru gael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd, ni waeth beth yw eu cenedligrwydd neu eu dinasyddiaeth.

24. Yn ystod gwaith craffu deddfwriaethol Cyfnod 3 ar y Bil, derbyniwyd gwelliant a gyflwynwyd gan y Llywydd i ohirio cychwyn adrannau 12 i 26 o'r Bil tan 1 Mehefin 2020, yn hytrach nag ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r darpariaethau hyn yn darparu ar gyfer pobl 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol i ddechrau cofrestru i bleidleisio fel etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Fel yr esbonnir ym mharagraff 538 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, dim ond personau sydd ar gofrestr yr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru a gaiff bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Effaith y gwelliant hwn yw y caniateir i bobl 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol gofrestru o 1 Mehefin 2020 i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny (dim ond ar gyfer etholiadau a gynhelir ar 5 Ebrill 2021 neu wedi hynny y mae'r hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a ddarperir i bersonau o'r fath yn cael effaith). Y rhesymeg dros y gwelliant oedd sicrhau digon o amser ar gyfer diweddariadau meddalwedd, y profion a'r hyfforddiant i'r Systemau Rheoli Etholiadol a'r gwasanaeth digidol cofrestru etholiadol unigol, cyn i'r personau y mae'r Bil yn rhoi'r hawl iddynt bleidleisio ddechrau cofrestru i bleidleisio.

26.2.2.2. Trosolwg o effaith gwelliannau ar gostau, manteision ac arbedion

25. Wrth ystyried goblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), gwnaeth y Pwyllgor Cyllid nifer o argymhellion yn ymwneud â dilysu a diweddarau costau ym Memorandwm Esboniadol gwreiddiol y Bil.

26. At hynny, mae i etholfreinio dinasyddion tramor cymhwysol oblygiadau sylweddol i'r costau, y manteision a'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm Esboniadol gwreiddiol. Ystyrir y materion hyn isod.

Costau i awdurdodau lleol – meddalwedd Systemau Rheoli Etholiadol

27. Yn ei adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylid gwneud rhagor o waith i sicrhau bod sail gadarn i'r costau a fydd yn cael eu hysgwyddo gan awdurdodau lleol wrth ddiweddarau'r Systemau Rheoli Etholiadol. Yn ôl y Pwyllgor, dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2 a dylai nodi safbwyntiau'r awdurdodau lleol ar briodoldeb y costau hyn.

28. Mae gan bob awdurdod lleol contract gyda chwmni meddalwedd sy'n darparu'r feddalwedd ar gyfer y Gofrestr Etholiadol – y cyfeirir ati fel y System Rheoli Etholiadol (EMS). Mae'r 22 awdurdod lleol yn gweithio gyda thri chwmni meddalwedd. Ar ôl cyflwyno'r Bil, nid yw'r gwaith wedi symud ymlaen i gam lle y gallai'r cwmnïau meddalwedd roi dyfynbrisiau manwl mewn perthynas â'r gwaith amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â diweddarau meddalwedd y System Rheoli Etholiadol ei hun (ond gweler paragraff 30, isod).

29. Roedd yr amcangyfrifon cychwynnol a gynhwyswyd yn y Memorandwm Esboniadol yn seiliedig ar gostau a nodwyd i estyn yr etholfraint yn yr Alban. Erbyn hyn, ystyrir ei bod yn debygol y bydd arbedion mân ar y ffigurau hyn i adlewyrchu'r ffaith bod y gwaith angenrheidiol i ddiweddarau'r feddalwedd ar gyfer etholfreinio pobl 16 a 17 oed eisoes wedi'i ddechrau gan rai contractwyr (ond nid pob un) fel rhan o'u gwaith gydag awdurdodau lleol yn yr Alban. Oherwydd sensitifrwydd masnachol, nid oes costau penodol ar gael ar gyfer y gwaith a wnaed i ddiweddarau'r feddalwedd yn yr Alban. Fodd bynnag, bydd yr arbedion hyn yn cael eu gwrthbwyso gan y costau ychwanegol sy'n codi o ddiweddarau'r systemau i wladolion tramor cymhwysol bleidleisio. Gan hynny, y gost amcangyfrifedig i awdurdodau lleol o ddiweddarau meddalwedd EMS yw £636,600 o hyd.

30. Yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid, nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol y dylid bwrw ymlaen â'r gwaith i gomisiynu'r diweddariadau i'r EMS yn ganolog er mwyn negodi newidiadau â darparwyr EMS fel un bloc at ddibenion cysondeb a gwerth am arian. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith hwn ac wedi bod yn ymgysylltu â darparwyr EMS yn uniongyrchol er mwyn datblygu manylebau a chostau negodi.

31. Fodd bynnag, nodwyd cost ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn sgil ymgysylltu â'r Tîm Cyflawni Digidol yn Swyddfa'r Cabinet am reoli'r newidiadau i feddalwedd y System Rheoli Etholiadol drwy brosiect. Rhagwelir mai £60,000 fydd y gost, i'w thalu yn 2020-21.

Costau i awdurdodau lleol – cofrestru dinasyddion tramor cymhwysol wedi'u hetholfreinio bob blwyddyn

32. Mae paragraffau 535 i 538 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r cynnydd disgwylid yn y gwariant o ran y costau i awdurdodau lleol gofrestru mwy o bobl yn sgil gostwng yr oedran pleidleisio.

33. Cyfrifwyd nifer y dinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithiol yng Nghymru drwy ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n nodi poblogaeth y DU yn ôl cenedligrwydd. Mae data'r SYG yn dangos y bu 135,000 o ddinasyddion tramor yn preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru ddiwedd 2017.²⁵¹

34. O'r rhain, roedd 79,000 yn ddinasyddion yr UE, gan gynnwys 7,000 o Weriniaeth Iwerddon.

35. Mae data'r SYG hefyd yn nodi'r amcangyfrifon poblogaeth yn ôl cenedligrwydd. Gan ddefnyddio hyn, cyfrifir, ddiwedd 2017, y bu oddeutu 23,000 o ddinasyddion y Gymanwlad yn byw yng Nghymru.

36. Mae hyn yn golygu, o'r 135,000 o ddinasyddion tramor a oedd yn preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru ddiwedd 2017, nad oedd 33,000 yn ddinasyddion y Gymanwlad, Gweriniaeth Iwerddon, na'r UE.²⁵²

37. Nid oes modd bod yn sicr faint o'r 33,000 hyn sydd dan yr oedran pleidleisio (nad yw, o bosibl, yn dilyn patrwm dosbarthiad oedran y boblogaeth ehangach). Gan hynny, ystyrir mai'r ffigur hwn yw'r lledamcan

²⁵¹ Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Poblogaeth y DU yn ôl gwlad enedigol a chenedligrwydd, mis Ionawr i fis Rhagfyr 2018**

²⁵² 135,000 - 79,000 - 23,000 = 33,000

rhesymol agosaf y gellir ei wneud o nifer y bobl ychwanegol a fyddai'n cael eu hetholfreinio, pe bai dinasyddion tramor cymhwysol sy'n preswyllo yng Nghymru yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

38. Fel y nodwyd yn flaenorol yn y Memorandwm Esboniadol hwn, nododd *Cost gweinyddiaeth etholiadol ym Mhrydain Fawr: Arolygon gwybodaeth ariannol 2009-10 a 2010-11* mai £1.17 a £0.96 yw'r gwariant fesul etholwr yn ystod y cyfnod canfasio a'r tu allan i'r cyfnod canfasio ar gyfer 2010-11, yn y drefn honno. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ystod eang o gostau megis y tîm cofrestru craidd, dylunio ac argraffu, costau postio, canfasio a llunio'r gofrestr.

39. Cydnabyddir mai Adroddiad y Comisiwn Etholiadol, sef *Cost gweinyddiaeth etholiadol ym Mhrydain Fawr: Arolygon gwybodaeth ariannol 2009-10 a 2010-11* yw'r asesiad mwyaf cynhwysfawr o gostau fesul etholwr na chafwyd ei debyg ers hynny.

40. Gellir dadlau mai costau etholiad 2016 fyddai'r data diweddaraf. Yn nodedig ar 9 Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata ar yr arian a wariwyd ym mhob etholaeth a rhanbarth mewn cysylltiad â'r etholiadau yn 2016.²⁵³ Fodd bynnag, gan y cynhaliwyd sawl etholiad yn 2016, nid yw'n bosibl dosrannu costau o 2016 ar gyfer etholiad y Cynulliad yn unig. Felly, ystyrir mai ffigurau'r Comisiwn Etholiadol rhwng 2009 a 2011, wedi'u huwchraddio ar gyfer chwyddiant, sy'n adlewyrchu'r gost gyffredinol fesul etholwr fwyaf cywir at ddibenion ystyried estyn yr etholfraint.

41. Felly, rhagdybir cost dybiannol o £1.07 fesul etholwr, yn seiliedig ar gyfartaledd y costau 'yn ystod y cyfnod canfasio' a'r 'tu allan i'r cyfnod canfasio'. Mae'r gost hon wedi'i huwchraddio i £1.22 i roi cyfrif am chwyddiant drwy ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr.

²⁵³ Llywodraeth Cymru, [Costau etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 2016](#)

Tabl 40 Cost amcangyfrifedig cofrestru'r etholwyr ychwanegol

Cofrestru'r etholwyr ychwanegol	Amcangyfrif poblogaeth (canol 2017)	Cost fesul etholwr (£)	Cyfanswm (£)
Cofrestru dinasyddion tramor sydd newydd eu hetholfreinio bob blwyddyn	33,000	1.22	40,260
Cyfanswm			40,260

Costau i awdurdodau lleol – codi ymwybyddiaeth

42. Mae paragraffau 543 i 545 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y disgwylir y bydd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) sydd ar ddod yn cynnwys darpariaethau i roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith y bobl ifanc berthnasol ynghylch y trefniadau ar gyfer cofrestru etholiadol sy'n gymwys iddynt a'u helpu i gofrestru. Deallir bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid darparu cyllid ychwanegol at y diben hwn.

43. At ddibenion y Memorandwm Esboniadol, amcangyfrifwyd y byddai pob awdurdod lleol yn defnyddio un swyddog hanner amser at y diben hwn ac yn dyrannu cyllideb weithio gymedrol o £10,000 (gweler Tabl 26).

44. Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fyddai etholfreinio dinasyddion tramor cymhwysol yn arwain at gostau uwch i awdurdodau lleol o ran hybu ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion tramor o'r trefniadau ar gyfer cofrestru etholiadol sy'n gymwys iddynt a'u helpu i gofrestru. Mae'n bosibl y gall y gweithgarwch hwn gael ei gynnwys yn yr amcangyfrif i bob awdurdod lleol ddefnyddio un swyddog hanner amser at ddiben hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r etholfraint. Ond, ar hyn o bryd, nid yw hyn yn hysbys.

Costau i Lywodraeth Cymru – diwygio'r gwasanaeth digidol cofrestru etholiadol unigol

45. Byddai'r rhai sydd newydd gael yr hawl i bleidleisio yn gallu cofrestru drwy wasanaeth digidol Llywodraeth y DU, sef cofrestru etholiadol unigol. Ar hyn o bryd yng Nghymru, ni ellir defnyddio'r system ar-lein hon i gofrestru unrhyw un dan 16 oed nac unrhyw un nad oes ganddo'r hawl i bleidleisio ar hyn o bryd. Y dyfynbris i ddiwygio'r gwasanaeth digidol cofrestru etholiadol ar gyfer unrhyw un dan 16 oed a gynhwyswyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, wrth ei gyflwyno, oedd £21,200.

46. Erbyn hyn, gellir diweddarau'r costau hyn i adlewyrchu'r costau cychwynnol a nodwyd gan y gwasanaeth cofrestru etholiadol unigol mewn perthynas â diweddariadau er mwyn:

- galluogi pobl 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol i gofrestru i bleidleisio;
- ymgorffori newidiadau i estyn y gwasanaeth i alluogi pobl ifanc sy'n derbyn gofal i gael mynediad at ffurflen datganiad o gysylltiad lleol yn electronig;
- ymgorffori profion defnyddwyr pwysig o'r newidiadau hyn.

47. Er mwyn ymgorffori'r elfennau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylid diweddarau'r gost amcangyfrifedig wreiddiol, sef £21,200, i £76,000.

Costau i Lywodraeth Cymru – costau uwch fesul etholwr

48. Mae paragraff 549 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Gweinidogion Cymru, ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, yn talu'r costau drwy godi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amcangyfrif ar gyfer cost yr etholiad a gaiff ei chymhwyso ar ôl hynny i dalu costau'r etholiad. Mae *Cost gweinyddiaeth etholiadol ym Mhrydain Fawr* yn nodi mai £1.96 oedd gwariant yr etholiad fesul etholwr yng Nghymru yn 2010-11. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn yn cynnwys costau cynnal yr etholiad a chyfrif y pleidleisiau. Fel y nodwyd yn flaenorol, ystyrir mai hwn yw'r ffigur diweddaraf sydd ar gael. Mae'r gost o £1.96 yn cael ei huwchraddio i £2.23 i roi cyfrif am chwyddiant.

Tabl 41 Cost pleidleiswyr ychwanegol

Cost pleidleiswyr ychwanegol	Amcangyfrif poblogaeth (canol 2017)	Cost fesul etholwr (£)	Cyfanswm (£)
Mwy o etholwyr (dinasyddion tramor) mewn etholiadau	33,000	2.23	73,590
Cyfanswm			73,590

Costau i Lywodraeth Cymru – codi ymwybyddiaeth

49. Wrth ei gyflwyno, nododd paragraff 555 o Femorandwm Esboniadol y Bil y canlynol:

“Nod Llywodraeth Cymru yw cynnal ymgyrch tair blynedd a fydd yn cynnwys etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol. Bydd hyn yn cynnwys etholfraint llywodraeth leol i gynnwys gwladolion tramor, yn ogystal â phobl rhwng 16 a 17 oed. Nid yw cyfran y costau cyffredinol i Lywodraeth Cymru o ddatblygu adnoddau codi ymwybyddiaeth a fydd yn ymwneud yn benodol ag estyn etholfraint y Cynulliad yn hysbys ar hyn o bryd. O'r herwydd, nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn nad yw'r gost bosibl i Lywodraeth Cymru o godi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag estyn etholfraint y Cynulliad i bobl 16 oed yn hysbys.”

50. Adlewyrchodd hyn y ffaith yr amcangyfrifwyd mai rhwng £895,000 a £945,000 dros dair blynedd, gan ddechrau yn 2019-20, yw'r costau ymgyrchoedd addysg wleidyddol a chyfathrebu i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag estyn yr etholfraint. Daw'r ffigur hwn o lythyr at y Llywydd, dyddiedig 30 Ionawr 2019, gan y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, ni wahaniaethodd ffigurau Llywodraeth Cymru rhwng costau sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth o newidiadau i'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Senedd. Gan hynny, triniwyd y gost fel un anhysbys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

51. Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Cyllid, dyddiedig 13 Awst 2019, nododd y Llywydd fod Llywodraeth Cymru wedi dweud, wedi hynny, fod y swm hwn yn cynnwys y canlynol:

- £600,000 ar gyfer llunio adnoddau ar gyfer ysgolion;
- Rhwng £215,000 a £265,000 tuag at ymgyrch addysg wleidyddol a chyfathrebu ar gofrestru ac annog pobl i bleidleisio;
- £80,000 tuag at ymchwil i lywio'r ymgyrch addysg wleidyddol a chyfathrebu.

52. Wedi hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn rhagweld y bydd yn ysgwyddo costau i ymgymryd â gweithgarwch i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio mewn perthynas ag annog ymgysylltiad democrataidd a llunio ystod o ddeunyddiau addysgol ac adnoddau eraill i gefnogi estyn yr etholfraint. Mae wedi nodi mai oddeutu £945,000 fydd y costau hyn, wedi'u rhannu rhwng 2020-21 a 2021-22.

53. Fodd bynnag, mae cyfran y gost hon sy'n ymwneud â'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn anhysbys o hyd. Nododd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Cyllid, dyddiedig 20 Medi 2019:

“Gan y bydd yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn cwmpasu ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r cynulliad a llywodraeth leol, rwy'n ofni nad yw'n bosibl pennu'r costau a ysgwyddir ar gyfer pob etholiad mewn ffordd ystyrlon.”²⁵⁴

54. At ddiben y diweddariad hwn, ystyrir bod y gost o godi ymwybyddiaeth sy'n ymwneud â'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn dal i fod yn anhysbys (fel cyfran o'r £945,000).

Costau i'r Comisiwn Etholiadol – codi ymwybyddiaeth, ffurflenni cofrestru

55. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad, cadarnhaodd y Comisiwn Etholiadol y byddai “tua £120,000 yn amcangyfrif priodol ar gyfer y costau ymwybyddiaeth y cyhoedd ychwanegol ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban yn deillio o'r Bil [Etholiadau'r Alban]”.²⁵⁵

56. Mae data'r SYG yn dangos y bu 115,844 o bobl 16 a 17 oed yn yr Alban yn 2016, sy'n golygu bod y Comisiwn Etholiadol wedi gwario tua £1.04 fesul etholwr ar weithgarwch codi ymwybyddiaeth.²⁵⁶

57. Gan ystyried chwyddiant, amcangyfrifwyd mai £1.10 fesul etholwr yw cost ddangosol codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i'r Comisiwn Etholiadol. At ddiben y diweddariad hwn i'r Memorandwm Esboniadol, tybir y gellir defnyddio'r gost hon yn unffurf i'r holl bleidleiswyr sydd newydd eu hetholfreinio.

58. O hyn, amcangyfrifir y bydd cost untro'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn codi £36,300, o ganlyniad i etholfreinio dinasyddion tramor cymhwysol.

²⁵⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**, 20 Medi 2019

²⁵⁵ Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, **Cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Panel Arbenigol**

²⁵⁶ Amcangyfrifon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016)

Tabl 42 Cost gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y Comisiwn Etholiadol

Codi ymwybyddiaeth y Comisiwn Etholiadol	Amcangyfrif poblogaeth (canol 2017)	Cost fesul etholwr (£)	Cyfanswm (£)
Dinasyddion tramor cymhwysol sy'n preswyllo yng Nghymru	33,000	1.10	36,300
Cyfanswm			36,300

59. Tybir na fydd y Comisiwn Etholiadol yn ysgwyddo costau ychwanegol ar ailgynllunio a phrofi ffurflenni cofrestru, ac y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y costau a nodwyd eisoes sy'n ymwneud ag estyn yr etholfraint i bobl 16 a 17 oed.

Costau i Gomisiwn y Cynulliad – codi ymwybyddiaeth

60. Mae paragraffau 561 i 571 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi sut y cyfrifwyd costau Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid yn yr oedran pleidleisio.

61. Mae paragraff 5 o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn pennu pwerau penodol Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r systemau presennol neu arfaethedig ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad ac etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pwy sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad, yn ogystal â newidiadau i'r rheolau anghymhwysu ac ati. Mae paragraff 6 o'r un Atodlen yn galluogi Comisiwn y Cynulliad i ddarparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol, mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion hynny, pe bai'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Pwerau dewisol Comisiwn y Cynulliad yw'r rhain, nid dyletswyddau na rhwymedigaethau. Serch hynny, mae gan Gomisiwn y Cynulliad ddisgresiwn eang o ran y rôl y mae'n dymuno ei chwarae, os o gwbl. Er enghraifft, gall ymgymryd â'r gwaith hwnnw ei hun, gweithio mewn partneriaeth ag eraill, neu ariannu eraill i ymgymryd â'r gwaith hwnnw.

62. Cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2011 a 2016, cyflwynodd Comisiwn y Cynulliad ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r etholiad, ac i annog pobl i gofrestru a phleidleisio.

63. Felly, mae'n debygol y bydd Comisiwn y Cynulliad yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion tramor cymhwysol o'u hawl i bleidleisio

yn etholiad y Cynulliad yn 2021. Fodd bynnag, mae'r costau sy'n gysylltiedig â hynny'n anhysbys ar hyn o bryd.

26.2.2.3. Trosolwg o effeithiau eraill

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

64. Bydd etholfreinio'r holl wladolion tramor yn effeithio ar unigolion na chânt gymryd rhan yn nemocratiaeth Cymru drwy bleidleisio ar hyn o bryd. Gan fod yr etholfraint eisoes yn cynnwys pobl o wledydd y Gymanwlad, Gweriniaeth Iwerddon a gwladolion yr UE, mae cyfran fawr o'r rhai sydd i'w hetholfreinio gan y darpariaethau wedi'u diweddarau o'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn debygol o fod yn rhai o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd estyn yr etholfraint yn helpu i'w gwneud yn glir i'r unigolion hynny eu bod yn aelodau sefydlog o gymunedau, y cânt eu parchu yn eu cymuned ac y cânt arfer eu cyfrifoldebau democrataidd.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

65. Bydd y troseddau etholiadol presennol yn *Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983* yn gymwys i ystod ehangach o bobl yn sgil y cynnig i estyn yr etholfraint.

66. Prin y caiff troseddau etholiadol eu herlyn ar draws y DU. Mae adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar ddadansoddi achosion o dwyll etholiadol honedig yn y DU yn 2017 yn dangos mai nifer yr achosion oedd 336. Rhoddwyd gwybod am 12 o'r achosion hyn gan heddluoedd Cymru yn 2017 o 2,279,216 o etholwyr.

67. O'r 336 o achosion o dwyll etholiadol honedig ar draws y DU yn 2017, ar adeg y diweddariad hwn:

- roedd mwyafrif sylweddol naill ai wedi arwain at beidio â chymryd rhagor o gamau gan yr heddlu ar ôl gorffen ei ymchwiliadau, neu wedi'u datrys yn lleol fel arall;
- roedd 44 o achosion yn dal i fod yn destun ymchwiliad;
- roedd 7 achos yn aros am gyngor erlyn;
- roedd achosion llys wedi'u dechrau mewn 2 achos;
- roedd 1 achos wedi arwain at ryddfarn;

-
- roedd 8 achos wedi arwain at rybuddiadau;
 - roedd 1 achos wedi arwain at euogfarn.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

68. Bydd dinasyddion tramor cymhwysol 16 a 17 oed yn cael pleidleisio yn etholiadau'r Senedd o 2021. Bydd pobl ifanc yr oedran hwn yn cael addysg wleidyddol mewn ysgolion a'r strwythurau cymorth i'w helpu i bleidleisio am y tro cyntaf.

69. Mae estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Senedd i ddinasyddion tramor cymhwysol 16 ac 17 oed yn gyson ag Erthygl 14 o CCUHP sy'n nodi bod yn *"Rhaid i Bartion Gwladwriaethau barchu hawl y plentyn i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd."* Bydd yr etholfraint yn galluogi'r grŵp penodol hwn o bobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch pwy sy'n eu cynrychioli ar lefel awdurdod lleol, sy'n uniongyrchol berthnasol i Erthygl 14 o'r Confensiwn.

26.2.3. Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad

70. Cynigiodd y Bil, wrth ei gyflwyno, wneud newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ynghylch anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Senedd. Gweler adran 4.4 o'r Memorandwm Esboniadol i gael rhagor o wybodaeth am y darpariaethau perthnasol a gynhwyswyd yn y Bil wrth ei gyflwyno.

71. Yn ystod Cyfnod 2, derbyniodd y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan nifer o welliannau i ddarpariaethau anghymhwyso'r Bil. Roedd gwelliannau o'r fath yn cynnwys newidiadau i'r rhestr o anghymwysiadau a gynhwyswyd yn y Bil wrth ei gyflwyno, yn ogystal â newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar anghymhwyso a gynigiwyd gan y Bil wrth ei gyflwyno, h.y. rheolau'r Cynulliad ar anghymhwyso.

72. Ystyrir y gwelliannau hyn isod o ran:

- Mewnosod anghymwysiadau newydd rhag bod yn Aelod o'r Senedd (ond nid rhag sefyll etholiad iddi);
- Mewnosod anghymwysiadau newydd rhag sefyll etholiad i'r Senedd;
- Dileu anghymwysiadau penodol rhag sefyll etholiad i'r Senedd.

26.2.3.1. Trosolwg o'r gwelliannau a'u rhesymeg

Aelodau awdurdod lleol

73. Darparodd gwelliant a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, ac a dderbyniodd yr Aelodau yn ystod Cyfnod 2, ar gyfer anghymhwysiad ychwanegol rhag bod yn Aelod o'r Senedd.

74. Mae'r gwelliant yn anghymhwyso aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru (h.y. aelodau awdurdod lleol) rhag gwasanaethu yn y Senedd. Can esbonio'r rhesymeg dros y gwelliant hwn yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar y Bil, nododd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“In the Welsh Government’s view it is inappropriate for a Senedd Member to also be a principal councillor, as the Senedd sets the legislative and financial framework for local authorities in Wales, and in particular as these powers have increased over time with each new phase in the devolution settlement. The Welsh Government has consulted twice previously on this issue and there is support for this proposal. Likewise, the Constitutional and Legislative Affairs Committee recognised this issue in 2014 and highlighted the potential conflicts of interest and of time that holding dual roles presents ...”²⁵⁷

75. Derbyniwyd gwelliannau hefyd i ddarparu'r eithriadau a ganlyn rhag anghymhwyso ar sail bod yn aelod o awdurdod lleol:

- Ni chaiff aelod o awdurdod lleol a ddychwelir fel Aelod o'r Senedd²⁵⁸ mewn etholiad i'r Senedd ei anghymhwyso nes iddo honni ei fod yn tyngu'r llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan yr holl Aelodau.
- Ni chaiff Aelod o'r Senedd a ddychwelir mewn etholiad awdurdod lleol ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd nes iddo wneud datganiad derbyn swydd fel aelod awdurdod lleol.

²⁵⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan**, 9 Hydref 2019

²⁵⁸ Mae Rhan 2 o'r Bil yn darparu ar gyfer y teitlau 'Aelodau'r Senedd' a 'Members of the Senedd'. Fodd bynnag, mae Atodlen 1 i'r Bil fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2 yn darparu, ymysg materion eraill, ar gyfer y teitl newydd 'Aelodau o Senedd Cymru' ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Cytunwyd yn ystod Cyfnod 2 y byddai angen ymdrin â'r anghysondeb hwn yn ystod gwaith craffu Cyfnod 3 ar y Bil.

-
- Ni fydd aelod awdurdod lleol a ddychwelir mewn etholiad i'r Senedd fel Aelod o'r Senedd o fewn 372 o ddiwrnodau i etholiad cyffredinol nesaf yr awdurdod lleol yn cael ei anghymhwysu, ar unrhyw adeg, yn y cyfnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'n cael ei ddychwelyd yn yr etholiad i'r Senedd ac yn gorffen gyda'r pedwerydd diwrnod ar ôl diwrnod etholiad cyffredinol nesaf aelodau'r cyngor.
 - Ni fydd Aelod o'r Senedd a ddychwelir mewn etholiad awdurdod lleol fel Aelod o'r awdurdod lleol o fewn 372 o ddiwrnodau i etholiad cyffredinol nesaf y Senedd yn cael ei anghymhwysu, ar unrhyw adeg, yn y cyfnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'n cael ei ddychwelyd yn yr etholiad i'r awdurdod lleol ac yn gorffen yn union cyn diwrnod etholiad cyffredinol nesaf y Senedd.

76. Mae eithriadau rhag anghymhwysu o'r fath ar sail bod yn aelod o awdurdod lleol yn debyg i'r eithriadau rhag anghymhwysu ar sail bod yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar hyn o bryd.

77. Derbyniwyd nifer o newidiadau yn ystod Cyfnod 2 i'r anghymwysiaid rhag sefyll etholiad i'r Senedd, a bod yn Aelod ohoni, a gynhwyswyd yn y Bil wrth ei gyflwyno.

Methodaliad

78. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn anghymwysu personau sy'n destun gorchymyn cyfyngu methodaliad, gorchymyn cyfyngu methodaliad interim neu orchymyn cyfyngu rhyddhad dyled rhag sefyll etholiad. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd hefyd yn anghymhwysu personau sy'n destun gorchymyn cyfyngu rhyddhad dyled interim rhag sefyll etholiad a bod yn Aelod o'r Senedd.

Troseddwr rhyw

79. Mae'r Bil diwygiedig yn anghymhwysu personau sy'n destun gofynion hysbysiad Rhan 2 o *Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003*, neu orchymyn o dan y Rhan honno, rhag sefyll etholiad am y cyfnod y mae'n destun hysbysiad neu orchymynion o'r fath. Cynigiodd y Cwnsler Cyffredinol yr anghymhwysiad newydd hwn drwy welliant.

80. Ymgynghorodd Llywodraeth y DU yn 2018 ar ei bwriad i anghymhwysu personau sy'n destun y gofynion hysbysiad a nodwyd yn *Neddf Troseddau Rhywiol 2003* rhag gwasanaethu fel Cynghorwyr a Meiri. Roedd 83 y cant o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r bwriad Esboniodd Llywodraeth y DU y byddai'r cam hwn yn annog hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig, ac yn arwydd o'r pwysigrwydd y maent yn ei roi i ymddygiad aelodau etholedig. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi deddfu i gyflwyno'r anghymhwysiad hwn.²⁵⁹

81. Yn dilyn Cyfnod 2, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai ei rhesymeg dros yr anghymhwysiad hwn oedd nad ystyrir ei bod yn briodol i rywun sy'n destun gofynion neu orchymynion o'r fath ddod yn Aelod o'r Senedd.

Aelodau o ddeddfwrfeydd eraill

82. Anghymhwysodd y Bil fel y'i cyflwynwyd aelodau o unrhyw ddeddfwrfa arall rhag sefyll etholiad, ac eithrio Aelodau o Dŷ'r Cyffredin ac Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi a gafodd eu hanghymwysu gan y Bil rhag gwasanaethu yn y Senedd, ond nid rhag sefyll etholiad iddi.

83. Derbyniwyd gwelliant a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yng Nghyfnod 2 i ddisodli'r anghymhwysiad hwn gydag anghymhwysu aelodau o ddeddfwrfa unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Un o effeithiau'r gwelliant hwn fyddai wedi bod y byddai Aelodau o Senedd Ewrop, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn gallu sefyll etholiad i'r Senedd. Pe byddent yn cael eu hethol, byddai Aelodau o'r fath wedi cael eu caniatáu i wasanaethu yn y Senedd ac yn eu priod ddeddfwrfeydd eraill ar yr un pryd, na fyddai'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, wedi ei ganiatáu.

²⁵⁹ Llywodraeth y DU, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, [Consultation on Updating the Disqualification Criteria for Councillors and Mayors: A summary of consultation responses and the Government response](#), Hydref 2018

84. Yn ystod Cyfnod 3, derbyniodd yr Aelodau (drwy welliant 89, a gyflwynwyd gan y Llywydd) i anghymhwysu Aelodau o Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon neu Senedd Ewrop rhag bod yn Aelod Cynulliad, ond nid rhag sefyll mewn etholiad. Mewn gwirionedd, mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 3 yn trin y personau hynny mewn modd tebyg i Aelodau Seneddol ac Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi (h.y. caniatáu iddynt sefyll etholiad ond eu gwahardd rhag gwasanaethu yn y Cynulliad). O ganlyniad i hynny, pe bai Aelod o Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon neu Senedd Ewrop yn cael ei ddychwelyd yn llwyddiannus mewn etholiad Cynulliad, byddai'n rhaid iddo ildio ei sedd yn y ddeddfwrfa arall er mwyn cael ei ganiatáu i wasanaethu yn y Cynulliad. Fel y nodwyd uchod, bydd Aelodau o ddeddfwrfeydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cael eu hanghymhwysu rhag sefyll etholiad i'r Cynulliad.

Gweision sifil, aelodau o'r lluoedd arfog, aelodau o unrhyw heddlu a staff Comisiwn y Senedd

85. Ar hyn o bryd, mae gweision sifil, aelodau o'r lluoedd arfog, aelodau o'r heddlu a staff Comisiwn y Senedd oll wedi'u hanghymhwysu rhag sefyll etholiad i'r Senedd. Wrth ei gyflwyno, dileodd y Bil anghymwysiadau o'r fath, ac eithrio Clerc y Senedd. Bwriad hyn oedd rhoi effaith i'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad y dylid gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sefyll etholiad ac y dylid anghymhwysu cyn lleied o ddinasyddion â phosibl rhag sefyll. Roedd y polisi hwn hefyd yn bwriadu ymdrin â chyfyngiadau ar weithgarwch gwleidyddol gan bersonau o'r fath yn eu hamodau cyflogaeth yn hytrach nag mewn deddfwriaeth, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i newid cyfyngiadau pe bai angen.

86. Mae gwelliannau a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ac a dderbyniwyd gan yr Aelodau yn ystod Cyfnod 2 yn adfer pob anghymhwysiad o'r fath. Mae hyn yn cynnwys anghymhwysu holl staff Comisiwn y Senedd (h.y. nid Clerc y Senedd yn unig).

87. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol yn ystod trafodion Cyfnod 2 fod rhesymau Llywodraeth Cymru dros anghymhwysu'r holl bersonau o'r fath rhag sefyll etholiad fel a ganlyn:

“In each case, we believe these people should be debarred both from candidature for and membership of the Senedd. None are eligible for membership of the Assembly at present, and it is not

clear why they should become eligible to be candidates for and Members of the Senedd in the future [...] we value enormously the political impartiality of our civil servants. How that can be maintained if they are free to participate publicly in the political process? So we oppose that, and wish to maintain the existing disqualification [...] for the same essential reasons, civil servants and Commission staff should stand aloof from direct participation in the political and electoral process, and our amendments would maintain that position.”²⁶⁰

Barnwyr

88. Wrth ei gyflwyno, anghymhwysodd y Bil ddeiliaid nifer gyfyngedig o swyddi barnwrol rhag sefyll etholiad i'r Senedd. Mewnosododd gwelliannau a gynigiwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ac a dderbyniwyd gan yr Aelodau yn ystod Cyfnod 2 swyddi barnwrol ychwanegol at y rhestr honno (er enghraifft Barnwr Llys y Sesiwn, Barnwr Dros Dro yn yr Alban, a Barnwr Llys Apêl y Llys Milwrol). Wrth wneud hynny, mae'r Bil diwygiedig yn cadw nifer o swyddi barnwrol sy'n anghymhwyso a fyddai wedi cael eu dileu gan y Bil fel y'i cyflwynwyd.

89. Yn ystod trafodion Cyfnod 2, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod y rhesymeg dros y newid hwn yn debyg i'r hyn a ddarparwyd ar gyfer adfer anghymhwyso gweision sifil, h.y. sicrhau didueddrwydd gwleidyddol.

Anghymwysiadau wedi'u dileu o'r Bil

90. Yn ogystal ag ychwanegu at y rhestr o anghymwysiadau rhag sefyll etholiad i'r Senedd, dileodd gwelliannau a dderbyniodd yr Aelodau yn ystod Cyfnod 2 rai anghymwysiadau o'r Bil.

91. Wrth ei gyflwyno, anghymhwysodd y Bil bersonau a gafwyd yn euog o frad. Dilëwyd yr anghymhwysiad hwn o'r Bil drwy welliant, ar y sail bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth hon wedi dyddio a'i bod yn ddiangen oherwydd yr anghymhwysiad cyffredinol ar wahân i bersonau a gafwyd yn euog o unrhyw drosedd a'u dedfrydu i fwy na blwyddyn o garchar.

92. Diwygiwyd y Bil yn ystod Cyfnod 2 i ganiatáu i ddinasyddion tramor cymhwysol sefyll etholiad i'r Senedd a, thrwy hynny, ddileu anghymhwyso personau o'r fath rhag gwneud hynny. At y diben penodol hwn, diffinnir

²⁶⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan**, 9 Hydref 2019

dinesydd tramor cymhwysol yn y Bil fel person sy'n preswyllo yn y DU nad yw'n ddinesydd y Gymanwlad, Gweriniaeth Iwerddon na'r UE, ac sydd naill ai â chaniatâd amhenodol i aros yn y DU neu nad oes arno angen hynny. Gellir nodi bod hwn yn ddiffiniad gwahanol i'r un a ddefnyddir mewn perthynas ag etholfreinio dinasyddion tramor cymhwysol i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol yn ystod trafodion Cyfnod 2 fod y newid hwn o ganlyniad i welliannau i ganiatáu i ddinasyddion tramor cymhwysol bleidleisio yn etholiadau'r Senedd:

“The Welsh Government believes that citizens of other countries should likewise be eligible for candidacy and membership, provided they are resident in the UK and either do not need leave to enter or remain in the UK under the immigration legislation, or did, indeed, need leave but have been granted indefinite leave to remain.”²⁶¹

Newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar anghymhwysu

93. Derbyniwyd gwelliant gan y Cwnsler Cyffredinol yn ystod Cyfnod 2 i roi effaith i anghymhwysu person rhag sefyll etholiad i'r Senedd. Mewnosododd y gwelliant ddarpariaeth newydd yn y Bil i ddarparu, pan fydd person sydd wedi'i anghymhwysu rhag sefyll etholiad yn cael ei enwebu ar gyfer etholiad, y bydd enwebiad y person yn ddi-rym.

26.2.3.2. Trosolwg o effeithiau gwelliannau ar gostau, manteision ac arbedion

94. Fel y nodwyd yn adran 11.2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, rhagwelwyd y byddai'r darpariaethau ar anghymhwysu yn y Bil, wrth ei gyflwyno, yn arwain at gostau cyfyngedig iawn yn unig. Rhagwelir mai bach iawn fydd effaith y gwelliannau i'r darpariaethau a dderbyniwyd yn ystod Cyfnod 2 a Chyfnod 3 ar eu goblygiadau cost.

95. Mae canllawiau ar reolau'r Cynulliad ynghylch anghymhwysu a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol yn cael eu diweddarau bob tro cyn etholiad y Cynulliad. Fel y nodwyd yn adran 4.4.3 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, gall fod angen i gyrff eraill megis Comisiwn y Senedd, Llywodraeth Cymru a Thŷ'r Arglwyddi hefyd gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau ar anghymhwysu yn dilyn pasio'r Bil hwn.

²⁶¹ Ibid.

96. Gall yr anghymwysiadau ychwanegol a gynigir gan welliannau olygu bod angen mwy o waith nag y byddai wedi cael ei wneud fel arall i ddiweddarau'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, ystyrir bod goblygiadau cost tebygol unrhyw waith ychwanegol o'r fath yn ddibwys.

26.2.3.3. Trosolwg o effeithiau eraill

97. Mae adran 17.5.1.5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi y gellir gwneud dadl betrus y gallai anghymhwysio Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi gael mwy o effaith ar bobl hŷn ac, o bosibl, ostwng oedran cyfartalog Aelodau'r Cynulliad. Mae hyn oherwydd mai oedran cyfartalog Aelodau'r Cynulliad yw 53 o'i gymharu â'r oedran cyfartalog yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef 70.

98. Gellid gwneud yr un ddadl am anghymhwysio cynghorwyr awdurdodau lleol. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, roedd 47 y cant o gynghorwyr awdurdodau lleol a 55 y cant o gynghorwyr cymuned yn 60 oed neu'n hŷn.²⁶²

99. Gan nad yw'r gwelliannau a dderbyniwyd yn ystod Cyfnod 2 a Chyfnod 3 yn cyflwyno newidiadau polisi sylweddol i anghymhwysio Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, nid ystyrir bod effeithiau'r darpariaethau perthnasol ar oedran yn fwy nac yn llai o ganlyniad i'r gwelliannau a dderbyniwyd.

100. Hefyd, nid ystyrir bod anghymhwysio cynghorwyr awdurdodau lleol drwy welliant yn ystod Cyfnod 2 yn cael effaith sylweddol ar oedran oherwydd, yn ôl hanes, dim ond nifer gyfyngedig o gynghorwyr sydd hefyd wedi gwasanaethu yn y Cynulliad ar yr un pryd.

101. Mae adran 17.6.2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn esbonio'r rhesymau pam nad ystyriwyd bod nifer gyfyngedig y cyfyngiadau i gymryd rhan yn etholiadau'r Senedd a gynigiwyd gan y Bil wrth ei gyflwyno fel anghymwysiadau ychwanegol yn torri Erthygl 3 Protocol 1 y Confensiwn Hawliau Dynol (yr hawl i etholiadau rhydd).

102. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2 yn cynnig mwy o gyfyngiadau o'r fath, er enghraifft, anghymhwysio aelodau awdurdod lleol neu bersonau ar y gofrestr troseddau rhywiol.

²⁶² Llywodraeth Cymru, **Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017**

103. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil fel y'i diwygiwyd yn gydnaws ag Erthygl 3 Protocol 1 y Confensiwn ar y sail bod cyfiawnhad clir a rhesymol dros y darpariaethau hyn (fel y nodir uchod).

104. Mae adran 22 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn cydnabod, drwy newid y pwynt pan ddaw llawer o anghymwysiadau i rym, o enwebiad i sefyll i dyngu'r llw teyrngarwch, y gall y Bil, fel y'i cyflwynwyd, gael effaith gadarnhaol a negyddol ar y trydydd sector. Y rheswm am hyn yw bod nifer o anghymwysiadau a fyddai'n gymwys yn y dyfodol ar ôl tyngu'r llw yn lle enwebiad i sefyll yn rolau a ddelir yn y trydydd sector yng Nghymru.

105. Nid yw'r un o'r anghymwysiadau ychwanegol a gynigir gan welliannau Cyfnod 2 a Chyfnod 3 yn rolau a ddelir yn y trydydd sector. Felly, nid ystyrir bod anghymwysiadau ychwanegol o'r fath yn newid yr effeithiau posibl ar y trydydd sector o ran darpariaethau anghymhwyso'r Bil. Mae'r un peth yn wir am effeithiau posibl y darpariaethau hynny ar y gymuned wledig, a nodir yn adran 24.6 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

26.2.4. Trefniadau ariannol a goruchwyllo'r Comisiwn Etholiadol

106. Trosglwyddodd *Deddf Cymru 2017* gyfrifoldeb am etholiadau datganoledig a refferenda yng Nghymru i'r Cynulliad. Er mwyn adlewyrchu'r ffaith i'r cyfrifoldeb hwnnw gael ei drosglwyddo, nod Comisiwn y Cynulliad yw y dylai'r Comisiwn Etholiadol fod yn atebol i'r Senedd – a chael ei ariannu ganddi – ar gyfer goruchwyllo'r etholiadau datganoledig hynny.

107. Mae trosglwyddo cyfrifoldeb mewn modd tebyg wrthi'n cael ei ystyried yn yr Alban. Ym mis Medi 2019, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Fil Etholiadau'r Alban (Diwygio) i drosglwyddo trefniadau ariannu a goruchwyllo gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yr Alban i Senedd yr Alban.²⁶³

108. Gosododd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), wrth ei gyflwyno, ddyletswydd i ystyried diwygio trefniadau goruchwyllo gwaith y Comisiwn Etholiadol. Gweler adran 12 o'r Memorandwm Esboniadol i gael rhagor o wybodaeth am y darpariaethau perthnasol a gynhwyswyd yn y Bil wrth ei gyflwyno.

109. Wrth gyflwyno'r Bil, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i roi cyd-destun ychwanegol i'r Pwyllgor

²⁶³ Senedd yr Alban, **Bil Etholiadau'r Alban (Diwygio)**, Medi 2019

wrth drafod adran 27 o'r Bil.²⁶⁴ Ysgrifennodd y Llywydd mai bwriad darpariaethau'r Bil, wrth ei gyflwyno, yn bennaf, oedd 'rhoi arwydd o fwriad polisi (yn ystod Cyfnod 1 o'r Bil) i roi sylw i drefniadau cyllido ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol trwy welliannau i'r Bil.'

110. Gwahoddwyd y Cwnsler Cyffredinol a'r Llywydd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid am eu cynigion mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol, a wnaethant ar 25 Medi 2019. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth honno, nododd y Llywydd a'r Cwnsler eu priod ddewisiadau polisi a thrafodwyd materion cysylltiedig eraill, gan gynnwys yr angen i Lywodraeth y DU roi ei chydysniad i ddarpariaethau yn y Bil. Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol hefyd y perygl na cheir cydysniad, gan nodi'r canlynol:

“If we got to a stage where amendments, having been tabled and passed—the consents weren't forthcoming [...] We would need to look at amending the Bill to take them out, I think, at that point.”²⁶⁵

111. Trafododd adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a gyhoeddwyd ar 27 Medi 2019, y cynigion a gwnaeth dri argymhellid.²⁶⁶

112. Ar ôl ystyried adroddiad y Pwyllgor Cyllid, daeth y Llywydd a'r Cwnsler Cyffredinol i gytundeb ar y manylion ynghylch sut y dylid ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac i ba gorff o'r Senedd y dylai fod yn atebol.

113. Yn ystod trafodion Cyfnod 2, derbyniodd aelodau'r Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan y gwelliannau a gynigiwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Llywydd.

26.2.4.1. Trosolwg o'r gwelliannau a'u rhesymeg

114. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Etholiadol yn atebol i Dŷ'r Cyffredin drwy Bwyllgor y Llefarydd am ei holl waith. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yn ystod Cyfnod 2, mae'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn newid hynny, felly bydd y Comisiwn Etholiadol yn atebol i'r Senedd am ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru (y cyfeirir atynt drwy gydol y bennod hon fel ei 'weithgarwch Cymreig').

²⁶⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**, 12 Chwefror 2019

²⁶⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Pwyllgor Cyllid**, 25 Medi 2019

²⁶⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Rhagor o waith craffu ar y goblygiadau ariannol**, Medi 2019

115. Er mwyn trosglwyddo atebolrwydd am ei weithgarwch Cymreig i'r Senedd, diwygiwyd darpariaethau i'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 2 i ddiwygio *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (PPERA), sy'n sefydlu'r Comisiwn Etholiadol ac yn nodi darpariaethau ynghylch ei drefniadau ariannu, archwilio ac atebolrwydd (ymysg eraill). Nodir y newidiadau hyn yn adran 28 ac Atodlen 2 i'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) fel y'i diwygiwyd.

116. Mae adran 28 yn nodi, yng Nghymru, y bydd gwaith craffu ar y Comisiwn Etholiadol yn cael ei wneud gan un o bwyllgorau'r Senedd. Enw'r Pwyllgor hwn fydd Pwyllgor y Llywydd.

117. Bob blwyddyn, bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyflwyno'r canlynol i Bwyllgor y Llywydd heb fod yn hwyrach na chwe mis cyn y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi:

- amcangyfrif o'r incwm a'r gwariant sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch Cymreig;
- cynllun sy'n nodi ei nodau, ei amcanion a'i gyllideb amcangyfrifedig ar gyfer ei weithgarwch Cymreig yn ystod y pum mlynedd nesaf.

118. Er mwyn helpu Pwyllgor y Llywydd i graffu ar amcangyfrif a chynllun pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol, bydd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad o werth am arian y Comisiwn Etholiadol wrth ddefnyddio ei adnoddau a bydd yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Llywydd.

119. Wedi ystyried adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, ochr yn ochr ag unrhyw gyngor a geir gan Weinidogion Cymru, bydd Pwyllgor y Llywydd yn gosod amcangyfrif a chynllun pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol gerbron y Senedd, gan ymgorffori addasiadau y mae'r Pwyllgor wedi'u gwneud.²⁶⁷

120. Mae'r gwelliannau'n darparu i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd amcangyfrifon y Comisiwn

²⁶⁷ Os bydd ei ofynion adnoddau'n newid yn ystod y flwyddyn, caiff y Comisiwn Etholiadol gyflwyno amcangyfrif diwygiedig i Bwyllgor y Llywydd. Os gwna hynny, bydd y trefniadau craffu a chymeradwyo a nodir ym mharagraffau 117 i 120 hefyd yn gymwys.

Etholiadol – fel y'u gosodwyd gan Bwyllgor y Llywydd – yn cael eu cynnwys yng Nghynnyg y Gyllideb Flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

121. Yn amodol ar gasgliadau rhagor o drafodaethau ar y trefniadau archwilio ac atebolrwydd, bydd y Comisiwn Etholiadol yn parhau i lunio un set o gyfrifon ledled y DU. Yn yr un modd, bydd y cyfrifon yn parhau i gael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar lefel y DU. Fodd bynnag, bydd y Senedd yn gallu cyflwyno'r adroddiad archwilio i Archwilydd Cyffredinol Cymru, a fydd yn cynnal archwiliad arall o gyfrifon y Comisiwn Etholiadol i'r graddau y maent yn ymwneud â gweithgarwch Cymreig y Comisiwn Etholiadol.

122. Mae'r gwelliannau hefyd yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol a Phwyllgor y Llywydd lunio adroddiad am eu priod weithgarwch. Mae'n rhaid llunio adroddiad y Comisiwn Etholiadol cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i Bwyllgor y Llywydd gyflwyno adroddiad o leiaf unwaith bob blwyddyn.

123. Hefyd, derbyniwyd gwelliant arall a gynigiwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn ystod y ddadl Cyfnod 2. Mewnosododd amserlen newydd (Atodlen 2) i'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Mae Atodlen 2 yn nodi dyletswyddau'r Comisiwn Etholiadol i gyhoeddi codau ymarfer ynghylch treuliau etholiad mewn etholiadau llywodraeth leol datganoledig ac ar bresenoldeb sylwedyddion mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru.

124. Mae Atodlen 2 hefyd yn nodi dyletswyddau'r Comisiwn Etholiadol i barhau i adolygu etholiadau, refferenda a chyfraith etholiadol ddatganoledig Cymru, a chyflwyno adroddiad arnynt, a gosod safonau perfformiad ar gyfer swyddogion cofrestru etholiadol, swyddogion canlyniadau a swyddogion cyfrif.

125. Yn ystod y ddadl Cyfnod 2, nododd y Cwnsler Cyffredinol y byddai angen i'r gwaith barhau er mwyn sicrhau bod y trefniadau archwilio ac atebolrwydd sy'n gysylltiedig ag ariannu'r Comisiwn Etholiadol yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn gadarn:

“I have agreed that the Government will support the Llywydd’s amendment 53A, which provides that the Electoral Commission will be funded directly from the Welsh consolidated fund. I will then work with the Llywydd, the Electoral Commission and our other partners over the coming months, to ensure that the audit

and accountability arrangements for this funding route are robust enough to remove the risks I have previously identified.”²⁶⁸

126. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod angen rhagor o drafodaethau â Thrysorlys y DU, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chyrff eraill i sicrhau bod y trefniadau archwilio ac atebolrwydd yn y Bil yn ddigonol. Byddai Gweinidogion Cymru yn cychwyn y darpariaethau yn y Bil ynghylch y Comisiwn Etholiadol drwy orchymyn ar ôl y cytunir ar drefniadau o'r fath neu ar ôl y cymerir camau dilynol priodol i ymdrin â hyn pe bai angen.

127. Hefyd, cyflwynodd y Llywydd welliant yn ystod Cyfnod 2 a fyddai'n rhoi'r pŵer i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal archwiliadau gwerth am arian ad-hoc o weithgarwch Cymreig y Comisiwn Etholiadol. Yn ystod y ddadl Cyfnod 2, esboniodd y Llywydd:

“[...] y dylai'r Cynulliad gael y pŵer i gomisiynu archwiliadau dewisol o ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol—neu 'werth am arian'—y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi defnyddio'i adnoddau yng Nghymru.”²⁶⁹

128. Wrth ymateb, nododd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“[Welsh Government is] comfortable with the principle behind the Llywydd's amendment ... However, [Welsh Government is] concerned that this amendment could create a risk of duplicated examinations and conflicting recommendations from the Auditor General for Wales and the Comptroller and Auditor General. We believe that further consideration should be given as to how to mitigate this risk before that function is written into law. I am pleased that the Llywydd has agreed not to move this amendment at this stage, so that we can discuss it further and explore whether we can bring forward a version of this amendment at Stage 3.”²⁷⁰

129. Yn ystod y ddadl Cyfnod 2, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod angen egluro rhai o drefniadau cyfrifyddu ac archwilio'r Comisiwn Etholiadol yn y dyfodol. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Llywydd, y Comisiwn Etholiadol, a phartneriaid eraill i sicrhau bod y darpariaethau sydd

²⁶⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan**, 9 Hydref 2019

²⁶⁹ Ibid.

²⁷⁰ Ibid.

wedi'u diwygio yn y Bil yn ystod Cyfnod 2 yn ymdrin â'r holl newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol fel y gellir eu gweithredu'n effeithiol.

130. Mae angen dod i gytundeb rhwng y Senedd, Senedd yr Alban a Thŷ'r Cyffredin ynghylch sut y bydd costau'r Comisiwn Etholiadol yn cael eu dosrannu i bob senedd. Mae angen dod i gytundeb hefyd ynglŷn â sut y bydd rôl Pwyllgor Llefarydd y DU yn newid o ganlyniad i atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol i'r Senedd a Senedd yr Alban. Bydd angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gytuno ar drefniadau â Thrysorlys y DU ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth y DU yn ad-dalu Cymru am gost gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â gweithgarwch Cymreig.

131. Fel y nodwyd ym mharagraff 117, bydd angen i'r Senedd sefydlu Pwyllgor y Llywydd i graffu ar y Comisiwn Etholiadol. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2, yn nodi y bydd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd. Bydd angen gwneud trefniadau hefyd i staff Comisiwn y Senedd helpu'r pwyllgor gyda'i waith.

132. Cyflwynwyd gwelliannau gan y Cwnsler Cyffredinol a chawsant eu derbyn gan yr Aelodau yn ystod Cyfnod 2 i sicrhau y bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â threfniadau ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol yn dod i rym "ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn Gorchymyn a wneir drwy Offeryn Statudol". Yn ystod Cyfnod 3, derbyniwyd gwelliannau i ddileu cyfeiriad at rai o'r darpariaethau sy'n gymwys am y tro cyntaf mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, neu wedi hynny, gan sicrhau cysondeb â'r darpariaethau cychwyn.

26.2.4.2. Trosolwg o effaith gwelliannau ar gostau, manteision ac arbedion

133. Ym mis Mawrth 2019, amcangyfrifodd y Comisiwn Etholiadol y byddai cost etholiadau datganoledig Cymru i'w hariannu gan y Senedd yn debygol o fod rhwng £0.7 miliwn ar gyfer blwyddyn pan na chynhelir etholiad ac £1.6 miliwn mewn blwyddyn etholiad (neu £5.3 miliwn dros gyfnod pum mlynedd nodweddiadol).²⁷¹ Hefyd, gallai costau ychwanegol godi os yw Llywodraeth Cymru neu'r Senedd yn gofyn i'r Comisiwn Etholiadol wneud unrhyw waith penodol, er enghraifft cynlluniau peilot etholiadol. Dyma'r amcangyfrifon gorau sydd ar gael. Bydd y costau terfynol ar gyfer gwaith y

²⁷¹ Y Comisiwn Etholiadol, [Tystiolaeth i'r Ymchwiliad i oblygiadau ariannol Bil y Senedd ac Etholiadau \(Cymru\)](#), Mawrth 2019

Comisiwn Etholiadol yn dibynnu ar y fformiwla ariannu a ddefnyddir i ddosrannu costau'r Comisiwn Etholiadol i Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Senedd y DU. Ni chytunwyd ar y fformiwla hon eto.

134. Ar hyn o bryd, mae gweithgarwch y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â materion datganoledig Cymreig yn cael ei ariannu gan Bwyllgor y Llefarydd. O ganlyniad i'r gwelliannau a dderbyniwyd yn ystod Cyfnod 2, y Senedd fyddai'n talu cost y gweithgarwch hwn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gost ychwanegol hon yn cael ei hadennill gan Drysorlys y DU fel rhan o broses negodi'r gyllideb. Felly, er y bydd y Senedd yn gyfrifol am ariannu'r Comisiwn Etholiadol am ei waith mewn perthynas ag etholiadau a referenda datganoledig Cymru, ni fydd cynnydd sylweddol mewn costau net oni bai bod y Senedd yn cyfarwyddo'r Comisiwn Etholiadol i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol.

135. Mae costau hefyd i Gomisiwn y Senedd sefydlu Pwyllgor y Llywydd a chefnogi gwaith y pwyllgor. Bydd y gost yn dibynnu ar amllder cyfarfodydd y Pwyllgor a'r gwaith y mae'n ei wneud. Ar y sail bod y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Bwyllgor Llefarydd y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod ddwy neu dair gwaith y flwyddyn, mae'r costau cyffredinol i Gomisiwn y Senedd yn debygol o fod yn debyg i'r rhai a nodwyd eisoes yn y Memorandwm Esboniadol wrth ei gyflwyno. Y rheswm am hyn yw, er y byddai amllder gwaith craffu pwyllgorau sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn Etholiadol yn cynyddu, byddai maint y gwaith dros dymor 5 mlynedd yn debyg i'r hyn a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol (tua £39,200 dros bum mlynedd).

136. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, wrth ei gyflwyno, gostau a ragwelwyd i'r Comisiwn Etholiadol o gymryd rhan yng ngwaith craffu gan y Senedd. Roedd y rhain hefyd yn seiliedig ar 12 awr o waith craffu gan y pwyllgor dros bum mlynedd. Mae hyn o fewn yr un ystod â nifer yr oriau o waith craffu y rhagwelir y bydd Pwyllgor y Llywydd yn ei wneud. Felly, mae amser staff y Comisiwn Etholiadol sydd ei angen dros bum mlynedd yn debygol o gostio'r un peth â'r hyn a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol: £19,600 (sy'n cyfateb i £3,920 y flwyddyn).

137. Yn ei lythyr at gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, nododd y Cwnsler Cyffredinol na fyddai costau net i'r llywodraeth o ganlyniad i'r darpariaethau:

“Mae ein gwelliannau'n rhoi dyletswydd ar gorff perthnasol y Senedd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar amcangyfrifon cyllideb y Comisiwn Etholiadol, yn ogystal â dyletswyddau ar y

Comisiwn Etholiadol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch codau ymarfer ar gyfer presenoldeb sylwedyddion mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru a safonau perfformiad ar gyfer etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Bydd angen i staff neilltuo amser ar gyfer darparu cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch y materion hyn. Fodd bynnag, o safbwynt ymarferol, byddai gweithgarwch o'r fath yn rhan o waith arferol Llywodraeth Cymru. Felly, at ddibenion yr asesiad hwn, ystyrir mai £0 yw'r gost hon"²⁷²

138. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith debygol ar ei hadnoddau yn sgil y darpariaethau a ddiwygiwyd yn y Bil yn ystod Cyfnod 2. Ar y sail bod y Comisiwn Etholiadol yn cael ei dalu drwy 12 rhandaliad misol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi amcangyfrif y bydd:

- angen oddeutu dwy awr ychwanegol (y flwyddyn) o amser staff i gymeradwyo cais Llywodraeth Cymru i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru;
- angen oddeutu dwy awr ychwanegol (y flwyddyn) o amser staff i archwilio'r trafodion ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru.

139. At ddibenion y diweddariad hwn i'r Memorandwm Esboniadol, cost amganyfrifedig y gwaith hwn yw £25 yr awr, neu £100 y flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd.

140. Yn ymarferol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan y staff presennol. Felly, ni fydd cynnydd go iawn yn y gost a ysgwyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru o ganlyniad i ddarpariaethau a ddiwygiwyd yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn ystod Cyfnod 2.

26.2.4.3. Trosolwg o effeithiau eraill

141. Mae'n annhebygol y bydd newidiadau i drefniadau ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol a wnaed yn ystod Cyfnod 2 yn cael effaith sylweddol ar asesiadau effaith eraill a gynhwyswyd yn y

²⁷² Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 30 Medi 2019

Memorandwm Esboniadol i'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) wrth ei gyflwyno.

26.2.4.4. Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch p'un a yw'r taliadau sydd i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru, y darperir ar eu cyfer yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), yn briodol

Yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 9 Hydref 2019, cytunodd y Cynulliad ar welliant i'r Bil i'w gwneud yn bosibl talu am wariant y Comisiwn Etholiadol, y gellir ei briodoli i'w swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru, allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Y ddarpariaeth berthnasol yn y Bil diwygiedig yw adran 28, sy'n diwygio Atodlen 1 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

O dan Reol Sefydlog 26.6 (xi), pan fo Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar y Gronfa, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a yw'r tâl yn briodol. Yng nghyd-destun cronfa gyfunol, mae ystyr penodol i'r term "tâl": sef bod symiau yn daladwy o'r Gronfa heb awdurdodiad pellach.²⁷³ (Adwaenir y taliadau hyn hefyd yn aml fel "taliadau uniongyrchol"). Mae Rheol Sefydlog 26.6 (xi), yn amddiffyniad rhag i ddeddfwriaeth newydd ddarparu'n amhriodol ar gyfer taliadau o'r fath.

Dan y darpariaethau a gyflwynir gan adran 28 y Bil, bydd Pwyllgor y Llywydd yn craffu ar amcangyfrifon y Comisiwn Etholiadol a chânt eu hawdurdodi drwy benderfyniad Cyllideb. Nid wyf felly'n ystyried bod taliadau a wneir yn unol â'r darpariaethau hynny yn daliadau i ddibenion Rheol Sefydlog 26.6 (xi).

Er hynny, gan fod Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid wedi ysgrifennu at y Llywydd ar 27 Mehefin 2019 yn awgrymu trafod y materion hyn gyda'r Archwilydd Cyffredinol, credaf ei bod yn addas i esbonio fy marn ar briodoldeb y darpariaethau.

Nid oes union gysail yng Nghymru i'r ddarpariaeth ar gyfer talu allan o'r Gronfa a gyflwynir gan adran 28 ond nid wyf yn ystyried hyn yn broblem. Fel y soniwyd uchod, byddai taliadau yn cael eu hawdurdodi drwy benderfyniad Cyllideb, er nad i ddibenion cwrdd

²⁷³ Consolidated Fund -- Overview, Daniel Greenberg, Westlaw, 2019

â gwariant “person perthnasol”²⁷⁴ fel oedd yn wir o’r blaen gyda phenderfyniadau Cyllideb. Yn hytrach, byddai’r awdurdodiad i’r diben o gwrdd â gwariant taladwy yn unol â “deddf berthnasol”. Bydd Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, fel y caiff ei diwygio gan y Bil, yn ddeddf berthnasol. Mae Adrannau 124(1)(b) a 124(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gyda’i gilydd yn darparu ar gyfer awdurdodi taliadau yn y ffordd hon.

Rwyf yn ystyried bod darpariaeth adran 28 ar gyfer pwyllgor newydd, dan gadeiryddiaeth y Llywydd, i archwilio amcangyfrifon y Comisiwn Etholiadol o ran gweithgareddau datganoledig yn ddull rhesymol o sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer gwariant datganoledig y Comisiwn Etholiadol yn y penderfyniad Cyllideb.

Beth bynnag, mae gweinyddu etholiadau’n gadarn yn un o elfennau hollbwysig democratiaeth, ac felly rwyf yn ystyried bod darpariaeth ar gyfer talu allan o’r Gronfa, a gyflwynir gan adran 28 o’r Bil, yn briodol.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Tachwedd 2019

26.2.5. Argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer rhesymoli’r gyfraith etholiadol

142. Roedd y Bil, wrth ei gyflwyno, yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth sy’n rhoi effaith i argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae adran 4.6 o’r Memorandwm Esboniadol yn rhoi manylion am gefndir y darpariaethau hyn, eu cyd-destun polisi, y rhesymeg ar gyfer pam yr ystyriwyd bod eu hangen, a’r gweithrediad a ragwelir.

26.2.5.1. Trosolwg o’r gwelliannau a’u rhesymeg

143. Yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei bryder ynghylch y defnydd posibl o is-ddeddfwriaeth i weithredu newidiadau polisi sylweddol.

²⁷⁴ Fel y’i diffinnir ar hyn o bryd gan adran 124(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006: Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog a’r Cwnsler Cyffredinol, Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yn benodol, roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd yn ddymunol rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fel y darperir ar ei gyfer yn adran 36.

144. O ganlyniad i hynny, yn ystod Cyfnod 2, diwygiwyd y Bil i ddileu'r darpariaethau hyn yn llwyr. Nododd y Llywydd, a gyflwynodd y gwelliannau i ddileu'r darpariaethau hyn, y canlynol yn ystod trafodion Cyfnod 2:

“Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod Cyfnod 1 wedi cefnogi'r egwyddor o gyflwyno gwelliannau i'r gyfraith etholiadol yn seiliedig ar gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, mae Comisiwn y Cynulliad yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Cwnsler Cyffredinol ynglŷn â phriodoldeb mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddefnyddio pwerau llunio is-ddeddfwriaeth. Yn hynny o beth, felly, dwi'n gofyn i'r Cynulliad gefnogi fy ngwelliant 3 i ddileu adran 36 o'r Bil, a'm gwelliannau 27 ac 1, sydd yn rhai canlyniadol. Rwy'n edrych ymlaen, maes o law, at weld Llywodraeth Cymru yn dilyn yr ymagwedd a ffefrir gan y Cwnsler Cyffredinol o fynd i'r afael ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith drwy broses frys ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol.”²⁷⁵

145. Wrth ymateb, nododd y Cwnsler Cyffredinol ei fod o'r farn a ganlyn:

“Law Commission recommendations for reform of electoral law, or indeed any law, should, if these are supported generally, be introduced using primary legislation, with the Senedd determining the appropriate procedure to be used. The Business Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee are considering a suitable procedure for consolidation Bills that I hope will be agreed in due course.”²⁷⁶

26.2.5.2. Trosolwg o effeithiau gwelliannau ar gostau, manteision ac arbedion

146. Mae paragraff 642 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan na nodwyd bod darparu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn esgor ar gostau nac arbedion ychwanegol yn uniongyrchol. Mae'n rhesymegol nad yw peidio â

²⁷⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan**, 9 Hydref 2019

²⁷⁶ Ibid.

darparu'r pŵer hwn, yn yr un modd, yn arwain at gostau nac arbedion ychwanegol yn uniongyrchol.

147. Nodwyd nifer o fanteision a fwriadwyd sy'n deillio o gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil ym mharagraff 649 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'n rhesymegol na fydd y rhain yn cael eu cyflawni o ganlyniad i ddileu'r darpariaethau hyn o'r Bil. Fodd bynnag, gellir ystyried bod trafodaethau ar y Bil yn ystod Cyfnod 1 a Chyfnod 2, ynddynt eu hunain, wedi cyflawni'n rhannol un o'r manteision a fwriadwyd, sef: 'pwysleisio pwysigrwydd gwaith Comisiwn y Gyfraith i'r trefniadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, fel bod y Cynulliad, ei Aelodau a'i bwyllgorau yn ystyried yr argymhellion hyn yn briodol'.

26.2.5.3. Trosolwg o effeithiau eraill

148. Mae Rhan 3 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ystod o asesiadau effaith a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Bil (fel y'i cyflwynwyd). Ac eithrio un o'r rhain, ni nodwyd effeithiau uniongyrchol o gynnwys pŵer yn y Bil i alluogi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar resymoli'r gyfraith etholiadol i gael eu gweithredu. Mae'n rhesymegol na fydd dileu darpariaethau o'r fath, yn yr un modd, yn cael effeithiau uniongyrchol.

149. Un eithriad i hyn yw'r asesiad o'r effaith ar ieithoedd swyddogol. Mae paragraff 910 o'r Memorandwm Esboniadol yn dweud, pe bai Llywodraeth Cymru yn dewis defnyddio'r pŵer galluogi a ddarparwyd gan y Bil (fel y'i cyflwynwyd) i resymoli'r cyfreithiau presennol sy'n ymwneud ag etholiadau Cymru yn un fframwaith deddfwriaethol, cyson, y gallai hyn wneud y gyfraith yn fwy hygyrch yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nid yw dileu'r darpariaethau hyn o reidrwydd yn cael effaith negyddol ar y ddwy iaith swyddogol. Mae hyn ar y sail, os yw Llywodraeth Cymru am weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith i resymoli deddfwriaeth, y gallai wneud hynny drwy ddeddfwriaeth sylfaenol a fyddai yn Gymraeg ac yn Saesneg.

26.2.6. Dyddiad y cyfarfod cyntaf

150. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod rhaid cynnal y cyfarfod cyntaf hwn o fewn saith diwrnod yn dilyn etholiad cyffredinol arferol neu etholiad cyffredinol eithriadol. Yn y cyfarfod cyntaf hwnnw, rhaid i'r Cynulliad ethol un o'i Aelodau yn Llywydd ac un yn Ddirprwy Lywydd.

151. Wrth ei gyflwyno, cynhwysodd y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ddarpariaethau i estyn y terfyn amser ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd i fod

o fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl etholiad cyffredinol arferol neu etholiad cyffredinol eithriadol.

152. Diwygiwyd y Bil yn ystod Cyfnod 2 i ddarparu terfyn amser cyson, sef pedwar diwrnod ar ddeg, mewn amgylchiadau lle y newidiwyd dyddiad etholiad.

153. Mae adran 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu pŵer i'r Llywydd amrywio dyddiad etholiad Senedd i ddiwrnod nad yw'n fwy na mis ynghynt, na mwy na mis yn ddiweddarach, na'r dydd lau cyntaf ym mis Mai. Ar hyn o bryd, mae adran 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* hefyd yn nodi, os defnyddir y pŵer hwn, y caiff cyfarfod cyntaf y Senedd ei gynnal o fewn saith diwrnod ar ôl yr etholiad. Nid ymdriniwyd ag adran 4 yn narpariaethau gwreiddiol y Bil, ond ymdrinnir â hi bellach yn narpariaethau diwygiedig y Bil yn dilyn Cyfnod 2. Mae hyn yn sicrhau bod terfyn amser 14 diwrnod yn gyson ar gyfer cyfarfod cyntaf y Senedd, ni waeth a gaiff dyddiad etholiad ei amrywio ai peidio.

26.2.7. Rheoliadau ac amrywiol

154. Wrth ei gyflwyno, nododd adran 28 o'r Bil ddarpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â chwmpas y rheoliadau a wneir o dan Ran 3 o'r Bil (Etholiadau) a'r gweithdrefnau sy'n gymwys iddynt.

155. Yn ystod Cyfnod 2, derbyniwyd gwelliannau ynghylch y canlynol:

- symud y pŵer i wneud rheoliadau i ran wahanol o'r Bil;
- caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â rhannau o'r Bil yn ychwanegol at y rhai sy'n ymwneud â'r etholfraint;
- caniatáu i reoliadau gael eu gwneud at ddibenion darpariaethau'r Bil, neu roi effaith lawn iddynt;
- caniatáu i reoliadau gael eu gwneud i ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys darpariaethau'r Bil.

156. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol, a oedd wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn, y canlynol:

“there are a number of reasons why the Government considers it necessary and appropriate to include such a power. These include proposals for canvass reform. Separate proposals to amend the

canvass by secondary legislation may mean a power may be necessary in order to consequentially amend the Senedd and Elections (Wales) Act or other relevant legislation. Existing canvass regulations are amended as a result of the franchise changes in the Senedd and elections Bill. These regulations are due to be replaced very soon. Therefore, a secondary legislative power is sought that would be wide enough to amend the statute book to give full effect to the franchise change included in the Senedd Bill. It may also be that the Welsh Ministers rely on this power to make any changes necessary in consequence or incidental to the disqualification provisions in Part 4 of, and Schedule 2 to, the Bill.”²⁷⁷

157. Mae defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau y mae'r gwelliannau hyn yn darparu ar eu cyfer, ac amseriad unrhyw ddefnydd o'r fath, yn fater i Weinidogion Cymru. Bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth a gyflwynir yn ddarostyngedig i'r gofynion arferol ar gyfer paratoi asesiadau effaith a memoranda esboniadol, yn ogystal â gwaith craffu gan y Senedd a'i phwyllgorau. Felly, nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

158. Cyflwynwyd gwelliant gan y Cwnsler Cyffredinol a dderbyniwyd yn ystod Cyfnod 3 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru Iunio a chyhoeddi adroddiad o fewn 5 mlynedd i ddyddiad disgwylidig etholiad nesaf y Cynulliad (h.y. 5 Ebrill 2021) ar weithrediadau darpariaethau yn y Bil sy'n gwneud y canlynol:

- estyn yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad i bobl 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymhwysol;
- caniatáu i ddinasyddion tramor cymhwysol fod yn Aelodau'r Cynulliad,
- anghymhwysu aelodau o awdurdodau lleol rhag bod yn Aelodau'r Cynulliad.

159. Cyflwynwyd y gwelliant hwn gan y Cwnsler Cyffredinol mewn ymateb i welliannau a gyflwynwyd gan Aelodau eraill a oedd yn gofyn adroddiadau ar wahân ar weithrediad darpariaethau'r Bil mewn perthynas â'r uchod.

160. Ni nodwyd bod newidiadau'n deillio o'r gwelliannau hyn o'r asesiadau effaith amrywiol a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol.

²⁷⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan**, 9 Hydref 2019

26.3. Crynodeb diwygiedig o Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil o ganlyniad i welliannau a wnaed i'r Bil

161. Mae Pennod 7 yn darparu trosolwg o Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil ar adeg ei gyflwyno. Fel y nodwyd yn yr adrannau uchod, mae rhai gwelliannau i'r Bil wedi arwain at amrywiadau yn y costau neu'r manteision a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae crynodeb o Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil diwygiedig, gan ystyried yr amrywiadau hyn, wedi'i nodi isod fel newidiadau wedi'u marcio i'r asesiad gwreiddiol.

Tabl 43 Crynodeb diwygiedig o Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)		
Yr opsiwn a ffefrir:		
Cyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:		
<ul style="list-style-type: none"> newid enw'r sefydliad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (National Assembly for Wales) i Senedd Cymru neu Welsh Parliament, a gwneud newidiadau canlyniadol i enwau, teitlau a disgrifiadau perthnasol; estyn etholfraint y Cynulliad i ganiatáu i bobl 16 a 17 oed a <u>dinasyddion tramor cymhwysol</u> gofrestru a phleidleisio yn <u>etholiadau'r Cynulliad</u>; gwneud diwygiadau technegol i'r drefn o ran anghymhwysu a diwygiadau i'r swyddi sy'n anghymhwysu person rhag bod yn Aelod. gesed dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried y <u>diwygio'r</u> trefniadau ariannol a goruchwyllo ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a referenda datganoledig Cymru; rhoi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth o'r fath fel sy'n ofynnol i sicrhau y caiff etholiadau yng Nghymru eu gweinyddu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r argymhellion ar gyfer gweinyddu etholiadau y caiff Comisiynau'r Gyfraith eu gwneud maes o law; estyn y cyfnod ar ôl etholiad y mae'n rhaid i'r Cynulliad gynnal ei gyfarfod cyntaf, ac egluro'r darpariaethau yn <i>Neddf Llywodraeth Cymru 2006</i> gan alluogi Comisiwn y Cynulliad i godi tâl am wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â swyddogaethau'r Cynulliad. 		
Cyfnod: <u>Cyflwyno Fel y'i pasiwyd</u>	Cyfnod arfarnu: 2020-21 - 2024-25	Blwyddyn sail brisiau: 2018-19
Cyfanswm y gost uwch: Cyfanswm y gost: <u>£2,757,600</u>	Cyfanswm y buddiannau: Cyfanswm: £0	Gwerth presennol net: £2,701,500 <u>£3,100,700</u>

<u>£3,181,800</u> ²⁷⁸	Gwerth presennol: £0	
Gwerth presennol: £2,701,500		
<u>£3,100,700</u>		

26.4. Costau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill

26.4.1. Costau parhaus

162. Disgwylir i'r Bil arwain at gostau gweinyddol parhaus dros bum mlynedd i'r sefydliadau a ganlyn:

- Awdurdodau lleol: ~~£421,000~~ £622,500²⁷⁹;
- Llywodraeth Cymru: ~~£153,900~~ £227,500;
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru £41,300;
- Y Comisiwn Etholiadol: £19,600;
- Swyddfa Archwilio Cymru: £500.

163. ~~£635,800~~ £911,400 yw cyfanswm hyn.

164. Hefyd, mae nifer o gostau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithgareddau y mae'r Bil yn effeithio arnynt, ond nad ydynt yn arwain at newid costau. Yn benodol, roedd costau'n ymwneud â chynnal stoc o ddeunydd ysgrifennu ar gyfer Aelodau (£475,000), newid arwyddion, baneri a pharthau gwe'r Aelodau (£14,200) a phrosesu hawliadau'r Aelodau ar gyfer y rhain (£500),

²⁷⁸ Gweler yn nhroednodyn 279 eglurhad am ran o'r cynnydd yn y gost.

²⁷⁹ Yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd yn dilyn Cyfnod 2 y Bil, cafodd y cynnydd dros bum mlynedd yn y costau parhaus i awdurdodau lleol ei dan-gyfrifo. Mae hyn wedi cael ei gywiro yn y fersiwn derfynol hon. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy fersiwn o ran costau yn ymwneud â gwelliannau a basiwyd yng Nghyfnod 3. Yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ar ôl Cyfnod 2, nodwyd yn gywir (yn nhabl 40) y byddai cost flynyddol ychwanegol o £40,260 ar gyfer cofrestru dinasyddion tramor sydd newydd eu hetholfreinio. Dros bum mlynedd, byddai'r gost flynyddol hon yn rhoi cyfanswm o £201,500 (h.y. £40,300 x 5). Fodd bynnag, yn y crynodeb o gostau dros bum mlynedd, tan-gyfrifwyd y byddai hyn yn cynyddu'r costau o £421,000 i ddim mwy na £461,300. Mae'r ffigur wedi cael ei gywiro i £622,500 (sy'n cydnabod bod y gost ychwanegol o £40,260 yn berthnasol ym mhob blwyddyn mewn cyfnod o bum mlynedd, yn hytrach nag unwaith yn unig bob pum mlynedd). Mae cyfanswm cost a gwerth net presennol y Bil (yn nhabl 43) hefyd wedi cael eu haddasu i ystyried y cywriad hwn.

ailosod matiau a charpedi ar ystâd y Cynulliad (£13,600) a chynnal enwau parth a thystysgrifau diogelwch gwefan y Cynulliad (£1,500). Ystyrir mai'r un peth yw'r costau hyn, y mae Comisiwn y Cynulliad yn talu am bob un, ni waeth a yw deddfwriaeth yn mynd rhagddi ai peidio. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau hyn yw £504,800.

165. Felly, y gost barhaus "gros" o ddeddfu, ar y cyd â chostau a fyddai'n codi ni waeth a fyddai deddfwriaeth yn mynd rhagddi ai peidio, yw ~~£1,140,600~~ £1,255,000.

26.4.2. Costau trosiannol

166. Disgwylir i'r Bil hefyd arwain at gostau trosiannol i'r sefydliadau a ganlyn:

- Awdurdodau lleol: £1,582,500;
- Y Comisiwn Etholiadol: ~~£155,400~~ £191,700;
- Llywodraeth Cymru: ~~£63,200~~ £178,000;
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ~~£320,700~~ £318,200.

Trosiannol:	Parhaus:	Cyfanswm:	Gwerth presennol:
£2,121,800	£635,800	£2,757,600	£2,701,500
<u>£2,270,400</u>	<u>£911,400</u>	<u>£3,181,800</u>	<u>£3,100,700</u>

167. Ni ddisgwylir i'r Bil arwain at gostau cydymffurfio, ac ni nodwyd costau perthnasol eraill o ganlyniad i'r Bil.

26.5. Arbedion costau

168. Ni ddisgwylir i'r Bil arwain at arbedion meintioledig sylweddol. Mae arbediad o hyd at £600 i Gomisiwn y Cynulliad wedi'i nodi fel canlyniad posibl darpariaethau a fydd yn estyn y terfyn amser ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad.

169. Mae'n bosibl y gellid gwneud arbedion o ganlyniad i ddarpariaethau sy'n gwneud newidiadau technegol i'r drefn o ran anghymhwys person rhag bod yn Aelod. Fodd bynnag, nid yw'r arbedion posibl hynny yn hysbys gan fod llawer o ansicrwydd yn gysylltiedig â hwy.

170.

Trosiannol:	Parhaus:	Cyfanswm:	Gwerth presennol:
£0	£600	£600	£600

26.6. Cost weinyddol net

171. Felly, disgwylir i'r Bil arwain at gost weinyddol net o ~~£2,757,000~~ £3,181,200.

26.7. Manteision ac anfanteision na ellir eu meintioli'n ariannol

172. Disgwylir i'r Bil arwain at ystod o fanteision, na ellir meintioli llawer ohonynt yn ariannol. Er enghraifft, byddai newid enw'r Cynulliad yn arwain at fanteision o ran dealltwriaeth y cyhoedd o rôl, cyfrifoldebau a phwerau'r sefydliad, a'i le yn nhirwedd gyfansoddiadol y DU. Fodd bynnag, nid oes modd meintioli hyn yn ariannol.

173. Mae ystyriaeth lawn o'r manteision mewn perthynas â phob opsiwn a ffeirir wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

26.8. Buddion cost

174. Ni nodwyd buddion cost penodol o ganlyniad i'r Bil.

27. Nodiadau Esboniadol diwygiedig

DEDDF SENEDD AC ETHOLIADAU (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Tachwedd 2019 ac a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020. Fe'u paratowyd gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad ar ran Elin Jones AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Ddeddf, i gynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Felly, os yw'n ymddangos nad oes angen esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, ni wneir hynny.

RHAN 2

AILENWI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

3. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Senedd Cymru" neu "Welsh Parliament" ac i wneud newidiadau cysylltiedig eraill. Bydd Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Ddeddfau Senedd Cymru neu'n Acts of Senedd Cymru. Bydd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu galw'n Aelodau'r Senedd neu'n Members of the Senedd. Bydd cyrff a phersonau cysylltiedig, megis Comisiwn y Cynulliad, Clerc y Cynulliad, y Bwrdd Taliadau a'r Comisiynydd Safonau, hefyd yn cael eu hailenwi.
4. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall, yn benodol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 ("Mesur 2009"), a Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010"). Mae adran 150A(2) o Ddeddf 2006 yn sicrhau y bydd cyfeiriadau at y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad neu un o Ddeddfau'r Cynulliad mewn deddfwriaeth arall yn adlewyrchu'r enw newydd pan gaiff ei newid.

Adran 2 - Ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru neu'n Welsh Parliament

5. Mae adran 2 yn disodli'r cyfeiriad yn adran 1 o Ddeddf 2006 at "National Assembly for Wales" gyda "Senedd Cymru or the Welsh Parliament" (y cyfeirir ati yng ngweddill Deddf 2006 fel "y Senedd"). Mae paragraff 2(3)(a) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn gwneud diwygiad arall i adran 1 o Ddeddf 2006 o ganlyniad i hyn i'w gwneud yn glir y bydd senedd (yn hytrach na Chynulliad) i Gymru. Fel y nodwyd, bydd Deddf 2006 yn cyfeirio at y senedd fel "the Senedd".

Adran 3 – Ailenwi Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ddeddfau Senedd Cymru

6. Mae adran 107 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'r Cynulliad basio deddfwriaeth mewn perthynas â Chymru o'r enw "Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu "Acts of the National Assembly for Wales" y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Acts of the Assembly". Mae adran 3 yn diwygio adran 107(1) o Ddeddf 2006 fel bod deddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei phasio gan y Cynulliad yn dilyn yr adran hon yn dod i rym i'w galw'n "Acts of Senedd Cymru or Deddfau Senedd Cymru" y cyfeirir ati yn Neddf 2006 fel "Acts of the Senedd").

Adran 4 – Galw Aelodau yn Aelodau'r Senedd

